

BBC



BBC
Adroddiad Blynyddol a
Chyfrifon y Grŵp 2020/21

BBC

Adroddiad Blynyddol a

Chyfrifon y Grŵp 2020/21

(h) Hawlfraint y BBC 2021

Gellir atgynhychu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol neu asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y BBC a nodi teitl y ddogfen. Defnyddir ffotograffau (h) BBC neu cânt eu defnyddio o dan delerau cytundeb PACT, oni nodir fel arall. Mae'n rhaid cael caniatâd deiliaid yr hawlfraint cyn atgynhychu unrhyw ffotograffau.

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o bbc.co.uk/annualreport

Dyluniwyd gan Emperor emperor works

Cyfieithwyd gan Prysg prysg cymru

Paratowyd yn unol â Siarter Frenhinol y BBC 2016 (Erthygl 37)

Yn yr adroddiad hwn

Y BBC


- 2 Y BBC yn 2020/21
- 3 Y BBC yn ystod Covid-19
- 4 Hysbysu, Addysgu, Diddanu

Adroddiad strategol

- 10 Datganiad gan y Cadeirydd
- 12 Adolygiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol
- 16 Rhoi ein strategaeth ar waith yn 2020/21
 - Adnewyddu ein hymrwymiad i ddidueddrwydd
 - Canolbwyntio ar gynnwys unigryw, o bwys
 - Defnyddio mwy o gynnyrch ar-lein
 - Adeiladu ein hincwm masnachol
 - Moderneiddio'r BBC
 - Y BBC ar draws y DU - ein cynllun chwe blynedd
- 19 Cyflawni ein dibenion cyhoeddus
 - Newyddion a gwybodaeth ddiduedd
 - Dysgu i bobl o bob oedran
 - Allbwn creadigol, nodedig, o safon
 - Adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU
 - Cyflwyno'r DU i'r byd
- 40 Perfformiad cynulleidfaoedd a chyd-destun y farchnad
- 42 Ymgysylltu â chynulleidfaoedd
- 43 Adroddiad gweithredol
 - Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredu
 - Gwariant Darlledu Cyhoeddus
 - Ein pobl
 - Adroddiad ar y Bwlch rhwng y Rhywiâu yn y BBC
 - Ymgynghoriadau
 - Cynaliadwyedd amgylcheddol
 - Gwaith elusenol
 - Partneriaethau a mentrau cydweithredol
- 65 Gweithrediadau masnachol
 - BBC Studios
 - BBC Global News
 - BBC Studioworks

Llywodraethu

- 73 Bwrdd y BBC
 - 74 Adroddiad Cydymffurfiaeth Gorfforaethol
 - 74 Adroddiad Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf
 - 75 Pwyllgor Gweithredol
 - 76 Adroddiad cydnabyddiaeth
 - 86 Datgeliadau cyflogau
 - 93 Barn SAG ar ddatgeliadau cyflogau
 - 94 Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau
 - 95 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg
 - 100 Risgiau a Chyfleoedd
 - 115 Datganiad ynghylch Hyfywedd
 - 116 Adroddiad y Bwrdd Daliadau Masnachol
 - 117 Canllawiau Golygyddol ac adroddiad y Pwyllgor Safonau
 - 119 Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd
 - 121 Adroddiad Masnachu Teg
 - 123 Adroddiad Sicrwydd Annibynnol ar Fasnachu Teg
 - 124 Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd
 - 125 Perfformiad yn erbyn ymrwymadau cyhoeddus
 - 153 Pecynnau data perfformiad
 - 187 Barn SAG ar becynnau data'r Gwledydd
- Datganiadau ariannol (yn Saesneg)**
- 189 Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
 - 201 Datganiad incwm cyfunol
 - 202 Datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr
 - 203 Mantolen gyfunol
 - 204 Datganiad cyfunol o newidiadau mewn ecwiti
 - 205 Datganiad llif arian parod cyfunol
 - 206 Themâu allweddol ar gyfer y BBC
 - 207 Nodiadau i'r cyfrifon
- Gwybodaeth ychwanegol**
- 260 Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
 - 307 Mynegai
 - 308 Credydau delweddau
 - 309 Gwybodaeth gyswllt ac adborth



t10

Adroddiad strategol



t72

Llywodraethu

t188

Datganiadau ariannol

Y BBC...

...yn 2020/21

Y brand a ddefnyddiwyd fwyaf yn y DU ar gyfer y cyfryngau.

Cafodd ei ddefnyddio gan 90% o oedolion yn y DU ac 80% o oedolion ifanc ar gyfartaledd bob wythnos.

Cafodd ei ddefnyddio gan bum miliwn o oedolion ar gyfartaledd bob munud o'r dydd a'r nos, ar y teledu, ar y radio ac ar-lein, a gan gyfanswm o 45 miliwn o bobl o bob oedran dros 24 awr.

Cyflawnwyd £2.63 o effaith economaidd uniongyrchol am bob £1 a wariwyd, gyda 50% o'r effaith economaidd honno y tu allan i Lundain, o gymharu â chyfartaledd y sector o 20%.

Ar Draws y DU – trawsnewidiad mwyaf y BBC ers degawdau. Y flwyddyn hon, gwnaethom gyhoeddi cynlluniau uchelgeisiol a fydd, yn y bôn, yn newid y ffordd y mae'r BBC yn gweithredu a bydd yn cadarnhau ein hymrwymiad i adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu pob rhan o'r wlad yn well. Darllenwch fwy am ein cynlluniau ar dudalen 18.

100%

Cafodd ei ddefnyddio gan bron i 100% o oedolion ar gyfartaledd bob mis, sy'n golygu bod y BBC yn un o'r gwasanaethau cyhoeddus a ddefnyddir fwyaf yn y DU.

250^m

wrth wraidd bywyd yn y DU – mae'r cyhoedd yn dewis y BBC tua 250 miliwn o weithiau bob dydd.

18:02^{o:m}

Ar gyfartaledd, treuliodd oedolion yn y DU 18:02 o oriau:munudau gyda ni bob wythnos, cynnydd o gymharu â 17:45 yn 2019/20.

78%

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol wrth hysbysu, addysgu a diddanu pobl yn y DU/nhw (anefeithiol: 12%).





...yn ystod Covid-19

Fel y darlledwr cenedlaethol, rydym wedi chwarae rhan hanfodol yn ystod argyfwng Covid. Drwy'r adroddiad hwn rydym yn dangos sut y gwnaethom, ar adeg o angen cenedlaethol, ailffocysu ein holl adnoddau ar anghenion mwyaf dybryd ein cynulleidfaoedd a'r DU. O newyddion a gwybodaeth ddibynadwy i gymorth addysgol, o'r celfyddydau a diwylliant i raglenni sy'n tynnu ein sylw ac sy'n ddihangfa, tyrrodd y cyhoedd atom.

Gwnaeth ein timau creadigol a thechnegol waith anhygoel i ganfod ffyrdd o barhau i gyflwyno hoff raglenni cynulleidfaoedd iddynt yn ddiogel, gan greu rhaglenni a digwyddiadau newydd ar yr un pryd hefyd, fel *Healthcheck Live*, *The Big Night In* a llinell gymorth Radio Lleol ar y coronafeirws.

Bu ein timau lleol yn gweithio'n ddifflino i gefnogi eu cymunedau lleol – mae ymgyrch Make a Difference wedi bod yn llwyddiant ysgubol a gwnaethom

Iwyddo i dreialu allbwn radio lleol dros dro newydd ar gyfer yr ardaloedd y mae'r feirws wedi effeithio fwyaf arnynt.

Gwnaethom lawer i gefnogi diwydiant a'r celfyddydau - o Culture in Quarantine i *Glastonbury Live*; o fersiwn wedi'i haddasu o'r Proms i Lights Up, rydym wedi ceisio helpu artistiaid a lleoliadau celfyddydol i ddal ati lle bynnag y bo'n bosibl.

Talodd ein strategaeth i dyfu ein gwasanaethau digidol ar ei ganfed wrth i gynulleidfaoedd dyrru i iPlayer, Sounds a'n gwasanaethau News Online i wyllo penodau o gyfresi un ar ôl y llall, i wrando ar bodlediadau newydd ac i gael y wybodaeth ddiweddaraf ar Covid yn eu hardal.

Gwnaethom ailffocysu ein patrymau gwaith a'n hallbwn i roi gwybodaeth gywir a dibynadwy i gynulleidfaoedd, gan ddarparu gwasanaeth newyddion parhaus ar y teledu, ar y radio ac ar-lein.

Ac, wrth gwrs, ailwampiodd ein timau Plant ac Addysg gwych arlwy Bitesize i fyfyrwyr ac ysgolion ddwywaith, gan addasu ar fyrder i gynnig cymorth, cyfarpar ac adnoddau hanfodol i athrawon, rhieni a myfyrwyr ar draws y DU.

5.8^m

Denodd Lockdown Learning 5.8 miliwn o borwyr i BBC Bitesize yn ystod yr wythnos gyntaf pan wnaeth lansio ym mis Ionawr 2021, sef y nifer mwyaf erioed.

4.5^m

4.5 miliwn o achosion o ryngweithio â Radio Lleol y BBC fel rhan o ymgyrch Make a Difference, yn yr ymateb mwyaf a welwyd erioed gan y BBC i ymgyrch radio lleol.

45%


Ymddiriedodd cynulleidfaoedd ynom i'w tywys drwy'r pandemig, gyda 45% yn nodi mai'r BBC oedd eu prif ffynhonnell ar gyfer gwybodaeth/newyddion am Covid-19 (agosaf nesaf - 13%).

84%

Gwnaethom glirio'r amserlenni'n rheolaidd er mwyn darlledu cyhoeddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd - defnyddiodd 84% o oedolion yn y DU ein gwasanaethau ar ddiwrnodau pan oedd cynlluniau pwysig yn cael eu cyflwyno.



Hysbysu



Mae'r BBC yn darparu lefel heb ei hail o newyddion a materion cyfoes lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ni yw'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynnddi fwyaf yn y DU o hyd, ac mae gennym rôl bwysig yn helpu i drechu'r gamwybodaeth a'r dryswch sydd mor gyffredin erbyn hyn.

> T.16 Darllenwch fwy am ein hymrwymiad i ddiueddrwydd



80%

Canran yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol wrth hysbysu pobl yn y DU (aneffeithiol: 10%).

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+

Ymrwymiad i ddiueddrwydd

Rydym wedi pennu rheolau a chanllawiau newydd, ynghyd â hyfforddiant newydd, i sicrhau'r safonau didueddrwydd uchaf posibl ym mhob rhan o'r sefydliad, yn cynnwys rheolau newydd ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac mewn perthynas ag ymgysylltiadau allanol ar gyfer cyflwynwyr newyddion ac uwch-aelodau o staff.



Atal lledaeniad twyllwbyodaeth

Rydym wedi cyflawni rôl hanfodol wrth drechu lledaeniad camwbyodaeth niweidiol am frechlynnau drwy ein rôl yn y Fenter Newyddion yr Ymddiriedir Ynddo, sef cydweithrediad rhwng sefydliadau technolegol a chyfryngau mawr yn y diwydiant sy'n cydweithio i atal lledaeniad twyllwbyodaeth.

87%

Cafwyd cynnydd o fwy na 85% yn y ceisiadau am Newyddion ar iPlayer o un flwyddyn i'r llall yn 2020.



Hysbysu cynulleidfa oedd yn ystod cyfnod cymhleth

- Pan oedd argyfwng Covid-19 ar ei anterth adeg cyhoeddi'r cyfyngiadau symud - 23 Mawrth 2020 a 31 Hydref 2020 - trodd 84% o oedolion at y BBC mewn un diwrnod.
- Y brif ffynhonnell wybodaeth am Covid-19: nododd 45% o bobl mai'r BBC yw eu ffynhonnell bwysicaf o wybodaeth/newyddion am y pandemig – canran sylweddol uwch na'r agosaf nesaf (swyddogion, 13%).

Source Compass gan Ipsos MORI Yonder ar gyfer Ofcom

> Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 20

Cyrhaeddiad Newyddion cyfan y BBC

8/10

(2019/20: 8/10)

Nifer yr oedolion yn y DU (16+) sy'n defnyddio gwasanaethau BBC News bob wythnos

Ffynhonnell Kantar Media 16+

Addysgu



Mae addysg wedi bod yn rhan o DNA y BBC erioed. Y flwyddyn hon, mae ein cynnwys addysg a dysgu wedi helpu i gefnogi myfyrwyr, athrawon a rhieni yn ystod heriau addysgol eithriadol pandemig Covid.

> T.22 Darllenwch fwy am BBC Bitesize, sut rydym yn cefnogi addysg plant a sut rydym yn diddanu plant.



Bron i filiwn o geisiadau iPlayer

Cafwyd bron i filiwn o geisiadau iPlayer ar gyfer rhaglenni Bitesize Daily ar gyfer yr wythnos lawn gyntaf pan gaewyd yr ysgolion ym mis Ionawr 2021.



4.5 miliwn o ymatebion i helpu plant i gael mynediad i ddysgu ar-lein

Cododd ein hymgyrch Make a Difference: give a laptop fwy na £917,000 i roi technoleg ysgol gartref i blant, a dosbarthwyd mwy na 116,000 o ddyfeisiau.



1.54^m

Ers ei lansio ar 11 Ionawr 2021, mae mwy nag 1.5 miliwn o blant 5-16 oed wedi gwyllo cynnwys Lockdown Learning ar CBBC neu BBC Two.



Sicrhau bod plant yn parhau i ddysgu a chael eu diddanu yn ystod y cyfyngiadau symud

Tyrrodd plant, rhieni ac athrawon at y BBC ar gyfer yr arlwy addysgol mwyaf yn ein hanes a sicrhodd y gallai pob plentyn fanteisio ar ddysgu yn seiliedig ar y cwricwlwm, hyd yn oed os nad oedd ganddo fynediad i'r rhyngwrdd.



77%

canran y disgyblion ysgol uwchradd a ddefnyddiodd Bitesize yn 2020/21.

Lockdown Learning

5.8^m

Denodd Lockdown Learning 5.8 miliwn o borwyr i BBC Bitesize yn ystod yr wythnos gyntaf pan wnaeth lansio ym mis Ionawr 2021, sef y nifer mwyaf erioed.

Diddanu



Mae mwy na 28 miliwn o bobl yn troi at y BBC i gael adloniant gyda'r nos ar ddiwrnod cyffredin. Rydym wedi cynnig dihangfa yr oedd ei hangen yn fawr, gyda degau o filiynau o wylwyr a gwrandawyr yn troi at ein drama, ein comedi a'n hadloniant.

> T.24 Darllenwch fwy am sut rydym yn diddanu'r DU



Datblygu BBC Sounds

1.3 biliwn o geisiadau i chwarae eitemau ar BBC Sounds

Yn 2020/21, cafwyd ceisiadau i chwarae yn agos at 1.3 biliwn o eitemau o radio, cerddoriaeth a phodlediadau ar BBC Sounds.

Yn y chwe mis hyd at fis Mawrth 2021, defnyddiodd 900,000 yn fwy o bobl 16-34 oed BBC Sounds am y tro cyntaf.



652^m

o achosion o ffrydio mewn mis

Torodd iPlayer sawl record ym mis Ionawr 2021. 163 miliwn o achosion o ffrydio mewn wythnos (4-10 Ionawr), y nifer mwyaf erioed – wrth i wylwyr dyrru i wylio rhaglenni fel *The Serpent*, *A Perfect Planet*, *Traces* ac *EastEnders*.



Gwylodd 5.7m Uwch Gynghrair Lloegr, sef y nifer mwyaf erioed

Gwnaethom gyflwyno pêl-droed byw o Uwch Gynghrair Lloegr ar deledu'r BBC am y tro cyntaf ers 1988, gyda 5.7 miliwn yn gwyllo Southampton yn erbyn Manchester City ym mis Gorffennaf 2020 – gan osod record gwyllo newydd ar gyfer Uwch Gynghrair Lloegr yn y DU.



8.4^m

Denodd pennod gyntaf chweched gyfres *Line of Duty* y nifer mwyaf o bobl i wylio un bennod yn 2021 hyd yma, gyda mwy nag wyth miliwn o geisiadau i'w ffrydio.

Y flwyddyn orau erioed ar gyfer BBC iPlayer

6.1^{bn}

Yn 2020/21, llwyddodd iPlayer i ddenu ei niferoedd uchaf erioed, gyda 6.1 biliwn o geisiadau i ffrydio rhaglenni, cynnydd o 28% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Datganiad gan y Cadeirydd



Mae'n fraint bod wedi cael fy mhenodi'n Gadeirydd mewn cyfnod pwysig yn hanes y BBC. Mae'n sefydliad sy'n rhan ganolog o'n bywyd cenedlaethol o hyd. Mae'n destun cryn falchder a pharch ledled y byd. Mae'n allweddol i gryfder creadigol a dylanwad diwylliannol y DU yn fyd-eang.

Yn y farchnad cyfryngau byd-eang, hynod gystadleuol heddiw, mae'n rhaid i'r BBC ennill yr hawl i fodoli drwy'r gwerth y mae'n ei gynnig.

Dim ond am ychydig wythnosau y bwm yn gadeirydd yn y cyfnod a gwmpesir gan yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn, ond rwy'n falch o'r cyflawniadau a nodir ynddo. Yn benodol, mae'n nodi pam mor gyflym ac effeithiol yr aeth y BBC ati i ddiwallu anghenion y DU wrth i argyfwng Covid ddod i'r amlwg.

Mae'r hyn y mae timau o bob rhan o'r BBC wedi'i wneud i wasanaethu cynulleidfaoedd drwy'r cyfnod hwn o straen, dioddefaint a cholled wedi creu argraff fawr arnaf. Maent wedi gweithio mewn modd ymroddedig a phenderfynol, ac wedi dangos pwysigrwydd parhaus cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus graidd y BBC.

Fel y dangosir yn yr adroddiad hwn, mae'r cyhoedd wedi tyrru at y BBC i gael newyddion a gwybodaeth ddibynadwy. Mae miliynau o blant, rhieni ac athrawon wedi dibynnu ar ein harlwy addysgol, Lockdown Learning. Mae rhaglenni ar draws pob genre wedi denu'r nifer mwyaf o wylwyr erioed wrth i gynulleidfaoedd chwilio am adloniant, cwmniaeth a ffordd o ddianc.

Efallai mai cyfoeth y cynnwys a gynnigir gan y BBC sydd wedi creu'r argraff fwyaf arnaf ers dod yn Gadeirydd. Mae'n rhoi cyfle gwych i ni helpu mwy o bobl i ddarganfod y cyfoeth o raglennu sydd ar gael ar holl lwyfannau'r BBC, ac felly yn cynnig mwy o werth i'r rheini sy'n ymgysylltu â ni leiaf ar hyn o bryd.

Yn anad dim, ymrwymiad y BBC i gynnig cynnwys Prydeinig cartref a all greu'r gwerth hwnnw a'n gosod ni ar wahân ym maes y cyfryngau byd-eang. Mae hynny'n golygu sicrhau allbwn o'r ansawdd gorau – ar y sgrin, ar yr awyr ac ar-lein – sydd â ffocws unigryw ar greadigrwydd a thalent o bob rhan o'r DU.

Bydd llwyddiant yn galluogi'r BBC i barhau i fod wrth wraidd diwydiannau creadigol gorau'r DU yn y blynyddoedd i ddod. Bydd hefyd yn ein galluogi i gyfrannu gymaint â phosibl at gefnogi adferiad cymdeithasol ac economaidd ar draws y DU.

Ar ran Bwrdd y BBC, rwy'n croesawu'r strategaeth glir y mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi'i rhoi ar waith ers dechrau yn ei rôl, gyda ffocws ar greu BBC sy'n sicrhau gwerth llawn i'w holl gynulleidfaoedd ac sy'n eu hadlewyrchu'n deg. Mae ei benderfyniad i ysgogi'r gwerth hwnnw drwy wneud y gorau o incwm masnachol y BBC yn arbennig o bwysig ym marchnad fyd-eang a hynod gystadleuol heddiw.

Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiad newydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol i gynnal y safonau uchaf o ran didueddrwydd, a chynnal ein henw da am newyddiaduraeth ddibynadwy ym mhopeth a wnawn.



Uchod: Line of Duty ar BBC One
Dde: Gwyltodd 5.7 miliwn ein darllediad o gêm Southampton yn erbyn Manchester City ym mis Gorffennaf 2020

Ni ellid bod wedi dangos pwysigrwydd hyn yn fwy clir nag yn ymchwiliad yr Arglwydd Dyson i amgylchiadau'r cyfweiliad â Diana, Tywysoges Cymru ar *Panorama* yn 1995.

Mae'r Bwrdd wedi penderfynu myfyrio ar adolygiad yr Arglwydd Dyson a nodi'r gwersi i'w dysgu a all fod yn berthnasol heddiw. Gwyddom fod yn rhaid i'r BBC wneud popeth o fewn ei allu i atal methiannau fel hyn rhag digwydd eto.

Yn ogystal â bod yn rhagofyniad hanfodol i fodolaeth y BBC, mae didueddrwydd hefyd yn cynnig cyfle gwych i ni ddiffinio ein hunain yn fyd-eang fel darparwr ffeithiau digyffelyb mewn oes sy'n llawn rhagfarn, camwybodaeth a dylanwad drwg gwadwriaethau.

Mae BBC World Service eisoes yn un o drysorau'r DU, ac mae ein gwasanaethau byd-eang yn cyrraedd miliynau o bobl dramor. Yn fy marn i, cryfder y BBC yn y byd yw un o brif gryfderau'r DU yn y byd, ac mae'n amlwg y gallwn wneud mwy hyd yn oed i rannu llais, gwerthoedd a dylanwad democrataidd Prydain yn fyd-eang.

Hoffwn dalu teyrnged i waith fy rhagflaenydd, Syr David Clementi, a roddodd y gorau i'w rôl fel Cadeirydd y BBC ym mis Chwefror; ei greadigaeth ef yw'r Bwrdd hwn mewn sawl ffordd. Mae'r tudalennau hyn yn deyrnedd i'r hyn a gyflawnodd dros gyfnod o bedair blynedd yn gwasanaethu'r BBC â diwydrwydd, ymroddiad a brwdfrydedd am werthoedd gwasanaethau cyhoeddus.



“
Efallai mai cyfoeth y cynnwys a gynigir gan y BBC sydd wedi creu'r argraff fwyaf arnaf ers dod yn Gadeirydd.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn adrodd hanes BBC sydd wedi dangos ei werth mewn cyfnod hynod o anodd, ond mae hefyd yn dangos sefydliad sy'n gwybod bod yn rhaid iddo newid ac nad yw'n ofni gwneud dewisiadau anodd.

Wrth i ni gadarnhau ein cytundeb â'r Llywodraeth ar drefniadau ffi'r drwydded am weddill cyfnod y Siarter bresennol, byddwn yn parhau i lywio'r newid sydd ei angen ar ein cynulleidfaoedd ac sy'n angenrheidiol i sicrhau dyfodol un o sefydliadau cenedlaethol pwysicaf a mwyaf poblogaidd y DU.

Richard Sharp

Richard Sharp
Cadeirydd
18 Mehefin 2021

GWYBODAETH



entl

i bob cynulleidfa

Mae argyfwng Covid wedi dominyddu bob rhan o'n bywydau y flwyddyn hon. I bawb, roedd yn flwyddyn a oedd yn llawn pryder a gofid. Rwy'n falch o'r ffordd y gweithiodd y BBC yn ddiflino i gefnogi'r DU gyfan drwyddi draw, gan ddangos gwerth ein cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus. Atgyfnerthwyd fy nghred bod BBC sy'n gwasanaethu pawb yn hollbwysig, ynghyd â'r ffaith na ellir cymryd ei ddyfodol yn ganiataol.

Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC ar gyfer 2020-21 yn cwmpasu chwe mis cyntaf fy nghyfnod yn y rôl. Dechreuais fis Medi diwethaf drwy bennu strategaeth glir â nod syml: rhaid i'r BBC sicrhau llawer mwy o werth i bob cynulleidfa.

I gyflawni hyn, gwnaethom nodi pedair blaenoriaeth sydd – ynghyd â'n cynlluniau i foderneiddio'r BBC – yn cynrychioli

rhaglen ddiwygio sylweddol a phellgyrhaeddol. Rydym eisoes wedi nodi ein cynlluniau i drawsnewid y BBC yn sefydliad sydd wir yn gweithredu ar draws y DU, gan symud pŵer a phrosesau gwneud penderfyniadau, yn ogystal â phobl, ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae'r gwaith ar ein holl flaenoriaethau yn mynd rhagddo ac mae'r cynnydd wedi'i nodi ar y tudalennau canlynol.

Mae'r penawdau'n galonogol. Erys cyrhaeddiad a pherthnasedd y BBC yn gryf. Ar gyfartaledd, mae 90% o oedolion yn y DU yn ein defnyddio bob wythnos. At ein darllediadau newyddion ni y mae'r mwyafrif helaeth o'r DU yn troi gyntaf. Mae cynulleidafoedd *BBC News at Six* ar eu mwyaf ers bron i 20 mlynedd, a bwletin BBC One am 6.30pm yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr yw'r rhaglen newyddion fwyaf poblogaidd yn y DU o hyd.

Adolygiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol **parhad**

Mae ein timau newyddion wedi cynhyrchu gwaith eithriadol, boed yn ddarllediadau nodedig o ysbysai neu'n ddadansoddiadau sicr o gytundeb Brexit; sylw i etholiad cythryblus yr UD neu ddarllediadau cofiadwy o lefydd fel Myanmar, Yemen ac Irac. Bob dydd, maent yn profi gwerth newyddion diduedd a dibynadwy, yma ac yn fyd-eang. Ond gwyddom fod angen i ni wneud mwy i adnewyddu ein hymrwymiad i ddiueddrwydd, ac i lywio'r achos dros hynny yn llawn brwdfrydedd yn nhirwedd newyddion heddiw.

Mae hyn yn bwysicach fyth o ystyried y methiannau a nodwyd yn adroddiad diweddar yr Arglwydd Dyson. Ymddiheurwn yn ddiamod am y methiannau hynny ac rydym wrthi'n adolygu effeithiolrwydd ein polisiau golygyddol a'n trefniadau llywodraethu yn fanwl. Mae'r BBC yn sefydliad gwahanol heddiw, ond ni ddylem dybio na all camgymeriadau'r gorffennol gael eu hailadrodd heddiw – rhaid i ni sicrhau na fydd hyn yn digwydd.

Mae'r BBC wedi cyflwyno cynnwys eithriadol dros y 12 mis diwethaf. Denodd *Line of Duty* y nifer mwyaf o wylwyr erioed gan gadarnhau ei hun fel rhaglen hanfodol i'w gwlyo ar nos Sul. Dangosodd *I May Destroy You* a *Small Axe* ein hymrwymiad i gael lleisiau Prydeinig unigryw yn adrodd straeon pwysig. Roedd *A Perfect Planet* gan David Attenborough, y gyfres drawiadol *Once Upon a Time in Iraq*, cyfres glodwii Radio 3 *Beethoven Unleashed* a'n darllediadau i nodi 75 mlynedd ers diwrnod VE i gyd yn enghreifftiau o'r hyn y mae'r BBC yn ei wneud orau.

Yn y cyfamser, cynigiodd ein gorsafoedd radio cenedlaethol a lleol gwmmniaeth a chefnogaeth ddyddiol i gynulleidfaoedd. Ymatebodd ein timau i gyfyngiadau Covid â mentrau rhithwir gwych fel Radio 2 Live at Home, The Glastonbury Experience, The Great British Singalong a BBC Lockdown Orchestra, a pharhaodd tymor Proms y BBC a chyngerddau Radio 3 i greu profiadau cerddoriaeth glasurol fyw. Mae cyfyngiadau Covid ar gyfweiliadau wyneb yn wyneb yn golygu nad yw'r diwydiant wedi gallu dibynnu ar ddata gwranddo swyddogol y flwyddyn hon, ond mae'r ymateb gorau erioed i ymgyrch Make a Difference ar Radio Lleol y BBC yn arwydd o'r effaith rydym wedi bod yn ei chael ar gynulleidfaoedd.

Mae ein strategaeth ar-lein yn gweithio. Ar ddechrau 2021, cafodd

Normal People, enillydd BAFTA, cyfres a ddarlledwyd ar BBC Three

£2.63

wedi'i gynhyrchu yn yr economi am bob £1 o weithgaredd economaidd uniongyrchol y BBC.

Cynnydd o 22%

Cafodd iPlayer ei chwarter gorau erioed – cynnydd o 22% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.



iPlayer ei chwarter gorau erioed – cynnydd o 22% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn 2020/21, cafwyd yn agos at 1.3 biliwn o achosion o chwarae'r radio, cerddoriaeth a phodlediadau ar BBC Sounds, gyda 900,000 yn fwy o bobl ifanc yn ei ddefnyddio am y tro cyntaf yn ystod y chwe mis hyd at fis Mawrth 2021. Mae BBC News Online wedi cyrraedd y nifer mwyaf erioed o ddefnyddwyr dros y 12 mis diwethaf.

Mae'n rhan greiddiol o'n strategaeth i wneud mwy dros gynulleidfaoedd iau ar ein holl lwyfannau. Mae BBC Three wedi creu cynnwys cofiadwy dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan gyflwyno rhai o'n rhaglenni mwyaf poblogaidd, o *Killing Eve* i *Drag Race* i *Fleabag* a *Normal People*. Gwnaethom gyhoeddi y flwyddyn hon ein bod am ddangos y cynnwys hwnnw i gynulleidfaoedd ehangach drwy ailgyflwyno BBC Three fel sianel ddarlledu, fel rhan o'n hymdrechion ym mhob rhan o'r BBC i sicrhau bod ein rhaglenni'n cyrraedd cynifer o bobl ifanc â phosibl.

Rwyf wedi ei gwneud yn amlwg nad curo cystadleuwyr mawr byd-eang yw nod BBC llwyddiannus. Yn rhy aml yn y gorffennol, rydym wedi ceisio ymdopi â chystadleuaeth gynyddol drwy wneud mwy a rhannu ein hadnoddau yn rhy denau. Yn hytrach, ein rôl yw cynnig gwerth eithriadol i gynulleidfaoedd drwy gynhyrchu cynnwys mwy gwahanol a 'hanfodol' y byddant yn teimlo ei fod ar eu cyfer nhw.

Un o'r enghreifftiau gorau o werth unigryw'r BBC y flwyddyn hon oedd ein harlwy addysg. Wrth i Covid daro, gweithiodd ein timau yn galed

i gynhyrchu'r arlwy addysgol mwyaf yn ein hanes – a hynny dros nos bron. Pan gaewyd yr ysgolion eto ym mis Ionawr, gwnaethom sicrhau y gallai gyrraedd mwy o'r disgyblion a'r rhieni yr oedd ei angen arnynt fwyaf drwy gyflwyno Lockdown Learning ar ein sianelau teledu. Roedd yn arwydd hynod o'r hyn y gall BBC sy'n gwasanaethu pawb ei wneud wrth wraidd ein bywyd cenedlaethol. Profodd hefyd pa mor gyflym y gall y BBC symud pan fydd ganddo brosesau a diben clir.

Un o brif rannau ein strategaeth i wella gwerth i gynulleidfaoedd yw drwy gynyddu ein hincwm masnachol. Rydym eisoes yn gwneud cynnydd da. Er gwaethaf yr aflonyddwch eithriadol yn sgil argyfwng Covid, roedd 2020/21 yn flwyddyn well na'r disgwyl i BBC Studios. Mae'r busnes ar y trywydd cywir i gyrraedd ei darged elw pum mlynedd o £1.2 biliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf, ac yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi targed newydd, uwch o £1.5 biliwn ar gyfer y pum mlynedd o 2022/23.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi y bydd gwaith cynhyrchu BBC Children yn trosglwyddo i BBC Studios y flwyddyn nesaf, ynghyd â thîm cynhyrchu mewnol BBC Three a BBC Global News. Mae'n dwyn ein holl weithgareddau masnachol rhyngwladol o dan un arweinyddiaeth.

Y newid mwyaf a gyhoeddwyd gennym y flwyddyn hon oedd ein cynllun i symud canolfan greadigol a newyddiadurol y BBC o Lundain i'r gwledydd a'r rhanbarthau. Bydd ein cynllun Ar Draws y DU yn sicrhau ein bod yn llawer agosach



“

Yn ogystal â chynrychioli pob rhan o'r DU, mae sicrhau gwerth i bawb yn ymwneud hefyd ag adlewyrchu ei amrywiaeth lawn.



at ein cynulleidfaoedd a bydd yn ein helpu i'w hadlewyrchu'n well. Ond bydd hefyd yn galluogi'r BBC i wneud cymaint ag y bo modd i gefnogi'r adferiad cymdeithasol ac economaidd ym mhob rhan o'r DU.

Mae llwyddiant diwydiannau creadigol y DU bob amser yn dibynnu ar gymysgedd goleuedig o'r farchnad rydd ac ymyriadau cyffredinol deallus fel y BBC. Mae ymchwil newydd gan KPMG yn dangos bod pob £1 o weithgarwch economaidd uniongyrchol y BBC yn creu cyfanswm o £2.63 yn yr economi. Bydd ein cynllun Ar Draws y DU yn ein galluogi i gael effaith fwy fyth yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Bydd yn golygu y byddwn yn gwario o leiaf £700 miliwn ychwanegol y tu allan i Lundain erbyn 2027/28, gan greu buddiant economaidd ychwanegol o fwy nag £850 miliwn yn yr economi.

Yn ogystal â chynrychioli pob rhan o'r DU, mae sicrhau gwerth i bawb yn ymwneud hefyd ag adlewyrchu ei amrywiaeth lawn. Mae'r genhadaeth hon yn hanfodol i'r BBC a dyna pam rwy'n ymroddedig i greu sefydliad 50:20:12: 50% o fenywod a 50% o ddynion; o leiaf 20% o gymunedau du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol; o leiaf 12% o bobl anabl. Mae ein hymgyrch 50:50 arloesol eisoes yn cymryd camau breision i ysgogi cynrychiolaeth amrywiol ym mhob rhan o'r BBC. Yn y cyfamser, bydd ein cynllun Amrywiaeth a Chynhwysiant 2021-23 yn sicrhau ein bod yn creu sefydliad modern sy'n gosod y safon aur i'r diwydiant.

Mae BBC modern hefyd yn un effeithlon iawn. Dangosodd yr adroddiad Value for Audiences a

gyhoeddwyd gennym ar ddechrau'r flwyddyn pa mor bell y mae'r BBC wedi dod wrth gyflawni arbedion ac arbedion maint sylweddol. Roedd hefyd yn nodi pa mor benderfynol rydym o fynd ymhellach i greu sefydliad gwasanaeth cyhoeddus llai, mwy effeithlon. Rydym eisoes wedi sicrhau gostyngiad net o fwy na 1,200 o rolau y flwyddyn hon, ac rydym yn bwriadu defnyddio ffyrdd newydd o weithio a thechnoleg i ostwng nifer y cyflogeion sydd gyfwerth ag amser llawn (CALI) ymhellach.

Dechreuwyd ar y gwaith hwn dan arweiniad fy rhagflaenydd fel Cyfarwyddwr Cyffredinol, Tony Hall, gyda chefnogaeth y cyn Gadeirydd, David Clementi. Gadawodd y ddau y BBC yn ystod y flwyddyn hon a hoffwn ddiolch iddynt am yr arweinyddiaeth a'r ymrwymiad i ddarparu cyhoeddus a ddangoswyd ganddynt yn eu rolau.

Rwy'n falch iawn o'r cynnydd a nodir ar y tudalennau hyn, ac rwy'n ymwybodol iawn na fyddai dim o hyn wedi bod yn bosibl heb frwdfrydedd ac ymrwymiad y bobl sy'n gweithio yma. Mae'r flwyddyn hon wedi dangos beth y gellir ei gyflawni pan fydd pobl dalentog yn wynebu her nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen. Ar draws y DU a'r byd, mae staff y BBC a'r rheini sy'n gweithio gyda ni wedi cymryd cam mawr ymlaen. Rwy'n teimlo'n wirioneddol freintiedig i arwain sefydliad gyda phobl mor frwdrydig ac ymroddedig.

Mae pob un ohonom yn gwybod bod ffi'r drwydded yn fraint. Rydym yn ymwybodol iawn bod angen i gynulleidfaoedd gael gwerth unigryw yn gyfnewid am hyn.

Proses bellgyrhaeddol o ddiwygio'r BBC

Strategaeth glir i sicrhau bod pob cynulleidfa'n cael llawer mwy o werth:

Adnewyddu ein hymrwymiad i ddiueddrwydd

Canolbwyntio ar gynnwys unigryw, o bwys

Defnyddio mwy o gynnyrch ar-lein

Cynyddu incwm masnachol

A chreu BBC modern, effeithlon iawn, sydd wir yn adlewyrchu Prydain.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos ein bod wedi gwneud cychwyn cryf, ond bod yn rhaid i ni barhau i herio ein hunain i fynd ymhellach. Gall y BBC wneud mwy i ddarparu ar gyfer cynulleidfaedd y DU ac ar gyfer y DU ei hun, gartref a thramor. Mae'n rhaid i ni barhau i ddiwygio ar fyrder er mwyn bod yn berthnasol ac yn anhepgor yn yr oes ddigidol.

Tim Davie CBE
Cyfarwyddwr Cyffredinol
18 Mehefin 2021

Dathliadau i nodi 75 mlynedd ers Diwrnod VE

Rhoi ein strategaeth ar waith yn 2020/21

1 Adnewyddu ein hymrwymiad i ddiueddrwydd

Nid dim ond elfen 'ddymunol' yw'r gallu i ymddiried yn natur ddiuedd y BBC. Dyma ein hanfod. Dyma gonglfaen ein cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus.

Yn yr oes sydd ohoni, y BBC yw'r darparwr newyddion yr ymddiriedir ynddo fwyaf o bell ffordd yn y DU. Mae'r ymddiriedaeth hon yn amlwg ledled y byd. Mewn oes o dwyllwytodaeth, siambrau barn adleisiol ac allfeydd pleidiol swnllyd yn y cyfryngau, does bosibl bod BBC i bawb yn bwysicach nag erioed?

Fodd bynnag, dengys ein gwaith ymchwil fod gormod o bobl o'r farn bod y BBC wedi'i lywio gan safbwynt penodol. Nid mater syml o wleidyddiaeth yr adain chwaith a'r dde mohono. Rydym yn cydnabod bod llawer o bobl o'r farn nad yw'r BBC yn deall y byd o'u safbwynt nhw.

Y flwyddyn hon, rydym wedi adeiladu ar ein hymrwymiad i ddiueddrwydd drwy wneud y canlynol:

darparu darllediadau o Etholiadau Arlywyddol yr UD yr ymddiriedwyd ynddynt fwy gan Americanwyr na'u holl brif frandiau newyddion domestig.

cyflwyno canllawiau didueddrwydd newydd i staff, yn ogystal â rheolau newydd mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol.

cyflwyno hyfforddiant didueddrwydd ym mhob rhan o'r sefydliad.

cyflwyno rheolau newydd ar ddatgan ymgysylltiadau allanol i gydweithwyr sy'n gweithio ym maes newyddiaduraeth, cyflwynwyr a staff ar yr awyr, ac uwch-arweinwyr.

sicrhau £8 miliwn ychwanegol gan y Llywodraeth ar gyfer 2021/22 er mwyn helpu'r World Service i fynd i'r afael â thwyllwytodaeth ac i wella cyrhaeddiad digidol y BBC ymhellach.

Stiwddio newyddion teledu



2 Canolbwyntio ar gynnwys unigryw, o bwys

Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau'r gwerth gorau i dalwyr ffi'r drwydded. Mae hyn yn golygu canolbwyntio ein hadnoddau ar gynhyrchu gwaith unigryw, o bwys y mae pob cynulleidfa yn ei garu – gan gynnwys y rheini sy'n teimlo'n bell oddi wrthym.

Yn yr amgylchedd cyfryngau byd-eang sydd ohoni, mae'r BBC yn cystadlu yn erbyn cyfranogwyr mawr â chyllidebau enfawr. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i ni weithio'n galetach nag erioed i sicrhau'r effaith fwyaf am y swm

lleiaf o arian. Mae angen i ni roi'r gorau i ddyblygu a nodi ble y gallwn dargedu ein cyllid er mwyn cynnig y gwerth gorau i gynulleidfaeodd.

Felly y flwyddyn hon, rydym wedi bod yn canolbwyntio'n agosach ar gynnwys o bwys drwy wneud y canlynol:

gofyn i ni'n hunain: beth y byddem yn ei wneud pe gallem ond gyflawni 80% o'n horiau cyfredol, a beth y byddem yn rhoi'r gorau iddo?

ein herio ni'n hunain i ailddyrrannu arian i'r meysydd lle y bydd yn cynhyrchu'r gwerth gorau – er mwyn sicrhau bod ein hallbwn o'r radd flaenaf ac yn gwbl nodedig.

penderfynu ailgyflwyno BBC Three fel sianel ddarlledu – gan gefnogi llwyddiant, ymrwymiad i dalent newydd a syniadau beiddgar.

parhau i gynhyrchu llwyddiannau nodedig arbennig – mae'r tudalennau hyn yn llawn enghreifftiau, o *Normal People* i *The Young Offenders*, *Small Axe* i *Strictly*, *I May Destroy You* i *A Perfect Planet*, *The Repair Shop* i *Once Upon a Time in Iraq*.

ymrwymo i wario £112 miliwn o'n cyllideb gomisiynu ar gynnwys amrywiol, gyda tharged i sicrhau 20% o dalent amrywiol y tu ôl i'r camera, o fis Ebrill 2021 dros dair blynedd.

The Repair Shop ar BBC One



3 Cael mwy o werth o gynnyrch ar-lein

Dylai defnyddio cyfleusterau'r BBC ar-lein fod yn brofiad o'r radd flaenaf. Mae gennym gynhyrchion ardderchog yn barod. Rydym wedi datblygu BBC Ar-lein yn helaeth, gan gynnig Newyddion, Chwaraeon, iPlayer a Sounds, a gallwn ymfalchïo yn ein cofnod hir o arloesi.

Ond mae angen i ni barhau i symud yn gyflym, neu mae perygl y byddwn yn syrthio ar ei hôl hi. Yn rhy aml, nid yw'r hyn a wnawn ar-lein yn ddim ond cyfres o gydrannau unigol. Mae angen sicrhau bod ein darpariaeth ar-lein yn gysylltiedig â phopeth a wnawn. Mae angen iddi deimlo fel rhan annatod o'n gwasanaeth.

Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau gwerth uwch o'n darpariaeth ar-lein y flwyddyn hon drwy wneud y canlynol:

cyflymu ein gwaith i wella cyfleusterau chwilio, argymhellion a mynediad i gynulleidfaeodd.

bodloni ceisiadau i ffrydio'r nifer uchaf erioed o raglenni ar iPlayer, sef 6.1 biliwn, cynnydd o 28% o gymharu â 2019/20.

bodloni ceisiadau i chwarae yn agos at 1.3 biliwn o eitemau o radio, cerddoriaeth a phodlediadau ar BBC Sounds yn 2020/21.

cyrraedd y niferoedd uchaf erioed o ddefnyddwyr ar BBC News Online, gyda thros 19 miliwn o oedolion yr wythnos ar gyfartaledd ac uchafbwyntiau o dros 24 miliwn.

19m

Cyfartaledd o dros 19 miliwn o bobl yn defnyddio BBC News Online bob wythnos

O'r brig i'r bôn: BBC iPlayer, Top Gear ar BBC One, a gynhyrchir gan BBC Studios

4 Cynyddu ein hincwm masnachol

Mae adeiladu ein hincwm masnachol yn rhan hollbwysig o'r strategaeth a bennwyd gennym ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mewn marchnad cyfryngau gynyddol fyd-eang, mae angen i'r BBC sicrhau buddsoddiad a'r partneriaid i greu'r rhaglenni gorau posibl. Mae angen i ni hefyd adeiladu ein helw masnachol er mwyn sicrhau ein bod yn cael y gwerth ariannol gorau posibl i dalwyr ffi'r drwydded.

Mae perfformiad BBC Studios wedi bod yn esiampl ardderchog, gan brofi y gallwn greu sefydliad sy'n denu'r dalent orau ac sy'n creu cynnwys sy'n ddi-au yn perthyn i'r BBC, gan gynhyrchu elw cystadleuol ar yr un pryd.

Y flwyddyn hon, rydym wedi profi ein gallu i dyfu incwm masnachol a byd-eang drwy wneud y canlynol:

sicrhau bod BBC Studios yn parhau ar y trywydd cywir i gyflawni ei ymrwymiad pum mlynedd i greu elw o £1.2 biliwn erbyn 2021/22 – cynnydd o 18% o gymharu â'r pum mlynedd flaenorol.

ymrwymo i gynyddu'r cyfanswm hwn 30% ychwanegol i darged newydd o £1.5 biliwn yn ystod y pum mlynedd o 2022/23, mewn marchnad fyd-eang ffyrnig.

cyhoeddi defnydd ehangach o'n model masnachol, gydag adran gynhyrchu BBC Children yn trosglwyddo i BBC Studios y flwyddyn nesaf, ynghyd â thîm cynhyrchu mewnol BBC Three a BBC Global News.

creu partneriaethau pwysig ag FX, Discovery, ITV, Tencent a'u tebyg wrth i ni dyfu fel darparwr gwasanaethau a chynnwys premiwm byd-eang.

30%

Mae BBC Studios bellach wedi ymrwymo i dyfu 30% i darged newydd o £1.5 biliwn yn ystod y pum mlynedd o 2022/23.





5 Creu BBC modern, hynod effeithlon

Ni all y BBC lwyddo oni fyddwn yn cyflawni'r diwygiadau sydd eu hangen i greu sefydliad modern, hynod effeithlon. Mae hynny'n golygu sefydliad llai o faint, llai biwrocraidaidd, mwy ystwyth a mwy cynrychioliadol o'r gwledydd a wasanaethir gennym. Ac mae'n golygu BBC lle mae pawb sy'n gweithio yma yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u gwerthfawrogi ac yn deall yr ymddygiad rydym yn ei ddisgwyl ganddynt.

Y flwyddyn hon, gwnaethom barhau i greu BBC modern drwy wneud y canlynol:

lleihau Pwyllgor Gweithredol y BBC o 18 i 10, symleiddio prosesau gwneud penderfyniadau a dileu pwyllgorau a chyfarfodydd diangen.

cyflawni gostyngiad net o dros 1,200 o swyddi gwasanaeth cyhoeddus a rhagweld y bydd cyfanswm ein harbedion cylchol yn cynyddu uwchlaw £950 miliwn yn 2021/22 – gan ragori ar ein targed gwreiddiol o £800 miliwn.

cynnal ein cyfradd gorbenion ar 5%, gan roi'r BBC unwaith eto o fewn chwarter uchaf y sefydliadau cymharol.

gweithredu ein huchelgais i greu sefydliad 50:20:12 sy'n adlewyrchu'r gymdeithas a wasanaethir gennym yn fwy cywir, gydag amserlenni diffiniedig a thargedau clir ar gyfer cyflawni hyn ym mhob is-adran.

cyhoeddi cynlluniau i'r BBC fod yn sero net o ran allyriadau nwyon tŷ gwyrdr erbyn 2030 a dechrau datblygu'r targedau gwyddonol a fydd yn sail i'n llwybr tuag at yr ymrwymiad hwnnw.

datblygu dull gweithredu newydd mewn perthynas â'n gwerthoedd a'n hymddygiad, i'w gyflwyno fel rhan o waith ehangach ar ddiwylliant ein gweithle yn 2021/22.

Galeri newyddion, The Mailbox yn Birmingham

6 Y BBC Ar Draws y DU

Y flwyddyn hon, gwnaethom nodi cynlluniau i drawsnewid y BBC drwy newid ei ôl troed mewn ffordd ddramatig a phenderfynol. Ein cynllun Ar Draws y DU yw'r newid mwyaf a fu yn y BBC erioed. Mae'n anelu at symud ein canolfan greadigol a newyddiadurolo o Lundain, gan symud nid yn unig y bobl, ond y pŵer a'r grym gwneud penderfyniadau, i wledydd a rhanbarthau'r DU. Wrth wneud hynny, bydd yn helpu'r sector creadigol ar draws y DU i adfer yn dilyn effeithiau trychinebus y pandemig.

Mae ein cynlluniau Ar Draws y DU yn hollbwysig am y rhesymau canlynol:

heddiw, mae pob £1 o weithgaredd economaidd uniongyrchol y BBC yn cynhyrchu cyfanswm o £2.63 yn yr economi, ac mae 50% o effaith economaidd y BBC y tu allan i Lundain, o gymharu â chyfartaledd sector o 20%.

mae'r BBC yn gwneud mwy nag unrhyw ddarlledwr arall i adlewyrchu'r gwahanol wledydd a rhanbarthau sy'n rhan o'r DU.

ar hyn o bryd, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU yn cynhyrchu tua 32,000 o oriau o gynnwys Prydeinig newydd mewn blwyddyn, o gymharu â thua 200 o oriau o gynnwys wedi'i gynhyrchu yn y DU sydd ar gael ar wasanaethau fel Netflix ac Amazon.

bydd ein gwasanaethau yn cael effaith luosogol ar economiau lleol – gan ddenu buddsoddiad, addysg, swyddi, sgiliau, prentisiaethau, gohebu lleol, datblygiadau technolegol ac ysbrydoliaeth greadigol i bob rhan o'r DU.

fel rhan o'n cynigion, byddwn yn gwario o leiaf £700 miliwn ychwanegol y tu allan i Lundain erbyn 2027/28, gan greu budd economaidd ychwanegol o fwy na £850 miliwn yn yr economi.

£700m

y swm ychwanegol a gaiff ei wario y tu allan i Lundain erbyn 2027/28

Drama Bloodlands ar BBC One a oedd wedi'i lleoli ac a gafodd ei ffilmio yng Ngogledd Iwerddon



£950m

rhagwelir y bydd y cyfanswm arbedion cylchol yn 2021/22 yn cynyddu uwchlaw £950 miliwn

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol

Mae dibenion cyhoeddus y BBC wedi'u cynnwys yn y Siarter Frenhinol a'r Cytundeb ac maent wrth wraidd popeth a wnawn.

Cenhadaeth y BBC, fel y'i nodir yn ein Siarter Frenhinol, yw "gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau sy'n ddiuedd, o ansawdd uchel ac yn nodedig sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu." Mae pum diben cyhoeddus y BBC hefyd wedi'u cynnwys yn ein Siarter Frenhinol. Mae'r rhain yn amlinellu ein gwerthoedd wrth geisio cyflawni ein cenhadaeth ac maent yn rhoi fframwaith clir ar gyfer ein dwyn i gyfrif. Maent wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae argyfwng Covid wedi pwysleisio pwysigrwydd cenhadaeth, dibenion ac allbwn y BBC ym mywyd cenedlaethol y DU. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r cyhoedd wedi tyrru atom am bopeth, o newyddion a gwybodaeth ddibynadwy i gymorth addysgol hanfodol; o'r celfyddydau a diwylliant i ddihangdod ac er mwyn tynnu eu sylw. Mae ein cenhadaeth a'n dibenion cyhoeddus wedi llywio ein hymateb ar bob cam.

81%

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol wrth diddanu pobl yn y DU (anefeithiol: 8%)

80%


% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol wrth hysbysu pobl yn y DU (anefeithiol: 10%)

77%

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol wrth addysgu pobl yn y DU (anefeithiol: 10%)

Ffynhonnell: Ipsos MORI. 18+

Ystyrir bod y BBC yn bwysig i'r cyhoedd yn y DU ar lefel bersonol, gymdeithasol a sefydliadol.



Ffynhonnell Ipsos MORI, 1,064 o oedolion 18+ yn y DU, Ionawr 2021

Diben 1

Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

> Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 20

Diben 2

Cynorthwyo pobl o bob oedran i ddysgu

> Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 22

Diben 3

Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

> Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 24

Diben 4

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol

> Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 30

Diben 5

Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

> Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 38

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol

Dibenion cyhoeddus

Diben 1:

Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch



Mae'r tudalennau hyn yn dangos y ffyrdd y cyflawnodd y BBC ei rwymedigaeth i ddarparu newyddion a gwybodaeth sy'n ddiuedd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Heddiw, mae'r BBC yn darparu lefel heb ei hail o newyddion a materion cyfoes lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ni yw'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf yn y wlad hon o hyd, ac mae gennym swyddogaeth bwysig yn helpu i drechu'r gamwybodaeth a'r dryswch sydd mor gyffredin erbyn hyn.

Mae BBC News yn dal i fod ymhell ar y blaen i unrhyw ddarparwr newyddion arall pan ofynnir i ddefnyddwyr y newyddion enwi un ffynhonnell y maent fwyaf tebygol o droi ati i gael newyddion sy'n ddiuedd a chywir y gellir ymddiried ynddo. Er bod y ffigurau i lawr ar y flwyddyn gan fod yr arolwg blaenorol wedi'i gynnal ar ddechrau'r cyfyngiadau symud cyntaf pan drodd y DU at y BBC ar adeg o argyfwng cenedlaethol, mae'r BBC yn parhau i gael ei ystyried fel y darparwr newyddion mwyaf diduedd ac yr ymddiriedir ynddo fwyaf ar draws amrywiaeth o fesurau. Mae cryfhau'r didueddrwydd yn flaenoriaeth allweddol.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd yr hyn a wnawn i sicrhau bod pawb yn cael newyddion a gwybodaeth y gallant ymddiried ynddynt dro ar ôl tro y flwyddyn hon. Mae cynulleidfa gyfartalog *BBC News at Six* wedi cyrraedd y nifer mwyaf ers bron i ugain mlynedd. Ein rhaglenni newyddion am 6.30pm yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr yw'r rhaglen newyddion fwyaf poblogaidd yn y DU o hyd. Mae BBC News Online wedi cyrraedd y nifer mwyaf erioed o ddefnyddwyr a dyma'r safle newyddion penodol mwyaf ei ddefnydd yn y DU. Mewn cyfnod anodd ac ansicr, mae ein cenhadaeth i hysbysu yn bwysicach nag erioed.

Covid-19

Cafodd y flwyddyn eithriadol hon ei rheoli gan bandemig Covid-19. Darparodd y BBC newyddion y gallai cynulleidfaoedd ymddiried ynddo drwy'r flwyddyn – o ddadansoddiadau arbenigol gohebwyr ieched i adroddiadau y tu ôl i'r llenni ar y rheng flaen yn yr ysbysai; o fideos egluro Covid yng ngwahanol ieithoedd De Asia i

ddyddiaduron radio agos atoch i ddata wedi'u personoli ar 'Covid in your area'.

Tyrrodd pobl yn eu miliynau, gyda cheisiadau am newyddion ar iPlayer i fyny mwy nag 85% o un flwyddyn i'r llall yn 2020. Denodd darllediadau o sesiynau briffio Prif Weinidog y DU uchafbwyntiau o fwy nag 18 miliwn o bobl ar BBC One. Cyrhaeddodd gwefan BBC News ei ffigurau uchaf erioed, gyda'i thudalen a ddarllenwyd fwyaf erioed ('How many cases in your area?') a'r nifer uchaf erioed o borwyr wythnosol yn y DU. Gwnaeth ymweliadau wythnosol â darllediadau ar-lein byw fwy na dyblu o un flwyddyn i'r llall.

Daeth sianelau rhyngwladol y BBC â newyddion yr ymddiriedir ynddo i gynulleidfaoedd o gwmpas y byd mewn mwy na 40 o ieithoedd. Mae gwasanaethau fel BBC Monitoring a Reality Check wedi bod yn helpu cynulleidfaoedd o gwmpas y byd i ddeall yn well dwyllwybodaeth niweidiol am Covid yn ogystal ag ymchwiliadau fel podlediad *The Anti-Vax Files* o BBC Trending.

Newyddion Teledu Rhanbarthol

Ymatebodd yr ystafelloedd newyddion rhanbarthol i bandemig Covid i sicrhau bod y cynulleidfaoedd yn parhau i gael newyddion am eu hardaloedd lleol. Trodd pobl yn eu miliynau at eu rhaglenni newyddion teledu rhanbarthol drwy gydol y cyfyngiadau symud cenedlaethol ac yna'r system haenau am wybodaeth gywir a lleol. Gwelodd bwletinâu newyddion 6.30pm gwledydd a rhanbarthau'r BBC gynydd mawr yn y cyfraddau gwyllo o fis Mawrth ymlaen, gyda chyrraedd wythnosol cyfartalog ar draws y DU i fyny 15% o un flwyddyn i'r llall i 14.8 miliwn. Cafodd cynulleidfaoedd hefyd newyddion am y gwledydd a'r rhanbarthau ar-lein, gyda nifer y porwyr unigryw wythnosol cyfartalog i gynnwys newyddion ar-lein lleol a chenedlaethol y BBC i fyny 19% o un flwyddyn i'r llall i 19.5 miliwn.

Allbwn radio lleol dros dro newydd

Creodd Radio Lleol y BBC dri allbwn radio lleol dros dro i gynulleidfaoedd yn Bradford, Wolverhampton a Sunderland mewn ymateb i bandemig Covid ac i helpu

Yn ystod y pandemig, roedd y cynulleidfaoedd ar gyfer *News at Six* ar eu mwyaf ers bron i ugain mlynedd.

pobl drwy'r cyfyngiadau symud. Darparodd Radio Bradford, Radio Sunderland a Radio Wolverhampton fwy o newyddion a gwybodaeth leol i bobl a oedd yn byw yn y lleoedd hynny, y cafodd pob un ohonynt niferoedd sylweddol o achosion o Covid-19. Lansiodd y tri allbwn gyda rhaglenni brecwast a chanol bore a gyflwynwyd gan gyflwynwyr lleol gyda newyddion, chwaraeon a myfyrdodau o fywyd yn eu dinas.

Tseina

Parhaodd newyddiadurwyr y BBC yn Tseina i gynhyrchu adroddiadau ergydol, gan gynnwys datgeliadau o gam-drin hawliau dynol y wlad, o wynebu pwysau parhaus gan awdurdodau Tseina a hynny am gost bersonol aruthrol.

Er gwaethaf yr ymdrechion i rwystro'i adroddiadau, datgelodd John Sudworth, gohebydd Tseina, dystiolaeth newydd o ddefnyddio llafur gorfodol torfol yng nghaeau cotwm Xinjiang, ardal sy'n gyfrifol am un rhan o bump o gnydau'r byd. Arweiniodd hyn at ddaid a chwestiynau yn Nhŷ'r Cyffredin – a thargedwyd ymosodiadau i gyfeiriad John a'r BBC drwy'r cyfryngau a sy'n eiddo i wladwriaeth Tseina a'r cyfryngau cymdeithasol. Ers hynny, mae John wedi symud i Daiwan.

Newscast

Trawsnewidiodd podlediad hynod lwyddiannus *Brexitcast* i Newscast yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, trwy gyfnod fel y *Coronavirus Newscast*.

Gan gadw eu safbwynt dychanol ond deallus ar y newyddion, darparodd Adam Fleming a'i gyd-gyflwynwyr ganllaw hanfodol i'r datblygiadau diweddaraf ar y pandemig a'r agenda newyddion ehangach, a oedd yn cynnwys ystod eang o wsteion enwog a straeon wrth iddynt dorri. Datblygodd *Newscast* i fod yn bodlediad mwyaf poblogaidd BBC Sounds.



Mesuriad:

8/10 ^{2019/20}
8/10

Cyrhaeddiad Newyddion y BBC

Nifer yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio gwasanaethau BBC News bob wythnos

Ffynhonnell Kantar
Media 16+

68%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu newyddion a materion cyfoes y gellir ymddiried ynddo (aneffeithiol 21%)

Ffynhonnell Ipsos MORI
18+

69%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu newyddion a materion cyfoes sy'n gywir (aneffeithiol 18%)

Ffynhonnell Ipsos MORI
18+


56%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu newyddion a materion cyfoes sy'n ddiuedd (aneffeithiol 29%)


Ffynhonnell Ipsos MORI
18+

O blith yr holl ffynonellau newyddion (teledu, radio, papurau newydd, cylchgronau, gwefannau, apiau neu'r cyfryngau cymdeithasol) pa ffynhonnell rydych fwyaf tebygol o'i defnyddio...


...ar gyfer newyddion rydych yn ymddiried ynddo fwyaf



...i gael darllediadau newyddion diduedd



...i gael darllediadau newyddion cywir




Ffynhonnell Ipsos MORI, 997 o oedolion 18+ sy'n dilyn y newyddion, Mawrth 2021

Y tair ffynhonnell newyddion fwyaf dibynadwy wedi'u sgorio gan eu defnyddwyr

I ba raddau rydych yn ymddiried yn ... fel ffynhonnell newyddion??


(Graddfa: 1 = ddim yn ymddiried ynddi o gwbl; 10 = yn ymddiried ynddi'n fawr)
Sgôr nifer y defnyddwyr 6+/10 (miliynau)



Y tair ffynhonnell newyddion fwyaf diduedd wedi'u sgorio gan eu defnyddwyr Yn eich barn chi, pa mor unochrog neu ddiuedd yw'r ffynhonnell newyddion hon?

Graddfa: 1 = unochrog iawn;
10 = diduedd iawn)

Sgôr nifer y defnyddwyr 6+/10 (miliynau)



Ffynhonnell Ipsos MORI, defnyddwyr fesul darparwr o sampl gynrychioliadol genedlaethol o 1,063 o oedolion 18+ yn y DU, Mawrth 2021 Sgôr % 6+/10 wedi'i throsi i'r ffigur poblogaeth cyfatebol Ffigurau poblogaeth gan SYG Cyfrifiadau'r BBC Dangosir y tair uchaf

T.154

Ar gyfer y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Ddiben Cyhoeddus 1



Clive Myrie yn adrodd ar ddsbarthu brechlyn Covid-19 ar gyfer Panorama ar BBC One

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol

Dibenion cyhoeddus

Diben 2:

Cynorthwyo pobl o bob oedran i ddysgu

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos ehangder y cynnwys y mae'r BBC yn ei ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae addysg wedi bod yn rhan o DNA y BBC erioed. Y flwyddyn hon, mae ein cenhadaeth addysg a dysgu wedi helpu i gefnogi myfyrwyr, athrawon a rhieni yn ystod heriau addysgol eithriadol pandemig Covid.

Wrth i'r ysgolion gau, aethom ati i gynnig y ddarpariaeth addysgol fwyaf yn ein hanes. Erbyn diwedd tymor yr haf, roeddem wedi cyhoeddi bron i 2,000 o 'Bitesize Daily Lessons' wedi'u harwain gan y cwricwlwm ar-lein. Pan gaewyd yr ysgolion unwaith eto ym mis Ionawr, aethom ymhellach eto. Gwnaethom ehangu ein darpariaeth ddysgu ar y teledu yn sylweddol er mwyn helpu'r rheini nad oedd ganddynt o bosibl fynediad hawdd neu reolaidd i'r rhyngwrdd, gan gynnig pump awr o Lockdown Learning bob diwrnod yn ystod yr wythnos ar CBBC a BBC Two.

Mae darpariaeth addysg a dysgu'r BBC yn parhau i gyrraedd ymhell y tu hwnt i Bitesize a'n ffocws ar y rheini o oedran ysgol. Ein nod yw helpu pobl, ni waeth eu hoedran, i gyflawni eu potensial llawn drwy gynnwys a gwasanaethau addysgol, a chyfluoedd i gymryd rhan, a roddir iddynt gan y BBC, partneriaid a'i gilydd.

Gohebydd Ifanc y BBC

Mae Gohebydd Ifanc y BBC yn helpu pobl ifanc i ymgysylltu â'r cyfryngau a'u deall, ac yn rhoi cyfleoedd iddynt adrodd eu straeon eu hunain. Fel rhan o'r bartneriaeth BBC-gyfan, mae staff y BBC yn gweithio mewn ysgolion, colegau a grwpiau ieuencid gan feithrin sgiliau pobl ifanc 11-18 oed mewn llythrennedd newyddion a chreu cynnwys, a rhoi gwybodaeth a chynghor iddynt am yrfaedd ym maes darlledu. Mae Cystadleuaeth flynyddol Gohebydd Ifanc y BBC yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc gael eu stori wedi'i darlledu ar lwyfannau'r BBC.

JoJo & Gran Gran

Mae CBeebies wedi buddsoddi mewn dwy gyfres arall o raglen boblogaidd 2020 i blant cyn oed ysgol *JoJo & Gran Gran*, ein cyfres gyntaf wedi'i hanimeiddio yn canolbwyntio ar deulu Prydeinig du ac yn dathlu'r cysylltiad unigryw rhwng plant a'u neiniau a'u teidiau. Gan ymddangos ar adeg lle roedd yn rhaid i gymaint o bobl aros ar wahân, llwyddodd y gyfres i daro deuddeg â phob cynulleidfa. Yn seiliedig ar gymeriadau a grëwyd gan Laura Henry-Allain, mae Gran Gran (Cathy Tyson) yn hanu o St Lucia ac yn addysgu JoJo (Taiya Samuel) am ddiwylliant y Caribi wrth iddynt fwynhau anturiaethau gyda'i gilydd.

My Mum Tracy Beaker

Daeth lansiad rhaglen fwyaf llwyddiannus erioed CBBC, *My Mum Tracy Beaker*, â hanes diweddaraf hoff arwres "bog off" pawb yn ystod mis Chwefror. Wedi'i haddasu o nofel y Fonesig Jacqueline Wilson gan Emma Reeves ac wedi'i ffilmio yng Ngogledd-orllewin Lloegr, cafodd y gyfres tair pennod ei ffrydio 2.1 miliwn o weithiau ar iPlayer yn ystod ei phenwythnos cyntaf, wrth i genedlaethau o ddilynwyr Beaker wyllo hanes diweddaraf Tracy a'i merch Jess wrth iddynt wneud ffrindiau newydd a wynebu hen elynion gyda'i gilydd.

Planet Defenders

Gan adlewyrchu pryder amlwg plant dros yr amgylchedd, ar adeg pan oedd yn bwysig iddynt ailgysylltu â'r awyr agored, comisinodd CBBC gyfres newydd o'r enw *Planet Defenders* a wnaed gan Uned Hanes Naturiol BBC Studios. Cafodd y gyfres ei chyflwyno gan dîm ffres, amrywiol a byd-eang o wneuthurwyr ffilmiau ifanc, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn newydd i'r BBC, gan dynnu sylw at rywogaethau mewn perygl, o bengwinaid creigiol ar Ynysoedd y Falklands i giboniaid hwlog Gogledd India, yn ogystal â rhai rhywogaethau agosach at adref.

Llwyddodd yr arlwy addysgol mwyaf yn ein hanes i sicrhau y gallai pob plentyn fanteisio ar ddysgu yn seiliedig ar y cwricwlwm, hyd yn oed os nad oedd ganddo fynediad i'r rhyngwrdd.

BBC Bitesize

Dechreuodd Bitesize Daily, sef darpariaeth Addysg fwyaf erioed y BBC, ar ddechrau tymor yr haf 2020 er mwyn helpu rhieni a myfyrwyr yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau. Gan ddod â thalentau gorau'r BBC a'r athrawon gorau o bob cwr o'r DU ynghyd, cyflwynodd Bitesize Daily wersi llawn hwyl yn seiliedig ar y cwricwlwm a oedd yn canolbwyntio ar Saesneg a Mathemateg, yn ogystal ag ymdrin â phynciau allweddol eraill y cwricwlwm a llesiant myfyrwyr. Manteisiodd Bitesize Daily ar amrywiaeth o bartneriaethau er mwyn gwella'r ddarpariaeth, gan weithio gydag Uwch Gynghrair Lloegr, y Royal Shakespeare Company, yr Argrafffa Wyddoniaeth a Puffin Books. Pan gaeodd yr ysgolion unwaith eto ym mis Ionawr, aeth Bitesize Daily ati i gefnogi cynulleidfa fwy fyth drwy ddarlledu ar CBBC a BBC Two, yn ogystal ag ar iPlayer a Red Button.





67% 2019/20
38%

Disgyblion cynradd
% y disgyblion ysgol
gynradd sy'n
defnyddio Bitesize

Ffynhonnell DJS

77% 2019/20
73%

Disgyblion uwchradd
% y disgyblion ysgol
uwchradd sy'n
defnyddio Bitesize

Ffynhonnell DJS

80% 2019/20
83%

% y defnyddwyr
dan 16 oed sy'n dweud
bod Bitesize yn eu
helpu i ddeall eu
hastudiaethau/dysgu
yn well

Ffynhonnell DJS

57% 2019/20
62%

% y defnyddwyr ysgol
uwchradd sy'n dweud
bod Bitesize yn eu
helpu i ennill graddau
gwel

Ffynhonnell DJS

2.7m 2019/20
1.7m

Porwyr unigryw

Nifer y porwyr unigryw
yn y DU sy'n defnyddio
Bitesize bob wythnos ar
gyfartaledd

Ffynhonnell AT Internet

Mesuriad:

05:00 2019/20
04:55

**Amser a gaiff ei dreulio gyda'r
BBC cyfan gan y rhai dan 16 oed**
Faint o amser y mae'r rhai dan 16
oed yn ei dreulio gyda'r BBC y pen
bob wythnos ar gyfartaledd
(oriau munudau)

Ffynhonnell Kids Cross-Media Insight gan
Ipsos MORI

77% 2019/20
81%

**Y cyrhaeddiad ar draws y BBC
ar gyfer y rhai dan 16 oed**
% y rhai dan 16 oed sy'n
defnyddio teledu/iPlayer, Radio
neu wasanaethau Ar-lein y BBC
bob wythnos ar gyfartaledd

Ffynhonnell Kids Cross-Media Insight
gan Ipsos MORI

79%

% y rhieni sydd o'r farn bod y
BBC yn effeithiol o ran helpu
plant a phobl ifanc yn eu
harddegau gyda'u dysgu
(aneffeithiol 7%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+

68%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn
bod y BBC yn effeithiol o ran eu
helpu i ddysgu pethau newydd
(aneffeithiol 17%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+



T.155 Ar gyfer y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol
am Ddiben Cyhoeddus 2

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol

Dibenion cyhoeddus

Diben 3:

Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau



Mae'r tudalennau hyn yn rhoi enghreifftiau o'r amrywiaeth o gynnwys creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau a gynhyrchwyd ar draws y BBC y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r BBC yma i greu rhaglenni a gwasanaethau gwych. Dyna pam mae cynulleidfaoedd yn troi atom ac yn ein gwerthfawrogi. Mae'r hyn rydym wedi'i gynhyrchu y flwyddyn hon – ar draws cynnwys ffeithiol, y celfyddydau, drama, adloniant, comedi, chwaraeon a cherddoriaeth – unwaith eto yn dangos ein hymrwymiad i gynnal y safonau cynhyrchu a golygyddol uchaf ar draws yr amrywiaeth ehangaf o allbwn.

Mae'r pandemig wedi pwysleisio bod adloniant yn wasanaeth cyhoeddus yr un mor hanfodol â rhannau eraill o genhadaeth y BBC. Mae 83% o oedolion yn y DU o'r farn y dylai BBC sy'n diddanu barhau i fod yn rhan o'n genhadaeth. Mae drama, comedi, adloniant a rhaglennu ffeithiol oll wedi chwarae rhan bwysig i gynulleidfaoedd yn ystod y 12 mis diwethaf, ac mae niferoedd sylweddol wedi croesawu ein harlwy.

Yn y farchnad fyd-eang sydd ohoni, mae ein hymrwymiad i gynnwys Prydeinig cartref bellach yn bwysicach nag erioed. Rydym yn parhau i sicrhau bod creadigrwydd Prydeinig, ansawdd a chymryd risgiau wrth wraidd y BBC. Dyma sy'n helpu i'n gosod ar wahân ym maes y cyfryngau: allbwn o ansawdd uchel ar deledu a radio sy'n unigryw am ei natur nodedig a'i ffocws ar gynnwys Prydeinig o bob cwr o'r DU.

I May Destroy You

Aeth y gyfres efn, ddiwyl a herfeiddiol *I May Destroy You*, a gafodd ei hysgrifennu, ei chreu, ei chydgyfarwyddo a'i harwain gan Michaela Coel, ati i ystyried cydsyniad rhywiol mewn bywyd cyfoes a sut, yn ein tirlun carwriaethau a chydberthnasau modern, rydym yn gwahaniaethu rhwng rhyddid a chamfanteisio. Lansiodd y cydgyhyrchiad hwn rhwng y BBC a HBO ar BBC One a BBC iPlayer ym mis Mehefin 2020. Enillodd y ddrama glodwiw, y cyfeiriwyd ati fel rhaglen

deledu orau 2020 gan The Guardian, bedair gwobr BAFTA a thair gwobr gan y Gymdeithas Deledu Frenhinol.

Small Axe

Roedd *Small Axe*, casgliad Steve McQueen o ffilmiau gwreiddiol a enillodd Oscar a BAFTA, yn cynnwys cast Prydeinig adnabyddus gan gynnwys John Boyega a Letitia Wright. Roedd y ffilmiau wedi'i gosod o ddiwedd yr 1960au i ganol yr 1980au, ac roedd pob un yn adrodd hanes cymuned Gorllewin India Llundain, y cafodd eu bywydau eu llywio gan eu grym personol, er gwaethaf achosion rheolaidd o hiliaeth a gwahaniaethu. Cafodd *Small Axe* ei chanmol yn helaeth gan wylwyr a beirniaid teledu. Hon oedd y ddrama a berfformiodd orau ond un gan y BBC yn 2020 i gynulleidfaoedd du, ysgogodd ymateb emosiynol pwerus a thrafodaethau ystyrlon ar-lein, ac enillodd John Boyega ei wobwr Golden Globe gyntaf, enillodd Malachi Kirby BAFTA ac enillodd Shaun Parkes wobwr RTS am eu perfformiadau.

Normal People

Wedi'i leoli yn Iwerddon, adroddodd yr addasiad hwn o nofel boblogaidd Sally Rooney, y bu cryn sôn amdano, stori am gariad ifanc rhwng Connell a Marianne, o ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol mewn tref fach yng ngorllewin Iwerddon, i'w blynnyddoedd fel myfyrwyr yn Trinity College. Lansiodd y 12 pennod 30 munud ym mis Ebrill 2020 ar BBC Three a BBC iPlayer fel bocs-set cyn iddynt gael eu darlledu'n wythnosol ar BBC One. Roedd y gyfres yn boblogaidd iawn â chynulleidfaoedd a beirniaid, enillodd BAFTA a chafodd ei henwebu ar gyfer gwobrau Golden Globe ac Emmy, a *Normal People* oedd bocs-set mwyaf poblogaidd y flwyddyn ar iPlayer, gan ddenu 63.7 miliwn o geisiadau ffrydio yn ystod 2020.

Michael McIntyre's The Wheel

Gan ddefnyddio fformat rhaglen eiriau newydd, cafodd gwylwyr *Michael McIntyre's The Wheel* eu hudo bob nos Sadwrn wrth i westeion enwog helpu cystadleuwyr i wynebu *The Wheel* er mwyn ceisio ennill

Rydym wedi cynnig dihangfa yr oedd ei hangen yn fawr, gyda degau o filiynau o wylwyr a gwrandawyr yn troi at ein drama, ein comedi a'n hadloniant.

arian fel rhan o'r fformat adloniant newydd hwn i BBC One. Cafodd y gyfres ei darlledu am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2020, gyda chynulleidfifa 28-diwrnod gyfunol o 6.3 miliwn yn gwyluo'r bennod gyntaf a chyfartaledd o 5.4 miliwn ar gyfer y gyfres (ffigur 28-diwrnod cyfunol).

Once Upon a Time in Iraq

Aeth *Once Upon a Time in Iraq*, gydag Andy Serkis yn lleisio a'r cyfarwyddwr clodwiw James Bluemel yn cyfarwyddo, ati i ystyried y risg eithriadol a gymerwyd gan America a Phrydain wrth ymosod ar Irac, a hynny o safbwynt y rheini a wnaeth fyw'r profiad – sifiliaid, milwyr, newyddiadurwyr – safbwynt nas clywir yn aml. Cafodd y gyfres ei chanmol yn helaeth, gan ennill Gwobr Rose D'Or am raglen ddogfen a'r wobwr Rhosyn Aur glodwiw – a gaiff ei chyflwyno i raglen fwyaf eithriadol y flwyddyn. Enillodd y rhaglen hefyd wobwr BAFTA am y Gyfres Ffeithiol Orau, y Gyfres Ddogfen Orau yn y Gwobrau Darlledu, gwobr y Gymdeithas Deledu Frenhinol (RTS) am y Gyfres Ddogfen Orau ac fe'i henwebwyd am wobwr Cyfarwyddwr Dogfen yng Ngwobrau Crefft a Dylunio'r RTS. Cyfeiriodd The Telegraph at y rhaglen fel cyfres ddogfen y flwyddyn a chyfeiriodd Andrew Neil ati fel y gyfres ddogfen orau y mae'r BBC erioed wedi'i chreu.



Mesuriad:

90% 2019/20
91%

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio teledu/iPlayer, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd

Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI 16+

18:02 2019/20
17:45

Amser a gaiff ei dreulio gyda'r BBC cyfan

Faint o amser y mae oedolion y DU yn ei dreulio gyda'r BBC y pen bob wythnos ar gyfartaledd (oriau munudau)

Ffynhonnell Amcangyfrifwyd gan Ipsos MORI, BARB, BARB Establishment Survey, AT Internet, RAJAR, SYG 16

77%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran ansawdd (aneffeithiol 11%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+

71%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran creadigrwydd (aneffeithiol 14%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+

70%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n nodedig (aneffeithiol 13%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+



T.156 Ar gyfer y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Ddiben Cyhoeddus 3




Lovers Rock o'r casgliad
Small Axe, enillydd BAFTA

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol

Dibenion cyhoeddus

Diben 3:

Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig o'r ansawdd gorau *parhad*



The Young Offenders

Gan gyfuno comedi chwerthin yn uchel ac emosiwn torcalonius ar draws tair cyfres a phennod arbennig ar gyfer y Nadolig, mae *The Young Offenders* bellach yn hen ffefryn comedi ar BBC Three, gan ddilyn y prif gymeriadau hoffus Conor a Jock drwy'r cyfnod lletchwith eu harddegau.

Mae *The Young Offenders* yn un o straeon llwyddiant comedi go iawn BBC Three, gyda mwy na 43.8 miliwn o geisiadau ar BBC iPlayer am bob pennod sydd ar gael hyd yn hyn, gan ennill clod gan feirniaid a llu o wobrau gan gynnwys gwobr Comedi wedi'i Sgriptio'r Gymdeithas Deledu Frenhinol ym mis Mawrth 2021.

Cerddoriaeth yn ystod y cyfyngiadau symud

Daethom â llawenydd a chwmniaeth i'n gwrandawyr â cherddoriaeth fyw a mentrau rhithwir ardderchog, gan gynnwys Radio 2 Live at Home, Big Weekend Radio 1, BBC Lockdown Orchestra a The Glastonbury Experience. Daeth ein rhwydweithiau pop ynghyd ar gyfer The Great British Singalong, a chyrrhaeddodd 'Times Like These' gan Radio 1's Live Lounge Allstars frig y siart seinglau gan godi arian i elusen. Creodd ein tymor BBC Proms yn ogystal â chyngherddau niferus Radio 3, gan gynnwys o Neuadd Wigmore, adegau o gerddoriaeth glasurwl fyw ar yr awyr yn ystod y pandemig.

Beethoven Unleashed

Dathlodd tymor Beethoven Unleashed y BBC 250 mlynedd ers geni'r cyfansoddwr â rhaglennu eang o'i waith drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys 125 pennod o *Composer of the Week* ar Radio 3 a chyfres ar BBC Four yn ymchwilio i hanes ei fywyd. Cyflwynodd amrywiaeth o brosiectau arloesol gerddoriaeth Beethoven i gynulleidfa oedd newydd, gan gynnwys drama newydd â Peter Capaldi fel y cyfansoddwr o fri, cyfleoedd i ailgymysgu symffoni gan ddefnyddio traciau cerddorfaol wedi'u recordio'n arbennig, a ras elusenol fawr Comic Relief, a heriodd y cyhoedd i 'Guro Beethoven' drwy redeg 5km o

amgylch Media City yn Salford cyn y gallai Cerddorfa Ffilharmonig y BBC gwblhau perfformiad byw o'r Bumed Symffoni.

Rethink

Daeth Radio 4, Radio 5 a BBC World Service ynghyd ar gyfer Rethink – cydweithrediad unigryw i ystyried sut y gall cymdeithas a'n bywydau newid er gwell ar ôl y pandemig, gyda siaradwyr a oedd yn cynnwys Pab Ffransis, Samantha Power, Caleb Femi, Arglwyddes Hale, KK Shailaja, Tim Berners Lee ac Emma Dabiri. Fel rhan o ffocws Radio 4 ar newyddiaduraeth adeiladol yn seiliedig ar atebion, parhaodd Rethink ar yr orsaf a thrwy gydol y flwyddyn, ystyriodd bynciau fel sut y dylai amgylcheddau trefol newid ac arweinyddiaeth, yn ogystal â phum rhaglen ar degwch wedi'u cyflwyno gan Amol Rajan.

Culture in Quarantine

Llwyddodd ein menter Culture in Quarantine i gadw'r celfyddydau yn fyw yng nghartrefi pobl ar adeg lle roedd y pandemig wedi effeithio ar leoliadau a manau cymdeithasol. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd *Inside Culture with Mary Beard*, cyfres gelfyddydol gyfoes BBC Two wedi'i haddasu ar gyfer y cyfyngiadau symud gyda Mary yn ffilmio'r rhan fwyaf o'r rhaglen o'i stydi ei hun; *Dancing Nation*, cydweithrediad â Sadler's Wells ac Arts Council England yn dathlu sîn ddawns ardderchog y DU; a *Lights Up*, gŵyl fawr yn dathlu theatr y DU wedi'i haddasu ar gyfer y teledu a'r radio.

CripTales

Yn dilyn llwyddiant prosiectau monolog blaenorol *Snatches* a *Soon Gone: A Windrush Chronicle*, comisynodd BBC Arts *CripTales*, sef cyfres o chwe monolog yn ystyried profiad byw gydag anabledd mewn ffordd newydd rymus. Roedd y gyfres yn rhan o ffocws ehangach y BBC ar anabledd ac yn nodi chwarter canrif ers cyflwyno'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Roedd y monologau yn dreiddgar ac yn deimladwy, a chawsant eu curadu gan yr awdur a'r actor anabl Mat Fraser a'u hysgrifennu, eu cyfarwyddo a'u perfformio gan bobl anabl. Roedd y gyfres yn cynnwys

Llwyddodd ein menter Culture in Quarantine i gadw'r celfyddydau yn fyw yng nghartrefi pobl ar adeg lle roedd y pandemig wedi effeithio ar leoliadau a manau cymdeithasol.

Liz Carr a Ruth Madeley ac awduron clodwiw gan gynnwys Jack Thorne, ynghyd â lleisiau ac actorion newydd.

Criced yn dychwelyd i deledu'r BBC

Yn ystod 2020, dychwelodd criced i sgriniau teledu'r BBC am y tro cyntaf ers cenhedlaeth. Gydag uchafbwyntiau dyddiol o holl gemau rhyngwladol cartref Lloegr, yn ogystal â darllediadau byw o ddwy gêm T20 dynion ac un gêm T20 menywod, ategodd y darllediadau teledu newydd wasanaeth ar-lein hirsefydledig BBC Sport a *Test Match Special* ar Radio'r BBC. Mwynhaodd cyfanswm o 22.5 miliwn o oedolion allbwn criced y BBC ar y teledu, y radio ac ar-lein yn ystod haf 2020.

Pêl-droed Uwch Gynghrair Lloegr

Dangoswyd pêl-droed byw Uwch Gynghrair Lloegr ar deledu'r BBC am y tro cyntaf, a llwyddodd gêm Southampton yn erbyn Manchester City i ddenu'r gynulleidfa fyw fwyaf erioed yn y DU ar gyfer gemau Uwch Gynghrair Lloegr, sef 5.7 miliwn o bobl.

Roedd trydedd rownd Cwpan yr FA yn greiddiol wrth gyflawni record newydd ar gyfer porwyr unigryw iPlayer – 8.9 miliwn ar 10 Ionawr, a oedd 41% yn uwch na'r norm. Erbyn cam y rowndiau gogynderfynol, roedd Cwpan yr FA wedi cyflawni cryhaeddiad teledu o 26 miliwn ar y BBC.



Rhaglennu cynaliadwy

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae rhaglenni teledu'r BBC fel *Extinction: The Facts* a *Chris Packham: 7.7 Billion People and Counting* wedi darparu gwybodaeth hanfodol ar sail gwyddoniaeth, ac mae ffilmiau *Panorama Australia Burning* a *Britain's Wild Weather* wedi dogfennu effaith ddifrifol newid yn yr hinsawdd gartref a thramor. Mae prosiect pwysig *Countryfile* Plant Britain, i annog y genedl i blannu, a'r *Royal Institution Christmas Lectures: Planet Earth, A User's Guide* wedi darparu cipolwg hanfodol i atebion ar gyfer lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd.

Adroddodd Syr David Attenborough stori y ffordd y mae grymoedd pwerus ond bregus ein planed yn llywio pob math o fywyd ar y ddaear yng nghyfres hanes naturiol nodedig BBC One, *A Perfect Planet*. Denodd pennod olaf y gyfres ganmoliaeth gan y beirniaid a datgelodd brif rym newydd sy'n effeithio ar y byd naturiol: bodau dynol. Denodd y bennod gyntaf gynulleidfa gyfunol o 7.1 miliwn dros 7 diwrnod a chyfrannodd y gyfres at fis mwyaf llwyddiannus erioed BBC iPlayer, gan ennill ei phlwyf fel y rhaglen ffeithiol a wylwyd fwyaf yn ystod y flwyddyn.

Ar y radio, drwy bodlediadau fel *What Planet Are We On?* ar 5 live a *The Climate Question* ar y World Service, mae'r BBC wedi ystyried y materion cysylltiedig; tynnodd *How They Made Us Doubt Everything* ar Radio 4 sylw at y sail dros gamwybodaeth am yr hinsawdd; a chyflwynodd *Rising Sea Symphony* ar Radio 3 ddau lwybr amgen ar gyfer y dyfodol mewn seinwedd gymhellol. Ategwyd hyn oll gan gynnwys digidol wedi'i anelu at gynulleidfa oed ifanc. Ac aeth brandiau a dramâu mawr fel *The Great British Sewing Bee*, *The Repair Shop*, *DIY SOS*, *EastEnders* ac *I May Destroy You* i'r afael â'r pwnc mewn ffordd ysgafnach y gallai'r cynulleidfa oed ehangaf uniaethu â hi. Mae BBC News yn parhau'n lleoliad hanfodol ar gyfer newyddion amgylcheddol diduedd.




CripTales gan BBC Arts ar gyfer BBC Four

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
Dibenion cyhoeddus

Diben 3:

Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig o'r ansawdd gorau *parhad*



BBC Sounds

Ddwy flynedd ers ei lansio, mae BBC Sounds yn parhau i dyfu wrth i fwy o bobl ei ddarganfod fel cartref cerddoriaeth, radio a phodlediadau gan y BBC.

Rydym wedi arloesi â chomisiynau a threfniadau curadu ac wedi sicrhau bod BBC Sounds ar gael mewn mwy o fannau, gan gyrraedd y cynulleidfaoedd wythnosol uchaf erioed, ac yn 2020/21, cafodd 1.26 biliwn o geisiadau i chwarae cynnwys, i fyny o 760 miliwn y flwyddyn flaenorol.

Mae ein gorsafoedd radio yn parhau'n rhan greiddiol o BBC Sounds, ac mae pobl yn dewis treulio cryn dipyn o amser ar yr ap a'r wefan yn gwrandao ar Greg James, Zoe Ball, Ken Bruce a'u tebyg a rhaglen *Today*; ac mae llawer yn troi ato i gael y newyddion diweddaraf yn ogystal â cherddoriaeth a chwaraeon gan ein rhwydweithiau.

Rydym wedi cynyddu ein huchelgais creadigol o ran ein podlediadau ac wedi cefnogi talent Brydeinig arbennig gan roi cwmni pobl fel Louis Theroux, Peter Crouch, Stacey Dooley a Yungblud i bobl. Ac rydym wedi comisiynu podlediadau sy'n apelio'n benodol i gynulleidfaoedd ifancach na chânt eu gwasanaethu'n ddigonol, fel *Money Moves with Toni Tone*, *Press X to Continue*, *Wheel of Misfortune* a *6 Degrees from Jamie and Spencer*.

Gwnaethom lansio'r teitl cyntaf mewn cydweithrediad newydd â Warner Music Group, *Songs To Live By*, wedi'i gyflwyno gan Vick Hope ac yn dathlu lleisiau duon, a gwnaethom helpu dilynwyr i fwynhau eu hoff ddramâu gan y BBC drwy gyflwyno podlediadau i ategu cyfresi poblogaidd fel *Normal People* ac *I May Destroy You*.

Gwnaethom gefnogi podlediadau sy'n cyflwyno'r dulliau adrodd straeon treiddgar a'r ymchwiliadau pwysig y mae'r BBC yn adnabyddus amdanynt i gynulleidfa newydd. *I'm Not A Monster* oedd ein podlediad cyntaf gan Panorama ac fe'i cydgyhyrchwyd â PBS Frontline; roedd eraill yn cynnwys *Manhunt: Finding Kevin Parle* a *Fight of the Century*.

Cyrhaeddodd ein cynnwys cerddoriaeth nodedig wedi'i guradu mewn ffordd arbenigol eu lefelau uchaf erioed, gan ddenu 27 miliwn o geisiadau i'w chwarae yn 2020/21. Llwyddodd casgliadau yn ymateb i hwyliau fel *Mindful Mix*, *Focus Beats* a *The Happy Hour* i helpu gwrandawyr â gwahanol anghenion; bu rhaglenni fel *6 Music Artist in Residence* a *Tearjerker* gyda Jorja Smith yn boblogaidd; a lansiwyd *Radio 1 Dance* fel un ffordd o helpu gwrandawyr i fwynhau mwy o'r hyn y maent yn ei hoffi gan y BBC.

Chwaraeodd BBC Sounds hefyd ran bwysig yn helpu'r genedl drwy gyfnod y pandemig. Rhoddodd ein gorsafoedd byw a'n podlediad *Newscast* dyddiol wybodaeth fanwl i wrandawyr am yr hyn a oedd yn digwydd; llwyddodd ein podlediadau *Bitesize* dyddiol i blant ysgolion cynradd ac uwchradd i helpu'r rheini a oedd yn addysgu gartref; a chyflwynwyd ein cyfres *10 Today* ar y cyd â Sport England er mwyn helpu gwrandawyr hŷn i gadw'n actif.

Gwnaethom hefyd ailgyflwyno enghreifftiau o gomedïau a llyfrau sain clasurol er mwyn diddanu a helpu gwrandawyr i allu dianc, podlediadau newydd fel *MOTD: Top 10*'r rheini yr oedd angen dos o chwaraeon arnynt a *The Isolation Tapes* gydag Elis James a John Robins yn dod o hyd i hiwmor yn yr hyn a oedd yn digwydd yn y byd. A phan na allai pobl fwynhau cerddoriaeth

fyw yn bersonol, llwyddodd BBC Sounds i'w helpu i gynnal gwyliau gartref gan gyflwyno setiau byw newydd ar gyfer Radio 1's Big Weekend, a pherfformiadau newydd a pherfformiadau o'r archif o Glastonbury.

Gwnaethom wella'r trefniadau curadu ar BBC Sounds er mwyn sicrhau ei fod yn fwy perthnasol i bob defnyddiwr. Lansiwyd ap teledu BBC Sounds gennym ar fwy o ddyfeisiau a llwyfannau, gan ei gwneud hi'n haws fyth i wrandawyr ddod o hyd i'w hoff raglenni â chyfleuster chwilio gwell, yn ogystal â lansio adran My Sounds fel rhan o'r profiad ap teledu.

8/10 ^{2019/20}
8/10

Sgôr defnyddwyr wythnosol ar gyfer BBC Sounds (sgôr gymedrig/10)
Ffynhonnell YouGov 16+

3.5m ^{2019/20}
Pawb 2.9m **16-34** ^{2019/20}
572k ^{2019/20}
500k

Cyfrifon wythnosol cyfartalog sy'n defnyddio BBC Sounds

Ffynhonnell data Cyfrif AT Internet/ y BBC Daw data 2019/20 o 30 Medi 2019 - 29 Mawrth 2020, yn sgil cau BBC iPlayer Radio

10.9m ^{2019/20}
8.9m

Amser yn ffrydio BBC Sounds

Oriau wythnosol cyfartalog a chwaraewyd drwy Sounds

Ffynhonnell data Cyfrif AT Internet/ y BBC Daw data 2019/20 o 30 Medi 2019 - 29 Mawrth 2020, yn sgil cau BBC iPlayer Radio

Ceir rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am BBC Sounds ar dudalen 159.

BBC iPlayer

Mae twf a thrawsnewidiad BBC iPlayer wrth wraidd ein strategaeth a llwyddodd i gyflawni canlyniadau cryf iawn i wylwyr yn 2020/21, gan adeiladu'n sylweddol ar lwyddiant y blynyddoedd diwethaf.

Dros gyfnod o 12 mis, ffrydiwyd y nifer uchaf erioed o raglenni, sef 6.1 biliwn – cynnydd o 28% o gymharu â 2019/20 (4.8 biliwn). Mae parhau i ddatblygu BBC iPlayer fel cynnyrch wedi gwella'r profiad i wylwyr sy'n ei ddefnyddio'n fwy ac yn fwy. Y flwyddyn hon, gwnaethom ddarparu catalog estynedig o gyfresi drama, comedi a dogfen o ansawdd uchel i ddewis o'u plith yn ogystal â chyfnod hirach ar gyfer gwyllo llawer o ffilmiau, wrth i lawer o bobl ddefnyddio'r gwasanaeth i'w hysbysu a'i diddanu wrth iddynt dreulio mwy o amser gartref.

Ar gyfer gwylwyr iau, lanswyd profiad newydd i blant, gan ei gwneud hi'n haws i blant greu eu proffil eu hunain yn gysylltiedig â chyfrif oedolyn, gan eu galluogi i gael profiad wedi'i guradu'n arbennig yn seiliedig ar gynnwys gan CBeebies, CBBC a rhaglenni eraill addas gan y BBC. Ac, er gwaethaf y newidiadau sylweddol i'r amserlen digwyddiadau byw y flwyddyn hon, cafwyd perfformiadau ardderchog o hyd ar gyfer Cwpan yr FA, Glastonbury rhithwir arbennig a gemau Uwch Gyngghrair Lloegr yn fyw ar y BBC am y tro cyntaf erioed.

Drwy gydol y flwyddyn, torrodd BBC iPlayer ei record am y diwrnod gorau erioed sawl gwaith yn olynol, a ffrydiwyd dros 20 miliwn o raglenni mewn diwrnod am y tro cyntaf erioed ar y diwrnod y cyhoeddodd Prif Weinidog y DU y cyfyngiadau symud cyntaf. Llwyddwyd i dorri'r record dyddiol hwn wrth i *Killing Eve* ddychwelyd a chan bennod olaf y ddrama gyffro wedi'i lleoli yn yr Alban *The Nest*, a gurwyd eto pan gafodd bocses mwyaf y flwyddyn iPlayer ei ryddhau, sef *Normal People*, ac unwaith eto ar 10 Mai 2020 – pan ffrydiwyd 24.1 miliwn o raglenni – sef diwrnod ail ddatganiad Prif Weinidog y DU i'r genedl.

Mae sawl record wedi'i thorri yn 2021 hefyd, a rhwng mis Ionawr a mis Mawrth, cafodd BBC iPlayer ei chwarter gorau ers dechrau cadw cofnodion, gyda thros 1.7 biliwn o raglenni yn cael eu ffrydio, wedi'i lywio gan lwyddiant cyfresi newydd fel *The Serpent a Bloodlands*, cyfresi poblogaidd yn dychwelyd gan gynnwys *Line of Duty a RuPaul's Drag Race UK* a bocses-poblogaidd fel *Pretty Little Liars, Spiral a Not Going Out*.

10.7^m

Cyfrifon i gyd

3.2^m

Cyfrifon pobl dan 35 oed

Cyrhaeddiad BBC iPlayer ar gyfer defnyddwyr sydd wedi mewngofnodi

Cyfrifon wythnosol cyfartalog sydd wedi mewngofnodi i iPlayer (2019/20 9.1 miliwn i gyd; 2.9 miliwn o bobl dan 35 oed)

Ffynhonnell data Cyfrif AT Internet/y BBC

39.7^m

Amser yn ffrydio BBC iPlayer

Oriau wythnosol cyfartalog a chwaraewyd drwy iPlayer (2019/20 32.2 miliwn)

Ffynhonnell data dal i fyny AT Internet/Sky Ailddatganwyd data 2019/20 yn sgil diwygio data

12%

Pawb 2019/20 11%

37%

2019/20 35%

% gwyllo teledu'r BBC drwy iPlayer

Ffynhonnell data dal i fyny BARB/AT Internet/Sky Ailddatganwyd 2019/20 yn seiliedig ar newidiadau i'r dull cyfrifo

8/10

16+ 2019/20 8/10

8/10

16-34 2019/20 8/10

Sgôr defnyddwyr wythnosol ar gyfer BBC iPlayer (sgôr gymedrig/10)

Ffynhonnell YouGov 16+

81%

16+ 2019/20 83%

78%

16-34 2019/20 84%

% y defnyddwyr wythnosol sydd o'r farn bod iPlayer yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r genhadaeth yn gyffredinol (mae 10% o ddefnyddwyr 16+ a 14% o ddefnyddwyr 16-34 oed o'r farn ei fod yn aneffeithiol)

Ffynhonnell Ipsos MORI

81%

16+ 2019/20 83%


79%

16-34 2019/20 84%

% y defnyddwyr wythnosol sydd o'r farn bod iPlayer yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r dibenion cyhoeddus yn gyffredinol (mae 9% o ddefnyddwyr 16+ a 12% o ddefnyddwyr 16-34 oed o'r farn ei fod yn aneffeithiol)

Ffynhonnell Ipsos MORI

> Ceir rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am BBC iPlayer ar dudalennau 157-158.




Cyflawni ein cylch gwaith creadigol

Dibenion cyhoeddus

Diben 4:

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol



Mae'r BBC yn ymrwymedig i wasanaethu ei gynulleidfaoedd ar draws y DU, gan ddarparu cynnwys nodedig a pherthnasol o ansawdd uchel i dalwyr ffi'r drwydded, a helpu i gynnal cyrhaeddiad a chynnyg cyfrwng effeithiol i adlewyrchu'r amrywiaeth o ddiwylliannau a chymunedau.

Mae gennym ddyletswydd sylfaenol i gynrychioli'r DU gyfan a sicrhau bod ei holl safbwyntiau a lleisiau yn cael eu clywed. Er mwyn sicrhau gwerth i bob cynulleidfa, mae'n hanfodol bod y BBC yn adlewyrchu'r cyhoedd a wasanaethir ganddo yn llawn.

Heddiw, mae dros hanner ein gwariant – a hanner ein timau – wedi'u lleoli ar draws y DU. Rydym wedi mwy na dyblu cyfran y rhaglenni teledu rhwydwaith a gaiff eu cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn degawd. Nid oes unrhyw ddarparwr ym maes y cyfryngau yn gwneud mwy na'r BBC heddiw i wasanaethu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU.

Ond mae'n rhaid i ni weithio'n galetach fyth. Mae'n rhaid i ni wneud mwy i sicrhau bod pob cynulleidfa yn teimlo bod y BBC ar ei chyfer ac yn ei chynrychioli. Dyna pam ein bod wedi nodi cynlluniau ar gyfer symud pobl, pŵer a grym gwneud penderfyniadau'r BBC i wledydd a rhanbarthau'r DU. Mae'r cynllun hefyd yn adlewyrchu ein penderfynoldeb i sicrhau bod y BBC yn gwneud cymaint ag y bo modd i gefnogi'r adferiad cymdeithasol ac economaidd ym mhob rhan o'r DU.

Gwasanaethau penodedig

Mae'r BBC hefyd yn darparu amrywiaeth o allbwn penodedig, traws-genre ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Rhanbarthau Lloegr ar deledu, radio ac ar-lein. Mae pob ardal yn creu rhaglenni teledu a radio a chynnwys ar-lein ar gyfer ei chynulleidfa leol ac ar gyfer y rhwydwaith.

Mae gennym ganolfannau cynhyrchu mawr yng Nghaerdydd, Glasgow, Belfast, Salford, Bryste, Birmingham a Llundain.

Cyflenwi'r rhwydwaith

Caiff bron i hanner y teledu rhwydwaith ei gynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gyda 47.9% o'r tu allan i Llundain ac 16.4% o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn 2020, er gwaethaf ymyriadau Covid-19, gwnaethom lwyddo i gyrraedd neu ragori ar y rhan fwyaf o'n cwotâu cyflenwi – gan gynnwys pob un o'n targedau ar gyfer oriau o'r gwledydd a'r rhanbarthau. Fodd bynnag, arweiniodd y gostyngiad cyflym a digynsail mewn gwariant ar raglenni at heriau penodol mewn rhai gwledydd a rhanbarthau unigol yn Lloegr – ac o ganlyniad, gwnaethom fethu tri chwota gwariant am y tro cyntaf. Rydym hefyd wedi cyhoeddi cynlluniau i ragori ar ein cwotâu presennol yn y dyfodol. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Adroddiad Cyflenwi Teledu.

Y gwariant ar raglennu teledu rhwydwaith yn ôl rhanbarth fel canran o wariant cymwys

	2020	2019
Llundain	52.1%	49.2%
Yr Alban	6.5%	9.1%
Cymru	8.2%	8.2%
Gogledd Iwerddon	1.7%	3.5%
Cyfanswm y gwledydd	16.4%	20.8%
Canolbarth Lloegr	2.5%	2.8%
Gogledd Lloegr	17.4%	14.0%
De Lloegr	10.1%	9.8%
Aml-ranbarth*	1.5%	3.3%
Cyfanswm y rhanbarthau heb gynnwys Llundain	31.5%	29.9%
Cyfanswm y gwledydd a'r rhanbarthau	47.9%	50.8%
Cyfanswm cyfan	100%	100%

Bydd ein cynlluniau Ar Draws y DU yn cadarnhau ein hymrwymiad i adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu pob rhan o'r wlad yn well

Oriau o allbwn Radio Lleol a radio'r gwledydd y BBC**

	2020	2019
Lloegr (ac eithrio Llundain)	243,417	250,281
Llundain	7,789	8,784
Yr Alban	11,843	11,844
Cymru	14,806	14,791
Gogledd Iwerddon	7,875	8,221

Gwariant ar deledu rhwydwaith yn seiliedig ar ddiffiniadau Ofcom yn ôl blwyddyn galendr

* Mae aml-ranbarth yn cwmpasu rhaglenni a wnaed y tu allan i Llundain ond na ellir eu priodoli i unrhyw ranbarth na gwlad

**Dim ond rhaglenni gwreiddiol gan y BBC y mae oriau allbwn Radio Lleol a radio'r gwledydd y BBC yn eu cynnwys ac nid yw'n cynnwys unrhyw raglenni a gaiff eu haildarlledu

Staff darlledu cyhoeddus y DU yn ôl gwlad

Rydym hefyd yn dal i fod yn ymrwymedig i leoli o leiaf 50% o'n cyflogeion y tu allan i Llundain ac mae tua 52% wedi'u lleoli y tu allan i'r M25 ar hyn o bryd.

% staff darlledu cyhoeddus y DU yn ôl gwlad (cyfwerth ag amser llawn) (ac eithrio BBC Studios yn 2020)

Gwlad	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2020
Lloegr (ac eithrio Llundain)	33	34
Llundain	48	48
Yr Alban	8	7
Cymru	7	7
Gogledd Iwerddon	4	4

John Boyega yng
nghasliad Steve
McQueen, *Small Axe*,
enillydd BAFTA



Mesuriad:

57%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (aneffeithiol 24%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+

63%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n berthnasol iddynt (aneffeithiol 21%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+

60%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu'r rhan o'r DU lle maent yn byw (aneffeithiol 22%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+

62%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran gwasanaethu'r rhan o'r DU lle maent yn byw (aneffeithiol 20%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+

68%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod gan y BBC raglenni, cynnwys a gwasanaethau sy'n codi ymwybyddiaeth o'r ffyrdd o fyw a'r safbwyntiau gwahanol mewn cymdeithas yn y DU (aneffeithiol 18%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+



T.159

Ar gyfer y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Ddiben Cyhoeddus 4

*RuPaul's Drag
Race UK ar gyfer
BBC Three*



Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
Dibenion cyhoeddus

Diben 4:

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol *parhad*



Rhod Gilbert's Work Experience
BBC One Wales

Y BBC yng Nghymru

Prif ffocws gwasanaethau newyddion BBC Cymru y flwyddyn hon oedd y pandemig.

Ar deledu a radio, darparodd ein timau dros 14 awr o allbwn yn ystod yr wythnos ar gyfer *BBC Wales Today*, *Newyddion* ar gyfer S4C, BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru, yn ogystal â darllediadau dyddiol cynhwysfawr ar BBC Wales News Online a Cymru Fyw, gan gynnig darllediadau a dadansoddiadau eang o effaith Covid-19 ar Gymru. Cafodd briffiadau Llywodraeth Cymru i'r wasg hefyd eu darlledu fel rhan o ddarllediadau *BBC Wales Today* ar BBC One Wales.

Roedd *Wales in Lockdown* yn gyfres arbennig yn seiliedig ar brofiadau o'r cyfyngiadau symud cychwynnol ledled y wlad. Roedd *Critical: Coronavirus in Intensive Care* yn rhaglen ddogfen rymus arall wrth i gamerâu BBC Cymru gael mynediad unigryw i'r ICU yn Ysbyty Brenhinol Gwent a chwaraeodd ran amlwg yn yr ymateb i'r achosion cyntaf o Covid yng Nghymru. Gwnaethom ddathlu ein harwyr yng Nghymru hefyd â chyfres newydd sbon *The Great Indoors*, a llwyddodd yr hen ffefrynnau *Weatherman Walking ac Iolo's Wild Wales* i fodloni cynulleidfaoedd nad oedd modd iddynt fwynhau cefn gwlad arbennig Cymru eu hunain. Ar adeg pan oedd sylw'r wlad ar gartrefi gofal, darlledwyd pennod arbennig o *Rhod Gilbert's Work Experience* ar BBC One Wales a oedd yn canolbwyntio ar waith ardderchog ein gofalwyr.

Bu'r radio yn gysur drwy gydol y flwyddyn ac aeth ein gorsafoedd ati i addasu eu rhaglenni a'u hamserlenni er mwyn ymateb i fywydau gwrandawyr yn ystod y cyfyngiadau symud. Cyflwynodd Owen Money ei *Golden Hour* boblogaidd yn ystod

yr wythnos ar Radio Wales, a dathlodd Aled Hughes ymdrechion gwirfoddolwyr a oedd yn mynd gam ymhellach na'r arfer ar Radio Cymru.

Trodd disgyblion a rhieni at BBC Bitesize i ategu gwersi rhithwir. Gydag adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm yng Nghymru, darparwyd gwersi dyddiol dwyieithog i blant ysgol yng Nghymru drwy gydol y cyfnod, ac o fis Ionawr, fel rhan o bartneriaeth ag S4C, darlledwyd pecynnau addysgol Bitesize bob dydd.

Y tu hwnt i Covid, cynhyrchodd *BBC Wales Investigates* raglen deledu eithriadol wrth i bron i hanner miliwn o wylwyr wyllo Wyre Davies yn datgelu tystiolaeth newydd yn *The Clydach Murders*. Cynhyrchodd BBC Cymru ddrama ddogfen ar y Bom Atomig ar gyfer y World Service ac ym mis Rhagfyr 2020, cwblhaodd flwyddyn nodedig o 125 o raglenni i arwain dathliadau geni Beethoven yn 1770. Ar gyfer Radio 4, gwnaethom gynhyrchu cyfres drawsddisgyblaeth bwysig ar ymddygiad seicolegol pobl.

Gyda'r rhan fwyaf o'n gwyliau cenedlaethol wedi'u gohirio, gwnaethom weithio gyda'n partneriaid i sicrhau y gellid parhau i ddathlu, archwilio a hyrwyddo diwylliant. Daeth BBC Radio Cymru ag Eisteddfod T yr Urdd yn fyw i wrandawyr a chynigiodd Gŵyl Gomed Machynlleth ryddhad ysgafn ar BBC Radio Wales, ac yn ystod mis Mawrth cynhaliwyd Gŵyl – sef cydweithrediad rhwng pedair gŵyl Gymreig – a gyflwynwyd ar lwyfan ar-lein y BBC.

Ac er gwaethaf yr amgylchiadau heriol, cwblhaodd BBC Cymru y broses o adleoli i Sgwâr Canolog yng nghanol Caerdydd ym mis Medi 2020.

92% 2019/20
95%

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% yr oedolion yng Nghymru sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd

Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI 16+

79%

% yr holl oedolion yng Nghymru sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw (aneffeithiol 13%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+

62%

% yr oedolion yng Nghymru sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (aneffeithiol 22%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+

> Ceir rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Gymru ar dudalen 162

> I ddarllen mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yng Nghymru, gweler yr adroddiad ar dudalen 170

Y BBC yn yr Alban

Adeg cyflwyno'r cyfyngiadau symud cyntaf, ym mis Mawrth 2020, ymatebodd BBC Scotland yn gyflym drwy gyflwyno rhaglenni Bitesize ac Authors Live ar sianel BBC Scotland, er mwyn helpu'r rheini nad oeddent yn gallu mynychu'r ysgol mwyach, ac estynnodd Reflections at the Quay a The Service allan i gymunedau ffydd amrywiol yr Alban.

Yn amlwg, y pandemig a Brexit oedd ar frig yr agenda newyddion drwy gydol y flwyddyn. Darlledwyd gwybodaeth iechyd y cyhoedd yn helaeth ar draws ein rhaglenni a'n gwasanaethau; cyflwynwyd rhaglen *Sunday Show* newydd gennym, wedi'i chyd-ddarlledu'n rhannol ar y radio a'r teledu; a rhoddodd *Debate Night* gyfle i gynulleidfaoedd rhithwir drafod pynciau llog â phaneli o wleidyddion a sylwebwyr.

Gyda modelau cynhyrchu rhaglenni traddodiadol wedi'u hatal i raddau helaeth, aethom ati'n gyflym i gyflwyno rhaglenni a fformatau newydd ac arloesol, gan gynnwys *Shelf Isolation*, *Socially Distant with Susan Calman* a *Scenes for Survival*, cyfres o weithfeydd celf byr arloesol ar ffurf ddigidol a gynhyrchwyd ar y cyd â National Theatre of Scotland. Ailgyflwynwyd hen ffefrynnau o'r archif hefyd, gan gynnig ail gyfle i gynulleidfaoedd fwynhau dramâu, comedi, gemau pêl-droed a rygbi poblogaidd.

Fel rhan o'r gyfres chwe rhan *Billy and Us*, bwrodd yr eicon comedi o'r Alban Billy Connolly olwg dros ei fywyd a'i

yrfa; a dathlodd Kirsty Wark ysbryd gŵyl barhaus Caeredin yn *Edinburgh 2020: My Light Shines On*, a ffrydiwyd ar yr un pryd ar wefan yr Wyl.

Enillodd sianel BBC Scotland un o wobrau clodwiw Beirniad yr RTS am ei chyflawniadau yn ystod ei blwyddyn ddarlledu gyntaf. A dychwelodd rhai o ffefrynnau'r gynulleidfa, gan gynnwys *Murder Case*, *Scotland's Home of the Year* a *The Children's Hospital*. Archwiliwyd hanes diweddar yr Alban yn *The Years That Changed Modern Scotland*; a bwrwyd golwg dreiddgar ar ddsbarthiadau cymdeithasol yr 21ain ganrif yn *Darren McGarvey's Class Wars*. Gydag Ewan McGregor yn lleisio, edrychodd y gyfres deiran *Stormborn*, ar BBC One, ar y ffordd y mae anifeiliaid yn goroesi ac yn ffynnu ar ymylon gogleddol cefnfor yr Iwerydd.

I ddathlu Hogmanay, darlledwyd y benod olaf o *Only an Excuse* a thorrodd y seren newydd Jim MacDonald gwys comedi cyfoethog yn *The Farm*.

Chwaraeodd cerddoriaeth ran amlwg ar BBC ALBA, gyda rhaglenni mor amrywiol â chyfres *Ceòl Aig Baile*, *Na Trads: An Tobar a That's the Way We Do It - Peat & Diesel*. Roedd chwaraeon hefyd yn un o elfennau sefydlog y sianel a rhyddhawyd 360, rhaglen chwaraeon digidol newydd i fenywod, ar iPlayer, gwefan BBC ALBA a ledled y byd ar YouTube.

Parhaodd cerddoriaeth hefyd wrth wraidd amserlenni Radio Scotland, ac roedd rhaglenni newydd yn cynnwys *Take the Floor: Your Requests* a *BBC Introducing in Scotland*.

88% 2019/20
90%

Cyrhaeddiad ar draws y BBC

% yr oedolion yn yr Alban sy'n defnyddio teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd

Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI 16+

76%

% yr holl oedolion yn yr Alban sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw (aneffeithiol 12%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+

55%

% yr oedolion yn yr Alban sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (aneffeithiol 25%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+

> Ceir rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am yr Alban ar dudalen 161

> I ddarllen mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yn yr Alban, gweler yr adroddiad ar dudalen 174

Sianel BBC Scotland

		% Effeithiol	% Aneffeithiol	Ffynhonnell
% y defnyddwyr wythnosol 16+ sydd o'r farn bod sianel BBC Scotland yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r genhadaeth gyffredinol yn yr Alban	2020/21	73%	14%	Ipsos MORI Defnyddwyr wythnosol 16+ yn yr Alban
	2019/20	73%	12%	
% y defnyddwyr wythnosol 16+ sydd o'r farn bod sianel BBC Scotland yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r dibenion cyhoeddus yn gyffredinol yn yr Alban	2020/21	74%	14%	
	2019/20	75%	16%	

Scotland's Home of the Year
BBC Scotland



Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
Dibenion cyhoeddus

Diben 4:

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol *parhad*



Bloodlands ar gyfer BBC One

Y BBC yng Ngogledd Iwerddon

Bu'n flwyddyn o heriau digynsail ac rydym wedi bod yn gwmni i gynulleidfaoedd y BBC yng Ngogledd Iwerddon bob cam o'r ffordd.

Gwnaethom ddisgrifio effaith pandemig Covid-19 ar bob agwedd ar fywyd cymunedol, gan roi gwybodaeth a dadansoddiadau manwl i gynulleidfaoedd a chynnig fforwm trafod pwysig. Esboniodd ein rhaglenni newyddion y mesurau a oedd yn cael eu rhoi ar waith gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon i gyfyngu ar ledaeniad y feirws, gan ddefnyddio newyddiaduraeth arbenigol y BBC yn effeithiol.

Cynyddodd cynulleidfa *BBC Newsline* yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn a llwyddwyd i gynnig darllediadau byw o friffiadau Gweinidogol yn Stormont ar *Evening Extra*. Gwnaethom ymdrin hefyd â materion a oedd yn ymwneud â diwedd cyfnod pontio Brexit a gwleidyddiaeth a manylion ymarferol Protocol Gogledd Iwerddon.

Llwyddodd BBC Radio Ulster/Foyle i barhau â'i hamserlen arferol, fwy neu lai, yn ystod camau cynnar y pandemig. Cynigiodd ei rhaglenni gwmniaeth a chysylltiad i wrandawyr, gan adlewyrchu eu pryderon ynghylch Covid-19 a materion iechyd meddwl, gan gynnwys cyd-fenter ag elusennau lleol i drechu unigrwydd. Gwnaethom ehangu ein hallbwn addysg lleol er mwyn helpu myfyrwyr a oedd yn dysgu gartref a gwnaethom ddenu plant ysgol i waith y BBC drwy ailgyflwyno *Two Minute Tales*, *Two Minute Masterpiece* a'r prosiect Gohebydd Ifanc, a fu'n ystyried teimladau o unigrwydd yn sgil y cyfyngiadau symud.

Gwnaethom ddatblygu ein presenoldeb lleol ar BBC Sounds gan gyflwyno podlediadau newydd, gan

gynnwys *Year 21* (sy'n edrych ar ganmlwyddiant y Rhaniad). Gwnaethom ddatgelu cyfoeth ein harchif teledu lleol yn *BBC Rewind* a churadu *A Season of Arts*, a oedd yn cynnwys comisiynau newydd a chasgliad arbennig o raglenni ar BBC iPlayer.

Gwnaethom addasu ein proses comisiynu teledu i ystyried cyfyngiadau Covid-19, gan gefnogi cwmniau cynhyrchu a'u gwaith ac ymateb i anghenion newydd y gynulleidfa. Cafodd rhaglenni wedi'u cynhyrchu'n lleol berfformiadau cryf, ag amrywiaeth o gynnwys gan gynnwys *The Paddy Raff Show*, *Keepin' er Country at Home*, *Edward Carson and the fall of Oscar Wilde* a *Nolan Live* sy'n parhau'n boblogaidd.

Rhoddydwyd cyfleoedd i ddilynwyr chwaraeon fwynhau rhai o'u hoff adegau chwaraeon o archifau'r BBC yn *Sport Re-run* a chawsant gyfle hefyd i wyllo gemau pwysig wrth iddynt ailddechrau, gan gynnwys drwy ffrydio digwyddiadau ar-lein.

Gwelwyd sgiliau, talent a lleoedd lleol yn *Bloodlands* (y mae ail gyfres bellach wedi'i chomisiynu) a thrwy *Line of Duty* y bu'r gynulleidfa yn aros yn eiddgar iddi ddychwelyd. Caiff ein gwaith yn y maes hwn ei ddatblygu ymhellach drwy *Hope Street*, cyfres ddrama deledu newydd yn ystod y dydd, a mentrau eraill yn deillio o gynlluniau Ar Draws y DU y BBC.

Gwnaethom adnewyddu ein partneriaeth lwyddiannus â Northern Ireland Screen – sy'n sail i gymaint o'r hyn y gallwn ei wneud, gan gynnwys rhaglennu'r BBC yn yr iaith Wyddeleg a Sgoteg-Wlster – a gwnaethom weithio gyda Libraries NI i gynnig amrywiaeth o raglenni a digwyddiadau fel rhan o Book Week NI.

88% 2019/20
92%

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd

Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI 16+

80%

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw (aneffeithiol 9%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+

50%

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (aneffeithiol 25%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+

> Ceir rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Ogledd Iwerddon ar dudalen 163

> I ddarllen mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yng Ngogledd Iwerddon, gweler yr adroddiad ar dudalen 179

Y BBC yn Lloegr

Roedd gwasanaethau lleol a rhanbarthol y BBC yno i gynulleidfaedd yn ystod y cyfnodau mwyaf eithriadol ac anodd – gan ddarparu'r newyddion diweddaraf, cysylltu cymunedau a chynnig adegau o ryddhad â chomisïynau teledu newydd.

Ar 23 Mawrth 2020, lansiodd Radio Lleol y BBC ymgyrch 'Make a Difference' – hysbysfwrdd rhithwir i'r rheini a oedd yn cynnig help a'r rheini yr oedd angen cymorth arnynt. Ers ei lansio, cafwyd 4.5 miliwn o achosion o ryngweithio â Radio Lleol y BBC yn yr ymateb mwyaf a gafodd y BBC erioed i ymgyrch radio leol.

Lansiodd Make a Difference ar bob un o'r 39 o orsafoedd radio lleol er mwyn helpu i gysylltu cymunedau ledled Lloegr. Cynigiodd unigolion, grwpiau gwirfoddolwyr a sefydliadau lleol help i'r rheini mewn angen gan gynnig caredigrwydd pan oedd ei angen fwyaf.

Gyda'r ysgolion ar gau, gofynnodd Make a Difference am roddion er mwyn helpu plant i ymgymryd â gwaith dysgu ar-lein. Gan weithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys Business to Schools, rhoddwyd 116,000 o ddyfeisiau, sy'n nifer anghygoel, i ysgolion ac elusennau lleol.

Darlledwyd gwasanaethau eglwys a myfyrdodau crefyddol rhithwir bob wythnos gan sawl ffydd pan oedd manau addoli ar gau. Ymunodd radio lleol â gweithgynhyrchwyr, manwerthwyr ac elusen unigrwydd i gynnig setiau radio DAB am ddim i'r unigolion dros 75 oed a oedd fwyaf agored i niwed, a llofnododd BBC England hefyd Gyd-femorandwm Dealltwriaeth â Community Media Association, gan olygu y byddai radio cymunedol yn gallu darlledu cynnwys newyddion lleol am ddim yn ystod yr argyfwng.

Pan gyhoeddwyd mai Caerlŷr fyddai'r ddinas gyntaf i wynebu cyfyngiadau symud lleol, ehangodd radio lleol y gwasanaeth diweddarau dros seinyddion clyfar a lansiodd wasanaeth newyddion ar gyfer Caerlŷr yn Saesneg ac yn Gwjarati.

Lansiodd y BBC dri allbwn lleol newydd dros dro lle cafwyd cyfraddau heintio arbennig o uchel yn Bradford, Sunderland a Wolverhampton.

Addasodd ystafelloedd newyddion rhanbarthol eu ffyrdd o weithio er mwyn sicrhau bod cynulleidfaedd yn parhau i gael newyddion am eu hardaloedd lleol. Gwelodd bwletinâu newyddion 6.30pm rhanbarthol y BBC gynnydd mawr yn y cyfraddau gwyllo o fis Mawrth ymlaen, gyda chynulleidfaedd cyfartalog ledled Lloegr i fyny 19% o un flwyddyn i'r llall.

Parhaodd BBC England hefyd i ddiddanu cynulleidfaedd, gan gynnig rhyddhad ysgafn o'r heriau roeddent yn eu hwynebu. Cynigiodd *Winter Walks* yr heddwch tawel yr oedd ei angen ar gynulleidfaedd, rhoddodd Our Lives gipolwg ar fywyd ledled Lloegr â rhaglenni fel *Zoo Mum* a *Soul Boy*, a chyflwynodd *Angels of the North* hanes salon yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr.

Y flwyddyn hon, mae BBC England wedi hysbysu, diddanu ac addysgu cynulleidfaedd drwy deledu rhanbarthol, radio lleol a gwasanaethau ar-lein. Atgyfnerthwyd lefelau ymgysylltu â chynulleidfaedd drwy Make a Difference a chafwyd ymrwymiad parhaus i adrodd straeon o bob cwr o'r wlad er mwyn adlewyrchu pob un o'n cynulleidfaedd.

90% 2019/20
91%

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% yr oedolion yn Lloegr sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd

Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI 16+

78%

% yr holl oedolion yn Lloegr sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw (aneffeithiol 12%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+

58%

% yr oedolion yn Lloegr sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (aneffeithiol 24%)

Ffynhonnell Ipsos MORI 18+

> Ceir rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Loegr ar dudalen 164

> I ddarllen mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yn Lloegr, gweler yr adroddiad ar dudalen 183

Teulu yn cael gliniadur gan ymgyrch Make a Difference: Give a Laptop ym Mryste



Cyflawni ein cylch gwaith creadigol

Dibenion cyhoeddus

Diben 4:

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol *parhad*

Cynrychioli a phortreadu

Mae sicrhau ei fod yn cynrychioli a phortreadu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU mewn ffordd ddilys yn greiddiol i genhadaeth y BBC. Mae amrywiaeth o ran pwy a welir ac a glywir ar y sgrin ac ar yr awyr yn allweddol, yn ogystal ag yn nhermau ehangder y straeon a'r naratifau a gaiff eu hadrodd o safbwynt dilys. Rydym yn anelu at wasanaethu gwahanol grwpiau cynulleidfa'n effeithiol ar draws y DU, sydd yn ei dro yn cyfrannu at wahaniaethau o ran defnydd a chanfyddiadau o'r BBC ymhlith gwahanol gymunedau.

Cynrychiolaeth ar y sgrin/ar yr awyr

Y Cod Ymarfer ar Gomisiynu Amrywiaeth yw glasbrint y BBC ar gyfer gwella cynrychiolaeth amrywiol yn ein cynnwys ar yr awyr, ar y sgrin ac ar-lein. Nod yr adroddiad blynyddol ar gomisiynu amrywiaeth – sydd bellach yn ei drydedd blwyddyn – yw olrhain ein cynnydd wrth i ni sicrhau ein bod ni ac eraill yn atebol. Mae'r pum egwyddor yn rhan annatod o'r sefydliad er mwyn atgyfnerthu amrywiaeth y lleisiau, y safbwyntiau a'r straeon a gynigir i'n cynulleidfa oedd fel rhan o gynnwys y BBC.

Mae prosiect 50:50 y BBC yn system hunanfonitro wirfoddol a sefydlwyd i gynrychioli menywod yn well ar y sgrin ac ar yr awyr. Ym mis Mawrth 2021, roedd 70% o'r timau a gyflwynodd ddata yn cyrraedd o leiaf 50% o fenywod yn eu hallbwn – cynnydd o 34% ar eu ffigurau cychwynnol. Yn dilyn llwyddiant y cynllun ers iddo ddechrau bedair blynedd yn ôl, rydym wedi ehangu ei gylch gwaith

i gynnwys anabledd ac ethnigrwydd. Mae ein rhaglen Extend in News yn gwella cynrychiolaeth pobl anabl drwy recriwtio a datblygu newyddiadurwyr a staff cynhyrchu anabl. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynigiwyd contract parhaol i bob aelod o staff ar y rhaglen, a phenodwyd Sean Dilley fel cyflwynydd dall cyntaf *Panorama*.

Darledwyd trydedd cyfres y ddrama *The A Word* yn 2020, sy'n canolbwyntio ar fachgen awtistig a'i deulu. Rydym wedi dangos y dalent a'r creadigrwydd yng nghymuned drag y DU yn ail gyfres *RuPaul's Drag Race UK*. Fel rhan o fenter Culture in Quarantine y BBC, darledodd BBC Four *CripTales*, cyfres o fonologau dramatig sy'n cyfleu adegau sy'n newid bywyd, gyda phob pennod wedi'i hysgrifennu, ei chyfarwyddo a'i pherfformio gan bobl anabl.

Aethom ati i ystyried materion yn amrywio o rywioldeb i hiliaeth yn *Famalam*, â sgetsys doniol yn arddangos talent Brydeinig ddu. Rhoddodd BBC One olwg y tu ôl i'r lenni ar yr ymgyrch proffil uchel i sicrhau pryddau ysgol am ddim yn *Marcus Rashford: Feeding Britain's Children*. Yn *Alex Brooker: Disability and Me*, gwelsom y digrifwr a'r cyflwynydd teledu yn archwilio ei anabledd, gan gydnabod am y tro cyntaf yn union faint o effaith y mae'n ei chael o ran pwy ydyw. Dilynodd *The Rap Game UK* ar BBC Three ymgyrch DJ Target, Krept a Konan i ddod o hyd i seren rap Prydeinig newydd.

Er mwyn atgyfnerthu ein cynrychiolaeth ar yr awyr, rydym yn lansio BBC Sounds Lab i greu mwy o gyfleoedd ar gyfer talent

sain newydd ac amrywiol. Bydd y fenter yn rhoi'r cymorth sydd ei angen i greawdwyr sain droi eu syniad yn bodlediad y tu allan i'r strwythur comisiynu presennol.

Adlewyrchu ein cynulleidfa mewn ffordd ddilys

Dylai holl gymunedau amrywiol y DU allu dod o hyd i gynnwys cymhellol gan y BBC sy'n teimlo fel adlewyrchiad dilys o amrywiaeth o brofiadau a safbwyntiau ein cynulleidfa oedd. Mae system Diamond y Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol yn cynnal data amrywiaeth cyson ar raglenni a gaiff eu comisiynu ym mhob rhan o ddiwydiant darlledu'r DU. Yn 2020, dangosodd y data hyn mai'r BBC oedd y darlledwr gorau o ran cynrychiolaeth ar y sgrin – ond bod ganddo waith i'w wneud o hyd o ran cynrychiolaeth oddi ar y sgrin. Rydym yn parhau i gyfeirio ein hymdrechion uniongyrchol a'n hymrwymiaadau ariannol at fentrau sy'n canolbwyntio ar gynnwys talent amrywiol y tu ôl i'r lenni er mwyn creu allbwn sy'n portreadu amrywiaeth lawn cynulleidfa oedd y BBC yn gywir.

Bob blwyddyn, mae ein cronfa o £2 filiwn i ddatblygu talent amrywiol yn helpu cwmnïau cynhyrchu i ddatblygu talent amrywiol ar y sgrin ac oddi ar y sgrin. Cyfrannodd y gronfa at y gwaith o ddatblygu awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr sefydledig a newydd ar *Soon Gone: A Windrush Chronicle*, yn ogystal â chynllun sy'n cefnogi criw o gefndir ethnig lleiafrifol ar gyfer rolau ar *Small Axe* gan Steve McQueen. Yn ogystal, ar y cyd â Screen Scotland a Silverprint, rydym yn cynnig cynllun uchelgeisiol i hyfforddeion ar gyfer cyfres chwech a saith o Shetland gan gefnogi rolau golygyddol ac fel rhan o'r criw yn amrywio o lefel mynediad i lefel uwch. Mae'r BBC yn helpu i ddatblygu talent ysgrifennu amrywiol, newydd drwy 20 o gynlluniau a bwrsariaethau fel y Grŵp Mynediad i Awduron a 'Voices' Writersroom, ac mae traean o'r cyfranogwyr yn anabl a/neu o gefndir ethnig lleiafrifol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynhyrchu straeon sy'n cynrychioli amrywiaeth eang o gynulleidfa oedd ac y gall y cynulleidfa oedd hynny uniaethu â nhw. Cafodd y gyfres ddrama gymhellol *I May Destroy You* groeso cadarn gan y beirniaid wrth iddi ystyried materion cymhleth o safbwynt Prydeinwyr ifanc du. Rhoddodd Cronfa Datblygu Amrywiaeth y BBC gefnogaeth i wyth hyfforddai o grwpiau wedi'u tangynrychioli ar y cynhyrchiad: y rheini o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, ymgeiswyr anabl a'r rheini o gefndiroedd incwm isel. Wrth gynhyrchu comedi BBC *Three Men Like Mobein*, darparwyd lleoliadau y tu ôl i'r sgrin i dalent ifanc yng Nghanolbarth Lloegr.



Yn ystod 2020, cyhoeddodd y BBC ei ymrwymiad i wario £100 miliwn ar deledu a £12 miliwn ar radio o gyllidebau comisiynu presennol ar raglenni amrywiol a rhoddwyd yr ymrwymiad hwn ar waith ym mis Ebrill 2021. Dyma fuddsoddiad ariannol mwyaf arwyddocaol y BBC mewn cynhwysiant ar y sgrin/awyr ac oddi ar y sgrin a bydd yn annog ymdrechion i gynhyrchu cynnwys amrywiol sy'n cynnig portread dilys o'n cynulleidfaoedd hyd at 2024, ag ymrwymiad i sicrhau bod o leiaf 20% o dimau cynhyrchu yn cynnwys talent o gefndiroedd amrywiol sydd wedi'u tangynrychioli.

Portreadu'r gwledydd a'r rhanbarthau ar y rhwydwaith

Er gwaethaf Covid-19, mae ein hól troed creadigol ac economaidd yn parhau'n ehangach ac yn ddyfnach nag unrhyw ddarlledwr arall yn y DU. Rydym yn gweithio gyda mwy o gynhyrchwyr, mewn mwy o leoliadau, ac yn ymdrechu i weithio gyda thalent newydd yn barhaus. Yn 2020, roedd 57% o gynhyrchwyr y BBC wedi'u lleoli y tu allan i Lundain. Gwnaethom hefyd gynyddu nifer y briffiadau golygyddol ar gyfer y sector, gan gynyddu mynediad i bawb drwy sesiynau ar-lein o bell. Roedd gan bron i hanner y gweithgarwch hwn ffocws penodol ar gynhyrchwyr yn y gwledydd a rhanbarthau Lloegr.

Gan adeiladu ar lwyddiant partneriaeth BBC Three yng Ngogledd Iwerddon, ehangodd y sianel y dull gweithredu hwn i'r pedair gwlad, gan arwain at gomisiynu mwy o syniadau a chwmnïau.

Amrywiaeth wirioneddol ar y sgrin ac oddi ar y sgrin: 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021

Data a ddarparwyd o gyfraniadau gan unigolion sydd â rôl mewn rhaglenni cymwys.

	Gwirioneddol oddi ar y sgrin	Gwirioneddol ar y sgrin
Menywod	55.0%	54.8%
Pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	10.4%	26.5%
Anabl	7.0%	8.2%
Lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol	11.9%	12.0%
Trawsrywedol	0.3%	0.5%
Nifer y cyfraniadau*	230,582	73,878

* Gall unigolyn wneud sawl cyfraniad i raglen neu raglenni

Amrywiaeth ganfyddedig ar y sgrin: 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021

Mewnbwn data gan gwmnïau cynhyrchu sy'n ystyried safbwynt gwylwyr o beth maent yn ei weld a'i glywed.

	Canfyddedig ar y sgrin
Menywod	46.7%
Pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	23.5%
Anabl	5.9%
Lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol	6.8%
Trawsrywedol	0.1%
Nifer y cyfraniadau*	431,255
% y pennwyd nodweddiadol amrywiaeth ar eu cyfer	89.3%

* Gall unigolyn wneud sawl cyfraniad i raglen neu raglenni

Mae hyn wedi rhoi sicrwydd pwysig iawn i gwmnïau y tu allan i Lundain. Aeth BBC Two ati i feithrin partneriaeth â thimau pob un o wledydd y BBC er mwyn cydgomisiynu pedair cyfres newydd sy'n adlewyrchu bywydau cymunedau ar draws y DU.

Cefnogi'r sector

Mae'r BBC yn parhau i gefnogi'r economi creadigol drwy wledydd a rhanbarthau'r DU. Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn heriol ac yn ansicr i'r sector darlledu. Cydnabu'r

BBC bwysigrwyd cynnal cyfraniadau gan dalent o amrywiaeth eang o gefndiroedd, a all gyflwyno safbwyntiau newydd ac amrywiaeth barn a phrofiadau i'r broses creadigol. Yn ystod gwanwyn 2020, gwnaethom gyhoeddi cronfa o £1 filiwn i gefnogi twf cwmnïau cynhyrchu annibynnol bach. Ar ôl y cyfyngiadau symud, gwnaethom ddyblu'r cymorth hwnnw gan roi blaenoriaeth i'r cwmnïau lleiaf, y rhai sydd wedi'u lleoli y tu allan i Lundain a'r rhai ag arweinwyr amrywiol.

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% pob grŵp cynulleidfa sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd

	Dynion 16+	Menywod 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	Pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 16+	Anabl 16+	Ddim yn Anabl 16+
2020/21	91%	89%	92%	87%	80%	90%	98%	92%	77%	91%	90%
2019/20	91%	91%	93%	89%	80%	93%	99%	93%	77%	92%	91%

% pob grŵp gynulleidfa sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw

	Dynion 18+	Menywod 18+	ABC1 18+	C2DE 18+	18-34	35-54	55+	Gwyn 18+	Pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 18+	Anabl 18+	Ddim yn Anabl 18+
Effeithiol	75%	82%	83%	73%	78%	79%	78%	79%	76%	72%	80%
Aneffeithiol	14%	9%	10%	14%	13%	10%	12%	12%	11%	16%	11%

% pob grŵp gynulleidfa sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol am adlewyrchu pobl fel nhw

	Dynion 18+	Menywod 18+	ABC1 18+	C2DE 18+	18-34	35-54	55+	Gwyn 18+	Pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 18+	Anabl 18+	Ddim yn Anabl 18+
Effeithiol	53%	62%	63%	52%	52%	60%	59%	59%	51%	50%	60%
Aneffeithiol	28%	20%	23%	25%	29%	20%	24%	23%	26%	29%	23%


Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI, 16+ Ipsos MORI, 18+

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol

Dibenion cyhoeddus

Diben 5:

Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd



Mae'r dudalen ganlynol yn dangos y ffordd y mae'r BBC yn gweithio i hysbysu, addysgu a diddanu pobl ledled y byd. Mae gennym swyddfeydd mewn 58 o wledydd a 72 o ddinasoedd. Ymysg y rhain mae Newsgathering, BBC World Service, BBC Monitoring, BBC Global News a Media Action.

Heddiw, mae'r BBC yn darparu lefel heb ei hail o newyddion a materion cyfoes lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ni yw'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf yn y DU o hyd, ac mae gennym rôl bwysig yn helpu i drechu'r gamwbyodaeth a'r dryswch sydd mor gyffredin erbyn hyn.

Mae BBC News yn dal i fod ar y blaen i unrhyw ddarparwr newyddion arall pan ofynnir i gynulleidfaeoedd enwi yr un ffynhonnell y maent fwyaf tebygol o droi ati i gael newyddion sy'n ddiduedd a chywir y gellir ymddiried ynddo yn gyffredinol.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd yr hyn a wnawn i sicrhau bod pawb yn cael newyddion a gwybodaeth y gallant ymddiried ynddynt dro ar ôl tro y flwyddyn hon. Mae cynulleidfa gyfartalog *BBC News at Six* wedi cyrraedd y nifer mwyaf ers bron i ugain mlynedd. Ein rhaglenni newyddion am 6.30pm yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr yw'r rhaglen newyddion fwyaf poblogaidd yn y DU o hyd. Mae BBC News Online wedi cyrraedd y nifer mwyaf erioed o ddefnyddwyr a dyma'r safle newyddion penodol mwyaf ei ddefnydd yn y DU. Mewn cyfnod anodd ac ansicr, mae ein cenhadaeth i hysbysu yn bwysicach nag erioed.

Covid-19

Mae newyddion y gellir ymddiried ynddo yn hanfodol yn ystod pandemig, yn enwedig mewn oes o dwyllwbyodaeth.

Mae Covid-19 wedi effeithio ar bob rhan o'r byd, a pharhodd y BBC i ddarparu gwybodaeth ddibynadwy a chywir am y feirws i'w gynulleidfaeoedd byd-eang, gan gyflwyno newyddion mewn mwy na 40 o

ieithoedd i gynulleidfa o fwy na 400 miliwn.

Ar ddiwedd 2020, gwefan newyddion y BBC oedd yr allfa cyfryngau digidol Saesneg fwyaf yn y byd, a chynyddodd 43% o un flwyddyn i'r llall.

Myanmar

Yn anffodus, parhaodd y bygythiad i ryddid y cyfryngau yn ystod y flwyddyn.

Bu newyddiadurwyr y BBC ym Myanmar yn gohebu ar sefyllfa beryglus sy'n newid yn gyflym. Wrth i'r gwrthryfel milwrol ddatblygu, darparodd BBC News Burmese ddarllediadau eang a diduedd o ddigwyddiadau i gynulleidfaeoedd mawr.

Roedd cryn risg bersonol yn gysylltiedig â hyn. Cafodd ein gohebydd BBC News Burmese profiadol, uchel ei barch Aung Thura ei gipio a'i gadw'n gaeth pan oedd yn gohebu yn Nay Pyi Taw. Fe'i rhyddhawyd sawl diwrnod yn ddiweddarach, er mawr ryddhad i'r BBC.

BBC News Arabic – *The Schools that Chain Boys*

Parhaodd BBC World Service i gyflwyno newyddiadau aeth ymchwiliadol bwysig.

Yn dilyn bron i ddwy flynedd o waith trylwyr gan BBC News Arabic, gan gynnwys 18 mis o waith fflmio cudd gan y gohebydd Fateh Al-Rahman Al-Hamdani, llwyddwyd i gynhyrchu *The Schools that Chain Boys*, ffilm arswydus yn dangos achosion o gam-drin plant a cham-drin rhywiol systemig yn ysgolion Islamaidd Sudan, ac yn effeithio ar fechgyn mor ifanc â 5 oed.

Cafodd y ffilm ei chydabod drwy ennill un o wobrau'r Gymdeithas Deledu Frenhinol yn y categori Materion Cyfoes Rhyngwladol, gyda'r beirniaid yn ei chanmol fel exposé manwl a fforensig.

Trusted News Initiative

Parhaodd y Trusted News Initiative (TNI), sef clymblaid fyd-eang o sefydliadau newyddion a llwyfannau technolegol o dan arweiniad y BBC, i gydweithio i drechu

Mae Covid-19 wedi effeithio ar bob rhan o'r byd, a pharhodd y BBC i ddarparu gwybodaeth ddibynadwy a chywir am y feirws i'w gynulleidfaeoedd byd-eang, gan gyflwyno newyddion mewn mwy na 40 o ieithoedd i gynulleidfa o fwy na 400 miliwn.

twyllwbyodaeth niweidiol. Gweithredodd ei system rhybuddio cyflym yn ystod Etholiadau Cyffredinol Myanmar a Taiwan yn 2020 ac yn ystod Etholiad Arlywyddol yr UD a bu'n gweithio i fynd i'r afael ag ymdrechion i ledaenu camwbyodaeth niweidiol am Covid.

Ym mis Mawrth, cynhaliodd TNI gynhadledd rithwir boblogaidd Trust in News, a rannodd lawer o safbwyntiau TNI ynghylch mynd i'r afael â thwyllwbyodaeth ac a gyflwynodd ganfyddiadau rhagarweiniol gwaith ymchwil sy'n anelu at gynnig sail tystiolaeth gadarn i'r ffyrdd gorau o ymdrin â newyddion ffug.



Mesuriad:

71%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol yn adlewyrchu'r DU i'r byd (aneffeithiol 12%)

Ffynhonnell Ipsos MORI (UK) 18+

No. 1

Y gorau am Ymddiriedaeth a Dibynadwyedd ymysg darparwyr newyddion rhyngwladol

Ffynhonnell BBC Brand Tracker 2020 (heb y DU)

Mae'n ofynnol i'r BBC adrodd yn erbyn amrywiaeth o dargedau a bennir yn Nhrwydded Weithredu'r World Service bob blwyddyn. Mae'r adroddiad yn cynnig trosolwg cynhwysfawr o gyrhaeddiad holl gynnwys News a BBC Studios a ddsberthir y tu allan i'r DU. Gwneir hyn drwy Fesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC – mesur o faint o bobl sy'n troi at y BBC yn fyd-eang, ar draws pob un o'i unedau busnes, gwasanaethau a llwyfannau bob wythnos.

Yn anffodus, gohiriwyd yr adroddiadau ar berfformiad cynulleidfaoedd byd-eang y flwyddyn hon gan fod cyfyngiadau Covid wedi effeithio ar waith ymchwil a phrosesau mesur cynulleidfaoedd ledled y byd.

Byddwn yn cyhoeddi data ar berfformiad blynyddol byd-eang ar draws holl is-adrannau, llwyfannau a gwledydd y BBC yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan fydd y data ar gael.



T.165

Ar gyfer y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Ddiben Cyhoeddus 5

Llwyddodd *The Breakdown* gan BBC Africa i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddarafi cynulleidfaoedd am y pandemig



Cyflawni ein cylch gwaith creadigol

Perfformiad cynulleidfaedd a chyd-destun y farchnad

Mae digwyddiadau 2020/21 wedi dangos y rhan annatod y mae'r BBC yn ei chwarae ym mywyd y DU.

Y diwrnodau pwysicaf i'r DU yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fu'r diwrnodau pwysicaf i'r BBC. Trodd 84% o oedolion yn y DU at y BBC ar y diwrnodau pan gyhoeddodd Llywodraeth y DU y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth a mis Hydref 2020. Gwnaed y defnydd mwyaf erioed o BBC Bitesize a llwyddodd iPlayer i osod recordiau, eu torri ac ailosod recordiau newydd yn gyflym yn ystod y flwyddyn.

Mewn ymateb, dengys asesiad y cyhoedd o'r BBC yn ystod 2020/21 fod dros dri chwarter o oedolion o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran cyflawni'r genhadaeth (dywedodd 12% ei fod yn aneffeithiol).* Yn ôl oedran, rhywedd, gradd gymdeithasol, tarddiad ethnig a daearyddiaeth, mae mwyafrif clir o bob grŵp cynulleidfa o'r farn bod y BBC yn effeithiol.

Mae mwyafrif oedolion y DU hefyd o'r farn bod y BBC wedi cyflawni pob elfen o'r dibenion yn effeithiol. Rhoddwyd y sgoriau uchaf am helpu pobl i ddeall beth sy'n digwydd yn y DU a'r byd, ac ansawdd cynnwys a gwasanaethau, a'r flwyddyn hon yn arbennig, am y cymorth a roddwyd i blant a phobl ifanc yn eu harddegau ddysgu. Mae oedolion yn parhau i ddefnyddio'r BBC fwy nag unrhyw frand arall ar gyfer y cyfryngau.

Ar yr un pryd, mae'r pandemig wedi cael effaith ddwys ar fywydau cyhoedd y DU mewn perthynas â'r cyfryngau. Cynyddodd lefelau gwyllo teledu darlledu yn gyffredinol yn ystod 2020/21, ar ôl iddynt leihau'n gyson ers 2013/14. Ond yn benodol, mae tueddiadau a oedd eisoes yn bodoli mewn perthynas â'r cyfryngau

wedi datblygu'n gyflym. Cynyddodd nifer cartrefi'r DU â thansysgrifiadau SVOD fwy na chwarter mewn blwyddyn o 13.7 miliwn i 17.5 miliwn. Mae nifer y ffrydiau cerddoriaeth ar-lein wedi cynyddu 22% mewn blwyddyn. Mae tua 4.5 miliwn yn fwy o bobl wedi defnyddio gwefannau/apiau newyddion penodedig ar-lein bob wythnos ar gyfartaledd.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar ein gallu i fesur perfformiad cynulleidfa'r BBC yn ystod 2020/21. Bu'n rhaid cynnal yr arolwg blyneddol o gyhoedd y DU sy'n asesu sut rydym wedi cyflawni'r genhadaeth a'r dibenion dros y ffôn yn hytrach na wyneb-yn-wyneb - ac felly nid ydym wedi cymharu'r canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn gan ein bod wedi newid y dull. Cafodd ffynhonnell mesur radio swyddogol y DU ei hatal o ganlyniad i gyfyngiadau Covid. Lle bo modd, rydym wedi defnyddio amcangyfrifon o'n ffynhonnell fesur ar draws y cyfryngau, Compass, er mwyn cael gwybodaeth am wrandawyr radio'r BBC yn ystod y flwyddyn.

Gan edrych ar y targedau a bennwyd ar gyfer y flwyddyn, cynyddodd iPlayer, Sounds a BBC News Online oll yn 2020/21, gan berfformio o fewn yr ystod targed neu'n uwch. Yn arbennig, roedd cyrhaeddiad mewngofnodi cyffredinol iPlayer a'r amser ffrydio yn uwch na'r disgwyl, felly hefyd gyrhaeddiad wythnosol BBC News Online wrth i gynulleidfaedd chwilio am newyddion am Covid.

Defnyddiodd cyfartaledd o 80% o bobl 16-34 oed y BBC bob wythnos yn 2020-21, yn unol â'r ystod targed a bennwyd. Roedd hyn gyson o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac yn fwy nag unrhyw frand arall sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau. Gwnaethant

dreulio amcangyfrif o gyfartaledd o saith awr yr wythnos yn defnyddio gwasanaethau'r BBC, a defnyddiodd 60% y BBC ar ddau lwyfan neu fwy bob wythnos - y ddau yn uwch na'r targed.

Roedd oedolion ifanc yn gadarnhaol iawn am y ffordd roedd y BBC yn cyflawni'r genhadaeth. Fodd bynnag, er bod eu barn am berthnasedd personol y BBC yn unol â'r targed a bennwyd, mae'n is na'r cyfartaledd ar gyfer y DU.


Yn hynny o beth, y flwyddyn hon, cyhoeddodd y BBC, yn amodol ar gymeradwyaeth reoleiddiol, y byddai BBC Three yn dychwelyd fel sianel ddarlledu ym mis Ionawr 2022 - gan adeiladu ar y cynllun dwy flynedd i gynyddu lefelau ymgysylltu â phobl ifanc a bennwyd yng Nghynllun Blyneddol 2020/21.

Defnyddiodd cyfartaledd o 77% o blant o dan 16 oed y BBC bob wythnos yn 2020/21. Mae hyn yn unol â'r targed ond yn is na'r flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig ymhlith plant 0-6 oed. Mae'r pwysau yn y farchnad, sydd eisoes yn ddwys ymhlith plant 6-15 oed, yn ddwysach fyth nawr ymhlith plant 0-6 oed yn sgil ffocws darparwyr cyfryngau byd-eang fel YouTube, Netflix a Disney+ ar y cynulleidfaedd hyn.


Er gwaethaf ffyrnigrwydd y gystadleuaeth, arhosodd y swm o amser a dreuliodd plant o dan 16 oed gyda'r BBC yn gyson yn ystod y ddwy flwyddyn ddiwethaf, sef cyfartaledd o tua 5 awr yr wythnos fesul plentyn, gan ddangos presenoldeb y BBC a chynnwys y DU yn eu bywydau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf - wrth i'r pandemig effeithio ar ysgolion - y prif ffocws oedd gwella arlyw Bitesize mewn ymateb, ac o ganlyniad gwelwyd

Cyrhaeddiad oedolion (16+) ar gyfartaledd bob wythnos (%)



Cyrhaeddiad pobl 16-34 oed ar gyfartaledd bob wythnos (%)



Y pum brand uchaf a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfryngau gan oedolion a phobl 16-34 oed yn 2020/21. Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI yn seiliedig ar gyrrhaeddiad wythnosol cyfartalog o 15+ mun

Sut y defnyddiodd cynulleidfaedd BBC iPlayer a BBC Sounds yn 2020/21

Ceisiadau i BBC iPlayer yn ôl dyfais a math Allan o 6.1 biliwn o geisiadau:

Dyfais deledu	66%
Llechen	14%
Cyfrifiadur	10%
Ffôn symudol	9%

100%

Yn fyw	20%
Ar alw	80%

100%

Eitemau a chwaraewyd ar BBC Sounds yn ôl math

Allan o 1.26 biliwn o eitemau a chwaraewyd

Yn fyw	56%
Ar alw	44%

100%

Ffynhonnell AT Internet

y defnydd uchaf erioed o'r gwasanaeth. Yn ystod y flwyddyn i ddod, mae parhau i ganolbwyntio ar y gynulleidfa o dan 16 oed a sicrhau rôl gwasanaethau cyfryngau'r DU ym mywydau plant a phobl ifanc yn eu harddegau yn y DU, targedau penodol ar gyfer cyrraedd plant o dan 16 oed ar draws y BBC cyfan ac, yn ogystal, ar draws gwasanaethau BBC Children a BBC Education yn rhan o Gynllun Blynyddol 2021/22.

Gan droi at oedolion yn gyffredinol, defnyddiodd cyfartaledd o 90% o oedolion y BBC bob wythnos yn ystod 2020/21. Mae hyn yn debyg i'r flwyddyn flaenorol ac yn parhau'n agos at gyrhaeddiad wythnosol 2017/18, sef 92%, er gwaethaf y cynnydd yn nifer cartrefi'r DU â gwasanaethau SVOD yn ystod y tair blynedd.

Cynyddodd cyfartaledd yr amser yr oedd oedolion yn ei dreulio gyda'r BBC o gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn 2020/21. Llwyddodd cynnydd o ran defnyddwyr

teledu, iPlayer a gwasanaethau ar-lein y BBC yn ystod y pandemig i wrthbwyso gostyngiad yn nifer gwrandawyr radio'r BBC. Yn nodweddiadol, mae un rhan o bump o'r bobl sy'n gwrandao ar radio'r BBC yn gwneud hynny yn y car, felly cafodd y gostyngiad mewn teithiau a'r tarfu a fu ar arferion dyddiol yn ystod y cyfyngiadau symud effaith ar hyn. Rhoddodd oedolion sgôr gyfartalog o bump allan o ddeg ar gyfer gwerth am arian. Rhoddwyd cyfartaledd o saith allan o ddeg ar gyfer eu hargraff gyffredinol o'r BBC, er i hyn newid wrth i ohiriadau a oedd yn gysylltiedig â Covid ac oedi i gynrychiadau olygu nad oedd rhaglenni chwaraeon, dramâu, dramâu sebon ac adloniant a ragwelwyd ar gael neu eu bod wedi'u lleihau, gan bwysleisio pwysigrwydd amserlenni cyson gyfoethog i gynulleidfa oedd.

Fel rhan o Gynllun Blynyddol 2021/22 – yn ogystal â'r targedau penodol hynny ar gyfer plant o dan 16 oed a phobl 16-34 oed – pennwyd targedau ar gyfer oedolion yn gyffredinol er mwyn sicrhau gwerth i bawb. Maent yn canolbwyntio ar sicrhau bod y BBC yn arfer a werthfawrogi fel rhan o fywydau pobl o ran y cyfryngau er mwyn helpu i gynnal boddhad cynulleidfa oedd, yn enwedig gan fod y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos bod tueddiadau cyfryngau ar-lein yn tyfu gyflymaf ymhlith grwpiau oedran hŷn.

Ym mhob grŵp cynulleidfa, ni waeth beth fo'i oedran, rhywedd, gradd gymdeithasol, tarddiad ethnig neu ddaeryddiaeth, mae'r nifer mwyaf o bobl yn dal i deimlo bod y BBC wedi cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion yn 2020/21. Ym mhob grŵp, mae'r gyfran sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol yn uwch na'r gyfran sy'n dweud ei fod yn aneffeithiol.

Perfformiad yn erbyn targedau cynulleidfa oedd ar gyfer 2020/21

Perfformiad y BBC ymhlith cynulleidfa oedd ifanc

Cynnal cyrhaeddiad wythnosol ymhlith pobl ifanc

% y bobl 0-34 oed yn y DU sy'n defnyddio teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd

77%

O dan 16 oed yn y DU
Targed: 70-80%

80%

16-34 oed yn y DU
Targed: 70-80%

Ffynhonnell Kids Cross-Media Insight a Compass gan Ipsos MORI

Yr amser y mae cynulleidfa oedd ifanc yn ei dreulio gyda'r BBC

Faint o amser y mae pobl 16-34 oed yn y DU yn ei dreulio gyda'r BBC y pen bob wythnos ar gyfartaledd (oriau munudau)

07:27 a:m

Targed: 6 hours
per week

Ffynhonnell Amcangyfrifwyd o Ipsos MORI, BARB, BARB Establishment Survey, AT Internet, ONS, RAJAR

Defnydd o'r BBC ar draws llwyfannau

% y bobl 16-34 oed yn y DU sy'n defnyddio dau neu fwy o lwyfannau'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd

60%

Targed: mwy na 50%

Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI

Perthnasedd personol oedolion ifanc

Sgôr pobl 16-34 oed yn y DU ar gyfer mae'r BBC ar gyfer pobl fel fi' (sgôr gymedrig allan o 10)

6/10

Targed: 6/10

Ffynhonnell Kantar Media

BBC iPlayer

Cyrhaeddiad BBC iPlayer ar gyfer defnyddwyr sydd wedi mewngofnodi

Cyfrifon wythnosol cyfartalog sydd wedi mewngofnodi i iPlayer

10.7m

Cyfrifon yn gyffredinol
Targed: 9-10m

3.2m

Cyfrifon y rhai o dan 35 oed
Targed: 3m

Ffynhonnell data Cyfrif AT Internet/y BBC

Amser yn ffrydio BBC iPlayer

Oriau wythnosol cyfartalog a chwaraewyd drwy BBC iPlayer

39.7m

Targed: 31-33m o oriau
wythnosol

Ffynhonnell data dal i fyny AT Internet/Sky

Sgôr BBC iPlayer

Sgôr defnyddwyr wythnosol ar gyfer BBC iPlayer (sgôr gymedrig allan o 10)

8/10

Defnyddwyr wythnosol 16+ yn y DU
Targed: 8/10

8/10

Defnyddwyr wythnosol 16-34 oed yn y DU
Targed: 8/10

Ffynhonnell YouGov

BBC Sounds

Cyrhaeddiad BBC Sounds ar gyfer defnyddwyr sydd wedi mewngofnodi

Cyfrifon wythnosol cyfartalog sydd wedi mewngofnodi i BBC Sounds

3.5m

Cyfrifon yn gyffredinol
Targed: 3.5-4m

Ffynhonnell data Cyfrif AT Internet/y BBC

BBC News Online

Cyrhaeddiad BBC News Online

% yr oedolion (16+) yn y DU sy'n defnyddio BBC News Online bob wythnos ar gyfartaledd

36%

Targed: 30%+

Ffynhonnell Compass gan Ipsos MORI 16+

Fodd bynnag, ceir gwahaniaethau o ran defnydd ac effaith y BBC o gymharu gwahanol grwpiau cynulleidfa ac rydym yn anelu at leihau'r gwahaniaethau hynny, yn ogystal â chanfyddiadau rydym yn canolbwyntio ar eu gwella.

Mae sgoriau effeithiolrwydd ac defnydd o'r BBC yn dal i fod yn is ymhlith grwpiau C2DE na rhai ABC1, ac ymhlith oedolion du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol o gymharu ag oedolion gwyn yn 2020/21.

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol

Perfformiad cynulleidfaedd a chyd-destun y farchnad *parhad*

Er mwyn cynrychioli'r cyhoedd yn well, dechreuodd Ymrwymiad i Amrywiaeth Greadigol y BBC yn 2021/22 er mwyn blaenoriaethu mwy na £100 miliwn o'r gyllideb gomisiynu bresennol dros dair blynedd tuag at gynnwys amrywiol a chynhwysol, ac ymrwymiad talent amrywiol newydd o 20% ym mhob comisiwn rhwydwaith newydd.

Yn ôl rhywedd, rhoddodd dynion sgoriau effeithiolrwydd cadarnhaol ond is na menywod y flwyddyn hon, felly hefyd bobl anabl o gymharu â'r rheini nad ydynt yn anabl.

Yn ôl ardal o'r DU, mae sgoriau effeithiolrwydd yng Ngogledd Lloegr yn gadarnhaol ond yn is na chyfartaledd y DU ar draws

amrywiaeth o fesurau. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mynegir teimladau cryfach y dylai'r BBC gynrychioli'r rhannau hyn o'r DU yn fwy effeithiol. Mae didueddrwydd yn her ac yn flaenoriaeth o hyd yn yr oes ddargyfeiriol hon lle ceir safbwyntiau cryf am amrywiaeth o faterion.

Mae glasbrint y BBC ar gyfer y dyfodol – Y BBC Ar Draws y DU – yn nodi cynigion ar gyfer symud ein canolfan greadigol a newyddiadurolo Lundain er mwyn adlewyrchu a gwasanaethu pob rhan o'r DU yn well yn ogystal â chynrychioli gwahanol leisiau a safbwyntiau'n fwy effeithiol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cynulleidfaedd o bob oedran wedi troi at y BBC yn ystod cyfyngiadau symud Covid-19, gan ddangos gwerth parhaus cenhadaeth y DU ac UK Public Service Broadcasting (PSB). Ar yr un pryd, mae darparwyr cyfryngau byd-eang wedi profi cynnydd aruthrol. Gan edrych i'r flwyddyn nesaf – fel y nota Cynllun Blynnyddol 2021/22 – bydd y BBC yn canolbwyntio ar sicrhau gwerth i bawb wrth i arferion y cyfryngau ddatblygu yn dilyn y pandemig, ac ar helpu i gynnal effaith cynnwys a darlledu cyhoeddus y DU fel rhan o fywyd beunyddiol yn y DU.

* Ipsos MORI, 3,911 o oedolion 18+ yn y DU, Mawrth-Ebrill 2021 Sgôr gyfartalog ar draws hysbysu, addysgu a diddanu pobl yn y DU a nhw

Ymgysylltu â chynulleidfaedd

Mae sicrhau gwerth i bob cynulleidfa yn bwysicach nag erioed. Mae deall gwahanol gynulleidfaedd, eu bywydau, eu harferion o ran y cyfryngau a beth yn rhagor y gallent fod am ei gael gan y BBC yn hanfodol er mwyn i ni ddarparu cynnwys ardderchog heb ei ail a sicrhau'r gwerth gorau posibl i bob un o dalwyr ffi'r drwydded.

Mae gan y BBC sawl gwahanol ffordd o fesur ei gynulleidfa ac arsylwi a gwrandao arno, ac mae'n defnyddio'r wybodaeth a geir i lywio penderfyniadau a wneir ym mhob rhan o'r busnes, o gomisiynu rhaglenni teledu newydd i wella ein cynhyrchion digidol. Daw'r wybodaeth a'r data hyn o sawl gwahanol ffnhonnell:

- O waith parhaus a wneir i fonitro ymddygiad cynulleidfa'r BBC a chyfryngau eraill: beth mae pobl yn ei wyllo, beth maent yn gwrandao arno, y gwefannau y maent yn ymweld â nhw, yr apiau y maent yn eu defnyddio;
- O olrhain brandiau i astudiaethau ethnograffig; o arolygon y diwydiant i wrando cymdeithasol;
- Ar gyfer gwasanaethau'r BBC ar-lein, mae gennym set ddata gynhwysfawr o weithgarwch pob defnyddiwr sy'n cynnwys 1.25 biliwn o ddigwyddiadau bob dydd; ac un o gronfeydd data mwyaf y DU o ymddygiad

defnyddwyr â phroffil sydd wedi mewngofnodi. Gall ein timau o wyddonwyr a dadansoddwyr data lunio casgliadau o'r set ddata hon o dros 24 miliwn o ddefnyddwyr misol gweithredol, a gwneud y defnydd gorau o'r data hyn i greu gwell BBC ar-lein;

- O arolygon ymhlith ein defnyddwyr sydd wedi mewngofnodi; gan ddefnyddio ein cronfa ddata o ddefnyddwyr sydd wedi mewngofnodi llwyddom i gael safbwyntiau miliynau o bobl ar draws y DU, gan roi mewnwelediad manwl heb ei ail;
- Ac o dros 500,000 o gysylltiadau a gaiff y BBC bob blwyddyn drwy lythyrau, negeseuon e-bost a galwadau i'n canolfan gysylltiadau benodedig.

O'r amrywiaeth o weithgareddau hyn, mae tîm BBC Audience yn meithrin dealltwriaeth gyfoethog o'r ffordd y mae pobl yn meddwl, yn teimlo ac yn ymddydd. Ond nid oes unrhyw beth cystal â chysylltu â phobl go iawn: rydym yn dod â'r ddealltwriaeth hon yn fyw drwy weithgareddau ymgysylltu wyneb-yn-wyneb rhwng staff y BBC a grwpiau amrywiol o bobl. Yn sgil y cyfyngiadau symud cenedlaethol ym mis Mawrth 2020, nid oedd modd i ni deithio i gyfarfod â chynulleidfaedd wyneb-yn-wyneb; felly symudwyd y sesiynau hyn ar-lein a lluniwyd sesiynau Rhithwir Personol y BBC. Mae'r sesiynau hyn yn cynnwys

trafodaethau fideo byw ar-lein rhwng aelodau o'r gynulleidfa a staff y BBC, gydag uwch-arweinwyr, gwneuthurwyr cynnwys a newyddiadurwyr yn arsylwi arnynt.

Bwriedir i'r sgrysiu hyn a hwylusir fod yn gyfeillgar ac yn anffurfiol, er mwyn cael gwybod barn onest aelodau'r gynulleidfa am y pethau sy'n bwysig iddynt a'u cydberthynas â'r BBC, sydd yn ei dro yn helpu gwneuthurwyr penderfyniadau'r BBC i gysylltu'n well â rhai o'n cynulleidfaedd mwy pellennig.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynnal 63 o sesiynau Virtual In Person (VIP) unigol lle cafodd dros 1,000 o gynrychiolwyr o'r BBC gyfle i gyfarfod â 442 o wahanol aelodau o'r gynulleidfa. Rydym wedi ystyried amrywiaeth eang o bynciau o ddefnydd cyffredinol o'r cyfryngau i safbwyntiau'r gynulleidfa ar newyddion cenedlaethol, radio lleol, technoleg sy'n defnyddio lleisiau a chynhyrchion digidol y BBC. Recriwtiwyd cyfranogwyr i gynrychioli amrywiaeth eang o gynulleidfaedd o'r gwledydd a rhanbarthau penodol, yr hen a'r ifanc, ac o wahanol ethnigrwyddau a chefnidiroedd cymdeithasol. Roedd aelodau o Bwyllgor Gweithredol y BBC, Bwrdd y BBC a'r Uwch-grŵp Gweithredol, yn ogystal â gwneuthurwyr penderfyniadau o'r is-adrannau Cynnwys, Newyddion a Radio yn bresennol yn y sesiynau.

63

o sesiynau rhithwir personol yn 2020/21.



*Ghosts, cyfres
gomedï ar BBC One*

Adroddiad gweithredol

Mesurau ariannol allweddol ar gyfer 2020/21

Incwm masnachol
£1,384^m
(2020: £1,570m)

Gwarged y grŵp
£227^m
(2020: -£119m)

Incwm o ffi'r drwydded
£3,750^m
(2020: £3,520m)

EBITDA Masnachol
£144^m
(2020: £189m)

Arian parod y grŵp
£471^m
(2020: £401m)

†44

*Adolygiad y Prif
Swyddog Gweithredu*

†56

*Adroddiad ar y
Bwlch Cyflog*

†60

*Cynaliadwyedd
amgylcheddol*

†64

*Partneriaethau a
mentrau cydweithredol*

†51

Ein Pobl

†59

Ymgynghoriadau

†63

Gwaith elusennol

Adroddiad gweithredol

Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredu

Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredu



Fel y mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos, y flwyddyn hon rydym wedi rheoli ein sefyllfa ariannol yn ofalus mewn ymateb i'r heriau gweithredol ac ariannol a gyflwynwyd gan bandemig Covid-19, gan barhau i ganolbwyntio ar sicrhau gwerth i'n cynulleidfaoedd.

Rydym wedi gweithio'n galed i gadw ein cydweithwyr yn ddiogel ac rydym yn parhau i gefnogi diwylliant cynhwysol a chreadigol. Rydym yn datblygu cynlluniau sy'n arwain y diwydiant ar gyfer gweithrediadau cynaliadwy. Rydym hefyd yn parhau i fodloni ein rhwymedigaethau i ymgynghori'n agored ar faterion allweddol, gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid, a chefnogi elusennau drwy ein sefydliadau partner allweddol.

Ein prif ffocws yw sicrhau bod ffi'r drwydded yn parhau i gynnig gwerth am arian i bob cynulleidfa drwy gynnig gwasanaethau a chynnwys diddorol. Fel diwydiant ehangach y cyfryngau, amharodd y pandemig yn ddifrifol ar ein gweithrediadau a chafodd effaith sylweddol ar ein cynlluniau a'n sefyllfa ariannol yn 2020/21. Mae'r ffaith ein bod wedi cymryd camau gweithredu cynnar i reoli costau, wedi gohirio gweithgarwch cynhyrchu ac wedi ymateb yn llwyddiannus i'r pandemig yn golygu bod y grŵp yn gorffen y flwyddyn gyda gwerth £471 miliwn o arian parod wrth gefn a gwarged o £227 miliwn. Bydd y gwarged yn cael ei wario ar gynnwys a gafodd ei ohirio ym mlwyddyn ariannol 2020/21. Mae'r BBC yn parhau i ganolbwyntio ar feithrin cydnheredd er mwyn mynd i'r afael â'r heriau rydym yn eu hwynebu

Arweiniodd cyfyngiadau symud y Llywodraeth at ohirio gweithgarwch cynhyrchu ac o ganlyniad i hyn, ynghyd â chanslo digwyddiadau chwaraeon, gohiriwyd gwariant tan 2021/22. Ar ôl atal gweithgarwch cynhyrchu dros dro am sawl mis, gwnaethom ailddechrau cynyrchiadau gyda chryn dipyn o ragofalon iechyd a diogelwch a mesurau cadw pellter cymdeithasol. Arweiniodd hyn at gostau ychwanegol a disgwyliwn y bydd y costau uwch yn parhau tra bydd cyfyngiadau ar waith.

Parhau i fuddsoddi mewn cynnwys o bwys a llwyfannau digidol

Sicrhawyd £272 miliwn o arbedion blynyddol yn 2020/21

7% o gynydd mewn incwm o ffi'r drwydded

Ymatebwyd yn llwyddiannus i Covid drwy ddefnyddio arian parod wrth gefn ynghyd â rheolaethau gwariant hunangymorth

Effeithiodd Covid ar incwm is-gwmniau masnachol

Gorbenion ymysg y gorau yn y diwydiant, sef dim ond 5% o gyfanswm ein costau

Ym mis Awst 2020, gwnaethom ddechrau casglu ffi'r drwydded gan bobl gymwys sydd dros 75 oed. Cyflwynwyd y polisi ddeufis yn hwyrach na'r bwriad yn sgil pandemig Covid-19. Gwnaethom gefnogi talwyr ffi'r drwydded yn ystod y cyfnod anodd hwn drwy sicrhau y gellid gwneud taliadau mewn ffordd a oedd yn ddiogel o ran Covid – nid oedd angen i neb weithredu ar unwaith na gadael eu cartref i hawlio trwydded deledu am ddim nac i dalu am un. Gwnaethom gynyddu capasiti ein canolfan alwadau i gwsmeriaid, gan gynnwys sefydlu llinell wybodaeth am ddim dros y ffôn, a chynnig cynlluniau talu hawdd. Gwnaethom hefyd barhau i weithio'n agos gyda sefydliadau cymunedol a gwasanaethau cynghori ariannol ledled y wlad i gefnogi'r rhai a oedd yn cael trafferth talu ffi'r drwydded. Mae trwyddedau teledu am ddim ar gael i unrhyw un dros 75 oed sy'n cael Credyd Pensiwn*, a bydd y BBC yn talu amdanynt.

Yn 2020/21, gwnaethom sicrhau gwerth £272 miliwn o arbedion yn ystod y flwyddyn, gan gyfrannu at £890 miliwn o arbedion cronol ers 2016/17. Yn 2021/22, rydym yn rhagweld y bydd cyfanswm ein harbedion cylchol yn cynyddu uwchlaw £950 miliwn – gan ragori ar ein targed gwreiddiol, sef £800 miliwn.

Cafodd y pandemig effaith sylweddol ar refeniw Grŵp Daliadau Masnachol y BBC o ganlyniad i lai o weithgarwch cynhyrchu, colledion o ran gwerthiannau a dirywiad sylweddol ym marchnad hysbysebu'r DU ac yn fyd-eang.

Rhoddodd y Grŵp Masnachol gamau ar waith i leihau costau ac ailamserlennu'r buddsoddiad a gynlluniwyd. Ar y cyfan, perfformiodd y Grŵp Masnachol yn well na'n rhagamcanion Covid, gan ein galluogi i gynilo arian yn y byrdymor a gwneud y cyfraniad cynaliadwy mwyaf posibl i Grŵp y BBC.

Er gwaethaf yr heriau sylweddol, rydym yn rheoli ein gweithrediadau'n ofalus er mwyn parhau i sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau bosibl i wrthsefyll pwysau ariannol parhaus. Amcan ariannol y BBC yw sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor gyda hylifedd digonol i reoli taliadau llifau arian parod a darparu swm cyfyngedig o arian wrth gefn ar ffurf cronfeydd ariannol wrth gefn. Bydd ein cronfeydd arian parod wrth gefn cyfredol yn ariannu gwariant ar chwaraeon a dramâu a ohiriwyd yn 2021/22 a buddsoddiad mewn cynnwys o bwys a thwf masnachol yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am berfformiad Grŵp y BBC dros y flwyddyn ddiwethaf a materion penodol fel cyfraniadau pensiwn, treth a pharhau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd.

Incwm

Yn 2020/21, cynyddodd incwm y BBC o ffi'r drwydded 7% i £3,750 miliwn. Cynyddodd ffi flynyddol y drwydded yn unol â chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr o £154.50 i £157.50 ym mis Ebrill 2020. Ym mis Awst 2020, gwnaethom ddechrau casglu ffi'r drwydded gan bobl gymwys sydd dros 75 oed. Bu'r

Llywodraeth yn darparu trwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed ers 2000, ond trosglwyddwyd cyfrifoldeb dros y ddarpariaeth i'r BBC fel rhan o setliad diwethaf ffi'r drwydded. Yn 2019/20, daeth y cynllun i leihau cyllid y Llywodraeth ar gyfer trwyddedau am ddim i bobl dros 75 oed yn raddol i ben, gan gynhyrchu £253 miliwn yn ystod y flwyddyn.

Ymhlith yr incwm arall mae cyfraniad ein gweithrediadau masnachol ac incwm o werthiannau trydydd parti. Nodwyd £1,314 miliwn o incwm yn ystod y flwyddyn, gostyngiad o £109 miliwn o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Roedd y gostyngiad hwn o ganlyniad i effeithiau ar waith cynhyrchu sydd yn yr arfaeth, refeniw hysbysebu is a heriau gweithredol yn sgil y pandemig.

Casglu ffi'r drwydded

Mae systemau rheoli ariannol effeithiol yn rhan allweddol o gydbertynas unigryw'r BBC â'n cynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys gwario ffi'r drwydded yn effeithlon a chasglu ffi'r drwydded deledu gan bawb y mae'n ofynnol iddynt brynu un. Caiff y broses o gasglu ffi'r drwydded ei hategu gan ofyniad cyfreithiol i brynu trwydded os byddwch yn gwylio neu'n recordio rhaglenni sy'n cael eu dangos ar y teledu; yn gwylio ffrydiau byw drwy wasanaeth teledu ar-lein; neu'n lawrlwytho neu'n gwylio rhaglenni'r BBC ar iPlayer (yn fyw, drwy'r gwasanaeth dal i fyny neu ar alw). Mae'r dull cyfredol o gasglu'r ffi yn parhau i fod yn deg, yn effeithiol

* Mae deiliaid trwydded sydd dros 75 oed ac sy'n byw mewn Llety Gofal Preswyl (ARC) gyda Hawliau a Gedwir hefyd yn gymwys i gael trwydded am ddim. Ar gyfer Tiriogaethau Dibynnol y Goron, rhoddwyd trefniadau cyfatebol ar waith, gan ddechrau o 1 Ionawr 2021, yn seiliedig ar fudd-daliadau lleol.

Datganiad incwm cyfunol cryno

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

Datganiad incwm	Beth ydyw?	2021 £m	2020 £m	Beth ddigwyddodd?
Incwm o ffi'r drwydded	Cyfanswm y ffioedd trwyddedau a gasglwyd	3,750	3,520	Yn cynnwys casglu ffi'r drwydded gan bobl gymwys sydd dros 75 oed o fis Awst 2020
Incwm arall	Incwm masnachol ac incwm grant	1,314	1,423	Gostyngiad o ganlyniad i effaith Covid ar gynrychiadau a marchnadoedd hysbysebu
Cyfanswm incwm		5,064	4,943	
Costau gweithredu	Cost cynhyrchu'r holl gynnwys a rhedeg y BBC	(4,799)	(5,093)	Gostyngiad mewn gwariant gan fod Covid wedi tarfu ar weithgarwch cynhyrchu
Cyfran o ganlyniadau partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau	Ein cyfran o elw'r busnesau lle rydym yn rheoli 50% neu lai	25	28	Mae'r canlyniadau'n cynnwys BritBox International a BBC AMERICA
Gwarged/(diffyg) gweithredu		290	(122)	
(Colledion)/enillion ar waredu	Elw o waredu gweithrediadau ac asedau sefydlog	(1)	118	2019/20 yn cynnwys ennill untro a gydnabuwyd wrth gaffael UKTV
Enillion a cholledion eraill	Enillion/(colledion) net ar symudiadau mewn offerynnau ariannol	(2)	(6)	Yn adlewyrchu newidiadau yng ngwerth teg deilliadau ac opsiynau gwerthu a ddefnyddiwyd
Costau ariannu net	Y llog net ar asedau a rhwymedigaethau pensiwn y BBC, llog ar fenthyciadau a symudiadau gwerth teg ar ddeilliadau	(74)	(100)	Taliadau cyllid is sy'n deillio o bensiynau ac offerynnau ariannol
Trethiant	Y credyd/(taliad) treth net ar gyfer y flwyddyn	14	(9)	Yn cynnwys credydau treth teledu o'r radd flaenaf a gaiff eu gwrthbwyso'n rhannol gan daliadau treth gorfforaeth
Gwarged/(diffyg) y Grŵp am y flwyddyn		227	(119)	

Adroddiad gweithredol


Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredu *parhad*

Gwariant ffi'r drwydded

95%

canran y gwariant ar y gwasanaeth cyhoeddus a gaiff ei neilltuo ar gyfer cynnwys a'i ddarparu (2020 95%)

Sut y caiff ffi fisol y drwydded ei gwario
2020/21 £13.13 fesul aelwyd (2019/20: £12.88)



	Cyfanswm 2020/21	Cyfanswm 2019/20
Teledu	£6.42	£6 83
Radio	£2.29	£2 22
BBC World Service	£1.28	£1 24
Gwasanaethau a chostau cynhyrchu eraill	£1.10	£0 88
Ar-lein	£1.32	£1 24
Cost casglu ffi'r drwydded a diffyg pensiwn	£0.72	£0 47

ac yn rhoi gwerth da am arian ac rydym yn parhau i gefnogi'r bobl hynny sy'n wynebu'r anawsterau mwyaf o ran talu'r ffi drwy sicrhau bod y Cynllun Talu Syml, sef cynllun talu hyblyg, ar gael yn barhaol.

Mae gan y BBC nifer o drefniadau cytundebol sy'n cwmpasu casglu, gweinyddu a gorfodi ffi'r drwydded, marchnata, rheoli sianelau talu a rhwydweithiau manwerthu.

Mae'r mwyafrif o'r gwaith gweinyddol wedi ei roi ar gcontract i Capita Business Services Ltd. Dyma nawfed blwyddyn y contract casglu cyfredol, sydd wedi sicrhau £206 miliwn o arbedion hyd yma. Disgwylir arbed cyfanswm o £215 miliwn mewn costau yn ystod y contract deng mlynedd.

Datganiad ffi'r drwydded

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym yn paratoi datganiad refeniw ffi'r drwydded a gaiff ei archwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG). Mae'r datganiad hwn yn nodi'r symiau a gasglwyd gennym ac a dalwyd i Lywodraeth EM yn ystod y flwyddyn. Ynghyd â'i gwaith archwilio, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn edrych ar ein trefniadau casglu ac yn adrodd arnynt i Senedd y DU. Ceir rhagor o wybodaeth am ddatganiad refeniw ffi'r drwydded ar wefan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: www.nao.org.uk.

Gwariant

Cafodd gohiriadau i waith cynhyrchu yn sgil y pandemig effaith ddifrifol ar ein gwariant ar gynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Gohiriwyd cynrychiadau am sawl mis a chawsant eu hailddechrau gyda phrotocolau iechyd a diogelwch ychwanegol a mesurau cadw pellter cymdeithasol er mwyn sicrhau diogelwch ein timau, gan arwain at gostau ychwanegol. Hefyd, o ganlyniad i'r pandemig, cafodd rhywfaint o wariant a fwriadwyd ar gyfer 2020/21, gan gynnwys digwyddiadau chwaraeon pwysig, ei ohirio tan 2021/22.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn cynnwys o ansawdd uchel ac ehangu ein gwasanaethau digidol, gan gynnwys iPlayer a BBC Sounds. Aethom i gostau ychwanegol y flwyddyn hon i gefnogi cynnig addysgol gwell i blant yn ystod y cyfyngiadau symud, drwy Bitesize Daily a Live Lessons. Ariannwyd y buddsoddiadau hyn yn rhannol drwy arian a arbedwyd yn ystod blynyddoedd cynnar setliad ffi'r drwydded ac o gynlluniau arbed parhaus.

Yn gyffredinol, gwelwyd gostyngiad o 9% yn ein gwariant ar gynnwys yn 2020/21, gan leihau i £2,518 miliwn.

Drwy gydol y flwyddyn, gwnaethom reoli ein gwariant yn ofalus er mwyn lliniaru costau ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig. Gwnaethom gynnal ein cyfraddau gorbenion sy'n arwain i diwydiant, sef dim ond 5% o gyfanswm y sylfaen costau gwasanaeth cyhoeddus, gan neilltuo 95% o'n gwariant ar gyfer cynnwys a'i gyflwyno.

Sut rydym yn defnyddio ffi'r drwydded

Mae'r ffordd y caiff y BBC ei ariannu yn gosod cyfrifoldebau sylweddol ar y sefydliad:

- sicrhau trefniadau effeithiol ac effeithlon ar gyfer casglu ffi'r drwydded;
- sicrhau'r cyllid mwyaf o ffynonellau eraill, mewn ffordd sy'n gyson â thelerau ei Siarter a rhwymedigaethau eraill;
- rhoi gwerth am arian drwy ganolbwyntio gwariant ar y rhaglenni a'r gwasanaethau y mae'r cyhoedd am eu cael fwyaf gan y BBC;
- sicrhau bod yr allbwn yn cael ei gyflwyno mewn ffordd mor gosteffeithlon â phosibl

Arian parod a dyled net

Rydym yn cadw cronfeydd arian parod wrth gefn ar gyfer gweithrediadau o ddydd i dydd ac yn rheoli amseru llifau arian parod. Balans arian parod y grŵp ar 31 Mawrth 2021 oedd £471 miliwn. O ganlyniad i ohirio gwariant ar gynnwys tan 2021/22, mesurau lliniaru ar gyfer arbedion a phroses gref o gasglu ffi'r drwydded, cafwyd cynnydd o £70 miliwn mewn arian parod yn 202/21. Caiff cronfeydd arian parod wrth gefn eu defnyddio yn y tymor canolig wrth i ni fynd i wariant ar gynrychiadau a ohiriwyd ac er mwyn ymdopi â chostau ychwanegol yn sgil Covid.

Caiff ein terfynau benthycu eu gosod gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Terfyn benthycu net y gwasanaeth cyhoeddus yw £2,200 miliwn, y caiff £2,000 miliwn ohono ei neilltuo'n benodol ar gyfer prydlesau. Terfyn benthycu Grŵp Daliadau Masnachol y BBC yw £550 miliwn, y caiff £200 miliwn ohono ei neilltuo'n benodol ar gyfer prydlesau.

Ar 31 Mawrth 2021, ein dyled net oedd £1,486 miliwn, a oedd o fewn ein terfynau benthycu. Mae'r ddyled net yn cynnwys gwerth £171 miliwn o fenthyciadau yn yr is-gwmnïau masnachol a gwerth £1,786 miliwn o brydlesau, wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan sefyllfa arian parod y grŵp. Roedd Grŵp Daliadau Masnachol y BBC mewn sefyllfa dyled net gwerth £56 miliwn.

Is-gwmnïau masnachol

Roedd perfformiad ein his-gwmnïau masnachol yn galonogol er gwaethaf yr heriau sylweddol a gyflwynwyd gan Covid a chystadleuaeth gynyddol yn y farchnad. Sicrhodd Grŵp Daliadau Masnachol y BBC EBITDA (enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddiad) o £144 miliwn, o gymharu â £189 miliwn yn 2019/20.

Sicrhaodd BBC Studios EBITDA o £151 miliwn, gostyngiad 17% o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Cafodd y pandemig effaith sylweddol ar reffeniw o gynrychiadau a gwerthiannau hysbysebu, gan arwain at ostyngiad o 10% mewn incwm i £1,255 miliwn. Er gwaethaf y gostyngiad, parhaodd BBC Studios i fuddsoddi mewn cynnwys o ansawdd uchel a chyflawni arbedion effeithlonrwydd gweithredol pellach yn ystod y flwyddyn. Lleihawyd cyfnodau anweithredol gwaith cynhyrchu a defnyddiwyd dulliau rheoli costau gofalus i ddiogelu elw. Yn ystod blwyddyn gyntaf lawn y berchnogaeth o UKTV, er gwaethaf amgylchedd hysbysebu heriol, parhaodd y busnes i dyfu ei gyfran o'r farchnad, a 2020 oedd blwyddyn orau UKTV erioed. Mae llwyddiant BBC Studios yn parhau i ysgogi gwerth arian i dalwyr ffr' drwydded, drwy'r rhaglenni o ansawdd uchel a gynhyrchir a'i gyfraniad ariannol at Grŵp y BBC.

Wynebodd BBC Global News farchnad newyddion rhyngwladol heriol ac ychwanegodd effaith Covid at hyn. Arweiniodd hyn at LBITDA (sef colled cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddiad) o £9 miliwn (2019/20: EBITDA £2 filiwn).

Mae BBC Studioworks yn darparu cyfleusterau stiwdio a golygu ar gyfer y BBC a llawer iawn o gleientiaid allanol. Effeithiodd cyfyngiadau'r llywodraeth ar y defnydd o leoedd stiwdio yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ond, yn sgil creu amgylcheddau gwaith diogel o ran Covid, gwelwyd cynnydd mewn gweithgarwch wrth i ni addasu i ffyrdd newydd o weithio. Sicrhaodd BBC Studioworks EBITDA o £6 miliwn, gostyngiad o £2 filiwn o gymharu â 2019/20.

Mae gennym gyfranddaliad o 10% yn BritBox UK, sef gwasanaeth fideo ar alw y tanysgrifir iddo a lanswyd ym mis Tachwedd 2019, ac mae gan ITV gyfranddaliad o 90%. Nod

BritBox UK yw cynnig casgliad heb ei ail o gynnwys Prydeinig o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd yn y DU. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd BritBox UK ei fod wedi cyrraedd ei darged o ran nifer y tanysgrifwyr, sef 500,000, erbyn mis Ionawr 2021.

Difidendau

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth Grŵp Daliadau Masnachol y BBC ddatgan a thalu difidend gwerth £73 miliwn i'r gwasanaeth cyhoeddus (2019/20: £3 miliwn). Cadwyd difidendau yn y Grŵp Masnachol yn 2019/20 er mwyn sicrhau digon o hyblygrwydd ariannol i ddelio â chanlyniadau ariannol y pandemig. O fewn y Grŵp Masnachol, sicrhaodd BBC Studios werth £137 miliwn o adenillion i'r BBC o ganlyniad i fuddsoddi mewn rhaglennu (2019/20: £276 miliwn).

Pobl

Yn 2020/21, gostyngodd nifer cyfartalog gweithwyr cyfwerth ag amser llawn ein grŵp i 22,219 – gostyngiad o 530 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Wrth gymharu pobl a gyflogwyd ar 31 Mawrth, gostyngodd nifer cyfartalog gweithwyr cyfwerth ag amser llawn ein grŵp i 1,225 o un flwyddyn i'r llall i 21,493. Roedd y gostyngiad o ganlyniad i fentrau arbed arian y gwasanaeth cyhoeddus yn bennaf yn ogystal â rhaglen diswyddiadau gwirfoddol. Ceir rhagor o fanylion am ein pobl a nifer y staff ar dudalen 51.

Mewn ymateb i'r pandemig, gwnaethom nodi nifer o ffyrdd o leihau costau gan gynnwys rhewi cyflogau'r holl weithwyr, rhoi'r gorau i lenwi unrhyw rolau nad ydynt yn hanfodol i'r busnes a rhoi cyfle i'r staff newid eu patrymau gwaith drwy weithio llai o oriau a chymryd gwyliau di-dâl. Rhoddwyd rhai o'n gweithwyr yn BBC Studios ar ffyrlo yn ystod y bwlch mewn cynhyrchu ar ddechrau 2020/21, ond talwyd holl gyllid y Llywodraeth yn ôl gan ein bod wedi llwyddo i hunanliniaru

costau Covid. Gwnaethom hefyd ddarparu cynllun tebyg yn y gwasanaeth cyhoeddus, gan barhau i dalu 80% o gyfraddau contract gweithwyr llawrwydd heb fod angen defnyddio cyllid o gynlluniau'r Llywodraeth Gwnaethom ymgymryd â chynllun diswyddiadau gwirfoddol yn ystod y flwyddyn gyda'r bwriad o sicrhau arbedion yn gyflym wrth i ni wynebu'r her ariannol gynyddol ac i leihau unrhyw ddiswyddiadau gorfodol o fewn rhaglenni ad-drefnu presennol. Bydd diswyddiadau gwirfoddol yn arwain at ragor o arbedion arian parod y flwyddyn nesaf a chreodd gyfle i ail-lunio a symleiddio strwythur y BBC wrth i ni barhau i wneud y BBC yn sefydliad mwy darbodus.

O ganlyniad i'r pandemig, amharwyd ar nifer o'n cynrychiadau neu cawsant eu hatal dros dro. Un o'r problemau wrth geisio ailddechrau gwaith cynhyrchu oedd diffyg yswiriant i gwmpasu risgiau sy'n gysylltiedig â Covid. Sefydlodd y Llywodraeth Gynllun Ailddechrau Cynrychiadau Ffilm a Theledu gwerth £500 miliwn i gefnogi'r gwaith o ailddechrau gwaith cynhyrchu ym mhob rhan o'r diwydiant. Gwnaeth y BBC, fel llawer o ddarlledwyr a chynhyrchwyr eraill, ddefnyddio'r gronfa er mwyn helpu i gwmpasu risgiau sy'n gysylltiedig â Covid. Yn 2020/21, gwnaeth dros 100 o raglenni'r BBC gais i'r cynllun indemnio. Ceir rhestr o'r teitlau a ddarlledwyd yn ystod y flwyddyn ac a ddefnyddiodd y cynllun yn Atodiad yr Adroddiad Cyflenwi Comisiynu Teledu.

Costau pensiwn

Ar 31 Mawrth 2021, ailbrisiwyd y gwarged pensiwn cyfrifyddu (fel y'i diffinnir gan IAS 19 Buddiannau Cyflogeion) i £190 miliwn, (2019/20: £247 miliwn). Y rheswm dros y gostyngiad yn y gwarged yn ystod y flwyddyn oedd y tâl gweithredu blynyddol (£201 miliwn) a newidiadau yn y tybiaethau prisio (£109 miliwn), a wrthbwysswyd yn rhannol

Perfformiad masnachol

EBITDA BBC Studios

£151m

2019/20 £181 miliwn

BBC
STUDIOS

EBITDA BBC Global News

-£9m

2019/20 £2 miliwn

BBC
NEWS
GLOBAL

EBITDA BBC Studioworks

£6m

2019/20 £8 miliwn

BBC
STUDIO
WORKS

Mae EBITDA yn deillio o elw gweithredu a gofnodir, ychwanegu credydau treth cynhyrchu yn ôl (yn dilyn arfer y farchnad ar gyfer cwmnïau cynhyrchu), dibrisio ac amorteiddio (ac eithrio amorteiddiad sy'n ymwneud â hawliau dosbarthu neu raglennu) Mae'r dibrisiant a'r amorteiddiad a ychwanegir yn ôl yn cynnwys unrhyw amhariadau neu brosesau gostwng gwerth mewn perthynas ag asedau Rydym o'r farn mai 'EBITDA' yw'r dull anstatudol o fesur perfformiad sy'n cynnig yr arweiniad gorau er mwyn helpu i ddeall perfformiad ar sail gymaradwy o flwyddyn i flwyddyn Bwriad hyn yw dangos proffidoldeb sylfaenol y gellir ei feincnodi'n gymharol hawdd ac sy'n rhoi sylfaen resymol ar gyfer cysylltu â mesurau llif arian

Adroddiad gweithredol

Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredu *parhad*

gan gyfraniadau a dalwyd (£245 miliwn) ac incwm cyllid net (£8 miliwn).

‘Cipolwg’ ar ddyddiad penodol yw’r prisiad cyfrifyddu hwn, ac felly mae’n sensitif i amrywiadau byrdymor mewn marchnadoedd. Nid yw’n cael unrhyw effaith ar y gost arian parod wirioneddol sy’n gysylltiedig ag adennill y diffyg yn y cynllun pensiwn actiwaraid, a gaiff ei adolygu fel rhan o brisiadau actiwaraid teirblwydd fel sy’n ofynnol gan y gyfraith.

Cwblhawyd y prisiad actiwaraid teirblwydd diweddaraf ym mis Mehefin 2020 a dangosodd ddiffyg ariannu o £1,138 miliwn ar 1 Ebrill 2019. Mae’r BBC ac Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn wedi cytuno ar gynllun ad-dalu sy’n para tan 31 Rhagfyr 2028. Bydd y cynllun yn sicrhau bod buddiannau cronodig yr aelodau yn cael eu diogelu a bod talwyr ffi’r drwydded yn cael gwerth am arian. Caewyd y cynllun buddiannau diffiniedig i gyflogeion newydd yn 2010.

Mae prisiad cyfrifyddu IAS 19 yn wahanol i’r prisiad actiwaraid oherwydd y gwahaniaeth yn y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir i brisio’r rhwymedigaethau. Er bod y prisiad actiwaraid yn defnyddio cyfraddau disgowntio sy’n seiliedig ar giltiau, mae’r prisiad cyfrifyddu yn defnyddio cyfraddau disgowntio sy’n seiliedig ar fondiau corfforaethol credyd uchel – mae hyn yn arwain at brisiadau cyfrifyddu sy’n rhoi darlun ariannu mwy ffafriol ar y cyfan na’r hyn sy’n ofynnol ar sail actiwaraid ac ariannu.

Strategaeth treth

Rydym yn ymrwymedig i dalu’r swm cywir o dreth ar yr adeg gywir yn yr holl awdurdodaethau rydym yn gweithredu ynddynt, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, dreth gyflogaeth, TAW a threth gorfforaeth. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd talu’r swm cywir o dreth i’r cymunedau rydym yn gweithredu ynddynt, ac rydym yn cymryd ein rhwymedigaethau cydymffurfio â rheolau treth o ddifrif.

Rydym yn rheoli ein materion treth o fewn fframwaith deddfwriaeth trethi’r DU a’r awdurdodaethau eraill rydym yn gweithredu ynddynt. Mae lefel goddefiant y BBC mewn perthynas â threth yn isel, a dangosir hyn yn ein dull o gynllunio a llywodraethu treth. Mae ein hasesiad o’r risg sy’n gysylltiedig â threth yn ystyried nid yn unig y swm ariannol sydd yn y fantol, ond hefyd effaith y mater dan sylw ar ein henw da.

Yn 2020/21, gwnaethom gydnabod credyd treth net o £14 miliwn o gymharu â thâl treth o £9 miliwn yn y flwyddyn flaenorol, sy’n deillio’n bennaf o gredydau treth teledu o’r radd flaenaf sy’n amrywio o flwyddyn i flwyddyn a llai o weithgarwch gwerthu o ganlyniad i Covid.

Rydym yn cyhoeddi ein strategaeth treth yn unol â Deddf Cyllid 2016, y gellir dod o hyd iddi ar ein gwefan: downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/reports/bbc-tax-strategy-2021.pdf

Sicrhau arbedion effeithlonrwydd

Ein nod yw sicrhau bod y sefydliad yn cael ei redeg yn effeithlon ac yn effeithiol. Y flwyddyn hon, gwnaethom sicrhau gwerth £272 miliwn o arbedion ychwanegol i helpu i fynd i’r afael â heriau ariannol yn y dyfodol ac er mwyn buddsoddi mewn cynnwys ar gyfer ein cynulleidfaoedd. Gwnaethom sicrhau arbedion ym mhob rhan o’r gwasanaeth cyhoeddus drwy arbedion effeithlonrwydd gweithredol ac ym maes cynhyrchu, diswyddiadau gwirfoddol a phrosesau rheoli contractau gofalus. Gwnaethom hefyd nodi arbedion effeithlonrwydd newydd drwy newid ein ffyrdd o weithio. Gwnaeth cyfuniad o weithio o bell a gweithio yn y swyddfa a gwneud gwell defnydd o dechnoleg ein galluogi i leihau ein hól troed eiddo, gan greu amgylcheddau gwaith mwy dynamig a lleihau’r angen i deithio rhwng safleoedd y BBC.

Rydym yn parhau i wneud y BBC yn sefydliad symlach, mwy darbodus a mwy effeithlon drwy wella ein systemau a’n prosesau a rheoli costau cynyddol gystal ag y gallwn. Gwnaethom gynnal ein gorbenion ar lefelau sy’n arwain y diwydiant, sef dim ond 5% o gyfanswm ein costau.

Cynnwys

Rydym yn parhau i wneud arbedion wrth ddarparu cynnwys drwy adolygu ein gwaith cynhyrchu sydd yn yr

Arbedion effeithlonrwydd

Arbedion yn ystod y flwyddyn

£272^m

(2020 £199m)

Arbedion cronol


£890^m

(2020 £618m)

Arbedion a gyflawnwyd yn 2020/21

- Arbedion effeithlonrwydd mewn gwaith cynhyrchu ac ailgymysgu mathau o raglenni
- Canolbwyntio ar gynnwys o bwys
- Arbedion o ran nifer y staff
- Arbedion effeithlonrwydd gweithredol
- Ailnegodi contractau

Arbedion effeithlonrwydd (£m)



arfaeth. Gwnaethom ganolbwyntio ar ddarparu cynnwys o bwys i'n cynulleidfaoedd drwy ailgymysgu ein harlwy o raglenni chwaraeon, ffeithiol a dramâu. Cafodd cyfyngiadau'r Llywodraeth effaith sylweddol ar weithgarwch cynhyrchu a chwaraeon a ddarlledwyd y flwyddyn hon, gan oedi gwariant yn 2020/21 wrth i gostau gael eu gohirio tan y flwyddyn nesaf.

Mae mwyfwy o gystadleuaeth yn niwydiant y cyfryngau wrth i'r galw am gynnwys gynyddu – gan beri i gostau gynyddu'n gyflymach na chwyddiant. Y flwyddyn hon gwnaethom sicrhau gwerth £57 miliwn o arbedion i liniaru'r pwysau esgynnol ar ein sylfaen costau. Mae'r arbedion hyn yn cynnwys cadw prisiau'n wastad a chynyddu buddsoddiad gan drydydd partion yn ein harlwy dramâu, comedi a phlant sydd, yn ei dro, yn lleihau'r costau a ariennir gan dalwyr ffi'r drwydded.

Eiddo

Mae lleihau ein hystad eiddo yn rhan allweddol o'n strategaeth fusnes, gan ganolbwyntio ar greu amgylcheddau gwaith modern ac effeithlon i'n staff. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwnaethom gau sawl eiddo ategol yn Llundain ac, yn 2020, gwnaeth y timau sydd ar ôl gennym yng Nghymru adleoli i Sgwâr Canolog Caerdydd, gan leihau ein hól-troed eiddo yng Nghaerdydd bron 50%. Mae buddsoddiad yn yr ystad yn canolbwyntio ar wneud ein hadeiladau'n fwy cynaliadwy a lleihau'r defnydd o ynni. Rydym yn cyflwyno mentrau i leihau ein hól troed carbon, gan gynnwys goleuadau LED newydd a chynhyrchu pŵer ffotofoltäig lle y bo'n briodol.

Caffael

Rydym yn adolygu ein cyflenwyr gwasanaethau mawr ar contractau allanol yn rheolaidd, gan gynnwys dadansoddi adroddiadau gan asiantaethau credyd masnachol allanol. Arweiniodd Covid a Brexit at heriau sylweddol i'n cyflenwyr a'u cadwyni cyflenwi a'r ffordd roedd y BBC yn defnyddio nwyddau a gwasanaethau. Drwy weithio'n agos gyda'n cyflenwyr ac addasu gweithgareddau cyrchu, gwnaethom lwyddo i sicrhau cyflenwad di-dor wrth barhau i ddangos gwerth am arian. Yn ystod 2020/21, sicrhawyd gwerth £49 miliwn o arbedion wrth brynu nwyddau a gwasanaethau, er gwaethaf newidiadau sylweddol i'n trefniadau contractio a'n hymddygiadau prynu. .

Technoleg

Y flwyddyn hon gwnaethom sicrhau gwerth £43 miliwn o arbedion ar draws y portffolio technoleg. Er i'r pandemig greu pwysau i ehangu opsiynau gweithio o bell, arweiniodd at fanteision amlwg hefyd drwy leihau'r dechnoleg a ddefnyddir, gan gynnwys teleffoni ac argraffu.

Achubwyd ar y cyfle hefyd i resymoli'r rhwydwaith cysylltiedig ymhellach.

Mae gwaith i drawsnewid ein gweithrediadau technoleg yn mynd rhagddo, gan flaenoriaethu cyfleoedd pellach i wella'r ffordd y caiff gofynion technoleg y busnes eu bodloni. Bydd un sefydliad peirianeg yn gweithredu gyda swyddogaethau cyffredin, gan waredu gwasanaethau a ddyblygir a sicrhau bod y BBC ar yr awyr ac ar-lein 24/7. Bydd hefyd yn ein galluogi i barhau i ailflaenoriaethu cyllid a llwythi gwaith er mwyn cefnogi strategaeth ddigidol y BBC, gan ganolbwyntio ar ddatblygu iPlayer, BBC Sounds, BBC News a BBC Sport

Cynaliadwyedd amgylcheddol

Rydym yn ymrwymedig i feithrin dealltwriaeth ein cynulleidfaoedd o'r newid yn yr hinsawdd, gan ddarparu gwybodaeth ddiduedd am ddifrifoldeb y mater ac atebion posibl. Mae gennym rôl flaenllaw yng Nghonsortium a Chyfarwyddiaeth Albert BAFTA. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ragori ar ein targedau ar gyfer Ardystiad Albert, gyda 98% o gynrychiadau yn lleihau eu hallyriadau carbon. Rydym yn cymryd camau pellach i ymdrin â chynlluniau cynaliadwyedd ac amgylcheddol drwy gydyllun ag argymhellion fframwaith y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd. Rydym hefyd yn datblygu strategaeth Sero Net gyda'r targed cyffredinol o allyriadau nwyon tŷ gwyr sero net ar gyfer ein gweithrediadau uniongyrchol erbyn 2030. Ceir rhagor o fanylion am ymrwymadau cynaliadwyedd amgylcheddol ar dudalen 60.

Edrych i'r dyfodol

Mae Covid yn parhau i effeithio ar ein gweithrediadau a disgwylir y bydd mesurau cadw pellter cymdeithasol a rhagofalon diogelwch yn parhau i fod ar waith am sawl mis. Rydym yn parhau i wynebu cystadleuaeth gynyddol yn niwydiant cyfryngau'r DU gan wasanaethau ffrydio ar-lein newydd a rhai presennol. Rydym hefyd yn wynebu heriau cyllido o ganlyniad i gostau talent cynyddol, chwyddiant uchel mewn meysydd fel drama a chomedi, a chystadleuaeth yn maes rhaglennu ffeithiol. Dros y tair blynedd nesaf, ein huchelgais yw ymgymryd â phroses hanfodol a beiddgar i ailwampio'r cynnwys a gynigir gennym mewn cyfuniad sy'n arwain y farchnad o wasanaethau darlledu a gwasanaethau ar alw, gan ganolbwyntio ar raglennu arbennig sy'n diffinio'r brand.

Mae ein sefyllfa ariannol yn ein rhoi mewn sefyllfa dda i ddarparu'r allbynnau y mae ein cynulleidfaoedd yn galw amdanynt. Yn

2021/22, byddwn yn gwario'n sylweddol ar ddigwyddiadau chwaraeon mawr wrth i Gemau Olympaidd Tokyo Haf 2020 a phencapwriaeth pêl-droed Ewrop, a ohiriwyd y llynedd, gael eu cynnal yn amodol ar gyfyngiadau. Byddwn hefyd yn defnyddio ein cronfeydd arian parod wrth gefn drwy fuddsoddi mewn cynnwys o bwys i'n cynulleidfaoedd a thwf masnachol yn y dyfodol er mwyn cynyddu enillion i'r BBC.

Yn unol â setliad cyfredol ffi'r drwydded, cytunodd y Llywodraeth ar gynydd yn ffi'r drwydded yn sgil chwyddiant y Mynegai Pris Defnyddwyr o fis Ebrill 2021. Ynghyd â rhagamcanion ar gyfer twf aelwydydd, cyfraddau treiddio teledu (nifer yr aelwydydd y mae angen trwydded arnynt) a chyfraddau osgoi talu, rydym yn rhagweld y bydd yr incwm o ffi'r drwydded yn debyg i 2020/21. Bydd y trafodaethau â'r Llywodraeth am ffi'r drwydded yn 2022 yn effeithio ar lefelau incwm o fis Ebrill 2022. Ffi'r drwydded yw prif ffynhonnell incwm unigol y BBC o hyd.

O dan gynllun uchelgeisiol i gynyddu incwm masnachol a darparu rhaglenni o ansawdd uchel, bydd gweithgarwch mewnol BBC Children's Productions a BBC Three yn trosglwyddo i BBC Studios, gan ddefnyddio model cynhyrchu masnachol y DU. Mae BBC Studios wedi dod yn gyfrifol am reolaeth fasnachol BBC Global News, gan ddod â'r holl weithgareddau masnachol rhyngwladol ynghyd o dan un arweinyddiaeth. Bydd y strategaeth fasnachol ar y cyd hon yn ein galluogi i gyrraedd cynulleidfaoedd rhyngwladol mewn ffordd fwy cyfannol. Mae prosesau rheoli golygyddol a gweithredu sianel BBC World News wedi symud i weithrediadau newyddion y gwasanaeth cyhoeddus.

Rydym ar y trywydd cywir i sicrhau dros £950 miliwn o arbedion effeithlonrwydd parhaus ym mlwyddyn olaf ein cynllun arbedion. Wrth i ni symud y tu hwnt i'n cynllun arbedion presennol, rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o symleiddio'r sefydliad a bod yn fwy effeithlon.

Mae angen rheoli'r sefyllfa ariannol yn llym o hyd er mwyn cyflawni dibenion y BBC gyda'r cyllid sydd ar gael. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ein huchelgeisiau strategol a sicrhau gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded ar yr un pryd.



Leigh Tavaziva
Prif Swyddog Gweithredu
18 Mehefin 2021

Adroddiad gweithredol

Gwariant Darlledu Cyhoeddus

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae arian ffi'r drwydded wedi'i wario yn ystod y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol, gan gynnwys gofyniad y Siarter i'r BBC adrodd ar wariant ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU fesul genre (fel y'i diffinnir yn unol â safonau'r diwydiant). Mae cyfanswm y gwariant ar gynnwys yn cynrychioli'r gost o wneud cynnwys ar draws holl wasanaethau'r BBC. Mae cyfanswm y gwariant ar wasanaethau yn cynrychioli holl gostau cynhyrchu, cefnogi a chyflwyno cynnwys y BBC i gynulleidfa oedd.

Mae pandemig Covid-19 wedi cael cryn effaith ar wariant yn 2020/21. Bu'n rhaid atal cynrychiadau dros dro am ran fwyaf o hanner cyntaf y flwyddyn o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud. Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, roedd y cyfyngiadau a oedd ar waith i sicrhau bod cynrychiadau'n ddiogel o ran Covid yn parhau i leihau nifer y cynrychiadau y gellid eu cwblhau'n ddiogel. Adlewyrchir hyn yn glir yn y gwariant gostyngedig ar gynnwys o bob genre, yn enwedig ym maes chwaraeon, y celfyddydau a cherddoriaeth, sy'n dibynnu'n drwm ar ddiwyddiadau byw.

Trwydded Weithredu'r World Service

Ymrwymodd y BBC i ddiogelu ei wariant blyneddol ar y World Service am gyfnod o bum mlynedd o 1 Ebrill 2017 er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddarlledwr cyhoeddus o fri yn y dyfodol. Gan gynnwys costau cynnwys, dosbarthu a chymorth cyffredinol, gwariwyd £251 miliwn (2020: £261 miliwn) ar Drwydded Weithredu BBC World Service.

Arian grant y World Service

Yn 2016/17 dyfarnodd y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad grant o £291 miliwn i'r BBC, i'w wario dros y pedair blynedd ddilynol, er mwyn ei helpu i ehangu'r World Service. Mae cyd-drafodaethau â'r Llywodraeth am ei buddsoddiad yn y World Service wedi arwain at estyniad i gyllid y Swyddfa Dramor a Chymanwlad tan ddiwedd mis Mawrth 2022.

Gwariant Darlledu Cyhoeddus

	2021 £m	2020 £m
Newyddion a Materion Cyfoes	310	348
Pfeithiol a Dysgu	216	239
Y Celfyddydau a Cherddoriaeth	30	41
Ffilm a Drama	289	356
Adloniant a Chomedi	182	196
Cynrychiadau Chwaraeon	49	58
Plant	74	83
Gwariant ar gynnwys teledu arall	251	288
Gwasanaethau teledu fesul genre	1,401	1,609
Radio	474	494
BBC Ar-lein a Red Button	236	238
Gwariant ar gynnwys gwasanaethau fesul llwyfan	2,111	2,341
Cerddorfeidd a grwpiau perfformio	23	29
S4C (gwariant ar y gwasanaeth)	21	22
Gwariant ar ddatblygu	61	70
Grant BBC World Service	88	92
Trwydded Weithredu BBC World Service*	214	223
Gwariant arall ar y gwasanaeth	407	436
Cyfanswm gwariant ar gynnwys	2,518	2,777
Costau dosbarthu	191	192
Cynnwys a chymorth dosbarthu	404	436
Cymorth cyffredinol	161	173
Cyfanswm gwariant ar y gwasanaeth	3,274	3,578
Costau casglu ffi'r drwydded	136	119
Rhwymedigaethau eraill (S4C a chyflwyno band eang)	75	83
Monitro	4	5
Taliad gostwng diffyg pensiwn Grŵp PSB	63	22
Costau PSB i gynhyrchu incwm heblaw am ffi'r drwydded	159	205
Costau ailstrwythuro	102	37
Cyfanswm gwariant Grŵp PSB	3,813	4,049
Ailddosbarthu prydlesau**	(54)	(54)
Gwariant Grŵp PSB***	3,759	3,995

* Mae Trwydded Weithredu BBC World Service yn cynnwys gwariant dosbarthu o £33 miliwn (2020 £31 miliwn)

** Er mwyn adlewyrchu cost lawn gwariant Grŵp PSB fesul gwasanaeth, caiff llog prydles gyllidol ei gynnwys, er nad yw wedi'i gynnwys yng ngwariant gweithredu'r Grŵp

*** Mae ffigur 2020 yn cynnwys cost yr ymgynghoriad dros 75 oed, sef £1 5 miliwn

Adroddiad gweithredol

Ein pobl

Er mwyn cyflawni glasbrint y Cyfarwyddwr Cyffredinol am BBC modern a chynhwysol, sy'n greadigol ac yn effeithlon, mae angen gweithlu a gaiff ei ysbrydoli, ei annog a'i alluogi gan ei arweinwyr, ac sy'n cynrychioli ei gynulleidfa. Y flwyddyn hon, wrth fynd i'r afael â'r pandemig a chyflawni ein nodau trawsnewidiol, rydym wedi gwneud cryn dipyn o gynnwys o ran datblygu'r gweithlu hwnnw a chreu BBC modern.

Her Covid

Dros y 12 mis diwethaf, gwelwyd pa mor werthfawr yw'r BBC fel prif ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus y byd, ac mae ein staff wedi dangos gwydnwch a chreadigrwydd drwy'r cyfan. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi pob agwedd ar fywydau gwaith pawb yn ystod y pandemig, a blaenoriaethu llesiant a diogelwch yn anad dim.

Cymerwyd camau ystywyth a hyblyg o'r cychwyn cyntaf ac, yn ystod misoedd cyntaf y cyfyngiadau symud, gwnaethom gyflwyno sawl newid polisi mawr – yn cwmpasu meysydd fel treuliau, absenoldeb eithriadol, gweithio hyblyg, ymlyniadau a rheoli iechyd a phresenoldeb – er mwyn ateb heriau Covid-19. Ym mhob achos, gwnaethom weithio gyda'r undebau mewn ffordd agored ac effeithiol.

Mae ein Canolfan Gwasanaethau Adnoddau Dynol wedi darparu lefel o gymorth nas gwelwyd o'r blaen i staff, gan ymateb i fwy na 72,000 o ymholiadau yn 2020, gyda'r mwyafrif helaeth yn cael eu trin o bell.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi darparu cryn dipyn yn fwy o gymorth ym maes llesiant, drwy ein Gwasanaeth Meddyg Teulu o Bell newydd a gwell adnoddau llesiant ar-lein, gan gynnwys Casgliad Iechyd Meddwl BBC Academy.

Yn 2020, cafodd ein Rhaglen Cynorthwyo Cyflogaion 4,600 o alwadau gan staff, a cheisio cymorth i ddelio â gorbryder oedd y rheswm dros wneud y mwyafrif o'r galwadau hynny.

Gwnaeth ein tîm dysgu a datblygu, BBC Academy, ddatblygu ffyrdd arloesol o ysbrydoli staff a gweithwyr llawrydd. Fel rhan o'r fenter Lockdown Learning, cyflwynwyd amrywiaeth o weminarau, gan helpu pobl i ddysgu a datblygu wrth weithio gartref, a chyrrhaeddwyd dros 3,000 o bobl. Rhoddodd y tîm datblygu arweinyddiaeth gymorth ychwanegol i uwch-arweinwyr, drwy gynnal sesiynau pwrpasol a darparu hyfforddiant gweithredol ar-lein.

Yn ogystal â gallu cael gafael ar adnoddau BBC Academy, rydym wedi cefnogi'r gymuned lawrydd mewn sawl ffordd arall yn ystod y pandemig, gyda miloedd yn defnyddio BBC Talent Cloud, sef llwyfan a chronfa ddata sy'n helpu gweithwyr llawrydd i ddod o hyd i waith ac yn darparu arweiniad ac adnoddau eraill.

Bu modd i ni hefyd roi cymorth ariannol i weithwyr llawrydd, naill ai drwy daliadau uniongyrchol am waith disgwylidig nas cafwyd yn ystod misoedd cyntaf y cyfyngiadau symud neu drwy ein cronfa caledi ar gyfer Covid, gan ddarparu benthyciad a fyddai'n cael ei ad-dalu drwy waith yn y dyfodol.

Mae'r BBC yn gweithredu mewn mwy na 70 o wledydd ac mae'r pandemig wedi effeithio ar bob gwlad mewn ffyrdd gwahanol ac ar adegau gwahanol. Rydym wedi cynnig cymorth ac arweiniad i staff ledled y byd, gan gynnwys cymorth ychwanegol o ran llesiant, sesiynau gwybodaeth, benthyciadau ar gyfer cyfarpar swyddfa, absenoldeb eithriadol er mwyn cyflawni cyfrifoldebau gofalu mewn argyfwng, ac absenoldeb salwch â thâl ychwanegol. Hefyd, rydym wedi ehangu ein darpariaethau yswiriant meddygol er mwyn cefnogi'r rhai y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Mae gweithio o bell wedi bod yn her i rai o'n staff, yn enwedig cyflogaion iau sy'n byw gyda phobl eraill nad ydynt yn perthyn iddynt. Rydym wedi darparu cymorth logistaidd a thechnegol i bobl sydd wedi gweithio gartref drwy gydol y flwyddyn.

Wrth i fwy nag 85% ohonom weithio o bell yn ystod y pandemig, bu ein dull o gyfathrebu yn allweddol er mwyn sicrhau nad oedd cyflogaion yn teimlo'n ynysig.

Gwnaethom greu ffyrdd mwy rheolaidd, mwy agored a llai ffurfiol i uwch-arweinwyr a staff drafod â'i gilydd yn ystod y pandemig, a chlywed am bolisiau newydd a chymorth ychwanegol. Roedd hyn yn cynnwys yr alwad Stay Connected ar gyfer pob aelod o staff, lle byddai mwy na 10,000 o bobl yn cymryd rhan yn aml, a'r galwadau gan Arweinwyr Tîm bob pythefnos. Mae ein brand Ariel hefyd wedi cael ei ail-lansio fel ein ffynhonnell newyddion fewnol ganolog.

Rydym wedi cynnal dau arolwg gwaith a llesiant yn ystod y flwyddyn er mwyn deall yn well sut mae ein staff yn ymdopi a'r cymorth sydd ei angen arnynt.

Cynyddodd ein Mynegai Ymgysylltu yn y BBC 10% i 67% yn 2020. Yn yr arolygon, dywedodd 77% o'n staff eu bod yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u cydweithwyr er gwaethaf heriau Covid-19, a dywedodd 73% fod ganddynt y cymorth roedd ei angen arnynt. Nododd dros ddwy ran o dair o'r cyflogaion eu bod yn teimlo eu bod yn gallu sicrhau cydbwysedd bywyd a gwaith effeithiol er gwaethaf yr her o weithio o bell, ysgol gartref a chyfrifoldebau gofalu.

Ar ddechrau'r cyfyngiadau symud gwnaethom gytuno â'r cyd-undebau na fyddem yn cynnal y trafodaethau blynyddol ynghylch cyflogau. Wynebodd y BBC bwysau ariannol sylweddol yn sgil y pandemig (gostyngiad yn y refeniw masnachol a ragfynegwyd, oedi wrth gasglu ffi'r drwydded gan bobl dros 75 oed, ac effeithiau Covid ar gostau cynhyrchu). O

ganlyniad, cynigiwyd rhewi cyflogau'r staff am flwyddyn, a dderbyniwyd o ystyried amgylchiadau eithriadol y pandemig.

Ar ddechrau'r cyfyngiadau symud, sylweddolwyd bod gwersi posibl i'w dysgu, ynghyd â buddiannau i'w mwynhau, yn sgil y ffyrdd newydd o weithio y bu'n rhaid eu mabwysiadu. Er gwaethaf y cyfyngiadau niferus, llwyddwyd i ddiogelu cryn dipyn o'n hallbwn a daeth yn glir yn gyflym y gellir ystyried gweithio y tu hwnt i'r swyddfa draddodiadol yn rhan annatod o gynlluniau'r BBC i drawsnewid y gweithlu a'r gweithle yn y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dechreuwyd datblygu gweledigaeth hirdymor ar gyfer arferion gwaith symlach a hyblyg fel rhan o BBC modern a mwy darbodus. Disgrifir hynt y gwaith hwnnw a'r hyn y mae'n ei olygu i'n pobl yn yr adran nesaf.

Sefydliad modern ar ei newydd wedd

Y flwyddyn hon rydym wedi sicrhau bod ein blaenoriaethau strategol o ran ein pobl yn cyd-fynd ag uchelgais y Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd i greu sefydliad modern ar ei newydd wedd, sydd â gweithlu amrywiol a gwirioneddol gynhwysol. Mae gynnwm dair blaenoriaeth i gefnogi'r uchelgais honno – creu diwylliant cynhwysol, ad-drefnu'r BBC a chreu gwasanaeth adnoddau dynol o'r radd flaenaf.

Diwylliant cynhwysol

Ym mis Ionawr 2021, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Amrywiaeth a Chynhwysiant tair blynedd (ar gael yn: bbc.co.uk/diversity/). Bydd y cynllun hwn yn creu diwylliant cynhwysol ac yn cefnogi ein hymrwymiad i greu BBC 50:20:12. Mae hynny'n golygu sefydliad lle ceir cydbwysedd rhwng y rhywiâu, gydag o leiaf 20% o'r staff yn bobl Dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, ac o leiaf 12% o'r staff yn bobl anabl. Mae hefyd yn ein hymrwymio i gynyddu nifer y staff LGBTQ+ a nifer y staff o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol mwy amrywiol.

Cafodd y cynllun ei lywio gan ddadansoddiad trylwyr o ddiwylliant y BBC drwy broses ymgynghori gynhwysfawr, gan ymgysylltu â phobl o'r bôn i'r brig, yn ogystal â rhanddeiliaid allanol.

Er mwyn creu sefydliad lle mae pobl yn teimlo y gallant wneud eu gwaith gorau a bodloni eu dyheadau gyrfael, rydym wedi cyflwyno dull newydd o ymdrin â pherfformiad a datblygiad. Lansiwyd y fframwaith newydd, myConversation, ym mis Chwefror. Noda ymrwymiad y bydd pob cyflogai yn cynnal dwy sgwrs â ffocws â'i arweinydd tîm ar adegau penodol o'r flwyddyn, er mwyn trafod nodau, adborth a datblygiad gyrfaa.

Hefyd, rydym wedi cyflwyno Mynegai Uwch-arweinwyr, sef fframwaith i fesur

Adroddiad gweithredol Ein pobl *parhad*

perfformiad arweinwyr a chynorthwyo uwch-arweinwyr i ddatblygu a gwella.

Mae'r Mynegai yn mesur lefelau ymgysylltu, amrywiaeth a chynhwysiant, ynghyd ag ansawdd sgysiaid ynghylch perfformiad a datblygiad, sy'n ein galluogi i werthfawrogi a datblygu gallu arweinwyr.

Hefyd, rydym yn llunio rhaglen datblygu gyrfa fwy cynhwysfawr i bob aelod o staff. Mae ein cynlluniau yn canolbwyntio ar dri maes – cefnogi unigolion, cefnogi arweinwyr tîm, a chreu cyfleoedd mwy trawsadrannol a sicrhau mwy o symudedd.

Cafodd y fenter drawsadrannol newydd gyntaf, sef rhaglen 80/20, ei threialu ym mis Tachwedd. Mae hyn yn galluogi staff i wneud cais i weithio 20% o'u hamser mewn maes arall er mwyn rhannu a thyfu eu sgiliau. Gwnaeth dros 400 o gyflogeion gais am un o'r 42 o leoliadau peilot cychwynnol.

Mae'r holl fentrau hyn yn gofyn am gael gafael ar adnoddau dysgu helaeth ac ysbrydoledig, sy'n rhywbeth y gallwn ei sicrhau drwy BBC Academy.

Y flwyddyn hon gwnaeth BBC Academy lansio ei llwyfan profiad dysgu newydd – learn@BBC – gan ddwyn ynghyd gynnwys o wahanol ffynonellau ac annog defnyddwyr i gymryd rheolaeth o'u taith ddysgu eu hunain. Mae BBC Academy wedi cyrraedd ei tharged cychwynnol, sef cyfanswm o 30% o achosion o fewngofnodi staff unigryw i learn@BBC.

Yn y flwyddyn hon hefyd, mae BBC Academy wedi sefydlu'r brand Learning Unlocked, sef gweminar sgiliau barhaol a gynhelir ddwywaith yr wythnos i staff a gweithwyr llawrydd, ac mae wedi creu Safeguarding Impartiality, sef rhaglen hyfforddi sy'n mynd i'r afael ag un o bedair prif flaenoriaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Mae ein holl waith diwyllianol a datblygiadol y flwyddyn hon yn seiliedig ar gyfleu'n glir yr hyn y mae gweithio yn y BBC yn ei olygu – beth i'w ddisgwyl gan y sefydliad a beth mae'r BBC yn ei ddisgwyl yn ôl.

Ad-drefnu'r sefydliad

Mae'r rhaglen newid diwyllianol a ddisgrifir uchod wedi'i hategu gan broses drawsnewid radical ym mhob un o is-adrannau'r BBC, gan gyflwyno mentrau eofn a hirsefydledig ac arloesi strwythurol, er mwyn creu sefydliad symlach a mwy darbodus, a sicrhau bod pob maes yn cyrraedd targedau 50:20:12.

Ym mis Mai 2020, gwnaethom lansio rhaglen diswyddiadau gwirfoddol, gyda'r nod o leihau'r pwysau ariannol ar y BBC yn sgil y pandemig a hefyd roi hwb i'r broses drawsnewid honno.

Pan oedd y rhaglen ar waith, gwnaethom ddarparu tua 2,200 o ddyfynbrisiau unigol, a gwnaethom gyngori 1,500 o gydweithwyr yn uniongyrchol.

Mae effaith gyfunol y rhaglen diswyddiadau gwirfoddol a rhaglenni newid sylweddol yn ein his-adrannau Newyddion a'r Gwledydd wedi lleihau nifer y staff cyfwerth ag amser llawn gwasanaeth cyhoeddus 1,239 erbyn 31 Mawrth 2021. Mae'n fwriad gennym leihau niferoedd staff yn sylweddol eto dros y pum mlynedd nesaf.

Mae talent newydd yn ganolog i weledigaeth pob is-adran, sy'n cynnwys y rhai sy'n ymuno â'r BBC ar ddechrau eu gyrfa a'r rhai sydd am gamu i rolau newydd, uwch. Y flwyddyn hon gwnaethom gyhoeddi cynnydd yn nifer y prentisiaid o tua 290, sef y ffigur presennol, i 1,000 erbyn 2025.

Gwneir yr ymrwymiad hwn mewn perthynas â newydd-ddyfodiaid a phrentisiaethau staff, a chaiff pobl flas ar y BBC i gyd. Byddwn yn sicrhau bod pob prentis sy'n cyrraedd y nod yn cael swydd barhaol neu'n gymwys i weithio fel gweithiwr llawrydd cymwysedig.

Ym mis Mawrth 2021, gyda rhaglen Ar Draws y DU, gwnaethom gyhoeddi cynlluniau pellgyrhaeddol i drawsnewid y BBC yn sefydliad o sawl canolfan greadigol bwerus. O ystyried graddau'r symud disgwylidig, a heriau parhaus cyfyngiadau Covid, rydym wedi dylunio system ddynodedig o gymorth i gyflogeion sydd angen adleoli.

Adnoddau dynol o'r radd flaenaf

Mae cyflawni ein huchelgeisiau i drawsnewid y gweithlu hefyd yn dibynnu ar wasanaeth adnoddau dynol ystwyth, rhagweithiol a hawdd ei ddefnyddio. Y flwyddyn hon, rydym wedi paratoi'r ffordd i ateb yr heriau hyn, gan ddiwygio a symleiddio adnoddau dynol ymhellach a symleiddio ein prosesau llywodraethu a chymeradwyo.

Mae ein record o ran datrys achosion yn ymwneud â chyflogau yn parhau i wella, ac rydym bellach wedi cau cyfanswm o 1,331 o achosion o'r fath ers 2017; dim ond saith achos ffurfiol yn ymwneud â chyflogau a oedd yn dal i fynd rhagddynt ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Cafodd y cynnydd hwn ei gydnabod yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020 gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyflogau yn y BBC.

Croesawn y ffaith na wnaeth y Comisiwn unrhyw ganfyddiadau anghyfreithlon yn erbyn y BBC a'i fod wedi cydnabod y bu gwelliannau sylweddol i arferion cyflog yn y BBC dros y blynyddoedd diwethaf. Hefyd, cydnabyddwn fod yn rhaid i ni barhau i arwain y ffordd o ran tryloywder a thegwch ym maes cyflogau, a bod meysydd i'w gwella. Gwnaethom dderbyn holl argymhellion yr adroddiad a pharhawn i gyflawni ein rhaglen diwygio cyflogau, gan gynnwys gwell hyfforddiant, adnoddau newydd i helpu i wneud penderfyniadau am gyflogau, a gwelliannau i systemau cadw cofnodion.

Mae ein Canolfan Gwasanaeth wedi bod yn wych wrth ddelio â lefel gyson uchel o ymholiadau, sef 3,400 yr wythnos ar gyfartaledd, ac mae'r gyfradd datrysiad uniongyrchol yn 95% neu'n uwch. Yn 2020, gwnaeth ein tîm gweithlu wrth gefn gynorthwyo tua 12,000 o weithwyr llawrydd unigol gyda thros 100,000 o ymgysylltiadau.

Rydym wedi dylunio model gweithredu newydd, gan nodi lle y gallwn symleiddio a dileu dyblygu â glasbrint sy'n egluro pob cam o gymorth adnoddau dynol, o'r man cychwyn i gyngor arbenigol a phartneriaethau prosiect strategol.

Rydym yn trawsnewid ein dull recriwtio, sy'n sbardun allweddol i'n helpu i foderneiddio a sicrhau amrywiaeth, ac rydym yn cryfhau ac yn symleiddio ein dull adleoli, a'r gwaith o gynllunio talent ac olyniaeth, gan ganolbwyntio ar yr angen i ddenu a chadw'r dalent fewnol ac allanol orau.

Mae'r BBC a'i weithlu yn hanfodol i lwyddiant creadigol y DU. Bydd y

Hawliau dynol, caethwasiaeth fodern a gwrth-lwgrwobrwo

Rydym yn ymrwymedig i barchu hawliau dynol y rhai sy'n gweithio i ni neu gyda ni. Mae ein Telerau Masnach yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyflenwyr rydym yn cydweithio â nhw, ac unrhyw isgontractwyr a ddefnyddir ganddynt, ddilyn codau ymarfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Hefyd, mae'n ofynnol i gyflenwyr ac isgontractwyr ddilyn ein Cod Polisi Moesegol. Gellir gweld y cod llawn yma: downloads.bbc.co.uk/supplying/pdf/BBC_Ethical_Policy.pdf

Rydym yn cydnabod yr angen i flaenoriaethu'r gwaith o fynd i'r afael â'r achosion mwyaf difrifol o ymyrryd â hawliau dynol, yn cynnwys caethwasiaeth fodern. Rydym yn glynu wrth Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac yn cyhoeddi ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn unol â hynny. Mae'r datganiad llawn ar gael yn: downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/reports/modern-slavery-statement-2021.pdf

Rydym wedi ymrwymo i bolisi dim goddefgarwch mewn perthynas â llwgrwobrwo a llygredd. Rydym yn disgwyl i bawb sy'n cynrychioli'r BBC ddilyn Cod Ymddygiad Gwrth-lwgrwobrwo y BBC. Gellir gweld y cod llawn yma: downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/policiesandguidelines/pdf/bbc_anti_bribery.pdf

diwygiadau strwythurol rydym wedi eu cyflwyno, ac y byddwn yn parhau i'w cyflwyno, yn ein gwneud yn sefydliad mwy darbodus, syml, teg, amrywiol a chynhwysol. Mae'r cymorth a roddwyd i staff yn ystod y pandemig wedi llywio'r ffordd y byddwn yn gweithio yn y dyfodol, ac wedi ein helpu i wneud y BBC yn lle gwell fyth i weithio ynddo, a darparu hyd yn oed well gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded.

Tablau data

Ar y tudalennau canlynol, rydym yn rhoi rhagor o ddata i ategu'r wybodaeth yn yr adran hon.

Amrywiaeth a chynhwysiant: pob aelod o staff ac arweinwyr (ar 31 Mawrth 2021)

Gweithlu	31 Mawrth 2021	Targed
Menywod (pob aelod o staff)	48.6%	50%
Menywod (arweinwyr)	46.1%	50%
Anabledd (pob aelod o staff)	9.0%	12%
Anabledd (arweinwyr)	8.2%	12%
BAME (pob aelod o staff)	15.9%	20%
BAME (arweinwyr)	12.6%	20%

Cyfanswm nifer y staff cyfartalog 2020/21 (cyfwerth ag amser llawn)

	2021	2020
UK Public Service Broadcasting	18,977	19,572
BBC Studios	2,723	2,672
Busnesau masnachol eraill	519	505
Cyfanswm y Grŵp	22,219	22,749

O fewn y niferoedd cyfartalog hyn, mae 2,998 (2020 3,085) o gyflogeion rhan-amser wedi'u cynnwys ar sail cyfwerth ag amser llawn o 1,923 (2020 1,971). Yn ogystal â'r uchod, cyflogodd y BBC nifer cyfartalog cyfwerth ag amser llawn o 1,067 (2020 1,372) o bobl ar gontractau achlysurol.

Fframwaith Llwybr Gyrfa

Caiff rolau cyflogeion eu mapio ar draws 27 o deuluoedd o swyddi a saith band gyrfa.

Cyfwerth ag amser llawn (CALI)/Nifer y staff yn ôl Band CPF Grŵp y BBC (ac eithrio Grwpiau Perfformio, Hyfforddeion a Phrentisiaid a Rhai Nad Ydynt yn CPF).

Band CPF	CALI		Nifer y staff	
	CALI	CALI (%)	Nifer y staff	Nifer y staff (%)
A	274	1%	349	2%
B	2,165	12%	2,340	12%
C	6,175	33%	6,628	34%
D	6,382	35%	6,778	34%
E	2,115	11%	2,224	11%
F	849	5%	870	4%
FP	98	1%	109	1%
SL	319	2%	321	2%
Cyfanswm	18,378	100%	19,619	100%

Nifer yr uwch-arweinwyr yn y DU yn ôl band cyflog (PSB yn unig)

Band cyflog	2020/21 Gwirioneddol	2019/20 Gwirioneddol
£50,000 – £99,999	42	44
£100,000 – £149,999	100	103
£150,000 – £199,999	70	73
£200,000 – £249,999	22	23
£250,000 – £299,999	4	3
£300,000 – £349,999	1	5
£350,000+	2	2
Cyfanswm*	241	253

* Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys aelodau o Fwrdd y BBC na chyfarwyddwyr pensiwn.

Datganiad Gwybodaeth Adroddiadau Anariannol

Rydym yn cydnabod gofynion adrodd anariannol Deddf Cwmnïau 2006 ac rydym wedi datgelu gwybodaeth gysylltiedig berthnasol drwy gydol yr adroddiad strategol. Er hwylustod, gellir dod o hyd i wybodaeth am y pum mater a gwmpesir gan y rheoliad ar y tudalennau canlynol: cynaliadwyedd amgylcheddol (tudalen 60); ein pobl (tudalennau 51 i 55); hawliau dynol, caethwasiaeth fodern, gwrth-lwgrwobrwo (tudalen 52). Hefyd, ceir rhagor o wybodaeth am ein model busnes (tudalen 73), ein prif risgiau (tudalen 100) a'n perfformiad anariannol (drwy gydol yr adroddiad strategol, tudalennau 10 i 71).

Sgiliau newydd a chysylltiadau newydd

Profiad 80:20

Mae 80:20 yn rhoi'r cyfle i gyflogeion gamu ymlaen yn eu gyrfa a dysgu sgiliau newydd drwy ymuno â rhan arall o'r sefydliad am 20% o'u hwythnos waith. Hannah Billingsley-Dadd, peiriannydd meddalwedd, oedd un o'r cyntaf i fanteisio ar y cynllun newydd, gan weithio fel newyddiadurwr ar-lein.

"Fel datblygwr ar yr ap News, roeddwn i am wneud lleoliad 80:20 yn nhîm Newyddion Digidol Cymru er mwyn dysgu sut y caiff cynnwys ei greu, a'r camau y mae timau golygyddol yn eu cymryd i gynnwys cynulleidfaoedd. Cefais i'r cyfle i gynnig syniadau ac ysgrifennu erthyglau, cyfnewid â'r cyhoedd a phostio ar y cyfryngau cymdeithasol, a nawr mae gen i well dealltwriaeth o lif gwaith golygyddion a'r holl agweddau gwahanol ar fod yn newyddiadurwr yn y BBC."



Adroddiad gweithredol

Ein pobl *parhad*

Gwariant ar rolau ar yr awyr*

	2020/21		2019/20		Amrywiad £b
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer	
Llai na £40,000	33,503	21,538	40,750	26,993	(7,247)
£40,000 – £100,000	64,739	1,092	69,445	1,139	(4,707)
£100,000 – £150,000	12,371	100	12,731	103	(360)
£150,000 – £500,000	17,045	70	17,908	73	(863)
£500,000 – £1m	-	-	726	1	(726)
£1m – £5m	2,497	2	3,113	2	(615)
Cyfanswm	130,155	22,802	144,673	28,311	(14,518)

* Ystyrir bod gan unigolyn rôl ar yr awyr os oes ganddo gyfrifoldebau ar yr awyr sylweddol (h y 80% neu fwy) Yn ystod 2020/21, roedd gwariant ar rolau ar yr awyr yn cynrychioli 9% o gyfanswm y gwariant ar gynnwys creadigol mewnol (2019/20 10%)

Taliadau diswyddo

Ein polisi o ran taliadau dileu swyddi yw un mis o gyflog am bob blwyddyn o wasanaeth hyd at uchafswm o 12 mis o gyflog (uchafswm o 24 mis o gyflog i'r rhai a ymunodd cyn mis Ionawr 2013). Rhaid bod cyflogaeth wedi'u cyflogi'n barhaus am ddwy flynedd neu fwy pan ddaw eu swydd i ben er mwyn bod yn gymwys i gael taliad. Rydym wedi cynnal cap o £150,000 ar daliadau dileu swyddi a diswyddo. Lle telir taliadau dileu swyddi, caiff rhybudd ei roi. Os bydd unigolion am adael yn gynt na diwedd eu cyfnod rhybudd rhaid iddynt idlo hawl i'r cyfnod rhybudd sy'n weddill ac ni chânt dâl amdano.

Yn 2020/21, gwnaethom dalu dau daliad yn lle rhybudd (PILON) – un i aelod o staff nad oedd (oherwydd ei iechyd a phandemig Covid-19) yn gallu teithio i ailddechrau ei waith yn y DU a daeth ei gyflogaeth i ben drwy gytundeb; a'r llall lle gwnaethom dalu tâl dileu swydd a PILON lle, yn dilyn trosglwyddo ymgymeriad i'r BBC, na wnaeth yr unigolyn adleoli a gadawodd am resymau dileu swydd.

Band taliadau	2020/21		2019/20	
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer
O dan £10,000	364	56	119	19
£10,000 – £50,000	10,381	336	2,928	103
£50,000 – £75,000	15,310	245	3,949	63
£75,000 – £100,000	21,807	251	5,284	61
£100,000 – £150,000	26,649	218	11,159	85
Dros £150,000	0	0	0	0
Cyfanswm	74,511	1106	23,439	331

Dysgu a datblygu BBC Academy a BBC Studios

Cyrhaeddiad	2020/21
Cyfanswm y cyrsiau hyfforddi a gwblhawyd*	64,593
Staff y BBC a gwblhaodd un cwrs neu fwy	88%
Cyfanswm oriau dysgu a datblygu	116,807
Nifer y diwrnodau dysgu a datblygu fesul CALI	0.88
Gwerth am arian	2020/21
Gwariant ar gyflwyno hyfforddiant (£m)**	£10.4
Cost dysgu a datblygu fesul CALI***	£548

Mae data hyfforddiant a ffigurau CALI ar gyfer y BBC cyfan, yn cynnwys PSB, BBC Studios ac is-gwmnïau masnachol eraill

* Cyfanswm cyrsiau unigol wyneb yn wyneb, ystafell ddosbarth rithwir ac ar-lein a gwblhawyd Yn 2020/21, oherwydd Covid-19, cwblhawyd y mwyafrif ar ffurf ystafell ddosbarth rithwir neu ar-lein

** Cyfanswm gwariant BBC Academy a BBC Studios ar gyflwyno hyfforddiant ac eithrio prosiectau mawr

*** Cyfanswm gwariant BBC Academy a BBC Studios ar gyflwyno hyfforddiant wedi'i rannu â chyfanswm CALI

Darperir gwybodaeth yn unol â Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 – atodlen 2 (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'n hundebau llafur cydnabyddedig yn ystod y 12 mis diwethaf, gan fynd i'r afael â heriau'r pandemig a'r rhaglenni trawsnewidiol strategol a nodir yn yr adran hon. Rydym yn parhau i werthfawrogi ac adeiladu ar ein cydberthnasau cadarnhaol ac adeiladol â'n hundebau. Ni fu unrhyw streiciau yn ystod 2020/21.

Fel rhan o Reoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017, mae bellach yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi gwybodaeth am amser cyfleuster a gymerir gan swyddogion undebau llafur dros gyfnod o 12 mis. (Mae amser cyfleuster yn cyfeirio at yr amser a gymerir i'n hundebau llafur cydnabyddedig gynrychioli aelodau yn unigol ac ar y cyd mewn amrywiaeth o faterion ym mhob rhan o'r BBC.) Nodir hyn yn y tabl ar y dudalen ganlynol.

Swyddogion undeb perthnasol

	2020/21
Nifer y swyddogion undeb	328 (CALI: 320)
Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster	Nifer y cyflogeion
0%	0
1% – 50%	321
51% – 99%	0
100%	7*
Cyfanswm cost amser cyfleuster	£730,011
Cyfanswm bil cyflogau cymwys PSB	£1,249m
Canran cyfanswm y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster	0.06%
Gweithgareddau undeb llafur â thâl	
Amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl	20%

* Roedd saith cynrychiolydd undeb amser llawn (5 5 CALI)

Nifer y cwynion mewnol

Cwynion a wnaed ac yr ymchwiliwyd iddynt

	2020/21	2019/20
Bwlio ac aflonyddu	62 o achosion ffurfiol	92 o achosion ffurfiol
Cwynion a wnaed naill ai'n uniongyrchol i'r adran Adnoddau Dynol, drwy gyflwyno cwyn, neu drwy'r llinell gymorth bwlio ac aflonyddu gyfrinachol	<ul style="list-style-type: none"> — 4 yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol — 58 yn ymwneud â bwlio ac aflonyddu — 48 wedi'u cau — 9 yn mynd rhagddo — 5 wedi'u tynnu'n ôl Average time to close case 84 days	<ul style="list-style-type: none"> — 10 yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol — 82 yn ymwneud â bwlio ac aflonyddu — 65 wedi'u cau — 16 yn mynd rhagddynt — 11 wedi'u tynnu'n ôl Amser cyfartalog i gau achos 77 diwrnod
Achosion o chwythu'r chwiban	Cyfanswm o 22 o achosion (yn cwmpasu amrywiaeth o faterion yn cynnwys diogelwch, lladrad a thwyll):	Cyfanswm o 39 o achosion (yn cwmpasu amrywiaeth o faterion yn cynnwys diogelwch, lladrad a thwyll)
Daw honiadau o chwythu'r chwiban i law naill ai drwy Expolink, sy'n rheoli llinell gymorth chwythu'r chwiban annibynnol ar ein rhan, drwy uwch-reolwyr yn cynnwys cyfarwyddwr anweithredol penodedig, neu'n uniongyrchol i'r timau Ymchwiliadau	<ul style="list-style-type: none"> — 5 wedi'u cadarnhau — 16 heb eu cefnogi — 1 yn mynd rhagddo 	<ul style="list-style-type: none"> — 5 wedi'u cadarnhau — 21 heb eu cefnogi — 13 yn mynd rhagddynt

Codi pryder yn y BBC

Eir i'r afael â'r mwyafrif o'r cwynion a godir gan staff drwy Bolisi Achwyn y BBC neu Bolisi Bwlio ac Aflonyddu'r BBC.

Lle y bo modd, dylid codi unrhyw bryderon gyda rheolwyr llinell yn uniongyrchol, ond gall Partner Busnes Adnoddau Dynol hefyd ddarparu cymorth uniongyrchol i fynd â phethau ymhellach, neu gellir defnyddio'r llinell gymorth Bwlio ac Aflonyddu, a llinell gymorth a gwefan Care First.

Chwythu'r chwiban – gall honiadau chwythu'r chwiban, a elwir yn 'Ddatgeliadau a Ddiogelir' hefyd, gael eu gwneud gan unrhyw un â phryder gwirioneddol am gamymddwyn

difrifol yn y BBC, lle y credir ei bod er lles y cyhoedd i'w ddatgelu.

Llywodraethir chwythu'r chwiban gan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd ac mae'n cwmpasu materion sy'n perthyn i'r pum maes penodol canlynol:

- Trosedd(au)
- Methiant i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol
- Anghyfiawnder
- Peryglu iechyd a diogelwch unigolyn
- Niweidio'r amgylchedd

Mae Polisi Datgeliadau a Ddiogelir (Chwythu'r Chwiban) y BBC yn galluogi pobl i roi gwybod am honiadau difrifol yn ddiennw, mewn ffordd briodol ac effeithiol, gan gynnwys:

- Drwy'r Tîm Ymchwiliadau Corfforaethol

- Drwy'r Cyfarwyddwr Diogelwch a Chydnerthedd
- Drwy'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd Is-adrannol
- Drwy ein darparwr trydydd parti annibynnol allanol, Navex Global, naill ai ar-lein neu drwy ei llinell adrodd ddynodedig sydd ar gael mewn 43 o ieithoedd gwahanol.

Os bydd honiad yn ymwneud ag aelod o Fwrdd y BBC neu'r Pwyllgor Gweithredol, gall hefyd gael ei wneud yn uniongyrchol i'r cyfarwyddwr anweithredol enwebedig sy'n gyfrifol am y maes hwn, sef Nicholas Serota.

Os bydd pryder yn ymwneud ag achos posibl o dorri Polisi Golygyddol y BBC, dylid rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol yn uniongyrchol.

Adroddiad gweithredol Adroddiad ar y Bwlch Cyflog yn y BBC 2020/21

Cyflwyniad

Yn 2017 gwnaethom gyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn y BBC, gan nodi'r gwahaniaeth yng nghyflog yr awr dynion a menywod ym mhob rhan o'r BBC. Ers hynny rydym wedi gweld ein bwlch cyflog canolrif yn lleihau bob blwyddyn, a bu lleihad sylweddol arall y flwyddyn hon o 6.2% i 5.2%.

Bwlch cyflog canolrif yn y BBC

	Cymedr	Canolrif
2021	5.0%	5.2%
2020	6.3%	6.2%
2019	6.8%	6.7%
2018	8.4%	7.6%
2017	10.7%	9.3%

Y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom gyhoeddi ein data ar y rhywiau o fewn fframwaith Adroddiad ehangach ar y Bwlch Cyflog, a gwnaethom hefyd nodi'r bwlch cyflog ar gyfer staff du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, staff anabl, staff LGBTQ+ a staff rhan-amser. Rydym wedi parhau i gyhoeddi'r ffigurau hynny y flwyddyn hon, ynghyd â data ychwanegol ar fylchau cyflog fesul band gyrfa a lefelau cyflog (wedi'u rhannu'n bedwar chwarter) ar gyfer pob nodwedd.

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y BBC yn sylweddol is na'r bwlch canolrif cyfartalog cenedlaethol, sef 15.5%, ac rydym yn cymharu'n ffafriol iawn hefyd ag eraill yn niwydiant y cyfryngau.

Mae ein bwlch cyflog ar gyfer pobl dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn parhau'n agos at 0%.

Y flwyddyn hon rydym wedi cyhoeddi targedau uchelgeisiol i greu BBC 50:20:12 o fewn y pum mlynedd nesaf – sefydliad lle ceir cydbwysedd rhwng y rhywiau, gydag o leiaf 20% o'r staff yn bobl Dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, ac o leiaf 12% o'r staff yn bobl anabl. Mae'r strategaeth hon hefyd yn ein hymrwymo i gynyddu nifer y staff LGBTQ+ a nifer y staff o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol mwy amrywiol.

Dengys data'r flwyddyn hon fod angen i ni wella cynrychiolaeth staff du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol o hyd ymhlith ein harweinwyr, yn ogystal â nifer yr arweinwyr sy'n fenywod. Credwn y bydd ein strategaeth 50:20:12 newydd yn cyflawni hyn ar lefel Grŵp ac is-adrannol, ac y bydd yn cyflawni mwy o amrywiaeth ym mhob band gyrfa, a thrwy wneud hynny bydd yn gwella ein ffigurau ar gyfer y bwlch cyflog hyd yn oed ymhellach.

Bylchau cyflog

Bwlch cyflog yw'r gwahaniaeth yn enillion cyfartalog gros yr awr dau categori penodol o gyflogion – er enghraifft, dynion a menywod ar gyfer y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, neu gyflogion anabl a'r rhai nad ydynt yn anabl ar gyfer bwlch cyflog pobl anabl. Mae'n seiliedig ar gyflogau a delir yn uniongyrchol i gyflogion cyn didynnu treth incwm a chyfraniadau nawdd cymdeithasol.

Yn yr adrannau canlynol archwilir bylchau cyflog cyflogion gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn y DU, ac eithrio Gogledd Iwerddon, ar gyfer y categorïau penodol canlynol:

- Dynion a menywod
- Cyflogion du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
- Cyflogion anabl
- Cyflogion LGBTQ+

Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Mae'r bwlch cyflog canolrif rhwng y rhywiau yn y BBC wedi lleihau unwaith eto i 5.2% o 6.2% y flwyddyn ddiwethaf, ac o 9.3% yn 2017. Mae'r bwlch cyflog cymedr rhwng y rhywiau hefyd wedi lleihau i 5.0% o 6.3% y flwyddyn ddiwethaf, ac o 10.7% yn 2017, pan wnaethom gyhoeddi ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau gyntaf.

Am y drydedd flwyddyn yn olynol rydym wedi cynnal proses Gwirio Cyflog Teg lle caiff cyflog pob unigolyn ei adolygu yn erbyn ei ystod cyflog (bandiau A i F) er mwyn sicrhau ei fod yn y safle priodol yn yr ystod.

Mae ein bwlch cyflog canolrif rhwng y rhywiau cyffredinol (5.2%) ar hyn o bryd yn cymharu'n dda â'r diwydiant ac mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn is na 5.2% y sefydliad ar bob lefel gyrfa yn y BBC, ac eithrio band A.

Mae'r tabl hwn yn dadansoddi'r bwlch cyflog canolrif rhwng y rhywiau ar draws ein saith band gyrfa

	Bwlch cyflog
A	6.5%
B	-1.9%
C	1.9%
D	1.1%
E	2.3%
F	2.8%
SL	-4.3%


Rhaniaid cyflog yn ôl chwarter

Yn unol â'r gofynion statudol, mae'r ffigurau o ran y gweithlu a'r cyflog rhwng y rhywiau a ddangosir yn yr adroddiad hwn ar gyfer staff y BBC yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau gan gynnwys Gogledd Iwerddon yn 5.5% (canolrif) a 5.2% (cymedr).

Mae BBC Studios yn adrodd ar ei fwlch cyflog rhwng y rhywiau ar wahân gan fod ganddo fwy na 250 o gyflogion, felly nid yw wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Wrth adolygu ein bylchau cyflog, lluniwn restr o enillion ein cyflogion – o'r uchaf i'r isaf – ac fe'i rhennir yn bedwar grŵp cyfartal, neu chwarter. Dengys y graff isod gyfran y dynion a'r menywod ym mhob grŵp.

Rhaniaid staffio'r rhywiau yn ôl chwarter



Bwlch cyflog ar gyfer staff du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol

Y bwlch cyflog canolrif yn y BBC ar gyfer staff du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yw 0%. Y bwlch cyflog cymedr yw 3.3%, ac mae'r ddau ffigur yn cynrychioli cynnydd bach ers y flwyddyn ddiwethaf.


	Cymedr BAME	Canolrif BAME
2021	3.3%	0.0%
2020	3.0%	-0.3%
2019	3.2%	-1.1%
2018	4.0%	-1.1%
2017	5.7%	0.4%

Dengys y tabl isod y bylchau cyflog canolrif ar gyfer ein cyflogeion du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ar gyfer band gyrfa. Mae'r bylchau ar gyfer pob band ymhell o dan 0% ac ar gyfer ein bandiau arweinwyr (E ac uwch) mae nifer y staff wedi cynyddu ac mae'r bwlch cyflog wedi gwella.

	Bwlch cyflog	Staff BAME
A	-5.1%	96
B	-2.6%	298
C	-4.4%	1,052
D	-4.2%	898
E	-4.1%	244
F	-7.2%	77
SL	-	19

Rydym bellach wedi ymrwmo i BBC ag o leiaf 20% o staff du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol erbyn 2026, a disgwyliwn gyrraedd 16% yn y 18 mis nesaf.

Rhaniaid staff BAME yn ôl chwarterel



Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi staff du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn bedwar categori penodol o ethnigrwydd. Dengys y dadansoddiad hwn fod y bwlch cyflog ar gyfer cyflogeion du yn dal i fod yn amlwg uwch nag ar gyfer categorïau eraill o ethnigrwydd, sef 6.8%, er ei fod yn well na ffigur y flwyddyn ddiwethaf, sef 6.9%.

	BBC 2020
Asiaidd	-0.9%
Du	6.8%
Cymysg	3.4%
Arall	-7.2%

Bwlch cyflog pobl anabl

Ein bwlch cyflog canolrif ar gyfer pobl anabl yn y BBC yw 4.0% a'r cymedr yw 5.6%.


	Cymedr Anabledd	Canolrif Anabledd
2021	5.6%	4.0%
2020	4.9%	3.6%
2019	4.8%	3.1%
2018	4.9%	4.0%
2017	5.2%	3.3%

Dengys y tabl canlynol ein bwlch cyflog canolrif ar gyfer pobl anabl fesul band cyflog y BBC lle mae gennym fwy nag 20 o gyflogeion ag anabledd yn y band.

	Bwlch cyflog	Staff ag anabledd
A	5.0%	65
B	2.5%	209
C	2.0%	487
D	2.3%	446
E	-0.3%	138
F	4.3%	71
SL	-	18

Fel gyda'r categorïau blaenorol, rydym wedi defnyddio'r pedwar chwarterel cyflog cyfartal i ddangos cyfran y cyflogeion anabl ym mhob grŵp.

Rhaniaid staff anabl yn ôl chwarterel



Bwlch cyflog LGBTQ+

Mae bylchau cyflog canolrif a chymedr ein cyflogeion LGBTQ+ wedi cynyddu y flwyddyn hon, er bod y ddau o dan 3.0% o hyd.

	Cymedr	Canolrif
2021	2.5%	2.7%
2020	-0.3%	0.8%
2019	-0.7%	0.7%
2018	n/a	n/a
2017	n/a	n/a

Dengys y tabl canlynol ein bwlch cyflog canolrif ar gyfer pobl LGBTQ+ fesul band cyflog y BBC lle mae gennym fwy nag 20 o gyflogeion LGBTQ+ yn y band.


	Bwlch cy	Staff sydd wedi'u nodi'n LGBTQ+
A	5.8%	53
B	6.4%	169
C	2.5%	470
D	0.4%	481
E	-2.4%	136
F	-3.1%	59
SL	-0.5%	22

Adroddiad gweithredol

Adroddiad ar y Bwlch Cyflog yn y BBC 2020/21 *parhad*

Gan ddefnyddio'r pedwar chwarterel cyflog cyfartal, dengys y tabl hwn gyfran y cyflogeion sydd wedi nodi eu bod yn LGBTQ+ a'r rhai nad ydynt wedi gwneud hynny.

Rhaniaid staff LGBTQ+ yn ôl chwarterel



Trosolwg

Bylchau cyflog 2020/21 ar gyfer y pum categori

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r prif ffigurau ar gyfer y bwlch cyflog ar gyfer y pedwar categori a nodir yn fanwl yn yr adroddiad, yn ogystal â'r categori ar gyfer cyflogeion rhan-amser.

	Canolrif 2021	Cymedr 2021	Canolrif 2020	Cymedr 2020
Rhywedd	5.2%	5.0%	6.2%	6.3%
BAME	0.0%	3.3%	-0.3%	3.0%
Anabledd	4.0%	5.6%	3.6%	4.9%
LGBTQ+	2.7%	2.5%	0.8%	-0.3%
Rhan-amser	1.6%	2.3%	2.6%	3.9%

Taliadau ychwanegol yn y BBC

Nid yw'r BBC yn talu bonysau. Rhoddwyd y gorau i dalu bonysau dewisol wedi'u hariannu gan ffi'r drwydded i uwch-reolwyr a chyfarwyddwyr gweithredol yn 2009.

Mae'r gofynion statudol ar gyfer adrodd ar gyflog rhwng y rhywiau yn cynnwys 'bwlch cyflog rhwng y rhywiau o ran bonysau'. Yn unol â'r canllawiau hynny, cyfrifwn y ffigurau isod ar sail ein cynllun talebau a dyfarndaliadau gwasanaeth hir, er nad ydym yn ystyried y rhain yn daliadau bonws. Mae'r cynllun talebau yn fodd i wobrwyo staff ym mandiau A i F am berfformiad heb ei ail.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd 3,575 o staff dalebau, a'r swm canolrif oedd £200. Cafodd 19 o staff ddyfarndaliadau gwasanaeth hir, a'r taliad cyfartalog oedd £4,572.

Y flwyddyn hon, rydym unwaith yn rhagor yn cyhoeddi manylion staff du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol sydd wedi cael talebau.

Cafodd 48% o fenywod daliad, a chafodd 52% o ddynion daliad. Cafodd 16% o staff du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol daliad.

Disgwyliwn i'r ffigur hwn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar y bobl dan sylw, ond rydym yn parhau i'w fonitro er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu gwobrwyo'n deg.

	Cymedr	Canolrif
Bwlch bonws y rhywiau	9.7%	0.0%
Bwlch bonws BAME	7.6%	0.0%
Bwlch bonws anabledd	14.0%	0.0%
Bwlch bonws LGBTQ+	-8.1%	0.0%

Pam nad yw'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yr un peth â chyflog cyfartal?

Yn genedlaethol, un o'r prif resymau dros y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yw bod mwy o ddynion yn debygol o fod mewn swyddi lefel uwch.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chyflog cyfartal?

Nid yw'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yr un peth â chyflog cyfartal. Ers Deddf Cyflog Cyfartal 1970, bu'n anghyfreithlon talu symiau gwahanol i ddynion a menywod am wneud yr un gwaith, oni bai bod 'ffactor perthnasol gwirioneddol' yn cyfrif am y gwahaniaeth.

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn mesur y gwahaniaeth rhwng cyflog yr awr dynion a menywod mewn sefydliad, ac fe'i mynegir fel canran o gyflog yr awr dynion. Fe'i hadroddir ar sail canolrif a chymedr.

Y cymedr yw cyfartaledd cyffredinol cyflogau pob cyflogai, ac felly gall cyflogau uchel neu isel iawn effeithio arno. Mae'r canolrif yn golygu rhestru pob cyflog mewn trefn, o'r isaf i'r uchaf, a dewis y cyflog yn y canol.

Beth mae'r adroddiad hwn yn ei gynnwys?

Mae Adroddiad y BBC ar y Bwlch Cyflog yn nodi'r gwahaniaeth yng nghyflog yr awr dynion a menywod, ar sail gymedr a chanolrif. Fel o'r blaen, rydym wedi cynnwys datgeliadau gwirfoddol o fylchau eraill mewn cyflogau yn y BBC. Sicrhawyd cyfrifiadau statudol a chanlyniadau gan dîm Archwilio Mewnol y BBC.

Rhydd yr adroddiad hwn y datgeliadau statudol y mae'n rhaid i'r BBC eu gwneud, yn ogystal â chyd-destun pellach o ran cyflog rhwng y rhywiau yn y BBC. Mae'r World Service wedi'i gynnwys ar gyfer staff y BBC yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ond ni chynhwyswyd ein his-gwmnïau masnachol, BBC Studios, BBC Global News, BBC Studioworks, Plant mewn Angen na Media Action.

Rydym wedi cynnwys data ar gyfer pobl ar gontractau staff (parhaol a thymor sefydlog). Mae hyn yn cynnwys ein cyflwynwyr ar yr awyr sydd â chontractau staff y BBC, ond nid cyflwynwyr ar gontractau llawrydd.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw'r BBC ychwaith yn cynnwys gweithwyr asiantaeth a wnaeth weithio i'r BBC yn llawn amser, ond a gyflogwyd drwy asiantaethau trydydd parti, yn ei adroddiadau ar fylchau cyflog. Y rheswm dros hyn yw y byddant wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad ar y Bwlch Cyflog a gyflwynir gan yr asiantaeth sy'n eu cyflogi.

Ymgynghoriadau

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd y BBC ystyried manteision ymgynghori â phobl â budd fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol, ac mae'n elfen allweddol o'n gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Yn 2020/21, gwnaethom gyhoeddi canlyniad ymgynghoriad i ddiwygio Fframwaith Cwynion y BBC; cynnal ymgynghoriadau ym mhob un o Ddibyniaethau'r Goron ar bolisi trwydded deledu sy'n gysylltiedig ag oedran; a lansio ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd ar ddychwelyd BBC Three i deledu llinellol.

Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i Fframwaith Cwynion y BBC

Y flwyddyn ddiwethaf gwnaethom nodi bod y BBC wedi ymgynghori ar sawl newid arfaethedig i Weithdrefnau Cwynion Golygyddol a Chyffredinol y BBC. Nod y newidiadau hyn oedd sicrhau mwy o dryloywder o ran y ffyrdd rydym yn egluro ac yn cyfleu ein penderfyniadau.

Ym mis Mai 2020, cymeradwyodd Bwrdd y BBC y newidiadau arfaethedig a chyhoeddwyd Fframwaith Cwynion diwygiedig, sydd ar gael yma: bbc.com/aboutthebbc/reports/consultation/complaints-framework-amendments.

Ymgynghoriad ar bolisiau trwydded deledu sy'n gysylltiedig ag oedran ym Meiliaeth Jersey, Beiliaeth Guernsey ac Ynys Manaw (Dibyniaethau'r Goron)

Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020, cynhaliodd y BBC ymgynghoriadau ym mhob un o Ddibyniaethau'r Goron ynghylch y consesiynau trwydded deledu sy'n gysylltiedig ag oedran y dylid eu cynnig i bobl hŷn. Gwnaed hyn ar gais llywodraethau pob un o'r Dibyniaethau i Lywodraeth y DU ehangu pŵer y BBC i roi consesiwn trwydded deledu i bobl hŷn ym mhob un o Ddibyniaethau'r Goron.

Yn ôl yr hyn sy'n arferol, caiff trigolion Dibyniaethau'r Goron eu trin yr un peth â thrigolion y DU o ran y drwydded deledu. Felly, cynigiodd yr ymgynghoriadau y

Y gyfres gomedi lwyddiannus, This Country, a ddarlledwyd ar BBC Three. Yn gynharach y flwyddyn hon, gwnaethom gynnal ymgynghoriad ar ddychwelyd BBC Three i deledu llinellol fel rhan o Brwf Budd y Cyhoedd ehangach



dylai'r BBC ariannu consesiwn tebyg i bobl hŷn ym mhob un o Ddibyniaethau'r Goron â'r DU fel bod holl dalwyr ffi'r drwydded yn cael eu trin yn yr un modd.

Ar ôl ystyried adborth o'r ymgynghoriadau, ym mis Hydref 2020 cyhoeddodd Bwrdd y BBC y byddai'n ariannu trwyddedau teledu i'r pensynwyr hŷn tlotaf yn Guernsey, Jersey ac Ynys Manaw o 1 Ionawr 2021. Wrth wneud ei benderfyniad defnyddiodd y Bwrdd yr un meini prawf ag ar gyfer y penderfyniad am y DU – tegwch, effaith ariannol ac ymarferoldeb.

Fel penderfyniad y DU, ni fydd y BBC yn asesu gallu unigolion i dalu gan fod y cynlluniau newydd yn defnyddio meini prawf lles presennol Dibyniaethau'r Goron i bennu cymhwysedd.

Mae penderfyniad Bwrdd y BBC, a'r adborth o'r ymgynghoriad, ar gael yma: bbc.com/aboutthebbc/reports/consultation/age-related-tv-licence-policy-cd.

Ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd ar ddychwelyd BBC Three i deledu llinellol

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd y BBC y byddai BBC Three yn dychwelyd fel sianel deledu a ddarlledir yn ogystal â chael ei

darparu ar-lein. Fel y nodwyd yng Nghynllun Blynyddol y BBC ar gyfer 2020/21, mae'r penderfyniad yn rhan o ymgais y BBC i gynnig mwy o werth i gynulleidfaoedd. Drwy ddefnyddio sianel a ddarlledir a BBC iPlayer gyda'i gilydd, gellir tyfu ein harlwy a chynnig mwy o werth i gynulleidfaoedd iau. Bydd hefyd yn cynnig mwy o werth cyhoeddus drwy gynyddu ymhellach amrywiaeth a chreadigrwydd ein hallbwn ac adeiladu ar gryfderau perfformiad ar-lein BBC Three.

Gan fod y sianel deledu a ddarlledir, at y dibenion hyn, yn Wasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU, bu angen cynnal Prawf Budd y Cyhoedd yn awtomatig er mwyn asesu ei gwerth cyhoeddus a'i heffaith ar y farchnad.

Er mwyn rhoi cyfle i randdeiliaid leisio barn, lansiodd y BBC ymgynghoriad ym mis Mawrth 2021.

Ym mis Mehefin 2021, cymeradwyodd Bwrdd y BBC Prawf Budd y Cyhoedd BBC Three. Ceir rhagor o fanylion yma: <https://www.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/consultation/bbc-three-channel-public-interest-test-consultation>. Mae'r cynnig wedi cael ei gyflwyno i Ofcom er mwyn iddo gynnal ei Asesiad o Gystadleurwydd a dod i benderfyniad terfynol.

Adroddiad gweithredol Cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae gan y BBC ran flaenllaw i'w chwarae yn ein diwydiant o ran deall newid hinsawdd a'r hyn sydd ei angen er mwyn cyrraedd Sero Net, gan ddarparu atebion i leihau ein hallyriadau carbon.

Cynhyrchu

Mae'r BBC wedi bod yn gweithio mewn ffyrdd cynaliadwy ers sawl blwyddyn. Mewn ymateb i'r pwysau byd-eang cynyddol i gyflawni targedau allyriadau carbon, a deddfwriaeth y DU i gyrraedd Sero Net erbyn 2050, mae'r BBC bellach yn anelu'n uwch ac yn gwneud mwy i fynd i'r afael â'n heffaith ni ein hunain ar newid hinsawdd.

Mae'r BBC yn parhau i chwarae rhan bwysig yng Nghyfarwyddiaeth a Chonsortium Albert BAFTA, a weithredir gan y diwydiant cyfan gyda'i gilydd, a ddechreuwyd gan y BBC ddegawd yn ôl. Nodau'r Consortium yw lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol cynrychiadau teledu, a hyrwyddo camau cadarnhaol i fynd i'r afael â newid hinsawdd y tu ôl i'r camera. Y flwyddyn hon, mae'r BBC wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o helpu i sefydlu grwpiau Consortium newydd ar gyfer Newyddion a Chwaraeon i weithio gyda'r diwydiant i leihau allyriadau carbon yn y meysydd cynhyrchu hyn.

Mae'r BBC wedi ymrwmo i sicrhau y bydd holl gynrychiadau mewnol gwasanaeth cyhoeddus a BBC Studios yn rhai ag Ardystiad Albert. Er y pandemig a'r heriau a wynebwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, llwyddodd y BBC i ragori ar ei dargedau o ran Ardystiad Albert, wrth i holl gynrychiadau teledu BBC Studios gwblhau ôl troed carbon, a llwyddodd 98% i leihau allyriadau carbon drwy ddefnyddio cynlluniau gweithredu carbon Ardystiad Albert BAFTA.

Mae BBC Studios yn parhau i gynhyrchu cynnwys sy'n dangos ymddygiad cynaliadwy ar y sgrin, yn ogystal â dangos arloesedd oddi ar y sgrin. *Winterwatch* oedd y darllediad allanol mawr cyntaf i ddibynnu'n gyfan gwbl ar eneraduron hydrogen a batri i ffilmio'r rhaglen gyfan.

Rydym yn falch o'n timau cynhyrchu a'u harloesedd dros y flwyddyn ddiwethaf – gwnaethant lwyddo i feddwl am gynaliadwyedd wrth ddelio â'r holl amharu yn sgil pandemig Covid-19 ar yr un pryd.

Mae cynnyrch BBC Studios wedi canolbwyntio'n sylweddol ar ddefnyddio deunyddiau a deunydd lapio cynaliadwy. Enillodd y busnes DVD wobwr am arloesedd gan Gymdeithas Adloniant Sgrin Prydain, mewn perthynas â'r defnydd arloesol o ddeunydd lapio cynaliadwy a ddefnyddiwyd gyntaf ar gyfer *Seven Worlds, One Planet*, ac am ei arweinyddiaeth yn y diwydiant cyfryngau a becynnir ar gyfer fideo, cerddoriaeth a gemau.

TCFD

Bydd Grŵp y BBC yn mabwysiadu Fframwaith y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) er mwyn sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan o'r sefydliad cyfan.

Mae dilyn argymhellion TCFD yn gam nesaf hanfodol o ran cynlluniau cynaliadwyedd ac amgylchedd y BBC.

Mae'r Gorfforaeth yn cyflwyno system adrodd TCFD sy'n ei gwneud yn ofynnol i nodi ac asesu'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a allai effeithio ar y sefydliad yn y dyfodol.

Mae'r cam hwn yn newid mawr i'r broses o oruchwylio a rheoli effeithiau newid hinsawdd yn y BBC, gyda phob endid masnachol a gwasanaeth cyhoeddus yn ymrwmo i TCFD ac yn dilyn un strategaeth cynaliadwyedd.

Rydym wrthi'n adolygu lle rydym arni o ran argymhellion fframwaith TCFD ac yn cydnabod rhai o'r camau allweddol y mae angen i ni eu cymryd. Mae angen i'r BBC ymateb i newid hinsawdd a sicrhau ein bod yn cyfrannu at y broses o newid i economi carbon isel Sero Net yn y DU. Rydym wedi crynhoi ein cynnydd hyd yn hyn yn yr adran hon a byddwn yn parhau i asesu'r sefyllfa a sicrhau ein bod yn unol â'r fframwaith dros y cyfnodau adrodd i ddod.

Llywodraethu

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gyfrifol am adolygu a goruchwylio trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg y BBC. Mae'r Pwyllgor wedi nodi bod newid hinsawdd yn risg i'r BBC ac mae wedi cefnogi'r gwaith a wnaed y flwyddyn hon i adolygu risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Cafodd allbynnau'r asesiad eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r Pwyllgor er mwyn iddo fwrw golwg drostynt a rhoi ei adborth. Mae'r Pwyllgor yn sicrhau y cedwir llygad ar y sefyllfa o ran newid hinsawdd o'r brig i'r bôn, ac mae o blaid dilyn argymhellion TCFD. Hefyd, cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar risg i'r prif Fwrdd yn uniongyrchol.

Ar lefel reoli, mae'r Grŵp Llywio Cynaliadwyedd yn cynnwys uwch-arweinwyr, gan gynnwys y Prif Swyddog Ariannol, y Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd a'r Cyfarwyddwr Ansawdd Risg a Sicrwydd. Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am adolygu hynt strategaeth cynaliadwyedd y BBC a'r broses o reoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae'r Grŵp Llywio, sy'n cyfarfod bob mis, yn adolygu perfformiad yn erbyn metrigau a thargedau allweddol, ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar nodi cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Byddwn hefyd yn ffurfioli ac

yn gwella ymhellach effeithiolrwydd ein strwythurau adrodd o ran risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol.

Bydd ein cynlluniau busnes a'r prosesau buddsoddi yn y dyfodol yn ystyried yr effaith ar yr amgylchedd, yn ogystal â'r cyfraniad at y nod o gyrraedd Sero Net.

Strategaeth a rheoli risgiau

Y flwyddyn hon, rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau a'r cyfleoedd perthnasol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i'n busnes. Mae'r tabl dros y dudalen yn tynnu sylw at yr allbynnau o'n hasesiad o berthnasedd a nodi risg, yn ogystal â sut rydym yn deall y ffordd y mae'r risgiau a'r cyfleoedd hyn yn effeithio ar y BBC.

Roedd ein proses i nodi'r risgiau a'r cyfleoedd sylweddol yn gysylltiedig â'r hinsawdd ar dri cham allweddol: nodi, ymgysylltu, asesu. Yn gyntaf, datblygwyd rhestr gynhwysfawr o'r risgiau a'r cyfleoedd yn gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n berthnasol i'r BBC a sector y cyfryngau. Yn ail, cynhaliwyd sawl cyfweiliad ag adrannau ac is-adrannau busnes perthnasol ym mhob rhan o'r BBC er mwyn meithrin dealltwriaeth a chael mewnbwn ynghylch yr effeithiau perthnasol a sut y byddent yn effeithio ar y BBC. Yn olaf, gan ddefnyddio ein fframwaith rheoli risg menter, gwnaethom asesu pob risg a nodwyd er mwyn pennu ein risgiau a'n cyfleoedd mwyaf perthnasol.

Y camau nesaf yn 2021/22 fydd cynnwys yr effeithiau a nodwyd yn ein fframwaith rheoli risg menter a datblygu'r strategaethau lliniaru a rheoli effaith i gynyddu cydnherthedd. Yn y dyfodol, byddwn hefyd yn ystyried gwaith modelu pellach ar effaith ariannol y risgiau hyn.

Metrigau a thargedau

Rydym yn ymrwymedig i bennu targed Sero Net sydd yn y pen draw yn golygu lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr y BBC fel eu bod mor fach â phosibl, a chydbwysu unrhyw allyriadau sy'n weddill drwy dynnu'r swm cyfatebol o'r atmosffer. Er mwyn deall sut i gyflawni hyn, rydym wrthi'n cyfrifo ein hallyriadau cwmpas llawn 1, 2 a 3 er mwyn pennu ein hól troed carbon sylfaenol.

Rydym hefyd yn ymrwymedig i leihau ein heffaith amgylcheddol ehangach, gan gynnwys lleihau'r defnydd o ynni, creu llai o wastraff a gwella cyfraddau ailgylchu, ac effaith amgylcheddol ein rhaglenni a'n hól troed wrth deithio. I weld ein hallyriadau presennol sy'n cwmpasu ein hallyriadau cwmpas 1 a 2, gweler y tabl ar y dudalen nesaf.

Risgiau a chyfleodd perthnasol

Risgiau Trosi sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd	Risgiau Ffisegol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd	Cyfleodd sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd	
Y risg i'n hygredded a'n henw da am nad yw cynnwys ein cynyrchiadau a'n camau mewnol ar newid hinsawdd yn cyfateb	BD Tywydd eithafol yn difrodi seilwaith neu'n arwain at golli asedau	HD Gweithio gyda diwydiant y cyfryngau i arloesi o ran newid hinsawdd drwy addysgu a lleihau effaith y diwydiant	TC
Mynediad cyfyngedig i gyfalaf er mwyn gweithredu mentrau lleihau allyriadau	BD Tywydd eithafol yn amharu ar wasanaethau drwy oedi cynyrchiadau ac amharu ar gyflenwi cynnwys	HD Newidiadau o ran yr hyn y mae cynulleidfaoedd am ei gael yn creu galw newydd am gynnwys a gwasanaethau	TC
Penderfyniadau buddsoddi amhriodol yn cael eu gwneud o ran gweithredu ar yr hinsawdd oherwydd gofynion ad-dalu byr buddsoddiadau	BD	Cyfle i arallgyfeirio gweithgareddau busnes am fod yr hyn y mae cynulleidfaoedd am ei gael yn newid	TC
Costau uwch yn gysylltiedig â phrisiau carbon allanol	TC	Cyfle i annog y gadwyn gyflenwi yn niwydiant y cyfryngau i fod yn fwy cynaliadwy	TC
Methu â dylanwadu ar gyflenwyr na phartneriaid o ran penderfyniadau ynghylch cynaliadwyedd a'r hinsawdd	BD	Cyfle i'n hendidau masnachol achub ar gyfleodd newydd yn y farchnad drwy gynnig ymateb arloesol i'r argyfwng hinsawdd	TC
		Addasu'r defnydd o gludiant a theithio busnes er mwyn lleihau ein hól troed allyriadau	BD
		Lleihau pa mor ddwys o ran ynni yw'r broses gynhyrchu a dosbarthu cynnwys yn y cyfryngau	BD

Allwedd **BD** = byrdymor, **TC** = tymor canolig, **HD** = hirdymor Yr amserlen a ddefnyddir yw Byrdymor y 3 blynedd nesaf (2021-2023); tymor canolig 12 mlynedd (2024-2035); hirdymor 15 mlynedd (2036-2050)

draws y DU a thu hwnt. Gwnaeth y cyrsiau hyn, ynghyd â gweithdai pwrpasol i dimau, ddwyn ynghyd ddealltwriaeth staff o wyddor newid hinsawdd a thargedau amgylcheddol y BBC, ac ysbrydolwyd camau gweithredu gan y staff drwy rannu arferion gorau ym maes cynhyrchu cynaliadwy a ffyrdd gwyrdd eraill o weithio. Gwellwyd ymgysylltiad y staff â materion amgylcheddol drwy ymgyrchoedd cyfathrebu mewnol a gweithgareddau a digwyddiadau ar-lein eraill.

Technoleg gynaliadwy

Rydym wedi cyhoeddi papurau gwyn ar ddefnydd ynni gwasanaethau Teledu a Radio'r BBC er mwyn gwella gwybodaeth y diwydiant am effeithiau allyriadau cwm pas 3; rydym wedi cydweithio â chyflenwyr i wella effeithlonrwydd ynni darllediadau radio – gan leihau defnydd ynni dros 5GWh mewn tair blynedd; ac rydym yn cydweithio â darlledwyr eraill yn y DU ynghylch dull cyson o adrodd ar allyriadau cadwyni cyflenwi.

Mae'r BBC yn un o sylfaenwyr DIMPACT, sy'n cynnwys 13 o gwmnïau eraill yn y cyfryngau, ac mae'n datblygu adnodd ar-lein i gyfrifo allyriadau carbon dosbarthu a defnyddio cynnwys cyfryngau digidol. Mae'n adeiladu ar y gwaith blaenorol a wnaed gan adran Ymchwil a Datblygu'r BBC gyda Phrifysgol Bryste.

Sero Net

Yn ogystal â mabwysiadu fframwaith adrodd TCFD, mae'r BBC yn datblygu ei strategaeth Sero Net sy'n gyson â menter Science-Based Targets. Caiff ôl troed llawn y sefydliad ar yr amgylchedd a'r lefel sylfaenol ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2021, a bydd targedau hinsawdd penodol sy'n seiliedig ar wyddoniaeth yn nodi sut y bydd y BBC yn cyrraedd Sero Net o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer ei weithrediadau uniongyrchol cyn diwedd y degawd (2030). Caiff y targedau hyn eu hardystio gan Science-Based Targets.

Diwylliant cynaliadwy

Parhaodd hyfforddiant cynaliadwyedd mewnol BBC Academy yn 2020/21, gyda chyrtsiau wedi'u harwain gan hyfforddwyr yn cael eu cynnal ar-lein i gydweithwyr. Gwnaethant gyrraedd dros 1,000 o aelodau o staff o wahanol adrannau yn y BBC ar

*Yn Panorama:
Britain's
Wild Weather
dangoswyd effaith
ddifrifol newid
hinsawdd*



Adroddiad gweithredol Cynaliadwyedd amgylcheddol *parhad*

Darlledu Gwyrddach Targedau a Mesurau'r BBC	Targedau/Mesurau erbyn 2022 (llinell sylfaen 2015/16)	Cynnydd 2020/21 yn erbyn 2015/16
CO ₂ e	Lleihau 24% ¹	Wedi lleihau 79%
Ynni	Lleihau 10%	Wedi lleihau 1%
Gwastraff	Lleihau 10%	Wedi lleihau 56%
	Ailgylchu 75%	Wedi ailgylchu 41%
	Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi	Gwastraff i safleoedd tirlenwi 6% – Mae'r BBC yn gweithio ar gynlluniau i gyrraedd y targed o beidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2022
Dim Plastig Defnydd Untro erbyn 2020	Mae mesurau ar waith i sicrhau na chaiff Plastig Defnydd Untro ei ddefnyddio gan y BBC; fodd bynnag, mae effaith anochel Covid wedi llesteirio'r ymdrechion i gyflawni hyn yn llwyr. Am resymau iechyd a diogelwch, parhawyd i ddefnyddio rhai cynhyrchion Plastig Defnydd Untro, ond cyn gynted ag y bydd cyfyngiadau Covid yn cael eu llacio bwriedir rhoi'r gorau i'w defnyddio	
Rhaglenni	100% Cyfrifiad Albert	93%
	25% Allbwn wedi'i Ardystio gan Albert	48%

1 Mae'r targed i leihau CO₂e yn dilyn methodoleg sy'n seiliedig ar wyddoniaeth sy'n mynd i'r afael ag allyriadau cwmpas 1 a 2 ac yn defnyddio dull dadgarboneiddio'r sector

Defnydd trydan y DU yn 2020/21 yn unol â chanllawiau adrodd SECR 158,408 MWh

Defnydd nwy y DU yn 2020/21 yn unol â chanllawiau adrodd SECR 76,778 MWh

Tanwydd a ddefnyddiwyd ar gyfer trafniadaeth yn 2020/21 yn unol â chanllawiau adrodd SECR Diesel a phetrol a ddefnyddiwyd mewn ceir fflyd a cheir cwmni at ddibenion busnes 456,861 o litrau; Nid oes data ar gael ar danwydd a ddefnyddiwyd mewn ceir personol/llog at ddibenion busnes

Mae'r data ar wastraff ar gyfer gwastraff y DU yn unig

Lle bo angen, oherwydd diffyg data, mae'r defnydd o ynni gan swyddfeydd rhyngwladol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio cyfartaleddau yn seiliedig ar ddata'r flwyddyn hon. Yn sgil Covid, caewyd llawer o swyddfeydd rhyngwladol, neu nid oeddent yn llawn. Gwnaeth hyn greu sawl her o ran casglu data ar ddefnydd ynni

Allyriadau nwyon tŷ gwyrdr 2020/21	Allyriadau gros	Allyriadau net
Allyriadau nwyon tŷ gwyrdr (tunelli o allyriadau CO ₂ e, cwmpas 1 a 2)	55,744	20,496
Dwysedd carbon (tunelli o allyriadau CO ₂ e/cyfanswm incwm y grŵp £m)	11.0	4.0

Mae'r data ar nwyon tŷ gwyrdr ar gyfer safleoedd yn y DU a swyddfeydd rhyngwladol a reolir. Mae allyriadau 'gros' yn defnyddio ffactor cyfartalog grid ar sail lleoliad. Mae 'net' yn cyfrif am drydan adnewyddadwy a brynwyd yn y DU

Mae'r data wedi'u cynhyrchu yn unol â Safon Cyfrifyddu ac Adrodd Corfforaethol y Protocol Nwyon Tŷ Gwyrdr

Darlledu Gwyrddach

Mae Covid-19 wedi peri sawl her i'n ffordd o weithio. Mae rhai o'r effeithiau cadarnhaol ar weithrediadau fel gweithio o bell a gorfod teithio llai wedi arwain at leihau sylweddol mewn allyriadau carbon sy'n deillio o gynhyrchu a theithio busnes. Eto i gyd, mae hefyd wedi arwain at lai o ailgylchu a mwy o ddefnydd ynni ar ein safleoedd, yn sgil yr angen i awyru ein hadeiladau yn fwy er mwyn cadw ein gweithwyr allweddol yn ddiogel. Mae hyn wedi cynyddu'r defnydd o ynni ar holl safleoedd y BBC er mwyn sicrhau bod mwy o awyr iach ar gael, gan arwain at ddefnyddio mwy o drydan a gwres mewn adeiladau.

Mae'r tabl ar y chwith yn disgrifio'r targedau Darlledu Gwyrddach presennol rydym yn anelu atynt erbyn 2022, ynghyd â'r cynnydd a wnaed gennym hyd yma. Byddwn yn parhau i weithredu yn yr holl feysydd hyn ac yn adrodd ar ein cynnydd. Bydd y BBC yn pennu targedau newydd i gyd-fynd â'n strategaeth Sero Net sy'n datblygu.

Gwaith elusennol

Ar ddechrau'r cyfyngiadau symud cyntaf, daeth BBC Plant mewn Angen a Comic Relief at ei gilydd am y tro cyntaf erioed i gynnal *The Big Night In*, sef rhaglen arbennig yn dathlu'r bobl a oedd yn gwneud gwahaniaeth ac yn cefnogi'r rhai yr oedd pandemig Covid-19 yn effeithio arnynt. Cododd yr apêl £74 miliwn diolch i haelioni gwylwyr, partneriaid ac ymrwymiad arian cyfatebol gan Lywodraeth y DU.

Ym mis Gorffennaf, darlledodd y BBC Apêl Coronafeirws DEC ar ei holl lwyfannau, gan godi arian i bobl yng ngwledydd mwyaf bregus y byd, fel Yemen a Syria. Ym mis Rhagfyr, cafodd Apêl Nadolig flynyddol Radio 4 ar y cyd â St Martin-in-the-Fields ei darlledu. Mae wedi codi £4.3 miliwn hyd yma, gan ddarparu cymorth hanfodol i bobl ddiartref a helpu'r elusen i ymateb i heriau parhaus y pandemig. Rhoddodd y BBC amser ar yr awyr i 60 o elusennau a wnaeth gais i ddarlledu Apeliadau ar Radio 4 a BBC Once. Gall cynulleidfaoedd ddarllen am effaith yr apeliadau hyn: bbc.co.uk/charityappeals/what-your-money-does. Yng Ngogledd Iwerddon cafwyd 11 o Apeliadau ar BBC Radio Ulster/Foyle, pedair Apêl Community Life ar deledu BBC Northern Ireland, ac Apêl Nadolig drawslwyfan ar unigrwydd mewn partneriaeth ag elusennau lleol. Cafodd yr holl weithgarwch hwn ei ategu gan wefan ddynodedig: bbc.co.uk/niappeals.

BBC Plant mewn Angen

Ar hyn o bryd mae elusen gorfforaethol y DU y BBC yn ariannu dros 2,500 o elusennau a phrosiectau lleol yn y pedair gwlad, gan helpu i wella bywydau 550,000 o blant a phobl ifanc yn y flwyddyn ddiwethaf. Ar gyfer Apêl 2020, daeth cydweithwyr o bob rhan o'r gorfforaeth ynghyd i rannu'r straeon trawsnewidiol hyn ac ysbrydoli haelioni pobl Prydain unwaith eto. Ymhlith y rhaglennu arbennig roedd: *The One Show's Rickshaw Challenge*; *Countryfile Ramble*; *DIY SOS: The Big Build*; rhaglen ddogfen, *Life in Lockdown*; a *The Joe Wicks 24 Hour PE Challenge* ar Radio 2. Arweiniodd hyn oll at godi cyfanswm o £37 miliwn ar ddiwedd ymgyrch Apêl arbennig arall ar y BBC, ac mae'r ffigur wedi parhau i gynyddu. Am ragor o wybodaeth ewch i: bbc.co.uk/Pudsey.

BBC Media Action

Gweithiodd BBC Media Action, elusen ryngwladol y BBC, gyda phartneriaid cyfryngau lleol i gyrraedd mwy na 126 miliwn o bobl ledled y byd y flwyddyn ddiwethaf drwy'r radio, teledu, cyfryngau digidol a'r cyfryngau cymdeithasol. Fel rhan o'n hymateb i'r pandemig byd-eang mewn mwy na 50 o ieithoedd, helpwyd i wella arferion hylendid ymhlith grwpiau nomadaidd yn Affganistan, anogwyd pobl ifanc yn India i roi'r gorau i ledaenu newyddion ffug, ac aed i'r afael ag effeithiau tymor hwy fel trais yn erbyn menywod a

merched, a phriodi plant. Rydym wedi parhau i gynnal rhaglenni iechyd, llywodraethu, cydraddoldeb a chynhwysiant, gwydnwch a gweithredu ar yr hinsawdd, ac yn 2020 hefyd lanswyd prosiect datblygu'r cyfryngau arloesol yn Ethiopia, Sierra Leone a Bangladesh, sef Protecting Independent Media for Effective Development (PRIMED). I ddysgu rhagor, ewch i: bbcmediaaction.org.

Comic Relief

Cafodd Diwrnod Trwyn Coch 2021 gefnogaeth ardderchog ym mhob rhan o'r gorfforaeth, gan gynnwys *The One Show*, *BBC Breakfast*, *Ready Steady Cook*, *Blue Peter*, *Later... with Jools Holland*, a LOLathon ar BBC Radio 1. Llwyddodd y gyrrwr rasio proffesiynol, Billy Monger, i ennill edmygedd y genedl wrth iddo gwblhau treiathlon pedwar diwrnod 140 milltir anodd ar gyfer rhaglen ddogfen ar y BBC. Daeth llu o sêr at ei gilydd ar gyfer y rhaglen deledu arbennig a chafwyd rhaglen newydd sbon hefyd, sef *The Great Comic Relief Prizeathon*, a roddodd gyfle i wylwyr ennill gwobrau rhyfeddol. Darlledwyd ffilmiau apêl grymus i atgoffa'r gwylwyr o'r modd y mae eu rhoddion yn newid bywydau yn y DU a ledled y byd. Drwy gefnogaeth wych y BBC, llwyddwyd i godi dros £52 miliwn ar y noson. Am ragor o wybodaeth ewch i: www.comicrelief.com.

£74^m

y swm a godwyd gan
The Big Night In ym
mis Ebrill 2020.



Nihad al-Jaberi, uwch-olygydd Basra y darlledwr Al Mirbad yn Irac, wrth ei gwaith. Mae BBC Media Action wedi helpu i gefnogi'r darlledwr ers iddo ddechrau yn 2005 fel un o'r ffynonellau newyddion diduedd prin yn y rhanbarth. Diolch i Al Mirbad am y llun.

Adroddiad gweithredol Partneriaethau a mentrau cydweithredol

Mae gan y BBC ddyletswydd i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill er budd cenedlaethol. Yn 2020 gwnaethom sefydlu grŵp partneriaethau'r BBC er mwyn sicrhau bod ein partneriaethau gwasanaeth cyhoeddus allweddol yn helpu'r BBC i gyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus a rhwymedigaethau eraill y Siarter.

Yn 2020/21, roedd mwy na 550 o bartneriaethau, yn rhai bach a mawr, a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi diwylliant ac economi greadigol y DU. Ni allai neb fod wedi rhagweld pa mor bwysig y byddai partneriaethau yn ystod y pandemig. Dyma gipolwg ar y flwyddyn hon nas gwelwyd o'r blaen.

Partneriaethau yn ystod y pandemig

Lansiodd BBC Education Lockdown Learning mewn ymateb i'r her o ysgol gartref. Adeiladodd ar lwyddiant Bitesize Daily pan wnaeth mwy na 50 o fusnesau a chyhoeddwyd addysg ddarparu cynnwys a deunyddiau. Yn yr wythnos gyntaf, cyrhaeddodd Lockdown Learning 5.8 miliwn o ymwelwyr unigryw yn y DU ar-lein a denodd 971,000 o geisiadau ar iPlayer. Pan ailagorodd ysgolion gwelwyd defnydd mwy nodweddiadol o'r llwyfan, ond mae'r defnydd ohono yn uwch na'r hyn a welwyd yn 2019.

Gwnaeth ymgyrch Make a Difference: Give A Laptop Radio Lleol y BBC weld y 39 o orsafoedd yn ymuno ag elusennau a chwmnïau arbenigol i roi gliniaduron i blant mewn angen. Mae mwy na 116,165 o ddyfeisiau segur wedi cael eu rhoi i ysgolion a rhoddwyd £917,890 gan y cyhoedd, ymddiriedolaethau elusennol a sefydliadau eraill i gefnogi'r ymgyrch.

Sicrhaodd Culture in Quarantine BBC Arts bod y celfyddydau a diwylliant yn dal i allu cael eu mwynhau gan bobl na allent ymweld â safleoedd yn y cnawd. Gwnaeth #MuseumPassion ddwyn ynghyd orielau ac amgueddfeydd am ddiwrnod o ddarllediadau byw, a chafodd artistiaid a oedd wedi colli gwaith yn ystod y cyfyngiadau symud eu comisiynu i greu 25 o ddarnau o waith newydd mewn partneriaeth ag Arts Council England.

Cydweithiodd BBC Music a BBC Archive â mwy na 100 o sefydliadau gan dynnu sylw at rym cerddoriaeth i bobl â dementia, a thynnodd ymgyrch Happy Heads Radio Lleol sylw at iechyd meddwl plant.

Gwnaeth BBC Sport annog pobl i ddechrau rhedeg, a chafodd mwy nag 16 miliwn o rediadau eu cofnodi ar ap Couch to 5k. Cafodd yr ap, sef partneriaeth rhwng BBC Sport a Public Health England, ei lawrlwytho 1.5 miliwn o weithiau rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2020.

Diwylliant ac economi greadigol y DU

Gweithiodd BBC Introducing Arts mewn partneriaeth â sefydliadau celfyddydol yn y DU i gomisiynu a mentora unigolion creadigol a oedd yn dod i'r amlwg i greu cynnwys ar gyfer llwyfannau'r BBC. Erbyn mis Mawrth 2021, ail flwyddyn y cynllun, roedd bron 600 wedi cael eu comisiynu.

Cafwyd tua 40,000 o geisiadau am gynnwys ar BBC Sounds ar gyfer BBC Music Introducing Live, sef digwyddiad partneriaeth â'r diwydiant cerddoriaeth i ysbrydoli pobl ifanc o ran eu dewisiadau gyrfaol, a chydweithiodd BBC Proms â sefydliadau llawr gwlad i gyrraedd cynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol.

Gweithiodd y BBC mewn partneriaeth â Chofentri i daflu goleuni ar Ddinas Diwylliant y DU 2021. Ymhlith y gwaith a gomisiynwyd roedd tair rhaglen ddogfen ar y celfyddydau a Contains Strong Language, sef partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Dinas Diwylliant Cofentri ac eraill.

Fel rhan o Digital Cities Virtual BBC Academy, gwelwyd mwy na 14,000 o bobl o bob rhan o'r sector yn manteisio ar y cyfle i feithrin sgiliau am ddim, a gwnaeth partneriaeth BBC Northern Ireland â Libraries NI gynnwys Book Week 2020, sef menter trawslwyfan â rhaglennu teledu.

Partneriaethau ar draws y DU

Parhaodd pŵer partneriaethau i gryfhau'r diwydiannau creadigol yn y gwledydd. Arweiniodd partneriaeth y BBC â Screen Scotland at raglen ysgrifennu a oedd o fudd i wyth awdur a gafodd gyfle i weithio i wyth cwmni, a buddsoddiwyd mewn cyfresi grymus fel *The Nest*. Yn yr un modd, arweiniodd y bartneriaeth â Northern Ireland Screen at ddramâu teledu fel *Bloodlands* a *Line of Duty*, yn ogystal ag allbwn Gwyddeleg a Sgoteg Wlster, a chefnogwyd datblygu sgiliau.

Ehangodd BBC Three ei phartneriaethau creadigol yn y pedair gwlad. Mae'n gweithio gyda BBC England ar dri chomisiwn gan gwmnïau yn y gogledd, mae'n cydweithio â Cymru Greadigol fel rhan o'n partneriaeth newydd yng Nghymru, ac mae'n gwneud mwy o waith gyda phartneriaid asiantaethau sgrin presennol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae partneriaeth tair blynedd newydd y BBC â'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol yn cynnwys cefnogi ei chanolfannau yn Glasgow, Leeds, ac un newydd yng Nghaerdydd, yn ogystal ag ariannu 20 o ysgoloriaethau ar gyfer talent amrywiol ar 10 o gyrsiau wedi'u noddi gan y BBC a 60 o leoedd ar gyrsiau byr am ddim i gwmnïau fel rhan o Gronfa Cwmnïau Annibynnol Bach y BBC.

Mae'r BBC hefyd yn un o sylfaenwyr Cronfa Heb ei Sgriptio ScreenSkills – gyda 100% o'n cyfraniad fel darlledwr a 75% o gyfraniad BBC Studios yn targedu'r gwaith o feithrin sgiliau ar draws y DU.

Mae partneriaeth y BBC â'r Brifysgol Agored ymhlith yr hynaf a'r mwyaf sefydledig. Yn 2021 bydd y BBC a'r Brifysgol Agored wedi bod yn cydweithio ers hanner canrif. Drwy gydgyngyrchu ystod eang o gynnwys diddorol a difyr ar y teledu, radio, iPlayer, Sounds ac ar-lein, mae'r bartneriaeth yn anelu at ysbrydoli pobl i achub ar gyfleoedd pellach i ddysgu. Ymhlith y cydgynrychiadau diweddar mae: *Greta Thunberg: a year to change the world*; *Building Britain's biggest nuclear power station*; *The Bottom Line 2021*; a detholiad o fideos byr ar gyfer BBC Ideas.

Gwnaeth y Partneriaeth Newyddion Lleol ddarparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus diduedd i bron fil o wasanaethau newyddion lleol ar draws y DU, a rhannodd y Gwasanaeth Adrodd ar Ddemocratiaeth Lleol (LDRS) 72,000 o straeon y flwyddyn ddiwethaf. Mae cyfanswm y straeon hyd yma yn agos at 210,000 ac, ar gyfartaledd, caiff pob stori a ysgrifennir gan Ohebydd Democratiaeth Lleol ei defnyddio fwy na phum gwaith. Mae'r cynnwys yn cefnogi newyddiaturaeth y BBC mewn sawl ffordd e.e. defnyddiodd BBC News Online 436 o straeon yn ymwneud ag argyfwng Covid o wifren LDRS, gan arwain at edrych ar dudalennau fwy nag 20 miliwn o weithiau. Bydd LDRS yn tyfu ym mis Gorffennaf i 165 o ohebwyr sy'n adrodd ar gynghorau lleol a chyrrff democrataidd eraill ar draws y DU.

Partneriaethau a mentrau cydweithredol y BBC: cipolwg yn 2020/21

Mae'r tabl isod yn nodi'r prif fentrau cydweithredol a phartneriaethau creadigol ar draws y BBC:

Maes y BBC	Nifer y partneriaethau/mentrau cydweithredol
BBC Academy	4
Archif	27
Y celfyddydau	47
Plant ac Addysg	91
Cynnwys Teledu	22
Creadigrwydd ac Amrywiaeth	13
Newyddion	18
Ymchwil a Datblygu	60
Radio a Cherdoriaeth	109
Chwaraeon	5
Lloegr	136
Gogledd Iwerddon	4
Yr Alban	10
Cymru	9
Cyfanswm	555

Mae'r data hyn yn cynnwys isadrannau sy'n gwneud rhaglenni, Ymchwil a Datblygu a Hyfforddiant mewn canolfannau rhwydwaith ar draws y DU. Mae hefyd yn cofnodi gweithgareddau gorsafoedd radio lleol unigol yn Lloegr.

Strictly Come Dancing

Gweithrediadau masnachol

Mae is-gwmnïau masnachol y BBC yn cefnogi cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus y BBC ac yn cynhyrchu incwm ar gyfer Grŵp y BBC. Mae'r cwmnïau hyn yn sicrhau'r gwerth mwyaf o ran eiddo deallusol y BBC, gan ddarparu incwm i ariannu cynnwys nodedig o ansawdd uchel i dalwyr ffi'r drwydded, a chefnogi diwydiant teledu'r DU ar lwyfan rhyngwladol hefyd.

Y meini prawf masnachol:

Mae is-gwmnïau masnachol y BBC yn darparu cynnwys creadigol o ansawdd i gynulleidfaoedd ac maent yn cynyddu gwerth eiddo deallusol y BBC, yn ogystal â darparu cymorth hanfodol i'r diwydiant creadigol ehangach, yn y DU a thu hwnt. Maent yn gwneud hyn wrth hefyd hyrwyddo a diogelu brand ac enw da'r BBC ledled y byd, yn unol â'r meini prawf masnachol fel y'u nodir yn y Siarter a'r Cytundeb:

1. rhaid i'r gweithgareddau weddu i'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus;
2. rhaid i'r gweithgareddau fod yn fasnachol effeithlon;
3. ni ddylai'r gweithgareddau beryglu enw da'r BBC na gwerth brand y BBC;

4. ni ddylai'r gweithgareddau, o ganlyniad i berthynas y gweithgaredd â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau masnachu na gweithgareddau nad ydynt yn rhai gwasanaeth, wydroi'r farchnad na chreu mantais gystadleuol annheg.

Caiff is-gwmnïau masnachol y BBC eu goruchwylio gan y Bwrdd Daliadau Masnachol, sy'n gyfrifol am bennu strategaethau yn unol â nodau cwmni cyffredinol Grŵp y BBC, cytuno ar gynlluniau busnes a sicrhau cydymffurfiaeth mewn perthynas â materion rheoliadol a chyfreithiol. Ceir adroddiad gan Gadeirydd y Bwrdd Daliadau Masnachol ar dudalen 116.

Gweithrediadau masnachol

Mae gan y BBC dri is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lwyr sy'n ategu cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus y BBC:

BBC STUDIOS

BBC Studios – busnes cynhyrchu a dosbarthu'r BBC. Mae'n creu, yn buddsoddi, yn datblygu, yn cynhyrchu, yn masnacheiddio ac yn dosbarthu cynnwys sydd wrth wraidd amserlen y BBC, ac ar lawer o lwyfannau ac o amgylch y byd, gan gynnig gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded drwy helpu i ariannu rhaglenni a difidendau arian parod. I ddyysgu mwy am weithgareddau BBC Studios gweler tudalen 66.

BBC NEWS GLOBAL

BBC Global News sy'n gweithredu sianel deledu 24 awr ryngwladol y BBC sef BBC World News a bbc.com. Mae'r sianel a'r wefan yn cael eu hariannu drwy hysbysebion a nawdd, yn ogystal ag incwm gan weithredwyr teledu y telir amdano sy'n cynnig y sianel. Darllenwch fwy ar dudalen 70.

BBC STUDIO WORKS

Mae BBC Studioworks yn darparu cyfleusterau stiwdio deledu, cyfarpar, criw a gwasanaethau ôl-gynhyrchu o leoliadau yn y DU. Mae'n cefnogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU drwy ddiffidendau arian parod blynyddol. Darllenwch fwy am yr hyn mae Studioworks yn ei ddarparu ar gyfer y BBC ar dudalen 71.

Gweithrediadau masnachol **BBC Studios**

Trosolwg

Er gwaethaf yr holl aflonyddwch byd-eang yn 2020/21, cyflawnodd BBC Studios berfformiad cadarn diolch i'w gymysgedd busnes amrywiol ac ymdrechion ymroddedig ei holl bobl. Cyflwynodd y pandemig, ynghyd â thrawsnewidiad y farchnad cynnwys fyd-eang, heriau parhaus. Fodd bynnag, helpodd refeniw cadarn o wasanaethau wedi'u brandio, cwsmeriaid cynnwys a chynhyrchion defnyddwyr, ynghyd â mesurau gweithredol i reoli gwariant, ac addaswyd ym mhob rhan o'r busnes, i liniaru effaith atal gwneud rhaglenni ac arafwch cyffredinol o ran hysbysebion.

Gwnaeth y busnes gynnydd da ar nodau strategol ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd mewn sefyllfa gref i dyfu yn y dyfodol. Ehangwyd y ffocws ar bobl, diwylliant a llesiant yn sylweddol er mwyn cefnogi'r rheini oedd yn gweithio i BBC Studios drwy'r pandemig ac, yn ogystal â chymorth ariannol ar gyfer staff cynhyrchu yr effeithiodd y bwch mewn rhaglennu yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn arnynt, rhoddodd y busnes hefyd £0.3 miliwn i gronfa cymorth brys yr Elusen Ffilm a Theledu ar gyfer gweithwyr llawrydd yn y diwydiant.

Cafodd BBC Studios gydnabyddiaeth greadigol eang, gan ennill 41 o wobrau o 109 o enwebiadau. BBC Studios oedd y cwmni cynhyrchu a gomisiynwyd fwyaf yn y DU am yr ail flwyddyn yn olynol, gyda bron i 1,000 o gomisiynau newydd yn y pedair blynedd ers iddo fynd yn fasnachol, yr oedd 33% ohonynt yn rhaglenni newydd.

Cafwyd gwerthiannau o £1,255 miliwn (2019/20: £1,388 miliwn), gostyngiad o 10%, yn bennaf oherwydd y bwch mewn cynhyrchu a nodwyd uchod. Roedd EBITDA (enillion cyn llog, trethi, dibrisiant ac amorteddio: y mesur a ffeirir ar gyfer elw) yn £151 miliwn (2019/20: £181 miliwn), gostyngiad o 17% wrth i gostau is wrthbwysio refeniw is i raddau, ac wrth i brosesau gofalus i reoli arian parod arwain at ostyngiad mewn dyled net yn y byrdymor, gyda £15 miliwn o fenthyciadau net ar ddiwedd y flwyddyn cyn cyfleoedd buddsoddi digidol ac eiddo deallusol yn y dyfodol.

Roedd yr adenillion i'r BBC, drwy fuddsoddiadau mewn rhaglennu yn bennaf, yn £137 miliwn (2019/20: £276 miliwn). Mae'r busnes ar y trywydd cywir i gyrraedd ei darged pum mlynedd o £1.2 biliwn mewn adenillion i'r BBC yn ôl y bwriad erbyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf.

Dull gweithredu strategol

Mae gan BBC Studios strategaeth glir: datblygu deunydd creadigol poblogaidd, creu gwasanaethau cryfach a thyfu partneriaethau cwsmeriaid mawr, gan



Ffilmio yn ystod y cyfyngiadau symud

Arweiniodd y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020 at oedi mewn prosesau cynhyrchu teledu a ffilm, ond wynebodd timau BBC Studios yr her o gadw eu hunain yn ddiogel wrth gynhyrchu hoff raglenni cynulleidfaoedd.

Parhaodd *The One Show* i gael ei darlledu'n ddi-dor, gan ddefnyddio criw bach, camerau â chyflau, mesurau glanhau cyfarpar llym, marciau clir ar y llawr a gweithdrefnau i'r cyflwynwyr wneud eu gwallt a'u colur eu hunain – glasbrint ar gyfer cynrychiadau Covid BBC Studios.

Ailddechreuodd y gwaith o gynhyrchu *Top Gear* ac *EastEnders* yn gynnar drwy gynnal pellter cymdeithasol wrth ffilmio: cynulleidfa gyrru i mewn ar gyfer *Top Gear* a defnyddiodd *EastEnders* dechnegau camera er mwyn gwneud i'r rheini ar y sgrin edrych fel petaent yn agosach at ei gilydd.

Aeth *Strictly Come Dancing* rhagddi yn 2020 gyda'r sêr a'u partneriaid dawnsio proffesiynol yn creu 'swigod' er mwyn gallu cystadlu'n ddiogel, gan arwain at y niferoedd gwylio mwyaf erioed ar gyfer y 18fed gyfres.

Yn y cyfamser, defnyddiwyd stiwdio yn y cartref a Zoom ar gyfer fersiwn rithwir o *Later... with Jools Holland*; a sefydlodd timau ar *The Green Planet*, y gyfres hanes naturiol nodedig sydd ar ddoed stiwdios dros dro yn eu cartrefi i ffilmio gweithgarwch planhigion drwy dechneg oediog.

sicrhau y gellir gweld y cynnwys gorau o Brydain yn y DU a ledled y byd er budd talwyr ffi'r drwydded. Mae ffocws ar roi pobl yn gyntaf yn sail i hyn: datblygu diwylliant sy'n hyrwyddo amrywiaeth, datblygiad gyrfa ac arweinyddiaeth, llesiant a chynaliadwyedd.

Ysgogi deunydd creadigol poblogaidd

Er gwaethaf heriau'r flwyddyn, mae BBC Studios wedi cynnal ffocws ar iechyd creadigol ei frandiau allweddol ac, o ganlyniad, aeth rhaglenni fel *Top Gear* a *Strictly Come Dancing* o nerth i nerth – cafwyd ffigurau gwyllo cryf ar gyfer partneriaeth Harris-McGuinness-Flintoff yn y DU wrth iddi symud i BBC One, a gwelwyd cynnydd o 21% yn nifer yr ymweliadau â safle TopGear.com. Cyrhaeddodd *Dancing with the Stars* y garreg filltir o 60 o diriogaethau wrth i'r fformat gael ei werthu i Fongolia.

Ymysg y rhaglenni newydd a lanswyd yn ystod y flwyddyn gan BBC Studios roedd *We Hunt Together* ar gyfer UKTV, *The Surgeon's Cut* ar gyfer Netflix, a enillodd wobwr RTS, *Waterhole* ar gyfer BBC Two/PBS a *Pandemonium* ar gyfer BBC One.

Ymysg y cynrychiadau ar yr awyr drwy gydol y pandemig roedd *The One Show*, *Countryfile* a *Springwatch*, yn ogystal â *The Big Night In*, sef cydweithrediad untro rhwng Plant mewn Angen a Comic Relief, a gyrrhaeddodd gynulleidfa o 8.5 miliwn ar ei uchaf ac a gododd £74 miliwn. Er i'r cyfyngiadau symud cyntaf atal prosesau cynhyrchu ar gyfresi drama parhaus, llwyddodd timau BBC Studios i ailgyflwyno *EastEnders*, *Casualty*, *Doctors*, *Pobol y Cwm* a *Holby City* yn gyflym dros yr haf.

Yn y DU, mae BBC Studios yn cynhyrchu rhaglenni mewn deg lleoliad ar draws y DU ac ym mhob un o'r gwledydd. Yn ystod y flwyddyn hon, sicrhodd 74 o gomisiynau newydd ar gyfer y BBC ac 16 o gomisiynau newydd ar gyfer trydydd partion yn y DU, yn cynnwys ail a thrydedd gyfres *Trying*, comedi ar gyfer Apple TV+, a chynnwys cryf yn yr arfaeth i'w gyflwyno yn y dyfodol.

Cynyddodd y busnes fentrau i nodi a datblygu talent greadigol newydd, yn enwedig ar draws deunydd digidol a deunydd wedi'i sgrïptio drwy ei raglenni preswylfeydd a gweithdai poblogaidd a gaiff eu rhedeg o dan labeli TalentWorks a ScriptWorks. Fel rhan o ymrwymiad i gynhyrchu amrywiaeth, ymrwymodd y busnes i drothwy sylfaenol o 20% ar gyfer y rheini o gefndir a dangynrychiolir ar bob cynhyrchiad newydd o fis Tachwedd 2020 a lansiodd rhaglen hyfforddiant arbenigol ar gyfer Cynhyrchwyr Cynorthwyol.

Ymysg y rhaglennu nodedig, o ansawdd uchel a gyflwynwyd gan bartneriaid

annibynnol y mae BBC Studios wedi buddsoddi ynddynt yn ystod y flwyddyn anodd hon mae *A Suitable Boy* ar gyfer BBC One gan Lookout Point ac *I May Destroy You* ar BBC One gan Various Artists a FALKNA.

Gwasanaethau cryfach

Yn ystod blwyddyn gyntaf lawn y berchnogaeth o UKTV, er gwaethaf yr amgylchedd hysbysebu heriol iawn, parhaodd y busnes i dyfu ei gyfran o'r farchnad, a 2020 oedd blwyddyn orau UKTV erioed o ran ei Gyfran o Effeithiau Masnachol (SOCl) ar gyfer y portffolio sianelau presennol, gan gyflawni SOCl o 8.07%. Cyflawnodd y rhwydwaith hefyd y SOCl gorau erioed ar gyfer misoedd Chwefror (8.08%) a Mawrth (8.72%) y flwyddyn hon.

Enillodd UKTV, sy'n cadw ei frand wrth weithredu fel rhan o Grŵp y BBC, ei wobwr BAFTA gyntaf (*Taskmaster*) ac UKTV Originals oedd y rhaglenni mwyaf poblogaidd ar y rhwydwaith gan hawlio'r pum safle uchaf yn cynnwys *Red Dwarf: The Promised Land* ar Dave a *Bangers & Cash* ar Yesterday, sef rhaglen fwyaf poblogaidd y sianel erioed. Cynyddodd UKTV ei fuddsoddiad mewn dramâu gwreiddiol wedi'u sgrïptio gyda chomisiynau yn cynnwys *Ragdoll*, *Annika*, *The Diplomat* a chyfres arall o *Traces* a *We Hunt Together*.

Ynghyd â phoblogrwydd cynyddol BBC Earth ar YouTube, gyda 2.6 biliwn o geisiadau i wyllo'r fideos – cynnydd o 44% o un flwyddyn i'r llall – gwelwyd twf cyson yn argaeledd sianelau llinellol BBC Studios, gyda BBC First, y sianel ar gyfer deunydd wedi'i sgrïptio, yn mynd yn fyw yn Nhwrcei, Taiwan a Chanada yn ystod y flwyddyn, a BBC Lifestyle yn lansio yn Ne Corea a CBeebies yn India.

Mewn amgylchedd heriol a chynyddol gystadleuol, parhaodd BBC AMERICA i gynnig rhaglennu nodedig o ansawdd uchel i wylwyr ffyddlon, yn cynnwys *Killing Eve* a *Doctor Who*. Mae'r rhwydwaith yn arwain o ran rhaglennu hanes naturiol ar deledu llinellol yn yr UD, yn arbennig ar ddyddiau Sadwrn yn ystod 'micro-rwyd' *Wonderstruck* – cyfnod o 24 awr o drosfeddiannu'r sianel yn benodol ar gyfer y genre hwn.

Lansiodd BBC Studios BBC Select, ei wasanaeth ffrydio digidol a weithredir ac a berchenogir yn llawn cyntaf, ar Amazon ac Apple TV+ ar ddechrau 2021, gan ganolbwyntio ar ddiwylliant, gwleidyddiaeth a syniadau.

Lanswyd gwasanaeth e-ddysgu BBC Maestro yn llwyddiannus yn y DU, gan sicrhau mwy na hanner miliwn o ymwelwyr â'r safle mewn pedwar mis. Bydd y gwasanaeth yn lansio'n rhyngwladol yn ddiweddarach yn

2021 gyda deg cwrs newydd gan arbenigwyr proffil uchel yn eu maes, yn cynnwys Julia Donaldson, Peter Jones ac Ozwald Boateng.

Prif bartneriaethau cwsmeriaid

Aeth gwasanaethau SVOD premiwm Discovery+ a HBO Max yn fyw i ddefnyddwyr gyda chynnwys y BBC ar adeg eu lansio, yn cynnwys cyfresi hanes naturiol a drama nodedig yn y drefn honno.

Bydd cytundeb cyd-gynhyrchu a gwerthu cynnwys newydd dros sawl blwyddyn a wnaed gyda'r llwyfan adloniant Tsieineaidd Bilibili yn cyflwyno cynnwys y BBC yn Tsieina, a bydd partneriaid yn cydweithio ar gynrychiadau a arweinir gan BBC Studios. Bydd partneriaeth â Huawei Video yn cyflwyno 300 awr o ddramâu, comedi a rhaglenni ffeithiol i ddefnyddwyr ffonau deallus mewn sawl tiriogaeth, a lluniodd y busnes gytundeb cynnwys â Xigua Video Bytedance ar gyfer rhaglennu hanes naturiol, plant a dramâu.

Effeithiodd Covid ar farchnadoedd gwerthiannau cynnwys y flwyddyn, gyda BBC Studios yn creu presenoldeb rhithwir yn nigwyddiad y diwydiant MIPCOM a gwaith cyflym i ailwampio Showcase, cynhadledd gwerthiannau mewnol pwrpasol BBC Studios ar ffurf rithwir, gan ddyblu nifer y bobl a gymerodd ran o gymharu â'r digwyddiad yn y cnawd a gynhaliwyd yn Lerpwl yn 2020.

Pobl a diwylliant

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi dangos gwydnwch hynod y bobl yn BBC Studios sydd wedi parhau i sicrhau newid a thwf mewn amgylchiadau heriol iawn. Lansiodd y busnes gynllun pwrpasol i roi pobl yn gyntaf, i wella diwylliant ac i ddatblygu talent, a chyflymwyd pecyn o fesurau llesiant ym maes iechyd meddwl ac iechyd corfforol er mwyn helpu timau ac unigolion i ffynnu yn yr amgylchiadau digynsail a welwyd yn ystod y cyfyngiadau symud. Helpodd arolygiadau staff rheolaidd yn ystod y flwyddyn i arwain yr ymateb, a gwnaeth 79% gytuno y byddent yn 'argymhell y BBC fel lle i weithio' ym mis Ebrill 2021.

Er mwyn helpu i ddiogelu'r blaned a'i phobl, lansiodd BBC Studios gynllun cynaliadwyedd i'r cwmni cyfan gyda thargedau newydd, yn cynnwys gostyngiad o 50% o leiaf mewn lefelau teithio. Cyhoeddodd y busnes ei uchelgais o fod yn sero net o ran allyriadau carbon ar gyfer 2030, ar ôl cyflawni niwtraledd carbon drwy leihau a gwrthbwysu. Wrth i BBC Studios garhau i arwain y byd o ran cynnwys amgylcheddol a normaleiddio ymddygiad cynaliadwy

Gweithrediadau masnachol

BBC Studios *parhad*

Perfformiad yn ôl elfen weithredu

	Gwerthiannau		EBITDA	
	2020/21	2019/20	2020/21	2019/20
Cynhyrchu a Dosbarthu	929	1,059	66	75
Gwasanaethau wedi'u brandio	383	385	85	111
Dileadau	(57)	(56)	0	(5)
Cyfanswm	1,255	1,388	151	181

Noder Mae BBC Studios yn olrhain ei berfformiad ar draws dwy linell busnes, Cynhyrchu a Dosbarthu a Gwasanaethau wedi'u Brandio Mae'r gwerthiannau a'r perfformiad EBITDA o flwyddyn i flwyddyn yn adlewyrchu effaith Covid-19 ar feysydd busnes Cynhyrchu a Gwasanaethau wedi'u Brandio

Mae'r dadansoddiad elfennol uchod yn cynnwys dyraniad o'r holl gostau canolog – rydym yn parhau i annog rheolaeth gref o gostau

ar y sgrin, gwelwyd arloesedd newydd oddi ar y sgrin yn ystod y flwyddyn pan ddefnyddiodd *Winterwatch* eneradur hydrogen a batri am y tro cyntaf ar ddarllediad awyr agored ar raddfa fawr.

Er gwaethaf y pandemig a'r heriau a wynebwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, cyflawnodd pob cynhyrchiad statws ôl-troed Albert a llwyddodd 98% ohonynt i leihau allyriadau carbon drwy Gynlluniau Gweithredu Carbon BAFTA, yn cynnwys labeli cynhyrchu annibynnol BBC Studios sydd dan ei berchenogaeth lwyr.

Galluogodd llwyfan dysgu digidol newydd gyflogion i fanteisio ar hyfforddiant yn unigol ac yn rhithwir, a chyflwynwyd mentrau i wella arweinyddiaeth a theithiau gyrfa ac i symleiddio prosesau ym mhob rhan o'r cwmni, yn ogystal â chynllun ymroddedig i wella amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r cynnydd yn erbyn targed Amrywiaeth a Chynhwysiant 50:20:12 Grŵp y BBC i'w weld ar dudalen 53.

Adolygiad o berfformiad ariannol

Mae canlyniadau ariannol cyffredinol BBC Studios yn dangos gostyngiad mewn refeniw ac EBITDA o flwyddyn i flwyddyn o ganlyniad i waith cynhyrchu sydd yn yr arfaeth yr effeithiwyd arno a refeniw hysbysebu is. Er hyn, mae ei berfformiad yn dangos ei allu i addasu i farchnad newidiol ac amgylchiadau gweithredol heriol. Canolbwyntiodd y busnes ei adenillion ar fuddsoddi mewn cynnwys, a gwelwyd gostyngiad o 39% o ganlyniad i fylchau mewn cynhyrchu.

Diolch i gamau gofalus i reoli costau, mae'r sefyllfa arian parod wedi gwella wrth i'r busnes leihau ei fuddsoddiadau a chynnal rheolaeth dynn o gyfalaf gweithio. Y sefyllfa dyledion net ar ddiwedd y flwyddyn, heb gynnwys prydlesau, oedd £15 miliwn (2019/20: £112 miliwn) a'r llif arian parod rhydd oedd £200.7 miliwn (2019/20: £89 miliwn)¹. Mae hyn yn golygu bod y busnes mewn sefyllfa

dda i fuddsoddi mewn twf yn y dyfodol ac adferiad dros y misoedd nesaf.

Cynhyrchu a Dosbarthu

Mae Cynhyrchu a Dosbarthu yn cynnwys rhaglenni a gaiff eu cynhyrchu a'u gwerthu i ddarlledwyr a pherchenogion llwyfannau ledled y byd, yn ogystal â chyfran BBC Studios o ganlyniadau ei gyd-fenter a'i gwmnïau cynhyrchu cyswllt, gwerthu fformatau a chynhyrchion i ddefnyddwyr.

Yn y DU, cafodd ychydig dros hanner y rhaglenni a oedd wrthi'n cael eu cynhyrchu eu hoedi am sawl mis, gan arwain at gostau ychwanegol ar ôl i'r gwaith ffilmio ailgychwyn. Er hyn, addasodd y timau cynhyrchu er mwyn dilyn rheolau Covid – gan helpu i greu arferion gorau ar eu cyfer yn aml – gan gadw pobl yn ddiogel a sicrhau bod cynrychiadau'n parhau i weithredu, a galluogi dramâu parhaus i ddychwelyd (ceir rhagor o fanylion ar dudalen 66). Yn gyffredinol, cyflawnodd y busnes 1,352 awr o gynnwys a 232 o raglenni yn ystod y flwyddyn.

Effeithiodd Covid-19 hefyd ar amserlenni cynhyrchu labeli y buddsoddodd BBC Studios ynndynt, ond mae cynnyrch da yn yr arfaeth gydag addasiad Kate Atkinson *Life After Life* gan House Productions a rhaglen ddogfen ar Robert Maxwell gan Expectation, y ddwy raglen ar gyfer y BBC. Atgyfnerthwyd hyn yn ystod y flwyddyn pan gaffaelwyd y gyfran oedd yn weddill o Clerkenwell Films Limited, gwneuthurwr *The End of the F***ing World*.

Yn rhyngwladol, perfformiodd y timau cynhyrchu yn gryf iawn wrth ddarparu cynnwys, yn enwedig yng nghyd-destun cyfngiadau difrifol Covid yn LA, Ffrainc, De Affrica a Mumbai. Yn yr UD, roedd y rhaglenni'n cynnwys *Weakest Link* (NBC), y 150fed pennod o *Life Below Zero* (National Geographic), *Murder Among the Mormons* (Netflix), a'r 29ain tymor o *Dancing with the Stars* ar gyfer ABC, a gyflwynwyd gan Tyra Banks am y tro cyntaf. Yn India, cynhyrchwyd *Sons of the Soil* ar gyfer Amazon, ac ail gyfres o

Criminal Justice ar gyfer Disney+ Hotstar. Mewn amgylchiadau anodd, cafodd y fersiynau Ffrangeg o *Top Gear* a *Bake Off* y cyfraddau gwyllo gorau erioed.

Cafodd Gwerthu Cynnwys ei ail flwyddyn orau erioed gydag ond 9% o ostyngiad mewn refeniw cyffredinol, diolch i bartneriaethau cwsmeriaid mawr a gwaith caled yn y busnes i gefnogi cwsmeriaid mewn gwasanaethau darlledu a SVOD yr effeithiodd yr oedi mewn gwaith cynhyrchu arnynt, drwy gynnig mynediad i ôl-gatalog BBC Studios.

Sicrhawyd 3% o dwf o flwyddyn i flwyddyn o ran Cynhyrchion i Ddefnyddwyr, wrth i ddefnyddwyr werthfawrogi DVDs a lawrlwythiadau electronig o'r newydd ar gyfer gwyllo gartref gan oedi'r tueddiadau marchnad ar i lawr diweddar.

Gwasanaethau wedi'u Brandio

Ymysg y Gwasanaethau wedi'u Brandio mae sianelau a gwasanaethau digidol â brand y BBC, UKTV, cyfran BBC Studios o'r gyd-fenter a gweithrediadau cyswllt yn Britbox International a BBC AMERICA, a gwasanaethau digidol wedi'u brandio gan gynnwys BBC Player yn Asia. Cyflawnodd berfformiad cadarn yn ystod y flwyddyn, er gwaethaf yr ansicrwydd economaidd, gyda chyfanswm y gwerthiannau i lawr 1%.

Gan ddangos ei ymrwymiad i wasanaethau llinellol, gwnaeth UKTV ddau fuddsoddiad hirdymor pwysig yn y sbectrwm sianelau ar ddiwedd 2020: yn sgil prynu CCXTV, symudodd Dave Ja Vu i slot Freeview 23, a lansiodd Drama+ 1 yn slot Freeview 73, gan wella SOCI i'r ddwy sianel.

Effeithiodd pwysau hysbysebu ar draws y farchnad a niferoedd gostyngol o aelwydydd teledu â thâl ar bortffolio sianelau llinellol byd-eang BBC Studios ac i fwy o raddau ar ganlyniadau BBC AMERICA, gan arwain at leihad yng ngwerth cyfranddaliad BBC Studios yn y sianel sef £44 miliwn. Dyma'r lleihad mewn gwerth cyntaf ers gwerthu 49.9% o'r sianel i AMC Networks yn 2014, a arweiniodd at elw o £116 miliwn; mae'r balans buddsoddi sy'n weddill o £132.1 miliwn yn adlewyrchu hyder ym mhroffidioldeb y sianel yn y dyfodol.

Lansiodd Britbox, y gyd-fenter rhwng y BBC ac ITV, yn Awstralia, a bydd ar gael yn Ne Affrica yn ddiweddarach yn 2021. Roedd perfformiad y gwasanaeth y tu allan i'r DU, lle mae BBC Studios yn berchen ar 50% ohono (ac ITV yn berchen ar 50%) ac a ystyrir yn gyd-fenter, yn arbennig o gryf, gan gyrraedd 1.7 miliwn o danysgrifwyr rhyngwladol yn ystod y flwyddyn.

¹ Mae Llif Arian Parod Rhydd yn cynrychioli arian parod o weithgareddau gweithredu eraill yn cynnwys prynu a gwerthu eiddo, peiriannau a chyfarpar a phrynu hawliau dosbarthu



Bluey

Mae *Bluey*, y gyfres glodwiw i blant a gydgomisiynwyd gan BBC Studios ac ABC Children's (Awstralia), yn hynod o boblogaidd yn Awstralia ac mae'n denu cynulleidfaoedd ledled y byd.

Gwylwyd y gyfres hon wedi'i hanimeiddio 480 miliwn o weithiau ar draws y ddwy gyfres gyntaf ar wasanaeth Fideo ar Alw ABC, darlledwr Awstralaidd, ac ym mis Mehefin 2019, lluniodd BBC Studios gytundeb darlledu byd-eang i ddangos *Bluey* am y tro cyntaf ar Disney Junior a Disney+ ym mhob tiriogaeth y tu allan i Awstralia, Seland Newydd a Tsieina.

Mae *Bluey* ar gael mewn mwy na 60 o wledydd ledled y byd erbyn hyn a chafodd ei darlledu am y tro cyntaf ar CBeebies yn y DU ym mis Ebrill 2021.

Ar ôl ennill Gwobr Emmy Ryngwladol® yn y flwyddyn ariannol flaenorol, mae'r gyfres yn parhau i gael adolygiadau cadarnhaol, gan ennill pedair gwobr Kidscreen y flwyddyn hon ac mae wedi perfformio'n gryf mewn cynhyrchion i ddefnyddwyr, gan ennill sawl Gwobr Teganau Awstralia a chyrraedd brig siartiau llyfrau a cherddoriaeth yn Awstralia a'r UD. Mae sianel YouTube *Bluey* wedi cronni mwy nag wyth miliwn o oriau o amser gwyllo gyda mwy na 258 miliwn o achosion o wyllo, a disgwyllir i'r llwyddiant hwnnw barhau i dyfu.

Blaenolwg

Mae BBC Studios yn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd yn dilyn perfformiad cryf o ystyried yr amgylchiadau. Bydd y pandemig yn arwain at ragor o ansicrwydd yn y farchnad, rhagor o gostau ac aflonyddwch; rhoddir blaenoriaeth uchel i gefnogi llesiant cyflogaion a gweithwyr llawrydd yn ystod y cyfnod hwn. Gyda mwy na 90% o raglenni wedi ailddechrau'r broses gynhyrchu, mae BBC Studios yn disgwyl cyflawni yn erbyn ei strategaeth ac mae wedi ailmrwymo i gyrraedd ei darged adenillion i'r BBC dros bum mlynedd o £1.2 biliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol newydd, er gwaethaf effeithiau Covid.

Er y newidiadau sylweddol a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf – pan ddaethpwyd â'r prosesau cynhyrchu a dosbarthu ynghyd, gan gyfuno UKTV – mae llawer o newid ar y gorwel gydag uchelgais cynyddol i gynyddu refeniw o weithgareddau masnachol y BBC. Daeth BBC Global news, cartref bbc.com a BBC World News, yn rhan o BBC Studios ar 1 Gorffennaf 2021, ac mae'r cyfrifoldeb golygyddol ar gyfer BBC World News wedi symud i'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae hyn yn cefnogi'r busnes i greu rhagor o gyfleoedd marchnata y tu allan i'r DU, yn cynnwys gwasanaethau digidol a sain byd-eang. Bydd BBC Children's Productions yn ymuno â BBC Studios Productions ym mis Ebrill 2022 gan ei alluogi i ddatblygu a chynhyrchu ar gyfer cwsmeriaid allanol a pharhau i gefnogi CBeebies a CBBC drwy gynnig y cynnwys plant Prydeinig o'r ansawdd uchaf. Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau strwythurol hyn a'r cynlluniau twf organig sy'n bodoli eisoes yn sail i darged adenillion ariannol newydd o £1.5 biliwn dros bum mlynedd gan ddechrau yn 2022/23, cynnydd o 30% o gymharu â'r cyfnod blaenorol ac ar y blaen o ran twf marchnad a ragwelir.

Bydd BBC Studios yn parhau i gyfrannu at lwyddiant ar y sgrin yn y flwyddyn i ddod. Ymysg y cynnwys creadigol a gyflwynir bydd *Time* gan Jimmy McGovern, *The Green Planet*, cyfres nodedig Uned Hanes Naturiol BBC Studios a gaiff ei lleisio gan Syr David Attenborough a fformat dawnsio a charu newydd sbon, *I Like The Way You Move* ar gyfer BBC Three, ynghyd â ffefrynnau'r gynulleidfa, *Strictly Come Dancing*, *EastEnders*, *Doctor Who* a *Top Gear*. Ymysg buddsoddiadau mawr BBC Studios drwy ei bartneriaid cynhyrchu annibynnol ar gyfer y BBC mae *Superhoe* (teitl gweithio) gan Nicole Lecky, Sherwood gan James Graham a *Forgotten Empire* gan David Olusoga - ynghyd â'r 11eg tymor o *Call The Midwife* sydd mor agos at galonau'r gynulleidfa.

Gweithrediadau masnachol

BBC Global News

BBC Global News yw is-gwmni newyddion masnachol y BBC sy'n gweithredu gwasanaethau teledu ac ar-lein Saesneg y BBC y tu allan i'r DU; BBC World News a bbc.com. Cenhadaeth BBC Global News yw cyflwyno newyddiaduraeth ddiuedd a dibynadwy'r BBC i gynulleidfa fyd-eang gynyddol, gan sicrhau elw masnachol ar yr un pryd.

Mewn blwyddyn eithriadol lle gwelwyd y cynulleidfa oedd mwyaf erioed yn tyrru i'n llwyfannau yn sgil pandemig a wnaeth hefyd roi pwysau mawr ar ein busnesau gwerthu hysbysebion a dosbarthu, gwelwyd 20% o ostyngiad blynyddol mewn refeniw yn 2020/21, gyda chyfanswm refeniw o £91 miliwn. Daeth y diwydiant teithio a thwristiaeth i stop, a gafodd effaith fawr ar y diwydiant hysbysebu, a chafodd cau Quibi, un o'n partneriaid digidol allweddol, effaith ar ddotharthu. Yn y chwarter olaf, effeithiodd pwysau geowleidyddol parhaus yn Tsieina a'r Dwyrain Canol ar ddau faes y busnes, ac yn nodedig cafodd trwydded BBC World News yn Tsieina ei thynnu'n ôl yn ben llanwr ar y cyfan. Rhoddwyd mesurau arbed costau ar waith ar unwaith, a helpodd i liniaru rhywfaint ar hyn, ond yn gyffredinol, arweiniodd y pwysau yn ystod y flwyddyn at LBITDA o £9 miliwn, wedi pum mlynedd yn olynol o broffidoldeb.

Caiff BBC Global News sgôr uchel am ymddiriedaeth yn gyson, a nododd Adroddiad Newyddion Digidol Sefydliad Reuters yn 2020 mai BBC News yw'r brand newyddion yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn yr Unol Daleithiau. Yn ystod y pandemig, bu galw nas gwelwyd o'r blaen am newyddion y gellir ymddiriedir ynddo, gyda Covid-19 yn sicrhau ffigurau cynulleidfa uchel drwy gydol y flwyddyn. Hefyd, gweithiodd BBC Global News gyda dau wasanaeth newyddion rhyngwladol mawr i roi gwerth cyfunol o \$50 miliwn o hysbysebion i hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd hanfodol.

Mae sianel World News a bbc.com yn cyfrannu bron i draean o gyfanswm cyrhaeddiad wythnosol rhyngwladol y BBC. Mae cyrhaeddiad aelwydydd sianel BBC World News yn parhau i dyfu ac mae bellach wedi pasio 453 miliwn o aelwydydd yn fyd-eang, gyda 112 miliwn o bobl yn gwyllo'r sianel bob wythnos.

Zeinab Badawi yn cyflwyno Global Questions ar BBC World News



Parhaodd cyrhaeddiad cynulleidfa oedd bbc.com i dyfu hefyd, gyda thwf o +19% o un flwyddyn i'r llall, a chyrrhaeddodd lefel uchaf newydd o 180 miliwn o borwyr unigryw misol ym mis Tachwedd 2020, yn sgil etholiad yr UD a'r sylw parhaus i Covid-19. Ymwelodd 31 miliwn o borwyr â bbc.com y diwrnod ar ôl i'r UD ethol Arlywydd newydd, sef y nifer dyddiol mwyaf erioed, a oedd bron i 50% yn uwch na'r nifer mwyaf blaenorol.

Mae safleoedd nodwedd bbc.com (BBC Future, BBC Reel, BBC Culture, BBC Travel a BBC Worklife) wedi gweld twf eithriadol o +24% o un flwyddyn i'r llall y flwyddyn hon, ac ymysg y prif straeon roedd, 'Why Zoom chats are so exhausting' a 'The last secrets of the world's lost continent'.

BBC News yw un o'r ffynonellau newyddion a ddilyni'r fwyaf ar Facebook; mae ganddi dros 53 miliwn o ddilynwyr. Yn 2020/21, adnewyddodd BBC Global News gytundeb â Facebook i gyflwyno rhaglen wythnosol, Cut Through The Noise, ar ei lwyfan Watch am y trydydd tro. Parhaodd twf sianel YouTube BBC News yn 2020/21, gan ddenu mwy na naw miliwn o danysgrifwyr, sy'n golygu bod BBC News ymhlith y ffynonellau newyddion mwyaf ar YouTube.

Cafodd BBC Global News ei gydnabod am ei newyddiaduraeth ragorol drwy ennill sawl gwobr yn 2020/21, yn cynnwys nifer o Wobrau AIB, Gwobrau Telly a Gwobr Cymdeithas Ffotograffwyr Newyddion y Tŷ Gwyn am gynnwys BBC World News. Ar-lein, enillodd BBC Culture Webby am gynnwys cyfryngau cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar y celfyddydau a diwylliant. Enillodd BBC Reel

wobr Tim Fideo'r Flwyddyn yng Ngwobrau Cyfryngau Ar-lein Drum, a wnaeth gydnabod cynnwys gwreiddiol a chlyfar sy'n gwneud i rywun feddwl.

Lansiwyd mewngofnodi gwirfoddol ar bbc.com, a fydd yn ein galluogi i gasglu data parti cyntaf at ddiben hysbysebu, yn ogystal â meithrin dealltwriaeth well o ddefnydd pobl o gynnwys golygyddol ar lwyfannau digidol y BBC.

Blaenolwg

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith ddramatig ar y marchnadoedd y mae BBC Global News yn gweithredu ynddynt, gan leihau cyllidebau hysbysebu a rhoi pwysau ychwanegol ar weithredwyr teledu â thâl drwy gyflymu'r broses o newid o deledu traddodiadol i ffrydio. Ar yr un pryd, mae'r galw am allbwn BBC Global News, bbc.com yn benodol, yn fwy nag erioed wrth i ddarllenwyr a gwylwyr chwilio am arlwy annibynnol y gellir ymddiriedir ynddo sy'n rhoi sylw i ddigwyddiadau byd-eang hollbwysig. Bydd BBC Global News yn parhau i ymateb i'r effeithiau hyn drwy geisio achub ar amrywiaeth o gyfleoedd refeniw newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, yn cynnwys ehangu ein harlyw OTT, a ddefnyddir gennym i ddarparu cynnwys teledu dros y we, a chynnyrch tanysgrifio newydd posibl. Ym mis Gorffennaf 2021, ailstrwythurwyd BBC Global News yn BBC Studios, gan ddo â'r holl weithgareddau masnachol rhyngwladol ynghyd o dan un arweinyddiaeth. Gan edrych i'r dyfodol, mae hyn yn cynnig cyfleoedd anferth ym meysydd buddsoddi, creadigrwydd, rhannu, cydweithredu a chynigion newydd cyffrous i'n cynulleidfa oedd.

453^m

nifer yr aelwydydd y mae BBC World News yn eu cyrraedd yn fyd-eang.

24%

twf safleoedd nodwedd y BBC o un flwyddyn i'r llall y flwyddyn hon

BBC Studioworks

Mae BBC Studioworks yn is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lwyry BBC, sy'n darparu stiwdios teledu a gwasanaethau ôl-gynhyrchu i holl ddarlledwyr a chwmnïau cynhyrchu mawr y DU. Roedd y 12 mis diwethaf (2020/21) yn flwyddyn anferthol i'r busnes.

Yn ystod pandemig byd-eang, datblygodd BBC Studioworks strategaeth twf ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gyda diben a gweledigaeth glir yn sail iddi. Mae BBC Studioworks yn datblygu ei ddiwylliant ac mae ei gynllun pobl y genhedlaeth nesaf ar garlam i ysgogi amrywiaeth, mwy o allu ac incwm uwch gan ymgorffori cyfres glir o werthoedd ym mhob rhan o'r cwmni.

Rhodddwyd proses ailgynllunio sefydliadol ar waith hefyd i sicrhau bod gan BBC Studioworks y strwythur gorau posibl i greu referniw a gwneud mwy o elw masnachol i Grŵp y BBC.

Ochr yn ochr â hynny, yn sgil gweithdrefnau Covid-19 cynhwysfawr a thrylwyr y Cwmni, a oedd ymysg y gorau yn y diwydiant, llwyddwyd i sicrhau

y gallai cynyrchiadau barhau i weithredu mewn amgylchedd diogel, hyd yn oed yng nghanol y cyfyngiadau symud.

Mae rhagoriaeth weithredol a gwasanaeth cwsmeriaid gwyb BBC Studioworks wedi sicrhau perfformiad ariannol cryf i'r cwmni, mewn amgylchiadau anodd. Yn sgil hyn, llwyddodd y cwmni i sicrhau'r referniw a ragfynegwyd – incwm o £37 miliwn (2020: £40 miliwn) ac EBITDA o £6 miliwn (2020: £8 miliwn). Er gwaethaf y gostyngiad o 8% mewn gwerthiannau o un flwyddyn i'r llall gan fod Covid-19 wedi amharu ar yr amserlenni cynhyrchu, mae perfformiad cryf y cwmni a'i ddulliau o adfer ar ôl Covid-19 yn golygu ei fod wedi datgan difidend ariannol o £0.7 miliwn i Grŵp y BBC.

BBC Studioworks oedd gweithredwr stiwdios teledu cyntaf y DU i ailddechrau croesawu cynulleidfaoedd yn ddiogel yn ystod haf 2020, ac mae wedi chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o hwyluso rhai o'r rhaglenni mwyaf er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd ar draws y DU yn cael eu diddannu yn ystod yr argyfwng byd-eang. Ymysg y rhaglenni hyn roedd

£6^m

EBITDA
yn 2020/21

Strictly Come Dancing, Talking Heads a One World: Together at Home ar gyfer BBC One, *Saturday Night Takeaway* ar ITV a'i raglennu byw yn ystod yr wythnos (*Good Morning Britain, Lorraine, This Morning, Loose Women*), *The Last Leg* a *Sunday Brunch* ar gyfer Channel 4 a *League of Their Own* ar gyfer Sky One.

Mae'r busnes hefyd wedi parhau i ddarparu gwasanaethau i raglenni *EastEnders* a *Holby City* y BBC, Programme Acquisitions a Persian Television. Hefyd, bu'r tîm ôl-gynhyrchu yn gweithio ar nifer o brosiectau yn cynnwys *Strictly Come Dancing, It Takes Two* a Noson Apêl Comic Relief ar gyfer y BBC, *Saturday Night Takeaway* ar gyfer ITV a'i raglen gysylltiedig, *Extra Helping*, ar gyfer ITV Hub, a *The Last Leg* ar gyfer Channel 4.

Ymysg y cynyrchiadau newydd roedd *Channel Hopping* a *Rhod Gilbert's Growing Pains* ar gyfer Comedy Central, *Bank Balance* ar gyfer BBC One a *Winning Combination* ar gyfer ITV.

Blaenolwg

Mae'r farchnad y mae BBC Studioworks yn gweithredu ynddi yn gystadleuol o hyd. Mae'r pandemig a'r cynnydd dilynol yn y defnydd o gynnwys wedi ysgogi'r galw am stiwdios teledu, gan arwain at nifer o newydd-ddyfodiaid. I sicrhau twf masnachol, ac mewn ymateb i'r galw cynyddol yn y diwydiant am leoedd stiwdio rhanbarthol sy'n galluogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i wneud mwy o raglenni y tu allan i Lundain, mae gan y busnes gynlluniau clir ac ystyrlon i ehangu ar draws y DU.

Mae cynaliadwyedd hefyd yn hollbwysig i'r busnes gyda'r nod o fod yn sero net erbyn 2030. Mae strategaeth a fframwaith wrthi'n cael eu llunio a fydd yn diffinio'r meysydd blaenoriaeth i ysgogi newid. Gyda diben, cynllun pobl a gweledigaeth glir, bydd y cwmni'n parhau i archwilio cyfleoedd masnachol perthnasol. Bydd BBC Studioworks yn ehangu ei sylfaen cleientiaid i sicrhau y gellir gwneud cymaint o referniw â phosibl, gan hoelio ei le fel arweinydd y diwydiant ym maes gweithredu stiwdios teledu.

The Ranganation, enillydd BAFTA, a ddarlledwyd ar BBC Two





Llywodraethu

Mae'r adran hon yn edrych yn fanwl ar rôl Bwrdd y BBC ac mae'n cynnwys adroddiadau gan is-bwyllgorau dirprwyedig y Bwrdd. Mae'r adran hefyd yn manylu ar ein dull llywodraethu corfforaethol cyffredinol, ein sefyllfa reoleiddiol ac mae'n cadarnhau dyletswyddau'r Bwrdd mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol.

Springwatch, enillydd BAFTA, a ddarledwyd ar BBC Two

Yn yr adran hon

t73

Bwrdd y BBC

t86

Datgeliadau cyflogau

t116

*Y Bwrdd
Daliadau Masnachol*

t76

Adroddiad cydnabyddiaeth

t95

*Adroddiad y Pwyllgor
Archwilio a Risg*

t117

*Canllawiau a Safonau
Golygyddol*



*Once Upon a Time
in Iraq, enillydd
BAFTA, a
ddarledwyd ar
BBC Two*

Ein Bwrdd

Cyflwyno ein Bwrdd

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddbienion cyhoeddus fel y'u nodir yn y Siarter.

Mae'r Bwrdd wedi'i sefydlu o dan delerau Siarter Frenhinol a Chytundeb y BBC. Mae'r Siarter yn amlinellu cyfrifoldebau'r Bwrdd, ei aelodaeth a'r gofyniad am nifer o Bwyllgorau i gefnogi ei waith. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am arfer holl swyddogaethau'r BBC mewn modd priodol, effeithiol ac annibynnol. Mae'n pennu cyfeiriad strategol y BBC ac yn cymeradwyo'r cylch gwaith creadigol a'r cyllidebau ar gyfer gwasanaethau'r BBC.

Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan Richard Sharp ac mae'n cynnwys hyd at ddeg cyfarwyddwr anweithredol – gan gynnwys y Cadeirydd – a phedwar cyfarwyddwr gweithredol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Caiff y Cadeirydd a'r pedwar cyfarwyddwr anweithredol ar gyfer y gwledydd eu penodi gan EM Y Frenhines ar sail argymhelliad

Gweinidogion ar draws y DU. Caiff aelodau eraill y Bwrdd eu penodi gan y BBC, drwy Bwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd.

Gellir darllen bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys eu rolau eraill, ar wefan y BBC: bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i nifer o is-bwyllgorau. Mae'n ofynnol iddo gael Pwyllgor Cydnabyddiaeth, Pwyllgor Enwebiadau a Phwyllgor Archwilio a Risg. Caiff eu gwaith ei ategu gan waith nifer o bwyllgorau eraill, a sefydlwyd gan y Bwrdd – mae'r rhain yn cynnwys y Pwyllgor Masnachu Teg, y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol, y Bwrdd Daliadau Masnachol a phwyllgorau ar gyfer pob un o bedair gwlad y DU.

Mae'r adran hon yn cynnwys adroddiadau gan y pwyllgorau hynny, sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol yn bennaf, ac a gadeirir ganddynt, fel sy'n ofynnol gan y Siarter.

Mae'r tudalennau hyn yn dangos aelodaeth y Bwrdd ar 18 Mehefin 2021.

Yn ystod y flwyddyn, gadawodd y cyn-Gadeirydd, Syr David Clementi, y Bwrdd, ynghyd â Ken MacQuarrie a Dr Ashley Steel. Ymunodd Leigh Tavaziva â'r Bwrdd yn Aelod gweithredol ym mis Chwefror 2021 ac ymunodd Richard Sharp yn Gadeirydd yn ddiweddarach y mis hwnnw. Ers diwedd y flwyddyn, mae Tom Ilube wedi cyhoeddi y bydd yn rhoi'r gorau i'w rôl ar y Bwrdd ar ddiwedd mis Mehefin 2021. Ym mis Mai, penodwyd Syr Robbie Gibb gan EM Y Frenhines yn aelod anweithredol ar gyfer Lloegr. Nid oes aelod Bwrdd ar gyfer Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd. Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n gyfrifol am y penodiad hwn, ond mae angen cynnwys Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Rhoddir manylion am bresenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac is-bwyllgorau ar dudalen 94.



Richard Sharp
Cadeirydd



Tim Davie CBE
Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Olygydd



Y Fonesig Elan Closs Stephens DBE
Cyfarwyddwr anweithredol Aelod Cymru Cadeirydd y Bwrdd Daliadau Masnachol



Shirley Garrood
Cyfarwyddwr anweithredol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg



Syr Robbie Gibb
Cyfarwyddwr anweithredol Aelod Lloegr



Tanni Grey-Thompson, Y Farwnes Grey-Thompson DBE
Cyfarwyddwr anweithredol



Ian Hargreaves CBE
Cyfarwyddwr anweithredol Cadeirydd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol



Tom Ilube CBE
Cyfarwyddwr anweithredol Cadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg



Charlotte Moore
Prif Swyddog Cynnwys



Steve Morrison
Cyfarwyddwr anweithredol Aelod yr Alban



Syr Nicholas Serota CH
Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth



Leigh Tavaziva
Prif Swyddog Gweithredu



Francesca Unsworth
Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes

Llywodraethu

Adroddiad cydymffurfiaeth gorfforaethol

Cydymffurfiwn ag arferion gorau llywodraethu corfforaethol

Diffinnir fframwaith llywodraethu corfforaethol y BBC yn ei Siarter a'r Cytundeb Fframwaith cysylltiedig.

Mae'r Siarter a'r Cytundeb ar gael ar wefan y BBC yn: bbc.com/aboutthebbc/governance/charter.

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ystyried egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r BBC yn ceisio cydymffurfio â gofynion adrodd llywodraethu corfforaethol o dan adran 172 o'r Ddeddf Cwmnïau. Er nad yw'r BBC yn gwmni rhestredig, mae wedi dewis cymhwyso arferion gorau a dilyn darpariaethau Rheolau Rhestru'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Chod Llywodraethu Corfforaethol 2018 y DU ('y Cod'), lle y bo hynny'n briodol. Mae'r Cod ar gael yn: frc.org.uk. Cyflwyno'r safonau llywodraethu sy'n gymwys i gwmnïau a restrir ar farchnad stoc reoleiddiedig yr UE.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd, a oedd yn cynnwys asesiad o berfformiad y Cadeirydd.

Mae nifer o elfennau o'r Cod nad ydynt yn briodol i amgylchiadau'r BBC neu lle mae cydymffurfiaeth â Siarter neu Gytundeb y

BBC yn drech na nhw. Mae hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- darpariaethau 3, 4, 36 a 37, mewn perthynas ag ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyd-fynd â'u buddiannau, nad ydynt yn gymwys, o ystyried nad oes gan y BBC rhanddeiliaid yn yr un modd ag sydd gan gwmni. Fodd bynnag, mae gan y BBC amrywiaeth eang o fesurau ar waith i sicrhau ei fod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol
- darpariaeth 5, materion a nodir yn adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006, sy'n berthnasol i gwmnïau yn unig ac y mae dibenion cyhoeddus y BBC, fel y'u disgrifir yn y Siarter, yn drech na nhw.
- darpariaeth 18, aelodaeth o'r Bwrdd, a lywodraethir gan erthyglau'r Siarter
- darpariaeth 25 a 26, y dull o benodi neu ailbenodi'r archwilydd allanol, a lywodraethir ac a bennir gan gymal 55 o'r Cytundeb.

Fodd bynnag, mae'r BBC wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion llywodraethu corfforaethol y Siarter a'r Cytundeb yn ogystal â chydymffurfio'n llawn â'r Cod.

Cost cydymffurfio

Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol y mae'r BBC yn ddarostyngedig iddi fel darlledwr a chorff cyhoeddus, yn 2020/21 aethom i gostau cydymffurfio amcangyfrifedig o

£15 miliwn (2019/20: £17 miliwn). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys ffi flynyddol y BBC i Ofcom, sef £10 miliwm.

Rheoleidd-dra

Rhaid i'r broses o reoli holl adnoddau'r BBC fod yn unol â darpariaethau'r Siarter, y Cytundeb Fframwaith a chytundebau eraill a wna'r BBC â Gweinidogion y Llywodraeth. Ystyrir bod trafodion sy'n cyflawni'r dibenion a fwriadwyd ac sy'n unol ag awdurdodau perthnasol yn rhai 'rheolaidd'; caiff y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn eu hystyried yn 'afreolaidd'. Ymdrinnir â thrafodion twyllodrus a chosbau ariannol neu ddirwyon fel rhai 'afreolaidd'. Yn ogystal ag adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o reoleidd-dra, cynhaliodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad o fframwaith cydymffurfio â rheoleidd-dra'r BBC, gan gynnwys y prosesau, y rheolaethau a'r systemau sicrwydd sydd ar waith i reoli'r risg i reoleidd-dra mewn meysydd yr asesiad eu bod yn wynebu'r risg fwyaf o afreoleidd-dra. Gwnaeth cwmpas yr adolygiad ystyried y defnydd priodol o ffi'r drwydded, yr asesiad o newidiadau perthnasol, gweithredu o fewn terfynau benthyca a'r risg o dwyll. Ni nodwyd unrhyw eithriadau perthnasol o ganlyniad i'r adolygiad hwn ac nid yw'r rheolwyr yn ymwybodol o unrhyw drafodion perthnasol y gellid eu hystyried yn afreolaidd.

Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf

Sefydlwyd Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf y BBC gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar ddiwedd 2017 gyda'r nod o gynghori uwch-arweinwyr a sicrhau bod lleisiau a syniadau pobl iau yn cael eu clywed ar lefel weithredol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 15 o aelodau iau o'r staff o bob rhan o'r sefydliad, fel arfer am gyfnod o 12-15 mis. Yn 2020, cafodd pandemig Covid-19 effaith sylweddol ar waith y Pwyllgor, ond parhaodd y grŵp i gyfarfod yn rhithwir bob mis i weithio ar gynigion ar gyfer y Pwyllgor Gweithredol. Roedd y rhain yn cynnwys syniadau ynghylch sicrhau mai iPlayer yw'r llwyfan cynnwys mwyaf perthnasol a gaiff ei werthfawrogi fwyaf, sefydlu canolfan gomisiynu newydd y tu allan i Lundain, dod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer adrodd ar yr hinsawdd a newid canfyddiadau cynulleidfa oedd ifanc o'r BBC drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Hefyd, awgrymodd y Pwyllgor feysydd i ganolbwyntio arnynt er mwyn gwella amrywiaeth a chynhwysiant yn y BBC.

Aelodau Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf

Aelodau'r Pwyllgor yn 2020/21

Becca Bryers (Cadeirydd)

Freya Bronwin

Malachi Butt-Mukete

Aaron Cooper

Beth Dinnall

Jordan Dunbar

Simone Eubanks (ymunodd ym mis Hydref 2020)

Emmanuella Kwenortey

Lina Mar

Shannon McGowan

Drew Miller Hyndman (ymunodd ym mis Tachwedd 2020)

Louise Ogunnaike (ymddeolodd o'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2020)

Madusha Pallawela

Ahmed Razek (ymddeolodd o'r Pwyllgor ym mis Hydref 2020)

Jacob Rickard

Ben Tattersall Smith

Keely Watson

Pwyllgor Gweithredol

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cadeirio Pwyllgor Gweithredol, sy'n gyfrifol am redeg y BBC o ddydd i ddydd.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC yn unol â'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd, ac am bob agwedd ar reoli gweithredol.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn goruchwyllo prosiectau

strategol allweddol a chynigion o bwys i'r sefydliad cyfan. Mae'n cael adroddiadau rheolaidd ar gynulleidfaoedd a pherfformiad ariannol, yn ogystal â goruchwyllo polisiau a materion gweithredol y BBC cyfan. Mae gwybodaeth am aelodaeth a threfniadau cydnabyddiaeth y Pwyllgor Gweithredol yn 2020/21 ar gael yn yr adroddiad Cydnabyddiaeth ar dudalennau 76 i 85.

Mae manylion aelodaeth y Pwyllgor Gweithredol ar gael yn: bbc.com/aboutthebbc/whoweare/exco.

Mae'r tudalennau hyn yn dangos aelodaeth y Pwyllgor Gweithredol ym mis Mehefin 2021.



Tim Davie CBE
Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Olygydd



Kerris Bright
Prif Swyddog Cwsmeriaid



Tom Fussell
Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios



Charlotte Moore
Prif Swyddog Cynnwys



Gautam Rangarajan
Cyfarwyddwr Strategaeth a Pherfformiad y Grŵp



June Sarpong
Cyfarwyddwr Amrywiaeth Greadigol



Bob Shennan
Rheolwr Gyfarwyddwr y Grŵp



Rhodri Talfan Davies
Cyfarwyddwr y Gwledydd



Leigh Tavaziva
Prif Swyddog Gweithredu



Francesca Unsworth
Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes

Adroddiad cydnabyddiaeth

Mae'r flwyddyn unigryw hon wedi bod yn un y bydd pob un ohonom yn ei chofio, ac mae pawb sy'n gweithio i'r BBC yn wynebu heriau aruthrol wrth addasu ac ymateb i Covid-19. Rydym hefyd wedi gweld effeithiau enfawr ar ddiwydiant ehangach y cyfryngau, er ein bod i gyd yn croesawu'r ffaith bod cynyrchiadau a digwyddiadau wedi aildechrau mewn niferoedd mwy wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Fel Pwyllgor Cydnabyddiaeth, bu'n rhaid i ni roi sylw agos i effeithiau Covid-19 ar bob agwedd ar ein sefydliad wrth i'r BBC weithio drwy gyfres gymhleth o heriau.

Drwy gydol y flwyddyn, gwnaethom gwrdd fel Pwyllgor chwe gwaith yn ogystal â chynnal busnes arall all-lein. Fel erioed, rwy'n ddiolchgar i'm cyd-aelodau ar y Pwyllgor, Tanni Grey-Thompson a Steve Morrison, am eu cyfraniad a'u cefnogaeth ystyriol a chydweithredol yn ystod y flwyddyn. Roedd y cyn-Gadeirydd, David Clementi, hefyd yn bresennol yn rheolaidd yn ein cyfarfodydd, ynghyd ag Elan Closs Stephens pan oedd ein busnes yn ymwneud â gweithredu'r is-gwmnïau masnachol.

Ein rôl fel Pwyllgor yw goruchwyllo'r strategaeth cyflogau ar gyfer y BBC cyfan, yn enwedig uwch-arweinwyr, ac ystyried a chytuno ar drefniadau cyflogau penodol ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol ac aelodau gweithredol y Bwrdd. Mae gennym gylch gwaith hefyd i gytuno ar y strategaeth ar gyfer cynlluniau cymhelliant ar draws y Grŵp, yn ogystal â chymeradwyo trefniadau unrhyw gynlluniau sy'n ymwneud â chyfarwyddwr gweithredol.

Ar ddechrau'r flwyddyn, cawsom ein hysbysu am ystod o fesurau uniongyrchol a gymerwyd mewn perthynas â chyflogau a recriwtio ar ddechrau pandemig Covid-19. Roedd hyn yn cynnwys atal dros dro y broses recriwtio nad oedd yn hanfodol a rhewi cyflogau uwch-aelodau o staff tan fis Awst 2021. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom hefyd drafod yr effaith ar yr is-gwmnïau masnachol, a chytunwyd nad oedd yn briodol rhoi bonws ar elfennau ariannol y cynllun corfforaethol yn BBC Studios, o gofio'r anawsterau a brofwyd yn niwydiant ehangach y cyfryngau yn ystod y flwyddyn. Nodwyd bod BBC Studios wedi penderfynu ad-dalu'r holl arian a dderbyniodd o'r Cynllun Cadw Swyddi a oedd wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi staff cynhyrchu yn ariannol ac i roi cefnogaeth ehangach i weithwyr llawrydd ym mhob rhan o'r diwydiant drwy roddion elusennol. Wrth i gynyrchiadau adfer ac wrth i berfformiad wella yn 2021/22, byddwn yn parhau i gadw mewn cof yr angen i sicrhau bod BBC Studios yn gallu denu a chadw'r dalent greadigol orau sydd ar gael.

Yn ystod y flwyddyn bu newid sylweddol yn arweinyddiaeth weithredol y BBC. Gwnaethom groesawu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd, Tim Davie, ond hefyd gwnaethom oruchwyllo'r broses o newid i Bwyllgor Gweithredol newydd a llai, gan gynnwys creu rolau newydd ar ffurf Prif Swyddog Gweithredu, Cyfarwyddwr Strategaeth a Pherfformiad a Phrif Swyddog Cynnwys. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd wrthi'n creu tîm cadarn a byddwn yn parhau i roi sylw agos i'w lefelau cydnabyddiaeth, gan nodi na chafodd unrhyw gyfarwyddwr godiad cyflog yn ystod y flwyddyn nad oedd yn ymwneud â chynnydd yng nghwmpas ei rôl.

Mae ein rôl fel Pwyllgor hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni fonitro a goruchwyllo perfformiad yn erbyn ystod o fetrigau adrodd blynyddol, gan gynnwys cynhyrchu'r adroddiad hwn a'r adroddiad datgelu ar gyflogau i'r rhai sy'n ennill mwy na £150,000 yn y gwasanaeth cyhoeddus (gweler tudalen 86). Mae adroddiad y flwyddyn hon yn dangos stori gref o ddiwygio yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys:

- gostyngiad yng nghyfflog cyffredinol cyfarwyddwyr gweithredol, oherwydd y lleihad ym maint y Pwyllgor Gweithredol o 18 i 10;

- gostyngiad parhaus yn nifer yr uwch-arweinwyr, o 253 i 241; ac
- mae'r duedd hon yn cael ei hailadrodd yn y gostyngiad sylweddol yn nifer y staff yn gyffredinol, sef mwy na 1,200 yn llai yn ystod y flwyddyn, rhan o ymgyrch y Cyfarwyddwr Cyffredinol i greu sefydliad llai a mwy effeithlon.

Mae adroddiad y flwyddyn hon yn dangos gostyngiad yng nghyfflog cyffredinol Cyfarwyddwyr Gweithredol, oherwydd y lleihad ym maint y Pwyllgor Gweithredol. Mae nifer yr uwch-arweinwyr hefyd wedi gostwng o 253 i 241. Mae'r adroddiad datgelu yn dangos dirywiad bach o ran cydbwysedd rhwng rhywiau'r cyflogaion hynny ar yr awyr a ddatgelwyd, a achoswyd yn bennaf gan effeithiau Covid-19 ar ddigwyddiadau chwaraeon, er i ni nodi bod costau cyffredinol y rhestr wedi parhau i ostwng ac rydym hefyd yn cofnodi gwelliant rhagamcanol yn y cydbwysedd unwaith eto y flwyddyn nesaf.

Yn ystod y flwyddyn roeddem yn falch o weld bod adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar arferion cyflogau yn y BBC wedi cydnabod ein hymrwymiad i'r broses ddiwygio barhaus – mae hwn yn faes lle mae cynnydd cadarn a chyson wedi ei wneud dros amser. Rydym yn parhau i adolygu ein hymateb i'r adroddiad, a nodwyd y cynnydd da a wnaed ar gau achosion heb eu cwblhau, yr adroddir yn fanylach arno yn yr adroddiad 'Ein Pobl'.

Rydym hefyd yn falch o nodi bod bwlch cyflog rhwng y rhywiau y BBC yn parhau i gau, a'r flwyddyn hon roedd gostyngiad unwaith eto i 5.2% (gweler tudalen 56) sef y gorau yn y diwydiant a lleihad pellach yn y bylchau cyflog ethnigrwydd ac anabled.

Yn y flwyddyn i ddod, rydym yn edrych ymlaen at ddychwelyd i arferion gwaith mwy normal a byddwn yn cefnogi'r BBC wrth iddo ddatblygu ffyrdd newydd o weithio ac wrth iddo barhau i ymgorffori'r gwaith cadarn a wnaed i greu diwylliant teg a chynhwysol i bob aelod o staff.

Nicholas Serota

Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

18 Mehefin 2021

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth flynyddol a dderbyniwyd gan aelodau o Fwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Mae hyn yn cynnwys ein datgeliad blynyddol o gyflogau fel sy'n ofynnol gan Siarter y BBC.

Fe'i paratowyd ar y sail bod gofynion Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2013 a Rheolau Rhestru yn gymwys i'r BBC lle bynnag y bo'r darpariaethau datgelu hyn yn berthnasol. Archwiliwyd yr adrannau ar bensiynau a chydabyddiaeth a dderbyniwyd gan y grŵp hwn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, archwilwyr statudol y BBC.

Cyfansoddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r ffordd y mae'n gweithredu

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd, ers 1 Ebrill 2017, wedi bod yn gyfrifol am bennu'r strategaeth cydnabyddiaeth i Grŵp y BBC ac am bob agwedd ar gydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd. Mae ei aelodau yn gyfarwyddwyr anweithredol: Tanni Grey-Thompson, Steve Morrison a Nicholas Serota. Mae Nicholas Serota wedi cadeirio'r Pwyllgor ers 1 Awst 2018.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cael cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar rai materion, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag arfer y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyngor annibynnol gan Willis Towers Watson ar faterion yn ymwneud â chydabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol ac o bryd i'w gilydd ar ffurf asesiadau o'r farchnad, a gan PricewaterhouseCoopers LLP ar gynllun cymhelliant ehangach mewn perthynas â'n his-gwmnïau masnachol.

Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn gyson â diben a gwerthoedd y BBC. Mae'n sicrhau bod ein trefniadau'n dryloyw ac yn hawdd eu deall, a bod lefelau cydnabyddiaeth yn gymesur â chyfraniad.

Crëwyd Pwyllgor Cydnabyddiaeth yr Uwch-reolwyr saith mlynedd yn ôl ac mae'n gyfrifol am gymeradwyo unrhyw gydnabyddiaeth, iawndal neu bolisi buddiannau yn y polisi ar gyflogau uwch-arweinwyr, sy'n cynnwys adolygu a chymeradwyo cyflogau cyflogeion yn y Sector Cyhoeddus sy'n ennill mwy na £75,000 y flwyddyn (cyfwerth ag amser llawn). Ers 2013, gwnaed gwelliannau sylweddol i'n dull o dalu, gan ddarparu trosolwg a rheolaeth well ar draws y sefydliad. Mae'r diwygiadau hyn, ynghyd â threfniadau adrodd gwell ar gyflogau, wedi ein galluogi i greu system sy'n lleihau'r risg o faterion yn ymwneud â chyflog cyfartal yn sylweddol ac sy'n darparu fframwaith clir ar gyfer gwneud penderfyniadau am gyflogau. Felly, mae'r strwythur llywodraethu cyfredol wedi cael ei symleiddio a'i wella. Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth yr Uwch-reolwyr wedi cael ei ddisodli gan ddwy broses eithrio ac adolygiad manwl chwarterol o gyflogau a threfniadau adrodd ar nifer y staff.

Aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol

At ddibenion yr adroddiad hwn, cyfarwyddwyr gweithredol yw'r rhai sy'n aelodau o'r Bwrdd ynghyd â'r aelodau eraill o'r Pwyllgor Gweithredol.

O dan delerau'r Siarter, mae'r Bwrdd yn cynnwys 14 aelod, gan gynnwys deg cyfarwyddwr anweithredol (y Cadeirydd, pedwar aelod o'r Gwledydd a phum aelod arall) a phedwar aelod gweithredol (y Cyfarwyddwr Cyffredinol a thri aelod arall) – ceir rhagor o fanylion ar dudalen 73. Penodwyd Syr Robbie Gibb fel yr aelod anweithredol ar gyfer Lloegr ym mis Mai 2021. Ar ddiwedd

y flwyddyn, roedd swydd yr aelod o'r Gwledydd ar gyfer Gogledd Iwerddon yn wag.

Cefnogir Bwrdd y BBC gan y Pwyllgor Gweithredol, sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth weithredol y Gorfforaeth. Ceir manylion am lefelau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol ar dudalen 81. Ailstrwythurwyd y Pwyllgor Gweithredol yn sylweddol ar ôl penodi'r Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd. Arweiniodd hyn at y newidiadau canlynol i'r aelodau yn ystod y flwyddyn:

- Gadawodd Wendy Aslett, Rachel Currie, Sarah Jones, David Jordan, Matthew Postgate, James Purnell, John Shield a Clare Sumner y Pwyllgor Gweithredol ar 31 Awst 2020.
- Ymunodd Tom Fussell â'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Medi 2020 dros dro fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios.
- Gadawodd Ken MacQuarrie'r Pwyllgor Gweithredol ar 31 Rhagfyr 2020.
- Ymunodd Rhodri Talfan Davies â'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Ionawr 2021.
- Gadawodd Glyn Isherwood y Pwyllgor Gweithredol ar 31 Ionawr 2021.
- Ymunodd Leigh Tavaziva â'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Chwefror 2021.

Egwyddorion cyflogau'r BBC

Parhawyd i roi ffocws ar gyflogau ar bob lefel yn y BBC, ynghyd â mwy o ffocws ar gyflog teg. Ymgwymerwyd â sawl menter er mwyn sicrhau bod ein Hegwyddorion Cyflogau Teg yn cael eu hymgorffori drwy'r sefydliad cyfan a rhoi fframwaith lle gwneir penderfyniadau teg a chyson ynghylch cyflogau.

1. Teg
2. Cyson
3. Tryloyw
4. Cystadleuol
5. Clir

Mae'r BBC yn gweithredu mewn marchnad sy'n newid yn gyflym lle mae cystadleuaeth ddwys am dalent, a gwelwyd twf aruthrol ymhlith rhai cwmnïau cyfryngau, ffrydio a thechnoleg ddigidol newydd sy'n cynnig pecynnau hynod ddeniadol. Felly, rydym yn parhau i gydbwysu cyflogau cystadleuol ar y farchnad â'r angen i ddangos gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded. Adlewyrchir y cydbwysedd hwn mewn ystodau cyflog swydd a lywir gan y farchnad sy'n parhau i fod yn is na'r farchnad. lle mae dadansoddiad allanol yn cefnogi hyn.

Credwn y bydd yr egwyddorion cyflogau hyn yn sicrhau y gall y BBC barhau i apelio i bawb sy'n teimlo'n gyffrous am y cyfleoedd i weithio ym maes darlledu cyhoeddus.

Ceir rhagor o fanylion am hyn yn ein hadran ar Ein Pobl ar dudalennau 51 i 55.

Adroddiad cydnabyddiaeth parhad

Polisi Cydnabyddiaeth uwch-arweinwyr

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ymrwymedig i bennu cyflog priodol i gyfarwyddwyr gweithredol sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r bobl orau i arwain y BBC a sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded. Y flwyddyn hon, cytunodd y Pwyllgor y dylai egwyddorion cyflogau'r BBC fod yn gymwys i'r holl staff, cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr, ym mhob rhan o Grŵp y BBC. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y bydd yr egwyddorion cyflogau hyn yn gymwys fel y'u nodir yn y tabl ar y tudalennau hyn.

Mae'r BBC wedi ymestyn ei Fframwaith Llwybr Gyrfa a negodwyd â'r undebau i gynnwys band lefel gyrfa nas negodwyd â'r undebau, a elwir yn SL (uwch-arweinydd). Mae hyn yn cynnwys ystodau cyflog swydd ar gyfer y rhan fwyaf o'r uwch-swyddi. Wrth lunio polisi'r BBC ar gyflogau, mae'r Pwyllgor yn ystyried darpariaethau arferion orau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn llawn.

Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol nac uwch-arweinwyr yr hawl i gael y codiad cyflog blynyddol y cytunwyd arno â'r Cyd-undebau ac nid oes ganddynt hawl awtomatig i gael unrhyw fath o gynyddran flynyddol na thaliad datblygiad. Dim ond y Pwyllgor Cydnabyddiaeth all wneud penderfyniadau ynghylch cyflogau cyfarwyddwyr gweithredol a dim ond y Pwyllgor Eithriadau all wneud penderfyniadau ynghylch cyflogau uwch-arweinwyr, er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch. Yn ystod 2020/21, cytunwyd i rewi cyflogau uwch-arweinwyr tan fis Awst 2021.

Elfen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Gweithrediad	Y cyfle mwyaf
Cyflog sylfaenol	<p>Ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol, diffinnir cyflog sylfaenol drwy gyfeirio at ganolrif y farchnad ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth uniongyrchol (cyflog, bonws blynyddol a chymhelliant hirdymor blynyddol). Disgwylir y bydd hyn yn arwain at bennu cydnabyddiaeth dipyn yn is na'r farchnad gan na chynigir unrhyw gymhellion hirdymor yn y BBC.</p> <p>Ar gyfer uwch-arweinwyr, caiff ystodau cyflog swydd eu llywio gan benderfyniadau cyflog canllaw cyfanswm arian parod (cyflog sylfaenol, lwfansau a bonws targed) targed canolrifol ar y farchnad.</p> <p>Ni thelir unrhyw uwch-arweinydd yn is na'r isafswm ystod cyflog swydd ar gyfer eu rôl, ac mae ystodau cyflog yn dryloyw i'r uwch-arweinwyr a gweithlu ehangach y BBC.</p>	<p>Defnyddir y ffactorau canlynol i bennu lefel y cyflog sylfaenol a bennir ar gyfer cyfarwyddwr gweithredol neu uwch-arweinydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> — Graddfa a chymhlethdod y rôl — Gwybodaeth, sgiliau a phrofiad — Perfformiad a chyfraniad — Ffactorau'r farchnad a fforddiadwyedd <p>Caiff cyflogau eu hadolygu'n flynyddol, gyda chodiadau yn weithredol o 1 Awst. Cytunir ar gyllideb ac fe'i dosberthir yn unol â'r ffactorau uchod.</p> <p>Caiff ystodau cyflog swydd ar gyfer uwch-arweinwyr eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddarau yn ôl yr angen.</p>	<p>Dim uchafswm cyflog nac uchafswm cynnydd penodedig i gyfarwyddwyr gweithredol.</p> <p>Mae ystodau cyflog swydd uwch-arweinwyr yn cynnwys isafswm ac uchafswm; lle mae unigolion uwchlaw uchafswm eu hystod cyflog am resymau etifeddol neu fasnachol yna ni fydd eu cyflogau'n cynyddu ymhellach.</p>
Tâl amrywiadwy	<p>Mae cyfarwyddwyr gweithredol a rhai uwch-arweinwyr sydd wedi'u cyflogi ym musnesau masnachol y BBC yn gymwys i gael bonws blynyddol ar sail perfformiad. Caiff bonysau o'r fath eu hariannu'n gyfan gwbl gan y busnesau masnachol yn hytrach na ffi'r drwydded. Mae'n cynnig gwobr am gyflawni nodau strategol byrdymor a thwf mewn elw.</p>	<p>Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol nac uwch-arweinwyr yn y Gwasanaeth Cyhoeddus yr hawl i gael taliad bonws ar sail perfformiad.</p> <p>Mae taliadau bonws ymhlith busnesau masnachol y BBC yn amodol ar gyflawni targed cyffredinol sy'n seiliedig ar gymysgedd o brif elw a llif arian eu busnes.</p>	<p>Nid oes unrhyw gyfarwyddwr gweithredol yn y Gwasanaeth Cyhoeddus wedi cael bonws ers 2008.</p> <p>Ar gyfer 2020/21, cymerodd un cyfarwyddwr gweithredol – Prif Swyddog Gweithredol dros dro BBC Studios – ran mewn cynllun bonws. Mae gan y cynllun cymhelliant fonws targed o 40% ac uchafswm o 50%.</p>
Buddiannau – Pensiwn	<p>Cynigir pensiynau yn unol â'r trefniadau pensiwn a gynigir i holl gyflogeion y BBC.</p> <p>Yn ogystal â phensiynau, darperir yswiriant bywyd yn unol â'r trefniadau a ddarperir ar gyfer holl gyflogeion y BBC.</p>	<p>Gall cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr ddewis ymuno â chynllun cyfraniadau diffiniedig y BBC, sef LifePlan.</p> <p>Mae cynllun buddiannau diffiniedig y BBC wedi'i gau i staff newydd sy'n ymuno.</p> <p>Trefnir yswiriant bywyd yn achos marwolaeth mewn swydd o bedair gwaith eu cyflog sylfaenol i gyfarwyddwyr gweithredol.</p>	<p>Mae'r polisi cyfredol yn darparu cynllun cyfraniadau diffiniedig heb gap cyflog, ac uchafswm cyfraniad o 10% o gyflog gan y cyflogwr.</p> <p>Mae aelodau presennol o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn destun cap ar lefel yr uchafswm cyflog ar gyfer eu cynllun pensiwn neu'n destun cap mewn twf mewn cyflog pensiynadwy.</p>

Elfen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Gweithrediad	Y cyfle mwyaf
Buddiannau – Cludiant/teithio	Ym mis Ebrill 2012, dilëwyd budd y lwfans car i bob cyfarwyddwr gweithredol newydd gan y BBC er mwyn sicrhau bod y polisi yn y dyfodol yn gyson â threfniadau i holl gyflogeion y BBC. Dilëwyd budd y lwfans car i uwch-arweinwyr yn 2012 i staff newydd sy'n ymuno.	Mae David Jordan yn cael lwfans car etifeddol; ni chaiff unrhyw gyfarwyddwr gweithredol arall lwfans o'r fath. Mae rhai uwch-arweinwyr hefyd yn parhau i gael lwfans car etifeddol. Mae gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i ddefnyddio car â gyrrwr ond nid oes ganddo hawl i lwfans car personol na lwfans tanwydd. Mae'r Cadeirydd yn dilyn yr un trefniadau.	Nid oes unrhyw uchafswm penodedig gan mai budd hanesyddol ydyw, nad yw wedi cael ei gynnig i staff newydd sy'n ymuno ers 2012.
Buddiannau – Yswiriant Meddygol Preifat	Ym mis Ebrill 2011, gwnaeth y BBC ddileu budd gofal iechyd preifat i bob cyfarwyddwr gweithredol ac uwch-reolwr newydd a chysoni â threfniadau i holl gyflogeion y BBC. Yn dilyn ymgynghoriad, cytunwyd i ddileu budd yswiriant meddygol preifat i gyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr o 1 Ebrill 2019.	Bellach, mae pob cyfarwyddwr gweithredol yn cael lwfans etifeddol yn lle yswiriant meddygol preifat.	Yr uchafswm yswiriant a gynigir yw yswiriant teuluol. Budd hanesyddol yw hwn.
Contractau cyflogaeth a diswyddo	Mae contractau cyflogaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o chwe mis ar y mwyaf, ond gellir eu terfynu'n gynt am reswm penodol.	Nid oes hawl gytundebol i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar oni bai ei fod yn cael ei derfynu ar sail diswyddo.	Os caiff swydd cyfarwyddwr gweithredol ei dileu, mae ganddo hawl i gael taliadau sy'n hafal i fis y flwyddyn hyd at uchafswm taliad o £150,000.
Cydnabyddiaeth arall	Nid oes unrhyw hawl i unrhyw gydnabyddiaeth arall, felly ni chafwyd unrhyw daliadau o'r fath yn ystod y flwyddyn.	Os cynigir unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol, rhoddir ystyriaeth lawn i'r risg i enw da'r BBC a byddai angen i unrhyw daliad o'r fath gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth cyn gweithredu.	Nid oes unrhyw uchafswm penodedig.

Pensiwn

Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC cyn 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i barhau i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn y BBC ('y Cynllun'), sy'n darparu buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig. Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i ymuno â LifePlan, sef trefniant cyfraniad diffiniedig y BBC. Mae'r BBC yn talu cyfraniadau cyfatebol i LifePlan am gyfraniadau cyflogeion o 5%. Caiff cyfraniadau cyflogeion rhwng 6% a 7% eu cyfateb ynghyd ag 1% ychwanegol.

Mae cyfraniadau cyflogeion o 8% neu fwy yn cael y cyfraniad cyflogwr uchaf o 10%. Nid oes unrhyw uchafswm cyflog pensiwnadwy i'r rhai sy'n cyfrannu at LifePlan.

Caiff cyfarwyddwyr gweithredol sy'n penderfynu peidio ag ymuno â LifePlan neu nad ydynt eisoes yn aelod presennol o'r Cynllun, yn amodol ar fodloni'r meini prawf perthnasol, eu cofrestru'n awtomatig â'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Talodd y BBC 3% a thalodd cyflogeion 5% o enillion cymwys i NEST yn 2020/21 yn unol â gofynion statudol. Gall unigolion ddewis ymeithrio o hyn.

Caiff trefniadau pensiwn cyfarwyddwyr gweithredol eu hadolygu a'u diwygio mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth neu ddatblygiadau tebyg.

Rhoddir nodweddion trefniadau pensiwn y BBC y mae ein cyfarwyddwyr gweithredol yn rhan ohonynt ochr yn ochr â chyflogeion eraill y BBC yn y tabl ar y dudalen ganlynol.

Mae manylion Cynllun Pensiwn y BBC ar gael yn: bbc.co.uk/mypension/.

Adroddiad cydnabyddiaeth *parhad*

Cynllun	Cynllun Pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC				Cyfraniad diffiniedig LifePlan	Cyfraniad diffiniedig (trefniant cofrestru awtomatig) Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST)
	Hen fuddiannau	Buddiannau newydd	CAB 2006	CAB 2011		
Dyddiad y'i caewyd	30 Medi 1996	31 Hydref 2006	30 Tachwedd 2010	1 Ionawr 2012	Yn agored i bob cyflogai cymwys	Yn agored i bob cyflogai cymwys
Croniad	60fed cronriad	60fed cronriad	1.67% o groniad wedi'i addasu yn unol â chwyddiant	1.67% o groniad wedi'i addasu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr	Bydd y BBC yn cyfrannu uchafswm o 10% o'r cyflog os bydd y cyflogai yn cyfrannu 8% gyda graddfa symud is	Bydd y BBC yn cyfrannu 3% o enillion cymwys (2020/21)
Cyflog	Pensiynadwy terfynol	Pensiynadwy terfynol	Enillion wedi'u hailbriso cyfartaledd gyrfa	Enillion wedi'u hailbriso cyfartaledd gyrfa		
Oedran pensiynadwy arferol	60	60	65	65	Dd/G	Dd/G
Cap ar enillion	Ymunodd cyn 1 Mehefin 1989 heb ei gapio, wedi ei gapio fel arall £170,400	Wedi'i gapio ar £170,400	Wedi'i gapio ar £170,400	Wedi'i gapio ar £157,800	Heb ei gapio	Isafswm enillion £6,240 y.f. Uchafswm enillion £50,000 y.f. (2020/21)
Twf mewn cyflog pensiynadwy cyn i'r cap ar enillion gael ei gymhwyso	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Dim cyfyngiad	Dd/G	Dd/G
Cyfraniad cyflogai (% o gyflog pensiynadwy)	7.50%	7.50%	4%	6%	Isafswm c yfraniad y cyflogai yw 5%	% o'r enillion cymwys (2020/21)

Cydnabyddiaeth flynyddol Bwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol – manylion cydnabyddiaeth a dderbyniwyd

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau Bwrdd y BBC ar gyfer 2020/21. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gyntaf ar 3 Ebrill 2017 fel rhan o'r broses o weithredu Siarter a Chytundeb 2016, a amlinellodd drefniadau llywodraethu newydd ar gyfer y BBC.

Ceir manylion cadeiryddion pob un o wahanol bwyllgorau'r BBC ar dudalen 73. Mae pob cadeirydd yn cael £5,000 y flwyddyn yn ychwanegol at eu ffioedd sylfaenol. Cynhwysir y ffioedd hyn yn y tabl isod. Dangosir pob ffi ar sail pro rata lle y bo'n briodol.

Bwrdd y BBC (archwiliedig)

Manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (gwerthoedd mewn £000oedd)

Cyfarwyddwyr anweithredol	Dyddiad dechrau cyfnod y penodiad	Dyddiad gorffen cyfnod y penodiad	Blwyddyn	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn			Ar sail perfformiad	Cyfanswm
				Cyflog sylfaenol	Buddiannau trehadwy ¹	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn		
Richard Sharp ²	16/02/2021	15/02/2025	2020/21	£20	£1	£0	£0	£21
			2019/20	£0	£0	£0	£0	£0
Simon Burke ³	03/04/2017	02/07/2019	2020/21	£0	£0	£0	£0	£0
			2019/20	£13	£0	£0	£0	£13
Sir David Clementi ⁴	16/02/2017	15/02/2021	2020/21	£88	£5	£0	£0	£93
			2019/20	£100	£16	£0	£0	£116
Shirley Garrood ³	03/07/2019	02/07/2023	2020/21	£38	£0	£0	£0	£38
			2019/20	£28	£0	£0	£0	£28
Tanni Grey-Thompson ⁵	03/04/2021	31/12/2021	2020/21	£33	£0	£0	£0	£33
			2019/20	£33	£0	£0	£0	£33
Ian Hargreaves	03/04/2020	02/04/2023	2020/21	£38	£0	£0	£0	£38
			2019/20	£38	£0	£0	£0	£38

	Dyddiad dechrau cyfnod y penodiad	Dyddiad gorffen cyfnod y penodiad	Blwyddyn	Cyflog sylfaenol	Buddiannau trethadwy ¹	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn	Ar sail perfformiad	Cyfanswm
Tom Ilube ⁵	03/04/2020	30/06/2021	2020/21	£38	£0	£0	£0	£38
			2019/20	£38	£0	£0	£0	£38
Steve Morrison ⁵	03/04/2021	02/01/2022	2020/21	£38	£0	£0	£0	£38
			2019/20	£38	£0	£0	£0	£38
Nicholas Serota ⁵	03/04/2021	02/04/2024	2020/21	£38	£0	£0	£0	£38
			2019/20	£38	£0	£0	£0	£38
Ashley Steel ⁴	03/04/2017	01/12/2020	2020/21	£25	£0	£0	£0	£25
			2019/20	£38	£0	£0	£0	£38
Elan Closs Stephens ⁵	20/01/2021	20/07/2023	2020/21	£43	£0	£0	£0	£43
			2019/20	£43	£0	£0	£0	£43
Cyfanswm cyfarwyddwyr anweithredol			2020/21	£399	£6	£0	£0	£405
			2019/20	£407	£16	£0	£0	£423
Cyfarwyddwyr gweithredol								
Tim Davie ⁶	01/09/2020	dd/g	2020/21	£429	£1	£41	£0	£471
			2019/20	£400	£2	£40	£200	£642
Tony Hall ⁷	03/04/2017	31/08/2020	2020/21	£188	£2	£0	£0	£190
			2019/20	£450	£21	£0	£0	£471
Ken MacQuarrie ⁷	03/04/2017	31/12/2020	2020/21	£244	£2	£0	£0	£246
			2019/20	£325	£3	£0	£0	£328
Charlotte Moore ⁸	01/09/2020	31/08/2022	2020/21	£402	£2	£34	£0	£438
			2019/20	£0	£0	£0	£0	£0
Leigh Tavaziva ⁸	01/02/2021	31/01/2023	2020/21	£67	£0	£0	£0	£67
			2019/20	£0	£0	£0	£0	£0
Fran Unsworth	01/04/2019	31/03/2021	2020/21	£340	£2	£0	£0	£342
			2019/20	£340	£2	£0	£0	£342
Cyfanswm cyfarwyddwyr gweithredol			2020/21	£1,670	£9	£75	£0	£1,754
			2019/20	£1,515	£28	£40	£200	£1,783
Cyfanswm y Bwrdd			2020/21	£2,069	£15	£75	£0	£2,159
			2019/20	£1,922	£44	£40	£200	£2,206

1 Buddiannau trethadwy lwfans car, yswiriant meddygol preifat/lwfans etifeddol a threuliau trethadwy eraill Mae gan y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol (presennol a blaenorol) hawl i gael car â gyrrwr ond nid oes ganddynt hawl i lwfans car personol na lwfans tanwydd Yn 2020/21, mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol presennol wedi defnyddio car â gyrrwr at ddibenion busnes yn unig

2 Ymunodd Richard Sharp â'r Bwrdd fel Cadeirydd ar 16 Chwefror 2021 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn ystod 2019/20 Mae'r BBC yn rhoi ei ffi fel Cadeirydd i elusen Telir hyn ar ôl Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ac fe'i gweinyddir drwy gynllun cyfloges y BBC

3 Gadawodd Simon Burke y Bwrdd ar 3 Gorffennaf 2019 Ymunodd Shirley Garrod â'r Bwrdd ar 3 Gorffennaf 2019 Dangosir pob ffi ar sail pro rata ar gyfer 2019/20

4 Gadawodd David Clementi y Bwrdd a rhoddodd y gorau i'w swydd fel Cadeirydd ar 15 Chwefror 2021 Gadawodd Ashley Steel y Bwrdd ar 1 Rhagfyr 2020

5 Cafodd tymor Tanni Grey-Thompson ei ymestyn tan 31 Rhagfyr 2021 ac mae tymor Steve Morrison wedi cael ei ymestyn tan 2 Ionawr 2022 Mae tymor Nicholas Serota wedi cael ei ymestyn tan 2 Ebrill 2024 a thymor Elan Closs Stephens tan 20 Gorffennaf 2023 Gadawodd Tom Ilube y Bwrdd ar 30 Mehefin 2021 yn dilyn cyhoeddi ei ymddiswyddiad

6 Mae rôl y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn aelod parhaol o'r Bwrdd Penodwyd Tim Davie fel Cyfarwyddwr Cyffredinol ar 1 Medi 2020 Mae ei gyflog ar gyfer 2020/21 yn adlewyrchu cyfran yr amser a dreuliodd fel Prif Swyddog Gweithredol, BBC Studios ac fel Cyfarwyddwr Cyffredinol Ildiodd Tim unrhyw hawl i fonws ar gyfer 2020/21 am y cyfnod pan oedd yn Brif Swyddog Gweithredol BBC Studios

7 Gadawodd Tony Hall y Bwrdd a rhoddodd y gorau i'w swydd fel Cyfarwyddwr Cyffredinol ar 31 Awst 2020 Gadawodd Ken MacQuarrie y Bwrdd ar 31 Rhagfyr 2020

8 Penodwyd Charlotte Moore i'r Bwrdd ar 1 Medi 2020 Penodwyd Leigh Tavaziva i'r Bwrdd ar 1 Chwefror 2021 Felly ni ddatgelir unrhyw gydnabyddiaeth ar gyfer 2019/20

Mae'r tabl ar y dudalen ganlynol yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau Pwyllgor Gweithredol y BBC ar gyfer 2020/21, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gydnabyddiaeth i'r aelodau yn ymwneud â'u cyfnod o wasanaeth ar y Pwyllgor Gweithredol yn unig. Er mwyn cael y symiau blynyddol llawn, cyfeiriwch at yr adran ar Ddatgeliadau ar dudalen 86.

Mae cyfanswm cydnabyddiaeth y Pwyllgor Gweithredol ar gyfer 2020/21 wedi gostwng ers 2019/20, oherwydd y gostyngiad yn nifer yr aelodau ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn (deg aelod ar ddiwedd y flwyddyn o gymharu â 18 aelod yn 2019/20).

Adroddiad cydnabyddiaeth *parhad*

Aelodau Pwyllgor Gweithredol y BBC (archwiliedig)

Manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Dyddiad penodi i'r Pwyllgor	Blwyddyn	Cyflwg sylfaenol	Buddiannau trethadwy	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn ¹	Ar sail perfformiad	Cyfanswm
Tim Davie ²	01/11/2012	2020/21	£429	£1	£41	£0	£471
		2019/20	£400	£2	£40	£200	£642
Charlotte Moore ³	06/07/2016	2020/21	£402	£2	£34	£0	£438
		2019/20	£370	£2	£29	£0	£401
Leigh Tavaiva ⁴	01/02/2021	2020/21	£67	£0	£0	£0	£67
		2019/20	£0	£0	£0	£0	£0
Fran Unsworth	01/01/2018	2020/21	£340	£2	£0	£0	£342
		2019/20	£340	£2	£0	£0	£342
Wendy Aslett ⁵	01/11/2019	2020/21	£63	£1	£15	£0	£79
		2019/20	£63	£1	£8	£0	£72
Kerris Bright	18/06/2018	2020/21	£360	£0	£0	£0	£360
		2019/20	£360	£0	£6	£0	£366
Rachel Currie ⁵	01/11/2019	2020/21	£63	£1	£3	£0	£67
		2019/20	£63	£1	£3	£0	£67
Tom Fussell ⁶	01/09/2020	2020/21	£230	£1	£0	£27	£258
		2019/20	£0	£0	£0	£0	£0
Tony Hall ⁷	02/04/2013	2020/21	£188	£2	£0	£0	£190
		2019/20	£450	£21	£0	£0	£471
Valerie Hughes-D'Aeth ⁸	01/08/2014	2020/21	£0	£0	£0	£0	£0
		2019/20	£200	£0	£0	£0	£200
Glyn Isherwood ⁵	09/04/2018	2020/21	£294	£0	£0	£0	£294
		2019/20	£335	£0	£0	£0	£335
Sarah Jones ⁵	01/05/2019	2020/21	£116	£1	£0	£0	£117
		2019/20	£255	£2	£0	£0	£257
David Jordan ⁵	01/04/2018	2020/21	£76	£0	£0	£0	£76
		2019/20	£178	£3	£0	£0	£181
Ken MacQuarrie ⁵	22/09/2016	2020/21	£244	£2	£0	£0	£246
		2019/20	£325	£3	£0	£0	£328
Matthew Postgate ⁵	01/04/2016	2020/21	£133	£0	£6	£0	£139
		2019/20	£317	£0	£30	£0	£347
James Purnell ⁵	19/03/2013	2020/21	£131	£0	£13	£0	£144
		2019/20	£315	£0	£32	£0	£347
Gautam Rangarajan	01/06/2018	2020/21	£199	£0	£41	£0	£240
		2019/20	£181	£1	£40	£0	£222
June Sarpong ⁹	01/11/2019	2020/21	£267	£0	£0	£0	£267
		2019/20	£75	£0	£0	£0	£75
Bob Shennan ⁹	08/04/2019	2020/21	£310	£2	£41	£0	£353
		2019/20	£303	£2	£33	£0	£338
John Shield ⁵	01/04/2018	2020/21	£92	£0	£5	£0	£97
		2019/20	£220	£0	£1	£0	£221
Clare Sumner ⁵	01/04/2018	2020/21	£74	£0	£6	£0	£80
		2019/20	£175	£0	£18	£0	£193
Rhodri Talfan Davies ⁴	01/01/2021	2020/21	£65	£0	£3	£0	£68
		2019/20	£0	£0	£0	£0	£0
Cyfanswm y Pwyllgor Gweithredol		2020/21	£4,143	£15	£208	£27	£4,393
		2019/20	£4,925	£40	£240	£200	£5,405

- 1 Gwneir cyfraniadau pensiwn cyflogeion fel arfer drwy drefniant aberthu cyflog fel cyfraniad y cyflogwr, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyflog. Nid yw cyflogau sylfaenol cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith y cyflog a aberthir er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymharu â blynyddoedd blaenorol cyn i'r trefniant aberthu cyflog gael ei gyflwyno. Yn gyffredinol, cyfrifir y ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn fel 20 gwaith y cynnydd yn y pensiwn cronedig dros y flwyddyn yn glir o chwyddiant, llai cyfraniadau buddiannau diffiniedig y cyfarwyddwyr, ynghyd â chyfraniadau diffiniedig y cyflogwr. Dangosir hyn yn fanwl hefyd yn y tabl hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig.
- 2 Mae cyflog Tim Davie ar gyfer 2020/21 yn adlewyrchu cyfran yr amser a dreuliodd fel Prif Swyddog Gweithredol, BBC Studios ac fel Cyfarwyddwr Cyffredinol. Iddiodd Tim unrhyw hawl i fonws ar gyfer 2020/21 am y cyfnod pan oedd yn Brif Swyddog Gweithredol BBC Studios.
- 3 Derbyniodd Charlotte Moore godiad cyflog pan gafodd ei dyrchafu yn Brif Swyddog Cynnwys a phan gafodd ei phenodi i'r Bwrdd.
- 4 Ymunodd Leigh Tavaziva â'r BBC ac fe'i penodwyd i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Chwefror 2021. Penodwyd Rhodri Talfan Davies i'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Ionawr 2021. Felly ni ddatgelir unrhyw gydnabyddiaeth ar gyfer 2019/20.
- 5 Gadawodd Wendy Aslett, Rachel Currie, Sarah Jones, David Jordan, Matthew Postgate, James Purnell, John Shield a Clare Sumner y Pwyllgor Gweithredol ar 31 Awst 2020. Gadawodd Ken MacQuarrie ar 31 Rhagfyr 2020 a Glyn Isherwood ar 31 Ionawr 2021.
- 6 Penodwyd Tom Fussell yn Brif Swyddog Gweithredol dros dro BBC Studios ac ymunodd â'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Medi 2020. Caiff ei rôl ei hariannu'n gyfan gwbl gan refferni masnachol y BBC ac nid yw ffr' drwydded yn talu amdani nac yn ei chymorthdal. Telir unrhyw fonws yn amodol ar gyflawni targedau perfformiad. Fel y nodwyd ar dudalen 76, yn 2020/21 penderfynodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth na fyddai'n briodol talu bonws mewn perthynas â pherfformiad ariannol oherwydd effaith Covid-19. Felly, mae'r bonws a delir yn ymwneud â chyflawni amcanion personol a chafodd ei dalu pro rata am yr amser a dreuliodd yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Gweithredol. Ni ddatgelir unrhyw gydnabyddiaeth ar gyfer 2019/20 ac nid oedd Tom yn aelod o'r Pwyllgor Gweithredol yn ystod y cyfnod hwnnw.
- 7 Rhoddodd Tony Hall y gorau i'w rôl fel Cyfarwyddwr Cyffredinol a gadawodd y Pwyllgor Gweithredol ar 31 Awst 2020.
- 8 Gadawodd Valerie Hughes-D'Aeth y BBC ar 31 Hydref 2019.
- 9 Ymunodd Bob Shennan â'r Pwyllgor Gweithredol ar 8 Ebrill 2019 a June Sarpong ar 1 Tachwedd 2019. Mae'r ffigurau a ddangosir ar gyfer 2019/20 yn rhai pro-rata.

Cyfanswm cydnabyddiaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol (archwiliedig)

Bu gostyngiad yng nghyfanswm y gydnabyddiaeth flynyddol gyffredinol i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol yn 2020/21, yn bennaf o ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer aelodau'r Pwyllgor Gweithredol yn 2020/21 i 10 aelod (18 gynt yn 2019/20).

Cyfanswm cydnabyddiaeth (gwerthoedd mewn £000au)	2020/21	2019/20
Cyfanswm y Pwyllgor Gweithredol (gan gynnwys cyfarwyddwyr gweithredol y Bwrdd)	£4,393	£5,405
Cyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd	£405	£423
Cyfanswm cydnabyddiaeth flynyddol	£4,798	£5,828

Hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Oedran ar 31 Mawrth 2021	Adran	Pensiwn a gronwyd ar 31 Mawrth 2021 (neu ar adeg ymdddeol/gadael y bwrdd os yw hynny'n gynt)	Pensiwn a gronwyd ar 1 Ebrill 2020 (neu ar adeg ymuno â'r Bwrdd os ar ôl hynny)	Cyfraniadau BD Cyfarwyddwr (drwy drefniant aberthu cyflog) 2020/21	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn
Tim Davie	53	CAB 2011	24	21	9	41
Wendy Aslett	59	CAB 2011	20	19	4	15
Charlotte Moore	52	Buddiannau newydd	37	34	12	34
Matthew Postgate	46	Buddiannau newydd	39	38	5	6
Gautam Rangarajan	49	CAB 2011	23	20	9	41
Bob Shennan	59	CAB 2011	24	21	9	41
Rhodri Talfan Davies	50	CAB 2011	24	23	2	3

Nodiadau

Mae Tim Davie yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 o fis Ionawr 2012 ac mae'n cadw buddiannau gohiriedig yn yr adran buddiannau newydd ar gyfer ei wasanaeth hyd at y dyddiad hwnnw. Mae'r pensiwn cronedig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig.

Mae Wendy Aslett yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 o fis Ionawr 2012 ac mae'n cadw buddiannau gohiriedig yn yr adran Hen Fuddiannau ar gyfer ei wasanaeth hyd at y dyddiad hwnnw. Mae'r pensiwn cronedig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig.

Ymunodd Charlotte Moore â'r BBC ar 1 Mai 2006. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn ei phenodi'n gyfarwyddwr gweithredol.

Ymunodd Matthew Postgate â'r BBC ar 1 Mehefin 2005. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn ei benodi'n gyfarwyddwr gweithredol.

Mae Gautam Rangarajan yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 o fis Ionawr 2012 ac mae'n cadw buddiannau gohiriedig yn yr adran Hen Fuddiannau ar gyfer ei wasanaeth hyd at y dyddiad hwnnw. Mae'r pensiwn cronedig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig.

Ymunodd Bob Shennan â'r BBC ym mis Chwefror 2009 ac fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr gweithredol ar 8 Ebrill 2019. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn ei benodi'n gyfarwyddwr gweithredol. Mae'n aelod gweithredol o adran CAB 2011 o fis Rhagfyr 2011 a throsglwyddodd allan ei fuddiannau blaenorol. Mae'r pensiwn cronedig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig.

Mae Rhodri Talfan Davies yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 o fis Ionawr 2012 ac mae'n cadw buddiannau gohiriedig yn yr adran Buddiannau Newydd ar gyfer ei wasanaeth hyd at y dyddiad hwnnw. Mae'r pensiwn cronedig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig.

Cyflog cymharol drwy'r BBC cyfan

Nodwyd yn adroddiad y flwyddyn ddiwethaf fod y Pwyllgor yn bwriadu adolygu dull cyfrifo cyflog cymharol ar draws y BBC. Cytunodd y Pwyllgor, o 2020/21, y byddai cymhareb cyflog y Cyfarwyddwr Cyffredinol i gyflog chwartzel isaf, canolig ac uchaf cyflogeion y BBC yn cael ei datgelu'n wirfoddol bob blwyddyn. Mae hyn yn disodli'r datgeliad gwirfoddol blaenorol gan ddefnyddio lluosrif Hutton ac yn sicrhau bod datgeliad y BBC yn unol â chwmnïau rhestredig sy'n cyhoeddi cymhareb cyflog eu Prif Swyddog Gweithredol o gymharu â chyflogeion y DU o dan Reoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig eu Maint (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ('Rheoliadau').

Cymhareb y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Blwyddyn ariannol	Dull a ddefnyddiwyd	Cymhareb cyflog 25ain canradd	Cymhareb cyflog ganolrif	Cymhareb cyflog 75ain canradd
2020/21	Opsiwn A	12.7	9.5	7.3

O dan y Rheoliadau, mae'n ofynnol i gwmnïau nodi cyflog a buddiannau cyflogai ar 25ain, 50fed a 75ain canradd holl gyflogeion Darlledu Cyhoeddus y DU ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol a chymharu hynny â chyfanswm cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae'r cwmni wedi dewis Opsiwn A i nodi'r cyflogeion ar y 25ain, yr 50fed a'r 75ain canradd a'u priod gyflogau a buddiannau, gan y cydnabyddir mai hwn yw'r dull mwyaf cywir. Mae pob un o gyflogeion Darlledu Cyhoeddus y DU ar ddiwedd y flwyddyn ariannol wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiadau, a chaiff y cyflogeion eu sgorio yn seiliedig ar eu cydnabyddiaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.

Mae'r tabl isod yn nodi cyfanswm gwerth y cyflogau a buddiannau a dderbyniwyd gan gyflogeion a nodwyd yn y 25ain, yr 50fed a'r 75ain canradd yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21.

2020/21	25ain canradd	50fed canradd	75ain canradd
Cyfanswm y cyflogau a'r buddiannau	£40,823	£54,316	£71,321

Mae'r tybiaethau data a gynhwyswyd yn ein hadroddiadau fel a ganlyn:

Elfen	Disgrifiad
Cyflog sylfaenol	Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogau cyfwerth ag amser llawn gael eu defnyddio i nodi'r 25ain, yr 50fed a'r 75ain canradd er mwyn gallu cymharu ar draws y sefydliad. Yn y BBC, mae mwy na 2,400 o gyflogeion neu oddeutu 15% yn gweithio'n rhan amser, felly rydym wedi defnyddio'r cyfwerth ag amser llawn, ar ddiwedd y flwyddyn, fel y ffigur cyflogau i sgorio ein cyflogeion. Mae symiau cyflog sylfaenol hefyd yn cynnwys unrhyw gynnydd mewn lwfansau a lwfansau dros dro ar gyfer ymlyniadau o fewn adrannau/rolau eraill yn y sefydliad.
Lwfansau a buddiannau	Mae hyn yn cynnwys ystod o lwfansau lleoliad, ar sail rôl a buddiannau cyflogeion a gynhwyswyd ar sail pro rata ar gyfer cydweithwyr rhan amser.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r newidiadau i enillion arian parod y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer 2020/21 o gymharu â'r newid yn enillion canolrifol y BBC cyfan dros yr un cyfnod. Ni fu unrhyw newidiadau i gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn 2020/21.

	2020/21 (gwerthoedd mewn £000oedd)	Newid ers 2019/20
Enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol	450	0%
Enillion canolrifol drwy'r BBC cyfan	45.9	1.0%

Taliadau diswyddo

Ni thalwyd unrhyw daliadau diswyddo i gyfarwyddwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021.

Buddiannau allanol

Drwy gytundeb ymlaen llaw gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, gall aelodau Gweithredol y BBC ddal swyddi cyfarwyddwyr allanol â chydabyddiaeth. Dylai prif ddiben swydd cyfarwyddwr allanol ymwneud â chefnogi datblygiad personol a datblygiad gyrfa a thrwy hynny gyfrannu at y BBC.

Gall yr unigolyn gadw cydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwyr allanol, ond rhaid cymeradwyo hynny'n ffurfiol. Gall cyfarwyddwyr gweithredol hefyd ddal swyddi na thelir cydnabyddiaeth mewn perthynas â hwy y tu allan i'r BBC. Ni chaniateir mwy nag un neu ddau ddiwrnod y mis i gyflawni'r holl ddyletswyddau allanol.

Busnesau masnachol y BBC

Yn ystod 2020/21, roedd gan y BBC staff a gyflogwyd gan bedwar prif is-gwmni masnachol:

- BBC Studios
- BBC Studioworks
- BBC Global News
- UKTV

Mae cydnabyddiaeth yn yr is-gwmnïau masnachol yn ddarostyngedig i brosesau llywodraethu a chymeradwyo'r BBC. Mae polisi cydnabyddiaeth yr is-gwmnïau yn cynnwys darparu bonws blynyddol cytundebol sydd ar gael i staff cymwys, gan gynnwys cyfarwyddwyr, ac mae'n amrywio rhwng endidau masnachol. Caiff cost lawn cyflog sylfaenol a'r bonws blynyddol eu hunanariannu gan reffeniw masnachol pob is-gwmni ac ni chânt eu cymorthdalw drwy ffi'r drwydded.

Cynllun Bonws Cwmni BBC Studios

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn goruchwyllo'r ffordd y mae Cynllun Bonws Cwmni BBC Studios wedi'i lunio a'i alldro.

Bwriadwyd i ddyluniad cynllun 2020/21 fod yn debyg yn fras i flynyddoedd blaenorol gyda dau fesur ariannol allweddol (EBITDA a llif arian parod rhydd) ac amcanion anariannol/personol.

Fodd bynnag, cyn i ddyluniad cynllun 2020/21 a thargedau cael eu cymeradwyo, dechreuodd pandemig Covid-19. O ganlyniad, treuliodd y Pwyllgor y misoedd canlynol yn ystyried yn ofalus yr effaith bosibl ar y busnes yn 2020/21 ac felly'r ymateb priodol i reoli cymhellion. Ym mis Medi 2020, cytunodd y Pwyllgor, oherwydd effaith Covid-19 ar berfformiad ariannol a fforddiadwyedd y cwmni, na fyddai dim yn cael ei dalu allan o dan elfennau ariannol y cynllun cymhelliant ar gyfer 2020/21. Fodd bynnag, cytunwyd hefyd ei bod yn bwysig caniatáu rhyw lefel o dalu allan er mwyn cymell cyflogaion a gwobrwyo cyfraniadau cryf yn ystod y cyfnod anodd hwn. Cytunwyd felly y gellid talu allan ar yr elfen personol yn unig (uchafswm o 25% o gyfanswm y bonws bosibl) ar gyfer y rhai a oedd yn cael sgôr briodol yn eu hadolygiad datblygu personol.

Canlyniadau 2020/21

Ar gyfer 2020/21, asesodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth berfformiad Prif Swyddog Gweithredol dros dro BBC Studios yn erbyn ei amcanion personol. Arweiniodd hyn at daliad bonws o 12.5% (£46,000) i Brif Swyddog Gweithredol BBC Studios mewn perthynas â pherfformiad yn ystod y flwyddyn. Mae'r ffigur hwn wedi ei nodi ar sail pro rata yn y tabl ffigur sengl ar dudalen 82 i gynrychioli'r amser a dreuliodd Prif Swyddog Gweithredol dros dro BBC Studios yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Gweithredol.

Llywodraethu Datgeliadau cyflogau

Adroddiad gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth y BBC ar y bobl a gafodd eu talu dros £150,000 o refeniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn ariannol

Ar y tudalennau canlynol, rhown fanylion yr unigolion hynny a gafodd fwy na £150,000 o refeniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn. O dan y Siarter, mae'n ofynnol i ni ond cyhoeddi'r symiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn i'r unigolion hyn, wedi'u nodi mewn bandiau. Rydym yn mynd y tu hwnt i'r gofyniad hwnnw drwy gyhoeddi mwy o fanylion am y gwaith a wnaed gan unigolion ar yr awyr am y gydnabyddiaeth a gawsant.

Mae Covid-19 wedi gwneud yr amgylchedd ar yr awyr yn anwadal iawn, gan oedi cynrychiadau a chanslo digwyddiadau byw, yn enwedig chwaraeon. Er gwaethaf hyn, rydym wedi sicrhau rhaniad sefydlog rhwng y rhywiau o 56:44. Rydym wedi dangos ein gallu i gyflawni gwelliannau ers y cyhoeddiad cyntaf, gyda rhagor o welliant i'w ddisgwyl yn y flwyddyn i ddod wrth i ni symud tuag at gydbwysedd sail rhywedd o 50:50.

Bu modd i ni leihau nifer yr unigolion mewn rolau ar yr awyr a oedd yn ennill dros £150,000 yn ystod y flwyddyn: cyfanswm cost yr unigolion a enwyd; a hefyd y swm cyfartalog a dalwyd i bob un o'r unigolion hyn. Yn ogystal, cytunwyd ar ostyngiadau sylweddol â'r unigolion sydd i'w gweld tua phen uchaf y rhestr hon yn ystod y flwyddyn.

Mae'n werth nodi hefyd ein bod yn dal i weithredu mewn marchnadoedd talent cystadleuol tu hwnt, ar yr awyr ac oddi ar yr awyr, gyda lefelau chwyddiant cyflogau yn aml ymhell uwchlaw'r lefel gyfartalog ar gyfer economi'r DU. Mae'r pwysau hyn, ynghyd â'r pwynt mynediad sefydlog o £150,000 ar y rhestrau, yn awgrymu y bydd mwy o unigolion yn ymddangos yn y rhestrau hyn dros amser.

Tablau cyflog talent ar yr awyr

Dangosir yr unigolion ar y rhestr hon fesul categori: Newyddion, Radio, Chwaraeon, a chyflwynwyr sy'n gweithio'n rheolaidd ar draws sawl rhan o'r BBC gan gynnwys Teledu. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys taliadau o refeniw ffi'r drwydded a wnaed i unigolion o dan gontract am wasanaethau. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw beth y gellir ailgodi tâl amdano, symiau a dalwyd na buddsoddiadau mewn rhaglenni a wnaed gan ein hendidau masnachol – er enghraifft BBC Studios. Hefyd, nid ydynt yn cynnwys taliadau a wnaed gan gynhyrchwyr annibynnol, breindaliadau, ffioedd ailddarlledu, symiau adenilladwy cytundebol a symiau adenilladwy eraill, na threuliau. Nodir ymrwymadau rhaglenni ar sail ymrwymadau cytundebol neu batrymau gwaith eraill, ac maent wedi'u datgan i'r deg agosaf yn gyffredinol. Mae'r rhain wedi'u datgelu'n gyson ar gyfer pob prif raglen neu genre. Ni chaiff penodau unigol eu cynnwys, oni fydd hyn yn cyfrif am ran sylweddol o waith unigolyn.

Talent ar yr awyr

Prif raglen	Enw	Ymrwymiadau rhaglen	Cylogau	
Newyddion a Materion Cyfoes				
<i>Today</i>	Mishal Husain	Tua 130 o ddiwrnodau cyflwyno Tua 20 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One 5 pennod o <i>From Our Home Correspondent</i>	£275,000-£279,999	
	Nick Robinson	Tua 140 o ddiwrnodau cyflwyno Tua 40 o benodau o <i>Political Thinking</i> Rhoglen ddogfen ar Radio 4	£270,000-£274,999	
	Justin Webb	Tua 150 o raglenni	£255,000-£259,999	
	Martha Kearney	Tua 140 o raglenni	£250,000-£254,999	
<i>World at One</i>	Sarah Montague	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno	£245,000-£249,999	
<i>PM</i>	Evan Davis	Tua 200 o raglenni <i>The Bottom Line</i> ar Radio 4	£270,000-£274,999	
<i>BBC News at Six a BBC News at Ten</i>	Huw Edwards	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One ac eitemau newyddion arbennig ar sianel BBC News	£425,000-£429,999	
	George Alagiah	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£325,000-£329,999	
	Sophie Raworth	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£280,000-£284,999	
<i>Question Time</i>	Fiona Bruce	Tua 40 o benodau o <i>Question Time</i> Tua 50 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£405,000-£409,999	
<i>The Andrew Marr Show</i>	Andrew Marr	Tua 40 o raglenni Tua 20 o benodau o <i>Start the Week</i> Rhoglenni dogfen teledu'r BBC	£335,000-£339,999	
<i>Newsnight</i>	Emily Maitlis	Tua 140 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer <i>Newsnight</i>	£325,000-£329,999	
	Kirsty Wark	Tua 80 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer <i>Newsnight</i> Cyflenwi ar gyfer <i>Start the Week</i>	£210,000-£214,999	
<i>Sianel BBC News</i>	Clive Myrie	Sianel BBC News, BBC One – gwaith ar leoliad a <i>Panorama</i>	£205,000-£209,999	
	Reeta Chakrabarti	Sianel BBC News, BBC One a gwaith ar leoliad	£175,000-£179,999	
	Victoria Derbyshire	Sianel BBC News, BBC One a gwaith ar leoliad, a <i>Panorama</i>	£170,000-£174,999	
	Ben Brown	Sianel BBC News, BBC One a gwaith ar leoliad	£170,000-£174,999	
	Simon McCoy	Sianel BBC News, BBC One a gwaith ar leoliad	£160,000-£164,999	
	Joanna Gosling	Sianel BBC News a BBC One	£155,000-£159,999	
<i>BBC Breakfast</i>	Naga Munchetty	Tua 180 o raglenni Tua 40 o raglenni canol bore 5 Live	£255,000-£259,999	
	Charlie Stayt	tua 180 o raglenni	£190,000-£194,999	
	Louise Minchin	tua 180 o raglenni	£185,000-£189,999	
<i>Golygyddion a gohebwyr ar yr awyr</i>	Laura Kuenssberg	Golygydd Gwleidyddol	£260,000-£264,999	
	Amol Rajan	Golygydd y Cyfryngau Tua 40 o benodau o <i>The Media Show</i> Cyflenwi ar gyfer cyflwynwyr Radio 2 Rhoglenni dogfen Teledu'r BBC a <i>Re.Think</i> Radio 4	£240,000-£244,999	
	Jon Sopel	Golygydd Gogledd America	£230,000-£234,999	
	Jeremy Bowen	Golygydd y Dwyrain Canol	£220,000-£224,999	
	Katya Adler	Golygydd Ewrop a chyflenwi ar <i>Today</i> BBC Radio 4	£220,000-£224,999	
	Fergal Keane	Gohebydd Arbennig, World Service a rhaglenni dogfen Radio 4	£205,000-£209,999	
	Faisal Islam	Golygydd Economaidd	£205,000-£209,999	
	Simon Jack	Golygydd Busnes a chyflenwi ar <i>Today</i> Radio 4	£190,000-£194,999	
	Mark Easton	Golygydd Cartref	£190,000-£194,999	
	Sarah Smith	Golygydd Yr Alban a chyflenwi ar <i>Today</i> BBC Radio 4	£185,000-£189,999	
	James Naughtie	Cyflwynydd a Gohebydd	£170,000-£174,999	
	Orla Guerin	Gohebydd Rhyngwladol	£160,000-£164,999	
	<i>Westminster Hour</i>	Carolyn Quinn	Prif gyflwynydd ar <i>Westminster Hour</i> a chyflenwi ar <i>PM</i> Rhoglen ddogfen ar Radio 4	£150,000-£154,999

Datgeliadau cyflogau parhad

Prif raglen	Enw	Ymrwymiadau rhaglen	Cyflogau
Radio			
BBC Radio 1	Scott Mills	Tua 230 o benodau o <i>The Scott Mills Show</i> Tua 45 o benodau o <i>Scott Mills and Chris Stark</i> ar Radio 5 live Cyflenwi ar Radio 1 a Radio 2	£375,000-£379,999
	Greg James	Tua 200 o benodau o Raglen Frecwast Radio 1 <i>Rewinder</i> ar Radio 4	£310,000-£314,999
	Nick Grimshaw	Tua 190 o benodau o Raglen Amser Gyrru Radio 1	£240,000-£244,999
	Annie Mac	Tua 220 o benodau o <i>The Annie Mac Show</i>	£170,000-£174,999
	Clara Amfo	Tua 190 o benodau o Raglen Canol Bore Radio 1	£165,000-£169,999
BBC Radio 2	Zoe Ball	Tua 210 o benodau o <i>The Zoe Ball Breakfast Show</i>	£1,130,000-£1,134,999
	Steve Wright	Tua 220 o benodau o <i>Steve Wright in the Afternoon</i> Tua 50 o benodau o <i>Sunday Love Songs</i>	£465,000-£469,999
	Ken Bruce	Rhaglen Canol Bore Radio 2	£365,000-£369,999
	Jeremy Vine	Rhaglen ddyddiol ar Radio 2	£295,000-£299,999
	Jo Whiley	Tua 180 o benodau o Raglen Gyda'r Nos Radio 2	£275,000-£279,999
	Sara Cox	Tua 230 o benodau o Raglen Amser Gyrru Radio 2	£270,000-£274,999
	Trevor Nelson	Tua 180 o benodau o <i>Rhythm Nation</i> Tua 50 o Raglenni ar y Penwythnos ar 1Xtra	£230,000-£234,999
BBC Radio 4	Winifred Robinson	<i>You and Yours</i> ar Radio 4 Rhaglenni Dogfen Radio'r BBC	£150,000-£154,999
BBC Radio 5 live	Nicky Campbell	Tua 200 o benodau o Raglen Frecwast 5 live Tua 200 o benodau o <i>Your Call</i>	£295,000-£299,999
	Emma Barnett	Tua 120 o benodau o <i>The Emma Barnett Show</i> ar 5 live Tua 50 o benodau o <i>Women's Hour</i> Tua 30 o benodau o <i>Newsnight</i>	£240,000-£244,999
	Rachel Burden	Tua 200 o benodau o Raglen Frecwast 5 live Cyflenwi ar gyfer <i>BBC Breakfast</i> ac <i>Your Call</i> <i>Coronavirus: Your Questions Answered</i>	£205,000-£209,999
	Nihal Arthanayake	Tua 190 o benodau o Raglen Prynawn Cynnar 5 live	£150,000-£154,999
BBC 6 Music	Lauren Laverne	Tua 210 o benodau o Raglen Frecwast 6 Music Tua 40 o benodau o <i>6 Music Recommends</i> Tua 40 o benodau o <i>Desert Island Discs</i> ar Radio 4	£395,000-£399,999
	Shaun Keaveny	Tua 210 o benodau o Raglen Prynawn Cynnar 6 Music Cyflenwi ar gyfer <i>Saturday Live</i> ar Radio 4	£160,000-£164,999
	Steve Lamacq	Tua 230 o benodau o Raglen Canol Bore 6 Music 50 o benodau o <i>6 Music Recommends</i>	£155,000-£159,999
	Mary Anne Hobbs	Tua 230 o benodau o Raglen Brynhawn 6 Music 50 o benodau o <i>6 Music Recommends</i>	£150,000-£154,999
Gorsafoedd gwahanol	Vanessa Feltz	Tua 200 o benodau o Raglen Frecwast Gynnar ar Radio 2 Tua 220 o benodau o Raglen Frecwast Radio London Cyflenwi ar gyfer Radio 2	£390,000-£394,999
	Stephen Nolan	<i>The Nolan Show</i> ar Radio Ulster <i>Nolan Live</i> ar BBC 1 (NI) <i>Stephen Nolan Show</i> ar 5 live	£405,000-£409,999

Prif raglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflogau
Chwaraeon			
Pêl-droed dynion	Gary Lineker	<i>Match of the Day</i> : Uwch Gyng rhair Lloegr a Chwpan FA <i>Sports Personality of the Year</i>	£1,360,000-£1,364,999
	Alan Shearer	<i>Match of the Day</i> : Uwch Gyng rhair Lloegr a Chwpan FA	£390,000-£394,999
	Jermaine Jenas	<i>Match of the Day</i> : Uwch Gyng rhair Lloegr a Chwpan FA <i>MOTDx</i> <i>Friday Football Social</i>	£195,000-£199,999
Criced	Jonathan Agnew	Cyfresi prawf rhyngwladol, un diwrnod ac ugain pelawd Gohebydd Criced y BBC	£175,000-£179,999
	Michael Vaughan	Criced Teledu a Radio (Prawf, un diwrnod ac ugain pelawd) Podlediad	£175,000-£179,999
	Isa Guha	Cyfresi prawf rhyngwladol, un diwrnod ac ugain pelawd	£150,000-£154,999
Gwahanol gampau	Mark Chapman	Penodau o 5 live sport deirgwaith yr wythnos Uchafbwyntiau wythnosol o Uwch Gyng rhair Lloegr Rygbi'r Gyng rhair NFL	£250,000-£254,999
	Gabby Logan	Athletau Pêl-droed Y Chwe Gwlad <i>Sports Personality of the Year</i>	£165,000-£169,999

Genres gwahanol a Theledu

Mae nifer bach o unigolion sydd â chydberthnasau aml-flwyddyn â chomisiynu'r BBC eisoes. Nid yw taliadau gan BBC Studios wedi eu cynnwys yn y datgeliad, ac efallai y cânt daliadau gan gynhyrchwyr annibynnol hefyd. Yn yr adran hon, rydym hefyd yn cynnwys cyflwynwyr sy'n treulio bron 50% o'u hamser mewn mwy nag un maes o blith Teledu, Radio, Newyddion a Chwaraeon.

Principal programme	Name	Programme commitments	Pay
Teledu	Mary Berry	Ffi gan Deledu'r BBC am amrywiaeth o raglenni a chyfresi	£215,000-£219,999
	Louis Theroux	Ffi gan Deledu'r BBC am amrywiaeth o raglenni a chyfresi	£200,000-£204,999
Radio a Chwaraeon	Jason Mohammad	Rhaglen ar Radio Wales ac allbwn teledu arall ar gyfer BBC Cymru <i>Final Score</i> a <i>Snwcer</i> <i>Good Morning Sunday</i> ar <i>Radio 2</i>	£270,000-£274,999
Newyddion a Chwaraeon	Dan Walker	<i>Football Focus</i> Tua 180 o benodau o <i>BBC Breakfast</i>	£295,000-£299,999
Radio a Theledu	Tina Daheley	Rhaglen Frecwast Radio 2 a phodlediad <i>Beyond Today</i> Cyflenwi ar Newyddion BBC One a <i>BBC Breakfast</i> Tua 40 o benodau o <i>The Cultural Frontline</i> Cyflenwi ar gyfer <i>Woman's Hour</i>	£225,000-£229,999
	Graham Norton	Rhaglen wythnosol ar Radio 2	£155,000-£159,999

Uwch-aelodau gweithredol

Rydym eisoes yn cyhoeddi cyflog a threuliau pob uwch-arweinydd sy'n ennill dros £150,000 yng ngwasanaethau cyhoeddus y BBC ar ein gwefan. O dan delerau ein Siarter, mae'n rhaid i ni gyhoeddi adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth sy'n rhestru'r holl uwch-aelodau gweithredol yn y BBC sydd wedi cael eu talu dros £150,000 o reffeniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn ariannol, a nodir mewn bandiau cyflog. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw beth y gellir ailgodi tâl amdano na symiau a dalwyd o'n hendidau masnachol.

Cyflogau	Enw	Rôl
Cyfarwyddwr Cyffredinol		
£260,000-£264,999	Tim Davie	Cyfarwyddwr Cyffredinol
Pwyllgor Gweithredol		
£400,000-£404,999	Charlotte Moore	Prif Swyddog Cynnwys
£360,000-£364,999	Kerris Bright	Prif Swyddog Cwsmeriaid
£340,000-£344,999	Francesca Unsworth	Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes
£310,000-£314,999	Bob Shennan	Rheolwr Gyfarwyddwr y Grŵp
£265,000-£269,999	June Sarpong	Cyfarwyddwr Amrywiaeth Greadigol

Llywodraethu

Datgeliadau cyflogau parhad

Cyflogau	Enw	Rôl
£210,000-£214,999	Rhodri Talfan Davies	Cyfarwyddwr y Gwledydd
£195,000-£199,999	Gautam Rangarajan	Cyfarwyddwr Strategaeth a Pherfformiad y Grŵp
Swyddogaethau Corfforaethol		
£350,000-£354,999	Glyn Isherwood	Prif Swyddog Ariannol
£325,000-£329,999	Ken MacQuarrie	Cyfarwyddwr Prosiect y Grŵp
£285,000-£289,999	Sarah Jones	Cwnsler Cyfreithiol y Grŵp
£220,000-£224,999	John Shield	Cyfarwyddwr Cyfathrebu
£210,000-£214,999	Shirley Cameron	Rheolwr Ariannol y Grŵp
	Balram Veliath	Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd
£200,000-£204,999	Peter Ranyard	Cyfarwyddwr Cyfreithiol Corfforaethol
£185,000-£189,999	David Curley	Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol y Grŵp
£180,000-£184,999	David Jordan	Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol
	Claudia Giles	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
	Noel Scotford	Cyfarwyddwr Systemau Adnoddau Dynol a Dadansoddeg Busnes
£175,000-£179,999	Clare Sumner	Cyfarwyddwr Polisi
£170,000-£174,999	Chris Rowsell	Pennaeth Rheoleiddio
	Phil Harrold	Ysgrifennydd Cwmni
	Sarah Gregory	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Adnoddau Dynol
	Sophie Garnham	Cyfarwyddwr Hawliau Masnachol a Materion Busnes
£165,000-£169,999	Natasha Wojciechowski	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
	Isabel Begg	Cyfarwyddwr Hawliau Masnachol a Materion Busnes
	Simon Morrissey	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
	Andrew Kaczor	Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau
£160,000-£164,999	David Attfield	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
	Nick Wilcox	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
£155,000-£159,999	Pipa Doubtfire	Cyfarwyddwr Rheoli Refeniw
	Jessica Cecil	Un o gyfarwyddwyr y BBC
£150,000-£154,999	Rachel Currie	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y Grŵp
	Wendy Aslett	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y Grŵp
	Clive Ahmed	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
	Sarb Nijjer	Cyfarwyddwr Cyllid Is-adrannol
	Zoe Baker	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
	Jo Korn	Cyfarwyddwr Hawliau Masnachol a Materion Busnes
	Mike Griffiths	Cyfarwyddwr Hawliau Masnachol a Materion Busnes
Dylunio a Pheirianneg		
£205,000-£209,999	Robin Pembroke	Cyfarwyddwr Cynhyrchu Cynnwys, Cynhyrchion a Systemau
	Stuart Page	Cyfarwyddwr Cynhyrchion a Systemau Corfforaethol a Masnachol
£200,000-£204,999	Chris Condron	Cyfarwyddwr Cynhyrchion Digidol
	Ian Mackay-Smith	Rheolwr Peirianneg Systemau
£195,000-£199,999	Jatin Aythora	Prif Bensaer
	Gary Payne	Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth
£190,000-£194,999	Kieran Clifton	Cyfarwyddwr Dosbarthu a Datblygu Busnes
	Andy Baker	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Peirianyddol
	Ellie Runcie	Prif Swyddog Dylunio
£185,000-£189,999	Andy Conroy	Rheolwr Ymchwil a Datblygu
£180,000-£184,999	Dan Taylor-Watt	Cyfarwyddwr Cynhyrchion a Systemau iPlayer a Sounds

Cyflwgau	Enw	Rôl
£165,000-£169,999	Sarah Hayes	Cyfarwyddwr Archifau'r BBC
	Richard Cooper	Rheolwr Dosbarthu Digidol
£160,000-£164,999	Grace Boswood	Prif Swyddog Gweithredu
	Sunder Srinivasan	Prif Arbenigwr Systemau
	Randeep Bindra	Rheolwr Prosiect SAP
£155,000-£159,999	Claire Hetherington	Pennaeth Cynnyrch
£150,000-£154,999	Kirsten Mitchinson	Pennaeth Masnachol
Marchnata a Chynulleidfaoedd		
£185,000-£189,999	Paul Davies	Cyfarwyddwr Marchnata a Chynulleidfaoedd
£175,000-£179,999	Justin Bairamian	Cyfarwyddwr BBC Creative
	Nick North	Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd
£150,000-£154,999	Nicki Brown	Cyfarwyddwr Marchnata a Chynulleidfaoedd
Y Gwledydd		
£240,000-£244,999	Ian Haythornthwaite	Prif Swyddog Ariannol a Gweithredu
£195,000-£199,999	Peter Johnston	Cyfarwyddwr y Gwledydd, Gogledd Iwerddon
£190,000-£194,999	Joe Godwin	Cyfarwyddwr Partneriaethau
£165,000-£169,999	Helen Thomas	Cyfarwyddwr y Gwledydd, Lloegr
	Steve Carson	Cyfarwyddwr y Gwledydd, Yr Alban
£150,000-£154,999	Chris Burns	Uwch-bennaeth Comisiynu Radio Lleol
Gweithle		
£175,000-£179,999	Alan Bainbridge	Cyfarwyddwr y Gweithle
Cynnwys		
£285,000-£289,999	Piers Wenger	Cyfarwyddwr Comisiynu Drama
£230,000-£234,999	Patrick Holland	Cyfarwyddwr Comisiynu Ffeithiol, y Celfyddydau a Cherddoriaeth Glasurol
	Kate Phillips	Cyfarwyddwr Comisiynu Adloniant
£225,000-£229,999	Dan McGolpin	Cyfarwyddwr iPlayer a'r Sianelau
	Barbara Slater	Cyfarwyddwr Chwaraeon
£220,000-£224,999	Shane Allen	Cyfarwyddwr Comisiynu Comedi
£215,000-£219,999	Fiona Campbell	Rheolwr Sianel BBC Three
	Graham Ellis	Rheolwr Cynhyrchu Radio
£210,000-£214,999	Rose Garnett	Cyfarwyddwr Comisiynu, BBC Films a Storyville
£205,000-£209,999	Lucy Richer	Uwch-olygydd Comisiynu (Drama)
£200,000-£204,999	Cheryl Taylor	Pennaeth Cynnwys Plant
£190,000-£194,999	Clare Sillery	Uwch-bennaeth Comisiynu Ffeithiol
£185,000-£189,999	Jonathan Wall	Rheolwr Radio
£180,000-£184,999	Alan Davey	Rheolwr Radio
	Lorna Clarke	Rheolwr Radio
	Mohit Bakaya	Rheolwr Radio
£175,000-£179,999	Philip Bernie	Pennaeth Chwaraeon
	Jo Wallace	Uwch-olygydd Comisiynu Adloniant
	Helen Bullough	Pennaeth Cynhyrchu Plant
£165,000-£169,999	Manda Levin	Uwch-olygydd Comisiynu (Drama)
	Lindsay Currie	Pennaeth Amserlennu Portffolio
£160,000-£164,999	Heidi Dawson	Rheolwr Radio
	Carla-Maria Lawson	Golygydd Sianel, Yn Ystod y Dydd a Brig Cynnar

Llywodraethu

Datgeliadau cyflogau *parhad*

Cyflogau	Enw	Rôl
£150,000-£154,999	Ben Gallop	Pennaeth Chwaraeon
	Catherine Catton	Uwch-bennaeth Comisiynu Ffeithiol
Newyddion a Materion Cyfoes		
£205,000-£209,999	Kamal Ahmed	Cyfarwyddwr Golygyddol
£200,000-£204,999	Alan Dickson	Prif Swyddog Ariannol a Gweithredu
	Jamie Angus	Cyfarwyddwr Grŵp World Service
£185,000-£189,999	Gavin Allen	Pennaeth Rhaglenni Newyddion
	Jonathan Munro	Pennaeth Casglu Newyddion
£180,000-£184,999	Naja Neilsen	Uwch-reolwr Newyddion
£170,000-£174,999	Mary Hockaday	Rheolwr World Service Saesneg
	Joanna Carr	Pennaeth Materion Cyfoes
	Sarah Ward-Lilley	Rheolwr Olygydd
£160,000-£164,999	Jon Zilkha	Uwch-gyfarwyddwr Prosiect
£155,000-£159,999	James Gray	Pennaeth Newyddiaduraeth
£150,000-£154,999	Tariq Kafala	Rheolwr Newyddion
Cyn-aelodau o staff		
£290,000-£294,999	James Purnell	Cyfarwyddwr Radio ac Addysg
	Matthew Postgate	Prif Swyddog Technoleg a Chynhyrchion
£240,000-£244,999	Bal Samra	Cyfarwyddwr Masnachol y Grŵp
£225,000-£229,999	Tony Hall	Cyfarwyddwr Cyffredinol
£200,000-£204,999	Anna Gronmark	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Newyddion a Materion Cyfoes
£190,000-£194,999	Gillian Taylor	Cyfarwyddwr Gwobr wyo
£160,000-£164,999	Matt Grest	Cyfarwyddwr Llwyfannau
	Claire Paul	Cyfarwyddwr Arwain a Datblygu

Barn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol am ddatgeliadau cyflogau

Adroddiad Sicrwydd Annibynnol i Fwrdd y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, gan gydnabod bod y Senedd hefyd yn dibynnu ar Gyfrifon ac Adroddiad y Grŵp

Rwyf wedi cynnal gweithdrefnau sicrwydd annibynnol ar y datgeliadau sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y BBC) sy'n deillio o'r gofyniad o dan y Siarter Frenhinol ar gyfer parhad y BBC (y Siarter Frenhinol), i gyhoeddi enwau holl uwch swyddogion gweithredol y BBC a dalwyd mwy na £150,000 o refeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno; ac enwau holl staff eraill y BBC a dalwyd mwy na £150,000 o refeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno, a bennwyd mewn bandiau cyflog ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Mae'r datgeliadau hyn yn cynnwys y Datgeliadau Cyflog fel y nodir ar dudalennau 86 i 92 o Adroddiad Blynyddol y BBC (y pwnc) (y "Datgeliadau Cyflog").

Cynhelir fy ngwaith yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Ymgysylltiad Sicrwydd (ISAE) 3000 o *Ymgysylltiad Sicrwydd Heblaw Archwiliadau neu Adolygiadau o Wybodaeth Ariannol Hanesyddol*.

Cyfrifoldebau Bwrdd y BBC a'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Ar gyfer y flwyddyn adrodd sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn, Bwrdd y BBC oedd yn gyfrifol am gyhoeddi gwybodaeth sy'n ofynnol o dan y Siarter Frenhinol fel a ganlyn:

- enwau holl uwch weithredwyr y BBC a dalwyd mwy na £150,000 o refeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno; ac
- enwau holl staff eraill y BBC a dalwyd mwy na £150,000 o refeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno, a bennwyd mewn bandiau cyflog ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

Rwyf yn gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r pwnc, ym mhob agwedd o bwys, yn gyflawn ac yn gywir ac wedi cael ei baratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddo.

Wrth gynnal fy ngwaith, mae fy staff ac innau wedi cydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2019. Rwy'n annibynnol ar y BBC yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm gweithdrefnau. Mae fy staff a finnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Mae fy staff a minnau wedi defnyddio'r Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd 1 ac felly rwyf yn cynnal system gynhwysfawr o reoli ansawdd, gan gynnwys polisiau a gweithdrefnau wedi'u dogfennu, sy'n ymwneud â chydymffurfio â gofynion moesegol, safonau proffesiynol a gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol.

Fy null gweithredu

Rwyf wedi cyflawni ymgysylltiad sicrwydd rhesymol fel y'i diffinnir yn ISAE 3000. Ymgysylltiad rhesymol o ran sicrwydd yw cyflawni gweithdrefnau o'r fath i gael gwybodaeth ac esboniadau sydd, yn fy marn i ac ym mhob agwedd o bwys, yn angenrheidiol er mwyn mynegi barn ynghylch a yw'r Datganiadau Cyflog (y pwnc) yn gyflawn ac yn gywir, ac wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddo.

Roedd fy ngwaith yn cynnwys:

- Deall y broses a fabwysiadwyd gan y BBC i gael y Datgeliadau Cyflog, yn enwedig pa mor gyflawn a chywir oedd yr wybodaeth a ddefnyddiwyd;
- Profi cyflawnder datgeliadau, gan gynnwys
 - croesgyfeirio at fy ngweithdrefnau archwilio Grŵp y BBC sy'n ymwneud â'r gyflogres a gwariant;
 - cymharu â'r flwyddyn flaenorol a'm dealltwriaeth o'r BBC; ac
 - adolygu unigolion a dalwyd yn y mis dilynol sydd wedi cael eu talu'n agos at y trothwy datgelu yn 2020-21.
- Cytuno ar ddatgeliadau staff o slipiau cyflog neu, lle nad yw staff yn cael eu talu drwy gyflogres y BBC, cytuno ar wariant yn ôl i dystiolaeth arall fel contractau;
- Cytuno ar y gwariant fesul unigolyn sy'n cael mwy na £150,000 o refeniw Ffi'r Drwydded i'r band cyflog priodol;
- Ail-gyfrifo nifer yr unigolion sydd wedi'u cynnwys ym mhob band £5,000; ac
- Adolygu'r sylwebaeth ategol ar resymoldeb ac eglurder ynghylch sail datgelu.

Cyfyngiadau cynhenid

Mae fy ngweithdrefnau sicrwydd wedi'u cynllunio i roi sicrwydd rhesymol. Amcan ymgysylltiad sicrwydd rhesymol yw lleihau'r risg ymgysylltu i lefel dderbyniol o isel yn amgylchiadau'r ymgysylltu, fel sail ar gyfer ffurf gadarnhaol o fynegi fy nghasgliad. Fodd bynnag, nid yw'n dileu'r risg hon yn llwyr. Yn benodol, wrth baratoi'r datgeliadau, mae'n ofynnol i Fwrdd y BBC wneud nifer o benderfyniadau sy'n cyflwyno elfen o risg yn ei hanfod.

Mae fy ngwaith wedi'i wneud er mwyn i mi allu datgan wrth Fwrdd y BBC a'r Senedd y materion hynny y mae'n ofynnol i mi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn, ac i ddim pwrpas arall.

Barn

Ar sail canlyniadau fy ngweithdrefnau, yn fy marn i, ac ym mhob agwedd o bwys, mae'r Datgeliadau Cyflog a nodir ar dudalennau 86 i 92 yn gyflawn ac yn gywir ac wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddo. Lluniwyd y farn hon ar sail y materion a amlinellwyd mewn man arall yn yr adroddiad sicrwydd annibynnol hwn.

Gareth Davies
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

157-197 Buckingham Palace Road
Llundain, SW1W 9SP

21 Mehefin 2021

Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau

Pwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ynglŷn â phenodi aelodau'r Bwrdd (ac eithrio'r Cadeirydd ac aelodau'r gwledydd) a Phwyllgorau'r Bwrdd.

Mae aelodau'r Pwyllgor wedi newid y flwyddyn hon gyda Richard Sharp yn cael ei benodi'n Gadeirydd newydd y BBC o 16 Chwefror 2021, a Tim Davie yn cael ei benodi'n Gyfarwyddwr Cyffredinol newydd o 1 Medi 2020. Aelodau eraill y Pwyllgor yw: Nicholas Serota, yr uwch-gyfarwyddwr annibynnol; a'r cyfarwyddwr anweithredol Elan Closs Stephens a Shirley Garrood, a ymunodd â'r Pwyllgor ar 19 Tachwedd 2020 cyn ymadawiad Ashley Steel.

Yn ogystal â bod yn gyfrifol am enwebu penodiadau i'r Bwrdd, mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am enwebu aelodau i is-bwyllgorau'r Bwrdd, a'i brif is-gwmnïau masnachol. Mae'r Pwyllgor Enwebiadau hefyd yn ystyried ac yn adolygu annibyniaeth aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys unrhyw wrthdaro buddiannau, ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer y Bwrdd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn asesu cyfansoddiad y Bwrdd a'i bwyllgorau cysylltiedig o ran y cydbwysedd o sgiliau a phrofiad sydd eu hangen, ac er mwyn datblygu strategaeth cynllunio ar gyfer olyniaeth.

Y flwyddyn hon, mae'r Pwyllgor Enwebiadau wedi cyfarfod chwe gwaith. Yn sgil y cyfyngiadau a welwyd oherwydd pandemig Covid, bu'n rhaid cynnal cyfarfodydd y Pwyllgor drwy fideo gynhadledd yn hytrach nag yn bersonol. O ran penodiadau, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar benodi Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, a gefnogir gan banel ehangach o gyfarwyddwyr anweithredol drwy gyfres o gyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol. O ganlyniad, argymhellodd y Pwyllgor Enwebiadau y dylid penodi Tim Davie yn Gyfarwyddwr Cyffredinol newydd, a

chymradwywyd y penodiad hwnnw gan Fwrdd y BBC mewn cyfarfod arbennig ym mis Mehefin.

O ran apwyntiadau eraill, argymhellodd y Pwyllgor Enwebiadau y dylid ailbenodi Dharmash Mistry yn un o gyfarwyddwyr anweithredol Bwrdd BBC Commercial Holdings. Argymhellodd hefyd y dylid penodi dau gyfarwyddwr gweithredol i'r Bwrdd: ymunodd Charlotte Moore, Cyfarwyddwr, Cynnwys, a Leigh Tavaziva, Prif Swyddog Gweithredu, â'r Bwrdd y flwyddyn hon am gyfnod o ddwy flynedd yr un. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylid ailbenodi Fran Unsworth, Cyfarwyddwr Newyddion, yn aelod gweithredol o'r Bwrdd am ddwy flynedd arall o 1 Ebrill 2021. Estynnwyd penodiad Tanni Grey-Thompson fel aelod anweithredol o'r Bwrdd am naw mis hyd at fis Rhagfyr 2021 o ganlyniad i'r amgylchiadau eithriadol a welwyd yn sgil pandemig Covid.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried aelodaeth is-bwyllgorau'r Bwrdd drwy gydol y flwyddyn fel rhan o'i gyfrifoldebau am gynllunio ar gyfer olyniaeth ac asesu perfformiad. Gyda dyfodiad yr aelodau anweithredol newydd ar gyfer Gogledd Iwerddon a Lloegr, caiff strwythur y Pwyllgor ei ystyried eto maes o law.

Bu'n anodd i'r Pwyllgor gyflawni ei gyfrifoldeb am werthuso perfformiad y Bwrdd a'i is-bwyllgorau cysylltiedig yn ystod y flwyddyn hon oherwydd yr effaith a gafodd pandemig Covid-19 ar gyfarfodydd personol a'r broses o drosglwyddo i Gadeirydd newydd. Fodd bynnag, bwriedir cynnal arolwg gwerthuso o bell.

Richard Sharp
Cadeirydd

21 Mehefin 2021

Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau

	Bwrdd	Y Pwyllgor Archwilio a Risg	Y Pwyllgor Masnachu Teg	Y Pwyllgor Enwebiadau	Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth	Safonau a Chanllawiau Golygyddol	Pwyllgor y Gwledydd - Lloegr	Pwyllgor y Gwledydd - yr Alban	Pwyllgor y Gwledydd - Cymru	Pwyllgor y Gwledydd - Gogledd Iwerddon
	Cyffredin	Aelod	Aelod	Aelod	Aelod	Aelod	Aelod	Aelod	Aelod	Aelod
Nifer y cyfarfodydd ar gyfer y cyfnod	15	6	3	6	6	6	2	3	3	2
Cyfarwyddwyr anweithredol										
David Clementi*	13 o 13			5 o 5				2 o 2		2
Richard Sharp*	2 o 2			1 o 1						
Shirley Garrood	15	6	3	2 o 2						
Tanni Grey-Thompson	15				6	6				
Ian Hargreaves	14		3			6			3	
Tom Ilube	15	6	3				2			
Steve Morrison	15		2		6			3		
Nicholas Serota	15			6	6	6				
Ashley Steel*	11 o 11	4 o 4		4 o 4			2			
Elan Closs Stephens	14			6					3	2
Cyfarwyddwyr gweithredol										
Tony Hall*	7 o 7			1 o 2		2 o 2				
Tim Davie*	15			4 o 4		4 o 4				
Ken MacQuarrie*	12 o 12						2	2 o 2	2 o 2	2
Charlotte Moore*	8 o 8									
Leigh Tavaziva*	3 o 3									
Fran Unsworth	15					6				2

Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys cyfarfodydd arbennig na busnes a gynhaliwyd all-lein

* Gadawodd Tony Hall y Bwrdd ar 31 Awst 2020 Dechreuodd Tim Davie yn ei swydd fel Cyfarwyddwr Cyffredinol ar 1 Medi 2020 Ymunodd Charlotte Moore â'r Bwrdd ar 1 Medi 2020 Gadawodd Ashley Steel a Ken MacQuarrie y Bwrdd ar 1 a 31 Rhagfyr 2020, yn y drefn honno Ymunodd Leigh Tavaziva â'r Bwrdd ar 1 Chwefror 2021 Gadawodd David Clementi'r Bwrdd ar 15 Chwefror 2021 ac ymunodd Richard Sharp â'r Bwrdd ar 16 Chwefror 2021

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

Hon oedd fy mlwyddyn gyntaf lawn fel Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg y BBC. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau i sicrhau bod trefniadau llywodraethu corfforaethol da ar waith yn y BBC ac i oruchwylio systemau rheoli risg a rheolaethau. Rwyf wedi mwynhau meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r BBC, ei ddiwylliant a'r heriau y mae'n eu hwynebu.

Bu'n flwyddyn a ddominyddwyd gan Covid-19. Mae effaith y pandemig wedi bod yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor, yn enwedig o ran iechyd a llesiant ein staff, cadernid a diogelwch y sefydliad a'r effaith ar yr amgylchedd rheoli. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod gwaith caled ac ymrwymiad staff y BBC, a staff ein partneriaid a'n cyflenwyr, wrth ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod y cyfnod hwn.

Bu'n bleser gweithio gyda dau gydweithiwr gwybodus a chefnogol iawn ar y Pwyllgor – Tom Ilube ac Ashley Steel. Hoffwn ddiolch iddynt am eu cyfraniad a'u cefnogaeth ragorol i'r Pwyllgor yn ystod eu cyfnod ar y Bwrdd. Rydym yn cael cyngor da, annibynnol a diduedd gan y timau Cyllid, Archwilio Mewnol a Risg, yn ogystal â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel archwilydd statudol y BBC. O ganlyniad, rwyf wedi fy modloni bod y Pwyllgor wedi meddu ar y sgiliau a'r cymorth angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswyddau'n briodol.

Mae ein cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn hon wedi cynnwys:

- adolygu a sicrhau'r sail ar gyfer datganiadau Grŵp y BBC am fusnes gweithredol a hyfywedd;
- goruchwylio ein cydberthynas â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan gynnwys cymeradwyo ei chynllun archwilio, adolygu ei hasesiad o risg a phenderfyniadau cyfrifyddu a chael y wybodaeth ddiweddaraf am hynt ei gwaith ym mhob cyfarfod;
- goruchwylio'r broses o gwblhau camau gweithredu sy'n deillio o archwiliad ac adolygiadau gwerth am arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar amser;
- goruchwylio risgiau strategol a gweithredol y BBC ac effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg. Yn ystod y flwyddyn hon, lluniwyd datganiadau am yr awydd i gymryd risgiau a dangosyddion risg allweddol ar gyfer risgiau gweithredol allweddol y BBC;
- cynnal adolygiadau manwl penodol o feysydd risg, gan gynnwys y flwyddyn hon: amddiffyn a diogelu plant; diogelu gwybodaeth; effaith Brexit ar y BBC; diogelu data a risgiau sy'n gysylltiedig ag adnoddau dynol a phobl;
- monitro prosiectau mawr ar draws y BBC. Mae'r Pwyllgor wedi adolygu diweddariadau gan Swyddfa Rheoli Prosiectau'r BBC ar bedwar achlysur yn ystod 2020/21. Rydym hefyd wedi cynnal adolygiadau penodol manylach o fentrau dethol gan gynnwys E20 (ailddatblygu set EastEnders), y newid yn ffi'r drwydded i'r rhai dros 75 oed a'r hyn a ddysgwyd o'r penderfyniad a wnaed y flwyddyn ddiwethaf i ganslo'r broses o roi system rheoli cwsmeriaid ar waith yn Uned Ffi'r Drwydded;
- parhau i oruchwylio pryderon a godwyd o dan Bolisi Datgelu Gwarchoddedig (chwythu'r chwiban) y BBC ac ymchwiliadau dilynol;
- adolygu canlyniadau ac argymhellion ymchwiliadau i ddigwyddiadau darlledu neu barhad gwasanaeth;
- monitro gwaith y tîm Archwilio Mewnol a chwblhau camau gweithredu sy'n deillio o'i waith. Cwblhawyd 33 o archwiliadau ac adolygiadau sicrwydd, fel rhan o gynllun seiliedig ar risg, a nodwyd 80 o gamau gwella (mae'r Pwyllgor yn olrhain yr holl gamau gwella nes eu bod wedi'u cwblhau).

Cymeradwyodd y Pwyllgor atal archwiliadau mewnol dros dro yn ystod chwarter cyntaf 2020/21 er mwyn galluogi'r tîm i gefnogi ymateb y BBC i Covid-19. Ailddechreuodd gweithgarwch Archwilio Mewnol yn ystod yr ail chwarter gyda chynllun diwygiedig, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor, a oedd yn cynnwys ffocws penodol ar risgiau sy'n gysylltiedig â'r pandemig.

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i graffu ar weithrediadau rhyngwladol y BBC. Mae'r World Service, timau casglu newyddion rhyngwladol a'n gweithrediadau masnachol byd-eang yn hanfodol wrth gynrychioli'r BBC a'r Deyrnas Unedig ond, yn ôl eu hunion natur, gall fod risgiau gweithredol uwch ynghlwm wrthynt.

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfuom chwe gwaith i gyd, a amserwyd i gyd-daro ag adegau allweddol yn ystod cylch adrodd y BBC. Rydym wedi rhoi canfyddiadau adolygiad allanol Saul o effeithiolrwydd Bwrdd a Phwyllgorau'r BBC yn 2019 ar waith. Yn benodol, cynhaliwyd cyfarfod ychwanegol er mwyn caniatáu mwy o amser i ystyried materion sy'n ymwneud â'n busnesau masnachol. Roedd y Prif Swyddog Gweithredol ac uwch-aelodau eraill o dimau'r prif fusnesau yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw. Canolbwyntiwyd ar y fframweithiau rheolaeth fewnol, y broses o reoli risgiau gweithredu allweddol a hynt y prosiect trawsnewid ariannol yn BBC Studios.

Mae'r Pwyllgor wedi cynnal cydberthynas gynhyrchiol a chydweithredol â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ein harchwilwyr allanol. Mae'r aeddfedrwydd a'r didwyllledd a welir yn y ffordd y mae'n ystyried ac yn cyflwyno adroddiadau ar ei gwaith gyda'r BBC yn parhau i greu argraff arnaf. Cynhaliwyd adolygiad ffurfiol o effeithiolrwydd y broses archwilio allanol.

Mae'n debygol y bydd y pandemig yn effeithio ar y flwyddyn sydd i ddod hefyd. Fodd bynnag, mae'r BBC wedi dangos ei fod yn gallu ymateb i'r argyfwng a pharhau i gyflawni ei ddibenion cyhoeddus yn effeithiol. Bydd y Pwyllgor yn gweithio gyda'r BBC i asesu goblygiadau tymor hwy y pandemig, megis effaith gweithio o bell, cadernid ein menter estynedig a dychwelyd i weithgarwch cynhyrchu, yn ogystal ag effeithiau ar ein gweithrediadau byd-eang.

Ar ddiwedd fy mlwyddyn gyntaf lawn fel Cadeirydd y Pwyllgor, mae'n bleser gennyf nodi ei fod wedi cyflawni ei gylch gwaith yn effeithiol yn ystod cyfnod heriol iawn, ac wedi helpu'r BBC i sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded.

Shirley Garrod

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

18 Mehefin 2021

Llywodraethu

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg parhad**Rôl**

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg yn nodi cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn fanylach. Cafodd y rhain eu cymeradwyo gan Fwrdd y BBC ym mis Medi 2018 a'u hadolygu gan y Pwyllgor ym mis Medi 2020. Maent ar gael ar ein gwefan: downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/auditandrisk/arc-tor-sep-2020.pdf

Cylch gwaith y Pwyllgor yw adolygu a goruchwyllo trefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Er mwyn cael y sicrwydd hwn, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adolygu a goruchwyllo'r canlynol:

- effeithiolrwydd prosesau rheolaeth fewnol a rheoli risg Grŵp y BBC;
- systemau'r BBC ar gyfer canfod ac atal twyll a llygredd;
- y risgiau allweddol sy'n wynebu Grŵp y BBC a'r camau a gymerir i liniaru'r risgiau hynny i lefel dderbyniol;
- gweithgareddau a risgiau is-gwmnïau masnachol y BBC, gan sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli mewn ffordd dderbyniol a bod sicrwydd yn annibynnol ac yn ddigonol;
- camau gweithredu a dyfarniadau rheolwyr o ran Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon y BBC a datganiadau ffurfiol cysylltiedig;
- gwaith swyddogaeth Archwilio Mewnol y BBC, a'i heffeithiolrwydd, gan gyfarfod ag uwch-reolwyr Archwilio Mewnol yn breifat er mwyn trafod materion fel y bo angen;
- prosiectau allweddol y BBC, gan gynnwys cyfansoddiad y portffolio prosiectau allweddol;
- ymatebion y BBC i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac adroddiadau Gwerth am Arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan roi ystyriaeth ddyledus i ddisgwyliadau'r Senedd ynghylch y ffordd y dylai adnoddau'r BBC gael eu rheoli;
- cwmpas archwilio arfaethedig yr archwilwyr allanol, gan sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau anghyfiawn, a chyfarfod gyda'r archwilwyr allanol ar wahân er mwyn trafod unrhyw faterion y dylid eu trafod yn breifat, ym marn y Pwyllgor neu'r archwilwyr;
- annibyniaeth yr archwilwyr allanol, eu gweithdrefnau rheoli ansawdd a'r camau a gymerir gan yr archwilwyr er mwyn ymateb i newidiadau i ofynion rheoleiddiol a gofynion eraill;
- trefniadau i'r staff godi pryderon, yn gyfrinachol, ynglŷn ag achosion posibl o amhriodoldeb mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag adrodd ariannol, anghyfreithlondeb neu faterion eraill

Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol, y mae'n rhaid bod un ohonynt yn meddu ar brofiad ariannol diweddar a pherthnasol. Yr aelodau a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yw:

- Shirley Garrod (Cadeirydd)
- Tom Ilube (ymddiswyddodd o'r Bwrdd ar 30 Mehefin 2021)
- Ashley Steel (ymddiswyddodd o'r Bwrdd ar 30 Tachwedd 2020)

Mae gan Shirley Garrod, cadeirydd y Pwyllgor, brofiad ariannol sylweddol, diweddar a pherthnasol. At hynny, mae pob aelod a wasanaethodd ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unigolion sy'n dal neu sydd wedi dal uwch-swyddi mewn sefydliadau o faint tebyg ac sy'n meddu ar y profiad a'r sgiliau i gyflawni eu cyfrifoldebau. Lle y bo'n briodol, ategir sgiliau a phrofiadau aelodau gan gyngor gan weithwyr proffesiynol mewnol ac allanol – er enghraifft ar faterion megis datblygiadau ym maes adroddiadau ariannol.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Prif Swyddog Gweithredu, y Prif Swyddog Ariannol, y Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd, ac uwch-gynrychiolwyr Archwilio Mewnol, Rheoli Risg a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel archwilwyr allanol y BBC, hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn cyfarfod yn breifat, heb fod unrhyw reolwyr yn bresennol, gyda'r Archwilwyr Mewnol, Risg a'r archwilwyr allanol, yn rheolaidd.

Mae'r Pwyllgor yn asesu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd, ac yn 2019/20, bu gwaith y Pwyllgor yn rhan o'r adolygiad allanol o effeithiolrwydd Bwrdd y BBC, a gynhaliwyd gan Chris Saul. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad hwnnw. Bydd adolygiad pellach, a arweinir gan Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol y BBC, yn mynd rhagddo ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Cyfarfodydd

Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod 2020/21, ar adegau allweddol yn y calendr adrodd ac archwilio.

Mae cofnodion o'r cyfarfodydd ar gael i'r Bwrdd a chyhoeddir cofnodion cryno ar wefan y BBC: bbc.co.uk/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/auditandrisk At hynny, mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod ar unrhyw faterion lle mae angen cymryd camau neu wella perfformiad. Mae'r Pwyllgor hefyd yn rhoi ei farn ar uniondeb y datganiadau ariannol cyn i'r Adroddiad Blynnyddol gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd cyfan.

Cywirdeb adroddiadau ariannol

Adolygodd y Pwyllgor gywirdeb datganiadau ariannol y BBC. Wrth wneud hynny, gwnaeth y canlynol:

- drwy drafodaethau â rheolwyr a'r archwilydd allanol, nododd risgiau allweddol o ran camdatganiadau yn natganiadau ariannol y BBC, gan gynnwys y meysydd hynny lle'r oedd angen llunio barn ariannol arwyddocaol ac sydd wedi dylanwadu ar y datganiadau ariannol;
- trafododd y risgiau hyn gyda'r archwilydd fel rhan o gytundeb cynllun archwilio'r archwilwyr allanol ac ar ddiwedd yr archwiliad o'r datganiadau ariannol;
- adolygodd a heriodd bapurau manwl a gyflwynwyd gan reolwyr ar y meysydd hynny lle'r oedd angen llunio barn ariannol arwyddocaol, gan ystyried barn yr archwilydd.

Nodir isod y prif feysydd lle mae angen llunio barn a sut y gwnaeth y Pwyllgor fynd i'r afael â hwy:

Cydnabod referniw

Mae risg na chaiff incwm ei gydnabod yn gywir yn unol â safonau adrodd ariannol. Mae natur y risg yn amrywio rhwng referniw ffi'r drwydded yn y gwasanaeth cyhoeddus a'r incwm masnachol. Ymdrinnir â referniw ffi'r drwydded fel swm sy'n ddyledus gan adran berthnasol y Llywodraeth, sef yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn bennaf, ar sail y ffaith y caiff symiau a dderbynnir gan dalwyr ffi'r drwydded eu talu drosodd.

Mae referniw masnachol yn fwy cymhleth, gyda nifer o ffrydiau referniw gwahanol, gan gynnwys gwerthu cynnwys i ddarlledwyr byd-eang, incwm tanysgrifiadau a referniw o werthu cynhyrchion ffisegol a digidol. Oherwydd cymhlethdod telerau cytundebol, efallai y bydd angen llunio barn wrth asesu pryd y gellir cydnabod referniw, sy'n seiliedig ar gyflawni rhwymedigaethau perfformiad a phryd y trosglwyddir rheolaeth i'r cwsmer.

Ymateb y Pwyllgor – Mae'r Pwyllgor yn cael adroddiadau gan reolwyr ar unrhyw farn berthnasol neu gymhleth iawn. Yn ystod y flwyddyn, aeth y Pwyllgor ati i adolygu'r broses o gasglu ffi'r drwydded oddi wrth bobl gymwys dros 75 oed o fis Awst 2020.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai systemau rheolaeth ariannol presennol y BBC sicrhau y caiff incwm ei drin yn briodol yn y datganiadau ariannol, ac mae'n hyderus bod rheolwyr yn deall y risgiau yn y maes hwn a'u bod wedi rhoi rheolaethau addas ar waith.

Eiddo

Mae'r BBC yn dal portffolio eiddo sylweddol, sy'n parhau i gael ei resymoli er mwyn lleihau costau. Mae'r ystad yn cynnwys eiddo rhydd-ddaliadol yn ogystal ag eiddo a ddelir o dan brydlesau cyllid a phrydlesau gweithredu. Gellir dosbarthu adeiladau sydd wedi cael eu his-osod neu sydd ar gael i'w his-osod yn eiddo buddsoddi. Mae barn yn ymwneud â'r bwriadau ar gyfer unrhyw adeiladau gwag yn y dyfodol a therfynau amser cysylltiedig. Gall hyn newid y driniaeth gyfrifyddu briodol ac effeithio ar werth cario'r eiddo ar y fantolen.

Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau deilliannol sy'n gysylltiedig â strwythur sylfaenol pryddles y Ganolfan Ddarlledu yn agored i sensitifrwydd o ran data'r farchnad yn ogystal ag addasiad i'r gyfradd disgownt er mwyn cyfrif am risg. O ganlyniad, cydnabuwyd rhwymedigaethau net o £228 miliwn mewn perthynas â'r trefniant hwn. Gweithredwyd y trafodyn mewn modd a oedd yn cyfyngu ar unrhyw gynnydd yn amlygiad credyd y BBC i'r cyd-bartion deilliannol dan sylw. Rhoddir cyfrif am y cyfrwng diben arbennig a sefydlwyd i ailddatblygu'r Ganolfan Ddarlledu, Daunus Limited, fel cyd-fenter yn dilyn asesu rheolaeth. Mae budd y BBC yn yr endid ar gost, ac ni nodwyd unrhyw ddangosyddion o leihad mewn gwerth.

Cydnabyddir Canolfan Ddarlledu BBC Cymru fel ased a ddelir i'w werthu ar 31 Mawrth 2021 gan fod y broses o'i werthu wedi'i chwblhau yn 2021/22.

Ymateb y Pwyllgor – Adolygodd y Pwyllgor adroddiadau gan reolwyr a esboniodd y driniaeth ar gyfer yr adeiladau pwysicaf, gan gynnwys y terfynau amser a ragwelir ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol a'r rhesymeg dros y driniaeth. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y ffordd y cafodd yr adeiladau hyn eu trin yn y datganiadau ariannol yn gyson â bwriad rheolwyr ac yn unol â safonau adrodd ariannol rhyngwladol.

Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig y BBC

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys gwarged o £190 miliwn ar y fantolen ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC. Mae angen llunio dyfarniadau allweddol ynglŷn â'r tybiaethau a ddefnyddir wrth gyfrifo'r sefyllfa hon. Gall newidiadau yn y tybiaethau hyn arwain at newid mawr yn y ffigurau terfynol a ddatgelir. Mae'r tybiaethau a ddefnyddir ar gyfer y prisiad cyfrifyddu diweddaraf yn seiliedig ar argymhellion actiwariad annibynnol ac maent o fewn amrediad derbynol yn ôl y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Ymateb y Pwyllgor – Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn y datganiadau ariannol mewn perthynas â'r cynllun pensiwn yn rhesymol, yn briodol i'r BBC ac yn cael eu cefnogi gan arbenigwyr actiwariad annibynnol. Nododd y Pwyllgor y symudiad arwyddocaol ym mhriodol y cynllun pensiwn ac roedd yn fodlon ar yr esboniadau a'r dadansoddiad a roddwyd gan reolwyr a chynghorwyr y cynllun.

Darpariaethau cyflogaeth a threthiant

Mae nifer o ddarpariaethau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth a threthiant yn bodoli lle mae gan y BBC rwymedigaeth ar hyn o bryd o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol sy'n debygol ac y gellir ei fesur yn ddibynadwy. Mae darpariaethau cysylltiedig gwerth £11 miliwn yn y datganiadau ariannol, gan gynnwys swm i'w dalu i gyflwynwyr, neu ar eu rhan, mewn perthynas â defnyddio Cwmnïau Gwasanaeth Personol.

Ymateb y Pwyllgor – Cafodd y Pwyllgor adroddiadau ar faterion a allai arwain at gydnabod rhwymedigaethau posibl a thrafododd lefel y darpariaethau â rheolwyr. Cadarnhaodd y rheolwyr eu bod wedi defnyddio dull cyson o nodi, cydnabod a rhyddhau darpariaethau ym mhob rhan o Grŵp y BBC. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar lefel y darpariaethau a gariwyd a'r hyn a ddatgelwyd mewn perthynas â'r darpariaethau hynny.

Prosiectau cyfalaf

Mae'r BBC yn ymgymryd â sawl prosiect cyfalaf ar unrhyw adeg benodol, sy'n cyfrannu at strategaeth gyffredinol y BBC. Mae angen asesu priodoldeb cyfalafu, ynghyd â phrisio unrhyw ased a gyfalafir. Os nad oes modd cwblhau prosiect cyfalaf perthnasol ar amser, neu os na fydd y BBC yn cael budd ohono yn y dyfodol, gallai hyn ysgogi tâl lleihad mewn gwerth. Adolygwyd adroddiadau gan reolwyr a esboniodd statws prosiectau cyfalaf mawr a'r ffordd yr aseswyd p'un a oedd angen tâl lleihad mewn gwerth ai peidio.

Ymateb y Pwyllgor – Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod asesiad y rheolwyr o brosiectau cyfalaf, gan gynnwys a oes unrhyw leihad mewn gwerth yn briodol, yn unol â safonau adrodd ariannol rhyngwladol.

Covid-19

Gweithiodd y BBC gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i sicrhau bod adroddiadau ariannol yn rhoi gwybodaeth glir a thryloyw yn ystod pandemig Covid-19. Cafodd meysydd adrodd risg allweddol eu nodi a'u hasesu o ran effaith. Mae hyn wedi cynnwys asesu busnes gweithredol a hyfywedd, yn ogystal â'r dulliau, y dyfarniadau a'r tybiaethau sy'n sail i'r asesiadau hyn.

Rhodddwyd ystyriaeth i benderfyniadau rheolwyr mewn ymateb i'r pandemig, gan gynnwys camau a gymerwyd i sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl ar feysydd gweithredol. Mae rheoleidd-dra'r penderfyniadau hyn ac unrhyw effaith ar ddyfarniadau ac amcangyfrifon arwyddocaol wedi'u hadolygu.

Ymateb y Pwyllgor – Mae'r Pwyllgor wedi cael diweddariadau manwl ar effaith Covid ar y gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol a'u cynnwys ac mae'n hyderus bod rheolwyr wedi gweithredu mewn ffordd resymol.

Cadarnhaodd y rheolwyr wrth y Pwyllgor nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau perthnasol na chamddatganiadau nad oeddent yn berthnasol a wnaed yn fwriadol er mwyn rhoi darlun penodol. Nododd yr archwilwyr unrhyw gamddatganiadau yr oeddent wedi dod ar eu traws wrth wneud eu gwaith ac nad oedd unrhyw symiau perthnasol nas addaswyd o hyd. Gall y Pwyllgor gadarnhau ei fod yn fodlon bod yr archwilwyr allanol wedi cyflawni eu cyfrifoldebau gyda diwydrwydd ac amheuaeth broffesiynol.

Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau a'r adroddiadau gan reolwyr ac ymgynghori, lle bo angen, â'r archwilwyr allanol, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y datganiadau ariannol yn ymdrin yn briodol â'r dyfarniadau beirniadol a'r amcangyfrifon allweddol (o ran y symiau a nodwyd a'r datgeliadau). Mae'r Pwyllgor hefyd yn fodlon bod y tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i bennu gwerth asedau a rhwymedigaethau wedi bod yn destun prosesau craffu a herio priodol, a'u bod yn ddigon cadarn.

Adolygodd y Pwyllgor ddatganiadau ariannol y grŵp a'u lle yn yr Adroddiad Blynyddol ehangach. Er mwyn cynorthwyo'r adolygiad hwn, ystyriwyd adroddiadau gan y rheolwyr a chan yr archwilwyr mewnol ac allanol a gwmpasodd:

- ansawdd a derbynoldeb polisiau cyfrifyddu, gan gynnwys eu cydymffurfiaeth â safonau cyfrifyddu;
- cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol;
- eglurder datgeliadau a'u cydymffurfiaeth â gofynion adrodd perthnasol;

Llywodraethu

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg parhad

— a yw'r Adroddiad Blynyddol yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gyfbwys ac yn ddealladwy ac a yw'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i asesu perfformiad a strategaeth y BBC.

Effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a'r fframwaith rheoli risg**Sicrwydd rheolaethau mewnol**

Adolygodd y Pwyllgor effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y BBC, ar ran y Bwrdd. Er mwyn gwneud yr asesiad hwn, gwnaeth y Pwyllgor ddibynnu'n bennaf ar ganfyddiadau adroddiadau archwilwyr mewnol ac allanol a gweithgarwch arall ynglŷn â sicrwydd ym mhob rhan o'r Grŵp. Ymhlith y meysydd penodol eraill a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn roedd:

- y themâu yn deillio o weithgarwch Archwilio Mewnol, a holi cynrychiolwyr Archwilio Mewnol ynglŷn â chanlyniadau eu gwaith a'r hyn a arsylwyd ganddynt. Caiff crynodeb o weithgarwch Archwilio Mewnol, sy'n nodi tueddiadau ac achosion sylfaenol, ei gyflwyno'n flynyddol. Caiff canfyddiadau allweddol o bob archwiliad, gan gynnwys sgoriau sicrwydd a chamau unioni, eu hadolygu gan y Pwyllgor;
- cynnydd wrth gwblhau camau sy'n deillio o weithgarwch sicrwydd annibynnol, gan gynnwys archwiliadau mewnol ac allanol ac adolygiadau gwerth am arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae hwn yn faes rydym yn rhoi ystyriaeth ddilynol iddo ym mhob cyfarfod er mwyn sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o ran unrhyw wendidau a nodwyd;
- gwaith dilynol a gwaith craffu pellach ar gwblhau unrhyw gynlluniau gwella neu gamau gweithredu y cytunwyd arnynt o ran meysydd a ystyrir yn rhai proffil uchel neu a fu'n destun canfyddiadau sicrwydd critigol;
- adolygiad o'r risgiau i bobl yn y BBC, gan gynnwys cysylltiadau cyflogaion, iechyd meddwl a llesiant, a chynhwysiant;
- adolygiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â Brexit a pharodrwydd y BBC ar gyfer Brexit, gan gynnwys y risgiau sy'n ymwneud â pharhad darlledu, symud data a symud pobl;
- adolygiadau rheolaidd o gynnydd prosiectau allweddol a ddarparwyd gan Swyddfa Rheoli Prosiectau'r BBC. Aeth y Pwyllgor ati hefyd i adolygu'r ffordd y mae'r BBC yn dysgu o brosiectau blaenorol ac edrychodd yn fanylach ar berfformiad prosiectau dethol;
- adroddiadau chwythu'r chwiban rheolaidd a'r diweddaraf am lefelau o dwyll a dwyn, ynghyd â'r systemau sydd ar waith i'w gostwng a'u hatal;
- canfyddiadau a hynnt camau gweithredu sy'n deillio o archwiliadau o is-gwmniau masnachol y BBC. Mae Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Ariannol BBC Studios yn bresennol bob blwyddyn i roi sicrwydd ar amgylchedd rheoli'r is-gwmni hwn a'r ffordd y mae'n rheoli risg;
- adolygu a chymeradwyo datganiad Caethwasiaeth Fodern y BBC ac adolygu'r dull o sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y wybodaeth a gyflwynwyd gan reolwyr, a'r ymatebion a gafwyd i gwestiynau ac ymholiadau pellach, yn ddigonol i'r Bwrdd lunio barn ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a gweithgarwch rheoli risg.

Rheoli risg

Ystyriodd y Pwyllgor y prosesau ar gyfer rheoli risgiau sylweddol yn y BBC.

Yn benodol, adolygodd y Pwyllgor adroddiadau a heriodd reolwyr ar risgiau strategol a gweithredol mawr y BBC; adolygodd y trefniadau llywodraethu ar gyfer rhoi gwybod am risgiau a'u goruchwyllo; ac ystyriodd feysydd risg a oedd yn dod i'r amlwg a allai effeithio ar y BBC.

Cynhaliwyd adolygiadau manylach o bynciau risg dethol hefyd, gan gynnwys amddiffyn a diogelu plant; diogelu gwybodaeth; diogelu data, a'r risg sy'n gysylltiedig ag adnoddau dynol a phobl.

Adolygwyd effaith Covid-19 ar y BBC gan y Pwyllgor, gyda chyfeiriad penodol at iechyd a llesiant gweithlu'r BBC, cadernid a diogelwch y seilwaith a'r effaith ar amgylchedd rheoli'r BBC.

Mae'r ffordd y mae'r BBC yn rheoli risg yn parhau i ddatblygu ac aeth y Pwyllgor ati i adolygu cynnydd. Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd datganiadau ar yr awydd i gymryd risgiau a dangosyddion risg allweddol ar gyfer risgiau gweithredol allweddol. Nodir yr asesiad o brif risgiau'r BBC ar dudalen 100.

Effeithiolrwydd Archwilwyr Mewnol

Cafodd gwaith Archwilio Mewnol ei oruchwyllo gan y Pwyllgor. Mae hyn yn eitem reolaidd ym mhob cyfarfod a fynychir gan y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd. Yn ystod y flwyddyn gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- cymeradwywyd y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, gan sicrhau ei fod yn seiliedig ar risg ac yn taro cydbwysedd rhwng rhoi sicrwydd ynglŷn â phrosesau busnes craidd a meysydd o risg strategol sy'n dod i'r amlwg;
- ystyriwyd canfyddiadau gweithgarwch archwilio, gan ganolbwyntio ar archwiliadau â chanlyniadau anfodddhaol a chynlluniau rheolwyr i fynd i'r afael â'r rhain;
- ystyriwyd gofynion yr Archwilwyr Mewnol o ran eu hadnoddau a'u gallu;
- aseswyd effaith Covid ar y cynllun archwilio mewnol a chymeradwywyd newidiadau i'r cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fod yn berthnasol ac yn gymesur.

Hefyd, mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol a'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd, yn rheolaidd y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fonitro strwythur y swyddogaeth Archwilio Mewnol a gweithrediad y model adnoddau presennol, gyda chyfran o'r archwiliadau yn cael eu cynnal gan bartner allanol. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y trefniant hwn yn parhau i weithio'n dda.

Cynhaliwyd asesiad annibynnol o effeithiolrwydd y swyddogaeth Archwilio Mewnol gan Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol yn 2019. Mae argymhellion yr adolygiad hwn wedi cael eu rhoi ar waith.

Cymeradwywyd y penderfyniad i atal archwiliadau mewnol dros dro yn ystod chwarter cyntaf 2020/21 gan y Pwyllgor. Gwnaeth hyn alluogi'r tîm Archwilio Mewnol i gefnogi ymateb cychwynnol y BBC i Covid-19. Ailgydiwyd mewn gweithgarwch archwilio mewnol yn ystod yr ail chwarter gyda chynllun diwygiedig a oedd yn cynnwys ffocws penodol ar risgiau sy'n gysylltiedig â'r pandemig, megis diogelwch staff (cydymffurfiaeth â threfniadau gweithio Covid-19), cadernid cyflenwyr a thechnoleg, a risg o ran twyll.

Annibyniaeth ac effeithiolrwydd ein harchwilwyr allanol

Penodi ein harchwilwyr allanols

O dan Siarter a Chytundeb 2016, penodwyd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn archwilydd statudol y BBC am gyfnod y Siarter.

Y berthynas â'r archwilwyr allanol

Goruchwyliodd y Pwyllgor y berthynas â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan gynnwys cwmpas ei gwaith a'i dulliau gweithredu. Ymhlith y meysydd penodol y canolbwyntiwyd arnynt yn ystod y flwyddyn mae'r canlynol:

- y broses archwilio allanol, gan gynnwys gofynion adrodd rheoleidd-dra a phriodoldeb;
- asesiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o feysydd o risg neu farn archwilio. Ar gyfer 2020/21, roedd hyn yn cynnwys prisio'r cynllun pensiwn, trafodion eiddo cymhleth, cydnabod referniw masnachol, safonau cyfrifyddu newydd ac effaith Covid, ond nid oedd yn gyfyngedig i hynny;
- o ran Covid, ystyriwyd effaith gweithio o bell ar yr amgylchedd rheoli yn ogystal â newidiadau i'r risg o ran twyll;
- cynnal trafodaethau preifat gyda'r archwilwyr allanol heb fod rheolwyr yn bresennol.

Gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio

Fel un o'r mesurau i ddiogelu annibyniaeth yr archwilwyr allanol, mae'r Pwyllgor wedi datblygu polisi'r BBC ynglŷn â chomisiynu'r archwilwyr i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio, ac yn ei oruchwyllo.

Mae'r polisi hwn yn diffinio'r mathau o wasanaethau y gall ac na all yr archwilwyr allanol eu darparu. At hynny, mae'n cynnwys trothwyon lle mae'n rhaid i waith nad yw'n waith archwilio y cynigir y dylai'r archwilwyr allanol ei wneud, gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Pwyllgor. Mae hefyd yn pennu pryd y mae'n rhaid i waith fod yn destun tendr cystadleuol.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi nodi nad yw'n darparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio. Heb ystyried hyn, ni fyddai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cael ei hystyried ar gyfer gwaith a allai beryglu ei gallu i roi barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y BBC. Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pwyllgor cyn recriwtio aelod o staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i unrhyw swydd uwch-reolwr yn y BBC.

Llywodraethu

Risgiau a chyfleoedd

Mae risgiau a chyfleoedd yn effeithio ar allu'r BBC i gyflawni rhwymedigaethau ei Siarter a'i ddibenion cyhoeddus. Mae'r ffordd rydym yn ymdrin â risg yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein huchelgeisiau strategol a'n hamcanion gweithredol.

Ein dull o reoli risg

Mewn blwyddyn pan mae'r wlad wedi wynebu pandemig byd-eang, mae'r BBC yn parhau i fynd i'r afael â risgiau cymhleth a heriol er mwyn cyflawni ein dibenion cyhoeddus a rhoi gwerth i bob cynulleidfa. Yn yr un modd ag y mae cymryd risgiau wrth wraidd y broses o gyflawni ein dibenion a'n huchelgeisiau strategol, mae asesiadau risg trylwyr a mesurau lliniaru risg wrth wraidd cyflawni'r hyn a wnawn.

Mae'r BBC yn cydnabod bod pandemig Covid-19 wedi dwyn risgiau ond hefyd wedi cynnig cyfleoedd i roi gwerth i'r gynulleidfa ar adeg dyngedfennol i'r DU. Bu cryn alw am wasanaethau golygyddol craidd y BBC, sef newyddion, radio, sianelau llinellol y BBC ac iPlayer, ymhlith cynulleidfaoedd wrth i bobl geisio cael gwybodaeth am y sefyllfa ond hefyd cael eu diddanu yn ystod y cyfnod anodd hwn. Yn sgil y pandemig, gwelwyd heriau a risgiau sylweddol i ddiogelwch ein pobl, ein hadeiladau, a'n sefyllfa ariannol, sy'n cael eu monitro a'u rheoli ar sail amser real.

Mae cyhoeddi adroddiad Dyson yn rhoi ffocws ar ein harferion golygyddol a'n trefniadau llywodraethu, gan gynnwys yr effaith ar ymddiriedaeth a didueddrwydd.

Mae rheoli risg yn hanfodol ym mhob rhan o'r BBC, lle mae ystyriaeth ofalus o risgiau a chyfleoedd yn cyfrannu at ein huchelgais creadigol a'n hawydd i wasanaethu ein cynulleidfaoedd, yn y DU ac yn rhyngwladol, a'r ffordd rydym yn rhedeg y BBC.

Llywodraethu risg – Mae'r Bwrdd, yn uniongyrchol a thrwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg, yn adolygu'r prif risgiau i'r BBC ac yn cynnal adolygiadau manwl rheolaidd o feysydd risg penodol yn ystod y flwyddyn. Mae ein trefniadau llywodraethu wedi gwella yn sgil ffurfio Pwyllgor Gweithrediadau i'r BBC cyfan, sy'n un o is-bwyllgorau Bwrdd Gweithredol y BBC (yn weithredol o fis Ebrill 2021). Bydd y Pwyllgor Gweithrediadau yn helpu'r Pwyllgor Gweithredol i gyflwyno blaenoriaethau strategol a gweithredol allweddol a phrosiectau ar draws y BBC a'u rhoi ar waith.

Rheoli risg – gwelliannau 2020/21

Mae'r broses o reoli risg yn y BBC yn parhau i ddatblygu. Yn 2020/21, gwnaethom y gwelliannau canlynol i'n fframwaith risg:

Trefniadau llywodraethu risg ychwanegol – Bydd y broses o sefydlu'r Pwyllgor Gweithrediadau yn cryfhau atebolrwydd a chyfrifoldeb rheolwyr dros brosiectau allweddol, materion yn ymwneud â gwasanaethau gweithredol a phroffesiynol a materion yn ymwneud â chydymffurfio â rhwymedigaethau ariannol, rheoliadol a gweithredol fel y'u hadroddir i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau. Bydd hefyd yn ein galluogi i gael trafodaethau dyfnach ar lefel weithredol am ein risgiau a'n rheolaethau, ac yn ein helpu i wneud penderfyniadau hyddysg.

Adroddiadau risg – Bydd y Pwyllgor Gweithrediadau yn trafod ein hadroddiadau misol i'r Bwrdd ac adroddiadau risg chwarterol y Pwyllgor Archwilio a Risg cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Bwrdd a'r Pwyllgor. Mae'r adroddiadau risg a gyflwynir i'r Bwrdd a'r Pwyllgor yn cynnwys meysydd strategol, gweithredol a chydymffurfiaeth allweddol gan gynnwys: troseddau ariannol a thwyll, adnoddau dynol a chyflogaeth, amddiffyn a diogelu plant,

cydymffurfiaeth â chwotâu Ofcom ac ymdrin â chwynion. Rydym wedi sefydlu ac yn monitro'r awydd i gymryd risgiau yn ein meysydd risg gweithredol allweddol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gytuno ar ein hawydd i gymryd risgiau ym maes technoleg. Mae ein hadroddiadau risg yn cynnwys ffocws ar symudiadau sylweddol yn y chwarter a meysydd risg gweithredol y tu hwnt i'r awydd, ac maent yn rhoi darlun o'r risgiau sy'n dod i'r amlwg ac eitemau y dylid gwyllo allan amdanynt.

Adolygiadau manwl o risg – Mae'r Pwyllgor wedi cynnal adolygiadau manwl yn ystod y flwyddyn gan gynnwys: amddiffyn a diogelu plant; diogelu gwybodaeth; diogelu data; parodrwydd ar gyfer Brexit; BBC Studios a risgiau masnachol; a'r risg sy'n gysylltiedig ag adnoddau dynol a phobl. O safbwynt prosiectau, mae'r Pwyllgor wedi cynnal adolygiad manwl o E20 (ailddatblygu safle *EastEnders*), newidiadau sy'n ymwneud â ffi'r drwydded i'r rhai dros 75 oed a'r gwersi a ddysgwyd o brosiectau.

Awydd i gymryd risgiau – Cytunwyd ar ddatganiadau ansoddol am yr awydd i gymryd risgiau ar gyfer meysydd risg gweithredol, gan gynnwys iechyd a diogelwch, rolau risg uchel, diogelwch, cynaliadwyedd amgylcheddol, amddiffyn a diogelu plant, y gadwyn gyflenwi, parhad busnes, prosiectau allweddol, diogelu data, ceisiadau am wybodaeth a rheoli data a chofnodion. Mae metrigau a thargedau risg meintiol ar waith ar gyfer meysydd risg strategol, gweithredol a chydymffurfiaeth. Caiff cynnydd a pherfformiad yn erbyn targedau o'r fath eu monitro a'u hadrodd i'r Pwyllgor yn chwarterol. Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo i bennu'r awydd i gymryd risgiau ar gyfer meysydd risg technoleg a chydymffurfiaeth.

Cofrestrau risg – Mae cofrestrau risg wedi cael eu datblygu ar gyfer ein his-adrannau allbwn gan gynnwys Cynnwys, Newyddion, y Gwledydd a'r Rhanbarthau a swyddogaethau cymorth, ac fe'u cofnodir ar system risg i'r BBC cyfan. Trafodir risgiau allweddol mewn cyfarfodydd is-adrannol a'u hasesu gan Bwyllgor Gweithredol y BBC yn unol â'n cylch rheoli perfformiad canol blwyddyn a diwedd blwyddyn.

Risgiau sy'n Dod i'r Amlwg – Ystyriwn fod risgiau sy'n dod i'r amlwg yn fygythiadau strategol neu weithredol tymor canolig a thymor hwy sy'n hysbys neu'n anhysbys, ond nad yw eu heffaith ar y ffordd rydym yn gweithredu yn glir. Mae tîm Strategaeth y BBC yn sganio'r gorwel yn barhaus am feysydd o ddidordeb, bygythiadau a chyfleoedd sydd i ddod. Caiff risgiau sy'n dod i'r amlwg eu nodi hefyd drwy weithio'n agos gyda'r is-adrannau a gwneud risg yn ystyriaeth ym mhapurau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'r tîm Risg yn sganio'r amgylchedd allanol ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a fforymau a arweinir gan y diwydiant.

Er bod newid yn yr hinsawdd yn realiti, mae'r effeithiau tymor canolig a hirdymor yn dod i'r amlwg o hyd wrth i ni symud i economi carbon isel. Mae'r BBC yn mabwysiadu argymhellion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) o'i wirfodd. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi cynnal cyfres o weithdai asesu risg gyda'n his-adrannau a'n swyddogaethau cymorth ac wedi asesu'r risgiau a'r cyfleoedd tymor hwy i'n gweithrediadau busnes o ran yr hinsawdd. Cyfeiriwch at dudalen 60 ar gyfer ein datgeliadau TCFD.

Yn strategol, mae'r risgiau sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â pholareiddio gwleidyddol yn y DU a heriau cysylltiedig, twf a llwyddiant cyfryngau byd-eang rhyngwladol sy'n dal symiau mawr o ddata am gwsmeriaid yn y DU a'r rhwystrau digidol sydd wedi'u gosod ar y rhyngwryd sy'n effeithio ar allu'r BBC i

ddosbarthu cynnwys yn fyd-eang. Bydd angen gwneud rhagor o waith i feithrin gwell dealltwriaeth o'r risgiau hyn, y ffordd y mae'r BBC yn mynd i'r afael â risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, a'r camau y mae angen iddo eu cymryd. Ymhlith meysydd eraill lle mae risgiau'n dod i'r amlwg mae canlyniadau trafodaethau'r BBC â Llywodraeth y DU ynghylch ffi'r drwydded a'r gweithlu yn symud i ffordd newydd o weithio drwy fabwysiadu model gweithio hyblyg ar ôl y pandemig.

Rheoli Risg – Cynlluniau 2021/22

Yn 2021/22, mae mentrau gwella allweddol yn cynnwys ymgorffori fframwaith risg i'r BBC cyfan ar draws ein his-drannau a'n swyddogaethau cymorth, gan gynnwys defnyddio cofrestrau risg mewn cyfarfodydd is-adrannol a phennu ein hawydd i gymryd risgiau ym meysydd risg technoleg a chydymffurfiaeth.

Crynodeb o ymateb y BBC i bandemig Covid-19c

Drwy gydol y pandemig yn 2020/21, mae ymateb y BBC wedi canolbwyntio ar ddiogelu ein pobl drwy sicrhau bod ein protocolau diogelwch yn gyson â chanllawiau'r Llywodraeth a chynnal ein hallbw'n yn unol â'n diben cyhoeddus i hysbysu, addysgu a diddanu.

Diogelu pobl: Ym mis Mawrth 2020, cymerwyd camau cyflym i sicrhau bod 18,500 o staff (75% o'n gweithlu) yn gallu gweithio o bell. Rhoddwyd strwythurau rheoli digwyddiad a phrotocolau aur, arian ac efydd ar waith ar draws Grŵp y BBC. Cynghorwyd pob aelod o staff mewn grwpiau agored i niwed neu'r rhai â chyfrifoldebau gofalu i weithio o bell ac aros gartref. Rhoddwyd y gorau hefyd i deithio nad oedd yn hanfodol, ymwelwyr allanol a hyfforddiant yn ein safleoedd sy'n hanfodol i ddarlledu. Gwnaethpwyd newidiadau dros dro i'n polisi treuliau er mwyn sicrhau bod staff yn gallu teithio'n ddiogel ac addaswyd ein polisiau adnoddau dynol, gan gynnwys polisiau absenoldeb arbennig.

Yn ystod y flwyddyn, rhagorwyd ar ganllawiau diogel o ran Covid y Llywodraeth er mwyn rhoi sicrwydd pellach ynghylch diogelwch a llesiant staff oedd yn gweithio yn adeiladau'r BBC. Yn unol â'r rheolau ynghylch cadw pellter cymdeithasol, aethpwyd ati i gymryd tymheredd pobl ar draws ein hystad, hwyluswyd gwisgo gorchuddion wyneb wrth weithredu mewn gofod a rennir, a defnyddiwyd dyfeisiau agosrwydd. Parhawyd i ymateb yn ystwyth i newidiadau i gyngor y Llywodraeth a'r system haenau gwahanol yn y pedair gwlad. Cyflwynwyd asesiadau risg hefyd ar gyfer y rhai dros 60 oed, darparwyd cludiant i'r rhai oedd yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol a chynigiwyd cymorth iechyd meddwl a llesiant helaeth i bob aelod o staff. Cafodd ein staff gymorth hefyd i weithio o bell.

Rydym yn parhau i fonitro achosion o'r haint ymhlith y staff a nifer y staff yn ein gweithlu sydd wedi cael eu brechu. Wrth symud ymlaen, mae ein swyddfeydd yn barod i dderbyn y nifer llai o staff a fydd yn dychwelyd i weithio ynddynt wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio ar draws y DU ac wrth i'r BBC symud i ffordd newydd, hyblyg o weithio.

Allbwn a chynrychiadau: Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ddiwydiant y cyfryngau, gyda nifer mawr o gynrychiadau yn dod i ben dros dro, gohirio digwyddiadau byw, gan gynnwys chwaraeon, a chynnydd sylweddol yn y defnydd o gynnwys gan gynulleidfaoedd. Er bod cynrychiadau wedi aildechrau, mae cyflwyno cynnwys newydd yn her o hyd yng ngoleuni'r yswiriant cyfyngedig sydd wedi bod ar gael yn ystod y pandemig a'r gofynion i gadw pellter cymdeithasol.

Technoleg: Bu cynnydd sylweddol a chyflym yn nifer y staff sy'n gweithio gartref ac sy'n defnyddio systemau'r BBC o bell. Er gwaethaf hyn, mae ein seilwaith technoleg a'n cadwyn ddarlledu wedi ymateb i'r her yn dda, ac ni nodwyd unrhyw broblemau mawr.

Sefyllfa ariannol: Mae ein risg ariannol yn parhau i fod yn uchel oherwydd y pwysau ar incwm ffi'r drwydded a'r costau yr aethpwyd iddynt yn sgil y pandemig gan gynnwys mwy o gostau cynhyrchu oherwydd y mesurau diogel o ran Covid ychwanegol a roddwyd ar waith ar leoliad, digwyddiadau byw yn cael eu canslo, gan gynnwys chwaraeon, ac effaith refeniw masnachol, yn enwedig refeniw hysbysebu is. Er mwyn rheoli ein cyllid, aethpwyd ati i adolygu targedau arbedion, sefydlwyd cynllun diswyddiadau gwirfoddol, a rhoddwyd y gorau i weithgarwch recriwtio am y tro. Cyflawnwyd £272 miliwn o arbedion yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys arbedion dros dro.

Wrth edrych ymlaen, rydym yn disgwyl i'r pwysau ar gostau barhau i fod yn uchel yn y farchnad gynnwys. Mae cyllidebau cynhyrchu yn cynnwys camau lliniaru sy'n ddiogel o ran Covid hefyd erbyn hyn, ac mae trafodaethau â'r Llywodraeth yn parhau i fynd rhagddynt o ran setliad ffi'r drwydded.

Risgiau a chyfleoedd parhad

Nodir ein prif risgiau a chyfleoedd strategol a gweithredol ar y tudalennau canlynol.

**Allwedd i newidiadau risg:
Newid mewn risg yn ystod 2020/21**

- ▲ Mae risg wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn
- Mae risg wedi aros yn sefydlog yn ystod y flwyddyn
- ▼ Mae risg wedi lleihau yn ystod y flwyddyn

Dibenion cyhoeddus

- | | | | |
|----------|---|----------|--|
| 1 | Darparu newyddion a gwybodaeth ddiudedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch. | 4 | Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU a chefnogi'r economi greadigol. |
| 2 | Cynorthwyo pobl o bob oedran i ddysgu. | 5 | Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd. |
| 3 | Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau. | | |

Risgiau a chyfleoedd strategol

1. Newid strwythurol yn ymddygiad y gynulleidfa a'r dirwedd allanol 1 2 3 4 5 ▲

Beth yw'r risg?
Mae risg na fydd y BBC yn addasu'n ddigon cyflym wrth i'r symudiad o deledu darlledu i wasanaethau ar-lein ac o radio i ffrydio digidol ddiwydd yn gyflymach ar draws pob demograffeg oedran gan gynnwys y rhai dros 55 oed. Wrth i'r cyflymu hyn barhau, gall effeithiau hirdymor y newid strwythurol hwn ddod yn barhaol.

Beth yw'r effaith?
Nid yw cynulleidfaoedd yn parhau ar yr un lefel ar bob un o lwyfannau'r BBC. Nid yw'r BBC wedi'i werthfawrogi gan bob cynulleidfa na chymdeithas ac nid ydym yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau, y gwledydd a'r rhanbarthau, a gwylwyr o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Cyflwyno rhaglenni Drama, Adloniant, Ffeithiol a Chomedï newydd sbon sy'n berthnasol i'n cynulleidfa darged.
- Mae cenhadaeth addysgu a dysgu'r BBC wedi helpu i gefnogi myfyrwyr, athrawon a rhieni. Gwnaeth Bitesize Daily, Live Lessons ac adnodd helaeth i blant rhwng pump a 15 oed helpu plant i ddal i fyny gyda gwersi a dysgu a gollwyd.
- Caiff buddsoddiad parhaus yn BBC Sounds ac iPlayer ei ategu erbyn hyn gyda bocs-setiau ychwanegol a chynnwys o'r archifau.
- Mae'r pandemig wedi arwain at gynydd yn y defnydd o newyddion, a'r BBC yw'r darparwr newyddion yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y DU a'r ffynhonnell bwysicaf o wybodaeth/newyddion am Covid o hyd.
- Er mwyn cyrraedd y gynulleidfa fwyaf posibl, mae BBC Three yn ail-lansio darlledu llinellol.
- Mae ein timau radio yn parhau i gomisiynu rhaglenni a podlediadau newydd e.e. i egluro Covid yn fanwl, cyhoeddi rhestrau chwarae cerddoriaeth newydd, lansio gwasanaethau radio lleol.
- Cyflwynodd BBC Sounds bodlediadau llwyddiannus newydd gan gynnwys *Match of the Day: Top 10, Grounded with Louis Theroux*.
- Cyflwyno cynnwys drwy lwyfannau digidol, h.y. cynnwys a gynigir ar iPlayer yn unig sy'n cael effaith wirioneddol ar bobl iau.
- Monitro metrigau cynulleidfaoedd, gan gynnwys cyrhaeddiad, yr amser a dreulir gyda'r BBC, demograffeg cynulleidfaoedd ac adborth cynulleidfaoedd, er mwyn llywio penderfyniadau ar sail gwybodaeth.
- Cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd yn trafod perfformiad a thueddiadau.

Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2020/21?
Mae'r pandemig wedi arwain at fwy o newid mewn galw o deledu llinellol i gynnwys SVOD ac o wasanaethau radio i ffrydio digidol a phodlediadau, gyda chyfryngau byd-eang sydd â llawer mwy o bŵer gwario na chyfryngau llai o faint yn gwario symiau digynsail ar gynnwys ac yn cael effaith sylweddol drwy hyrwyddiadau arbennig.

Rydym hefyd wedi gweld buddsoddiad byd-eang sylweddol yn y gwasanaethau a'r llwyfannau ffrydio cerddoriaeth a phodlediadau sy'n helpu pobl i ddod o hyd i gynnwys yn haws ac yn pennu gwerth deunydd sain ar-lein.

Mae newidiadau i'r ffordd y mae pobl wedi bod yn byw a gweithio yn ystod y pandemig wedi arwain at her sylweddol o ran oriau gwranddo e.e. yn y car, wrth gymudo, yn y gampfa, yn y gwaith.

Risg weddilliol
Mae risg weddilliol na fydd y BBC yn gallu ymateb yn gyflymach i'r duedd hirdymor sy'n gweld cynulleidfaoedd yn symud o deledu llinellol i SVOD ac o wasanaethau radio i wasanaethau ffrydio digidol. Yn benodol, nodwyd y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:

- Ymateb yn gyflymach i unrhyw achos o darfu ar dechnoleg fyd-eang.
- Datblygu iPlayer a BBC Sounds, gan gynnwys cynnwys, datblygu cynnyrch a marchnata.
- Cadw'r cynulleidfaoedd a ddenwyd yn ystod y pandemig.
- Rôl newidiol radio lleol mewn byd digidol.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Metrigau cynulleidfaoedd gan gynnwys cyrhaeddiad, defnydd, ehangder a'r amser a dreuliyd gyda'r BBC yn ôl demograffeg gan gynnwys cynulleidfaoedd iau, pobl dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, y gwledydd a'r rhanbarthau.
- Ffigurau gwyllo digyffelyb.
- Metrigau a fesurir ar draws Teledu, Radio, BBC Sounds ac ar-lein.

2. Creadigrwydd a chynnwys

2 3 4 5 ^

Beth yw'r risg?

Na fydd y BBC yn cynnal ansawdd ac ehangder ei arlwy e.e. drama o'r radd flaenaf oherwydd ffiniau gweithredu. Mae hyn yn erbyn cefndir lle mae ein cystadleuwyr sy'n cael eu hintegreiddio'n fertigol yn buddsoddi'n helaeth mewn cynnwys, yn cynhyrchu eu heiddo deallusol eu hunain ac yn cipio talent. Mae risg hefyd na fydd y BBC yn cadw perchenogaeth a/neu reolaeth o'i eiddo deallusol er mwyn sicrhau'r gynulleidfa, y priodoliad a'r gwerth masnachol gorau posibl.

Mae risg na fydd BBC Studios yn datblygu nac yn cyflwyno llif o gynnwys amrywiol creadigol sy'n bodloni gofynion cwsmeriaid allweddol, yn ennill comisiynau newydd nac yn cynhyrchu eiddo deallusol gwerthfawr. Ni all BBC Studios ymateb i newidiadau yn y farchnad, gan gynnwys symudiad mewn pŵer i ffwrdd oddi wrth ddarllledwyr traddodiadol i gyfryngau byd-eang a chystadlaeth ddwys am dalent creadigol.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC

- Bydd ein cynllun Ar Draws y DU yn helpu i adfywio'r sector creadigol y tu allan i Lundain drwy sicrhau buddsoddiad ychwanegol cronol o £700 miliwn o leiaf i wledydd a rhanbarthau'r DU erbyn 2027/28, ac ysgogi budd economaidd amcangyfrifedig ychwanegol o tua £850 miliwn. Bydd hefyd yn helpu i adlewyrchu barn a straeon amrywiol ar draws y DU.
- Byddwn yn parhau i greu'r amodau ar gyfer twf yn y sector cynhyrchu. Dros y pedair blynedd diwethaf, gwariodd y BBC £1.6 biliwn ar gynrychiadau teledu y tu allan i Lundain.
- Cystadlu ar gyfer 100% o gomisiynau teledu newydd.
- Buddsoddi yn ein cronfa cynhyrchwyr annibynnol bach (a ddyblwyd i £2 filiwn mewn ymateb i Covid) a buddsoddi dros £100 miliwn mewn cronfeydd amrywiaeth a phortreadu.
- Rhoi cymorth ychwanegol i weithwyr llawrydd y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt – gan gynnwys mwy na 15,000 o weithwyr llawrydd rydym yn cydweithio â nhw.
- Adfywio sawl partneriaeth creadigol, e.e. Northern Ireland Screen a Screen Scotland, a chreu partneriaethau newydd, e.e. gyda Cymru Greadigol.
- Cynnwys pwrpasol ar gyfer y pedair gwlad a buddsoddi o hyd yn ein canolfannau cynhyrchu y tu allan i Lundain, h.y. yng Nghaerdydd, Glasgow, Belfast, Salford, Bryste a Birmingham.
- Ffocws ar ddenu a chadw'r dalent creadigol orau.
- Targedau amrywiaeth o ran talent ar yr awyr a rhaglenni ar waith, gan gynnwys prosiect 50:50 i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau ar y sgrin.
- Swyddogaeth a pholisi golygyddol hirsefydledig gyda gwaith monitro helaeth o ran tuedd, ymddiriedaeth, cywirdeb, cwynion ac adolygiad y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd o eithriadau.

Beth yw'r effaith?

Mae llai o gynnwys o ansawdd uchel sy'n cynrychioli'r DU yn effeithio ar ein gallu i gadw cynulleidfaoedd mewn amgylchedd hynod gystadleuol.

Gallai methiant BBC Studios i ymateb i newidiadau yn y farchnad a bodloni galw cwsmeriaid arwain at golli gwerth ar draws y grŵp (llai o elw yn sgil llai o reffeniwr a mwy o gostau) a phrinder eiddo deallusol y gellir ei werthu'n fasnachol.

Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2020/21?

Wrth i gewri cyfryngau byd-eang gynyddu eu dominyddiaeth o'r diwydiant, maent yn dod â buddsoddiad a chyllid sylweddol i'r farchnad ac yn cynnig cytundebau buddiol ac unigryw i dalent allweddol. Mae hyn wedi arwain at lawer mwy o gystadlaeth am dalent.

Mae'r pandemig wedi cael effaith ar waith cynhyrchu'r BBC sydd yn yr arfaeth, yn enwedig yn ystod y cyfyngiadau symud a lle mae mesurau diogelwch ychwanegol wedi cael eu rhoi ar waith yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth. Bydd y mesurau hyn yn parhau i gael eu rhoi ar waith hyd yn oed ar ôl i'r Llywodraeth lacio'r cyfyngiadau.

2. Creadigrwydd a chynnwys parhad

BBC Studios

- Cynlluniau masnachol – ffocws ar greu eiddo deallusol gwerthfawr a chydberthnasau gwerthfawr â chwsmeriaid.
- Cyflogi gweithwyr creadigol newydd ym maes cynhyrchu gyda ffocws ar ddatblygu llechres a bodloni'r galw gan gwsmeriaid mewn meysydd allweddol.
- Mae BBC Studios yn ceisio sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl rhwng comisiynau'r BBC a datblygu comisiynau trydydd parti newydd (gan gynnwys UKTV) er mwyn sicrhau'r gwerth gorau posibl i'r grŵp.
- Nod Grŵp Rheoli Cwsmeriaid BBC Studios yw meithrin, cydgyssylltu ac optimeiddio cydberthnasau â phortffolio o gwsmeriaid strategol pwysig.
- Systemau mapio galw a rheoli cyfrifon ar waith. Adolygu'r portffolio o gwsmeriaid pwysig yn rheolaidd a cheisio cynyddu nifer y cwsmeriaid sy'n dod i'r amlwg.
- Mae gan BBC Studios ei gynnyg Uniongyrchol i Ddefnyddwyr rhyngwladol ei hun, a fydd hefyd yn ceisio defnyddio cynnwys BBC Global News ochr yn ochr â chynnwys BBC Studios. Lansiad llwyddiannus yn yr UD ac Awstralia, a chynlluniau uchelgeisiol i'w gyflwyno ymhellach.
- Opsiwn i bartneru â thalent allweddol benodol drwy gydberthnasau â chwmnïau annibynnol. Chwilio am ffyrdd o ddefnyddio talent bresennol ar draws genres, yn hytrach nag edrych yn allanol.
- Ystyried y ffyrdd gorau o gomisiynu cynnwys (ac ystyried modelau cyllid) ar draws y grŵp (BBC Studios Productions, UKTV) er mwyn cynhyrchu cynnwys newydd a manteisio i'r eithaf ar eiddo deallusol.

Risg weddilliol

- Mae'r risg weddilliol yn adlewyrchu'r gystadleuaeth ddwys am gynnwys, talent creadigol a'r tueddiadau sy'n parhau o ran chwyddiant mewn costau a hawliau.
- Yn benodol, nodwyd y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:
- Costau cynhyrchu uwch yn y tymor canolig a'r hirdymor e.e. er mwyn sicrhau'r lefel gywir o yswiriant ar gyfer ein cynyrchiadau wrth i'r Llywodraeth ddechrau dod â'i chynllun yswiriant i ben.
 - Mae'r cyflenwad rhaglenni ar gyfer digwyddiadau chwaraeon yn dibynnu'n helaeth ar y system digwyddiadau a restrir.
 - Heriau o ran sicrhau hawliau a chynnal gwerth buddsoddiadau mewn marchnad fwyfwy fyd-eang a ddominyddir gan nifer fach o gwmnïau mawr.
 - Argaeledd talent allweddol ar gyfer cynyrchiadau.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Canlyniadau arolygon comisiynu blynyddol.
- Nifer y cynyrchiadau o'r radd flaenaf a gomisiynir gan y BBC a'u gwerth.
- Buddsoddiad gan drydydd partiön yng nghomisiynau'r BBC.
- Mesurau o amrywiaeth ganfyddedig ac amrywiaeth wirioneddol ar y sgrin.
- Amrywiaeth wirioneddol oddi ar y sgrin.
- Y broses fuddsoddi sy'n ystyried gwerth y buddsoddiad drwy ei gylch oes (ROI).
- Iechyd creadigol y gwaith sydd yn yr arfaeth.
- Pa mor ddiogel yw gwaith cynhyrchwyr yn y dyfodol.
- Comisiynau a enillwyd.
- Cyfresi sy'n dychwelyd.
- Perfformiad y portffolio o gwmnïau annibynnol.
- Gwariant ar fusnesau a berchenogir/y buddsoddir ynddynt, yn hytrach na thrydydd partiön.

3. Natur ddiuedd, ymddiriedaeth a chywirdeb

1 3 4 5 ^

Beth yw'r risg?

Na fydd y BBC yn darparu cynnwys newyddion didduedd a chywir yr ymddiriedir ynddo yn yr amgylchedd sydd ohono, ac felly na fydd yn cadw ymddiriedaeth y gynulleidfa yn y BBC. Risg na chaiff ein prosesau a'n gweithdrefnau golygyddol eu dilyn yn gywir.

Mae risg hefyd nad ydym yn adlewyrchu safbwyntiau, barn a hunaniaethau o bob cwr o'r DU

Beth yw'r effaith?

Mae methiant i gyflwyno arlwy newyddion diduedd a chywir y gellir ymddiried ynddi yn arwain at golli ymddiriedaeth yn y BBC, anfodlonrwydd ymhlith cynulleidfaedd a cholli cynulleidfaedd.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Mae Canllawiau Golygyddol y BBC yn pennu gwerthoedd a safonau golygyddol y BBC. Mae'r Canllawiau yn atgyfnerthu gofyniad y Starter i weithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn diduedd, nodedig o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.
- Mae ein canllawiau newydd ar ddiueddrwydd a'r cyfryngau cymdeithasol yn ategu Canllawiau Golygyddol y BBC, gyda'i gilydd, maent yn gosod y safonau uchaf yn y diwydiant.
- Rydym yn cyflwyno Safeguarding Impartiality, sef rhaglen hyfforddi newydd ar gyfer holl staff y BBC.
- Rydym wedi pennu rheolau newydd ar ymgysylltiadau allanol ac wedi lansio cofrestr o ddigwyddiadau allanol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob newyddiadurwr ac uwch-arweinydd yn y BBC geisio caniatâd ysgrifenedig cyn siarad mewn digwyddiadau allanol a mynychu digwyddiadau cyhoeddus eraill.
- Byddwn yn mynd i'r afael â chamwybodaeth, propaganda a chynnydd mewn naratifau a gefnogir gan y wladwriaeth drwy barhau i chwarae rôl flaenllaw yn y Fenter Newyddion yr Ymddiriedir Ynddo, sef cydweithrediad rhwng sefydliadau newyddion a thechnoleg fyd-eang mawr.
- Mae ein timau BBC Trending, Reality Check a BBC Monitoring yn cydweithio fel rhan o uned gwrth-dwyllwybodaeth ac yn darparu gwasanaeth ymroddedig sy'n mynd i'r afael â chamwybodaeth ac yn ei gwrthbrofi'n ddyddiol.
- Mae gan BBC News fodel gweithredu newydd, sy'n cynnwys creu timau straeon aml-fedr sy'n darparu arlwy newyddiaduraeth i bob cynulleidfa, rhaglen a llwyfan.
- Mae BBC News yn symud timau straeon allan o Lundain drwy'r rhaglen Ar Draws y DU er mwyn adlewyrchu'r amrywiaeth o safbwyntiau a straeon ar draws y DU.
- Byddwn yn lansio rhwydwaith newydd o ohebwy'r cymunedol digidol ar draws y DU er mwyn dod yn agosach at ein cymunedau nas gwasanaethir yn ddigonol a gwella ein darpariaeth newyddion ar-lein rhanbarthol.
- Rydym yn bwriadu gweithio gyda chyfryngau masnachol a chymunedol lleol y tu allan i'r BBC, yn rhannol drwy gefnogi'r Gwasanaeth Adrodd ar Ddemocratiaeth Lleol sy'n darparu 150 o newyddiadurwyr lleol ar gyfer sefydliadau newyddion ar draws y DU ar hyn o bryd, a darparu straeon fideo lleol newydd y BBC i bartneriaid.
- Byddwn yn monitro'r effaith ar ddiueddrwydd yn dilyn adroddiad Dyson, ac yn cwblhau adolygiad a arweinir gan y Bwrdd o'n harferion a'n trefniadau llywodraethu golygyddol. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran Risg o ran cydymffurfiaeth ar dudalen 111.

Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2020/21?

Mae ein sgoriau didueddrwydd o dan bwysau o hyd ar draws y sbectrwm gwleidyddol. Mae barn ddargyfeiriol y cyhoedd ar faterion cenedlaethol yn her o hyd.

Risg weddilliol

Yn benodol, nodwyd y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:

- Risg barhaus o gamwybodaeth yn y DU ac yn fyd-eang.
- Sicrhau y ceir mwy o werth o News Online – personoleiddio, adrodd straeon yn ddigidol – ar iPlayer, Sounds a llwyfannau digidol eraill.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Arolygon cynulleidfa a metrigau sy'n mesur gwerth a didueddrwydd.
- Ystadegau ar gyfer hyfforddiant didueddrwydd.
- Cofrestr o ddigwyddiadau allanol.

4. Cyrhaeddiad byd-eang

1 3 5 ▼

Beth yw'r risg?

a) Cyrhaeddiad byd-eang

Mae risg y bydd amodau'r farchnad fyd-eang, lle mae mwy o ddewis i ddefnyddwyr sy'n troi at y cyfryngau cymdeithasol, a lle mae rhwystrau i'n proses ddsbarthu mewn tiriogaethau allweddol, yn effeithio ar yr uchelgais i gyrraedd 500 miliwn o bobl yn fyd-eang erbyn 2022.

b) Priodoli cynnwys i'r BBC

Mae'r gyfran uchel o gyrhaeddiad y World Service a ddarperir drwy syndicetio yn peri risg na fydd cynulleidfaoedd mewn rhai rhannau o'r byd yn priodoli cynnwys i'r BBC.

Beth yw'r effaith?

- a) Byddai'r World Service yn methu â chyrraedd y targedau cynulleidfaoedd byd-eang a bennwyd ar ei gyfer.
- b) Gallai'r ffaith nad yw cynulleidfaoedd yn priodoli cynnwys yn gywir i'r BBC arwain at lefelau is o gyrhaeddiad a gofnodir a mwy o bwysau ar lefelau ymddiriedaeth yn y cynnwys a/neu'r gwasanaeth mewn marchnadoedd lleol.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Parhau i fonitro allbwn, gyda chymorth ymchwil sylfaenol, er mwyn datblygu'r hyn a gynigir gennym yn lleol ac yn fyd-eang a deall sut y gallwn barhau i gyrraedd cynulleidfa fyd-eang ehangach, gan gynnwys targed ar gyfer demograffeg cynulleidfaoedd iau a benywaidd.
- Mae prosiectau ymchwil ar ffactorau sy'n ysgogi'r effaith ar gynulleidfaoedd, ac anghenion ac ymddygiadau demograffeg cynulleidfaoedd allweddol, wedi'u cwblhau'n ddiweddar a fydd yn llywio penderfyniadau ynghylch cynnwys a chynnyrch yn y dyfodol.
- Caiff perfformiad pob llwyfan ei olrhain ar draws pob marchnad er mwyn sicrhau bod penderfyniadau golygyddol a phenderfyniadau buddsoddi strategol lleol yn cael eu gwneud o fewn y cyd-destun a'r cyrraeddiad byd-eang ehangach ac yn effeithio ar nodau.
- Caiff contractau syndicetio eu rheoli'n ofalus er mwyn sicrhau y gallwn barhau i gyrraedd y gynulleidfa ehangaf drwy bartneriaid dibynadwy yr ymddiriedir ynddynt, a sicrhau bod brand y BBC yn parhau i fod yn gryf ac yn glir ar yr un pryd.
- Mae meddu ar y llwyfan cywir mewn marchnadoedd gwahanol yn allweddol er mwyn sicrhau cyrraeddiad, dylanwad ac effaith – caiff patrymau dosbarthu eu monitro'n barhaus er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir ym marchnad.

Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2020/21?

Bu cynnydd mawr yn niferoedd cynulleidfaoedd, yn cyrraedd mwy na 400 miliwn. Ysgogwyd llawer o'r cynnydd hwn drwy ddatblygu ein cyrraeddiad digidol – ar ein llwyfannau ein hunain ac ar safleoedd cymdeithasol.

Mae trafodaethau â'r Llywodraeth ynghylch buddsoddi yn y World Service wedi arwain at estyniad i gyllid FCDO hyd at 31 Mawrth 2022, gyda chynnydd o £8 miliwn am flwyddyn i gefnogi'r gwaith o ehangu gwasanaethau digidol a mentrau allweddol sy'n mynd i'r afael â thwyllwbyodaeth fyd-eang – e.e. ymchwiliadau fel *Africa Eye*, sy'n helpu i ddatblygu brand, cyrraeddiad ac effaith.

Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn adlewyrchu'r uchelgais gynyddol i adeiladu ar berfformiad byd-eang cryf er mwyn sicrhau bod cynnwys a gwasanaethau yn cael mwy o effaith ar gynulleidfaoedd.

Yn benodol, nodwyd y dylid ystyried y canlynol:

- Gallai cynyddu'r ffocws ar gryfhau ymgysylltiad â grwpiau allweddol o'r gynulleidfa a meithrin cydberthynas fwy cyson â marchnadoedd allweddol ledled y byd roi pwysau ar y gwaith o ddatblygu cyrraeddiad yn y dyfodol (y tu hwnt i 2022).
- Er bod cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer y World Service, mae cyllid tymor hwy yn parhau'n ansicr.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Cyrhaeddiad byd-eang yn erbyn y targed.
- Dangosyddion ansawdd o argraff y gynulleidfa.
- Dangosyddion o effaith y BBC ar y gynulleidfa.
- Cymysgedd y gynulleidfa (syndicetio, ar-lein).
- Cyfansoddiad cynulleidfaoedd byd-eang (cynulleidfaoedd iau, benywaidd).

5. Ein sefyllfa ariannol

1 2 3 4 5 ^

Beth yw'r risg?

Y risg na fyddwn yn rheoli a/neu'n gwrthbwyso'n effeithiol gost gynyddol cynhyrchu a darlledu'r allbwn creadigol o ansawdd uchel y mae ein cynulleidfaoedd yn ei ddisgwyl.

O ran ffi'r drwydded, mae'r risgiau yn cynnwys ffi'r drwydded yn lleihau e.e. cynnydd yn y nifer sy'n ceisio osgoi ei thalu neu gost gynyddol ei chasglu neu ostyngiad yn nhwf aelwydydd. Ceir risg hefyd na fydd y BBC yn parhau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn ei weithrediadau ac felly na fydd yn sicrhau hyd yn oed mwy o werth am arian.

Mae risg y bydd endidau masnachol y BBC yn methu ag ymateb i heriau'r farchnad a thrwy hynny'n lleihau enillion ariannol. Byddai'r risg o lai o refeniw o werthiannau hysbysebu endidau masnachol y BBC yn cael ei dwysáu gan ddirwasgiad economaidd.

Mae newidiadau andwyol yn y dyfodol i brisiad actiwaraid y cynllun pensiwn yn risg i sefydlogrwydd ariannol, fel y byddai unrhyw gynnydd arall mewn costau gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig – ceir rhagor o fanylion ar dudalen 47. Byddai gostyngiad yn statws credyd y BBC yn cynyddu cost cyllido.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Monitro cyfraddau casglu ffi'r drwydded ac osgoi talu yn fanwl, gan gynnwys gostyngiad yng nghyfraddau twf aelwydydd.
- Targedau arbedion aml-flwydd wedi'u diffinio a'u monitro.
- Y Bwrdd, y Bwrdd Daliadau Masnachol a Bwrdd Gweithredol y BBC yn craffu ar sefyllfa ariannol y BBC, gyda gwaith craffu pellach gan y Pwyllgor Gweithrediadau.
- Mae ein gorbenion wedi'u meincnodi'n allanol i 5% o gyfanswm ein costau.
- Mae'r BBC ac ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn wedi cytuno ar gynllun adfer a chytunwyd ar gynllun taliad diffyg hefyd.
- Mae'r tîm cyllid yn ymgymryd â gwaith cynllunio tymor hwy ac yn gwneud rhagfynegiadau tymor hwy er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ar wariant.
- Adolygiadau busnes gweithredol a hyfywedd blynyddol i asesu sefydlogrwydd ariannol parhaus.
- Statws credyd sefydlog heb newid sylweddol.

Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn adlewyrchu'r effeithiau niweidiol posibl parhaus ar refeniw ffi'r drwydded a'r targedau newydd o ran enillion ariannol i is-gwmnïau masnachol.

Yn benodol, nodwyd y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:

- Mae canlyniadau anhysbys y trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch ffi trwydded y BBC yn creu dyfodol ariannol ansicr.
- Caiff hyblygrwydd ariannol y BBC ei lesteirio gan ffactorau y mae ganddo lefelau amrywiol o reolaeth drostynt.
- Gorchwyddiant yn y farchnad cynnwys a thalent.
- Mwy o gyfraniadau gan weithgarwch masnachol.
- Cyflawni cynlluniau arbedion a hyd yn oed mwy o werth am arian gan weithrediadau.

Beth yw'r effaith?

Bydd lleihad yn incwm ffi'r drwydded neu enillion endidau masnachol neu fethiant i weithredu mentrau arbed arian yn cael effaith negyddol ar wasanaethau a chwmpas yr hyn y bydd y BBC yn gallu ei gynnig i'w gynulleidfaoedd, ei staff a'i gyfranwyr.

Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2020/21?

Erys yr heriau ariannol yn risg uwch i'r BBC. Mae refeniw ffi'r drwydded yn dangos cynnydd o flwyddyn i flwyddyn.

Mae arferion gwyllo a gostyngiad yng nghyfran y gynulleidfa yn peri risg ariannol gan fod pobl yn llai tebygol o dalu ffi'r drwydded os nad ydynt yn gwyllo cynnwys y gellir codi ffi'r drwydded amdano.

Mae'r newid mewn polisi ar gyfer y rhai dros 75 oed wedi cynnig rhywfaint o incwm parhaus ar ôl i'r llywodraeth dynnu ei chonresiwn mewn perthynas â thrwyddedau am ddim i bobl dros 75 oed yn ôl. Bydd unrhyw aelwyd lle mae unigolyn dros 75 oed ac yn cael credyd pensiwn yn parhau i fod â hawl i gael trwydded deledu am ddim, a delir gan y BBC.

Bu ffocws parhaus drwy gydol y flwyddyn ar gyflawni arbedion effeithiolrwydd a chynlluniau arbedion a gynorthwywyd gan raglen diswyddiadau gwirfoddol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae gostyngiad sylweddol mewn gwerthiannau hysbysebu yn parhau i effeithio ar ganlyniadau is-gwmnïau masnachol.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Cyfraddau casglu ar gyfer refeniw ffi'r drwydded.
- Adroddiadau rheolaidd i randdeiliaid allanol e.e. Ofcom, yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ymddiriedolwyr y pensiwn ac ati.
- Cystadlu a chymharu meincnodau.
- Metrigau ar berfformiad endidau masnachol gan gynnwys gwerthiannau, EBITDA a llif arian parod.
- Statws credyd y BBC.
- Perfformiad cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC.
- Adolygiadau ac adroddiadau rheolaidd i Fwrdd Gweithredol y BBC, Bwrdd y BBC a'r Bwrdd Daliadau Masnachol.
- Ailgyllidebu ac ail-lunio rhagolygon ariannol a nodi arbedion ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ar fyr rybudd.

6. Ein pobl	
<p>Beth yw'r risg?</p> <p>Mae graddau'r newid sefydliadol a diwylliannol sydd ar waith yn peri risg y caiff y sefydliad ei roi dan bwysau gweithredol sylweddol.</p> <p>Mae risg na allwn gadw cyflogeion mewn meysydd allweddol oherwydd y lefel gynyddol o newid ac aflonyddu, heriau cyflog neu ymddieithrio yn sgil methiant i gyflawni ein targedau ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant.</p>	<p>Beth yw'r effaith?</p> <p>Anallu i gadw a hurio talent a staff wedi ymddieithrio sy'n effeithio ar gynhyrchiant ac yn cynyddu'r posibilrwydd o weithredu diwydiannol. Materion iechyd a diogelwch, gan gynnwys iechyd meddwl yn sgil cyfyngiadau symud estynedig.</p>
<p>Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?</p> <ul style="list-style-type: none"> — Gosod y pwys mwyaf ar lesiant staff y BBC yn ystod y pandemig drwy gynnig mesurau cymorth ychwanegol, gan gynnwys nifer o newidiadau polisi mawr – yn cwmpasu meysydd fel treuliau, absenoldeb arbennig, gweithio hyblyg, ymlyniadau a rheoli iechyd a phresenoldeb. — Ffordd agored ac effeithiol o weithio gyda'r undebau. — Mabwysiadu'r gwersi a ddysgwyd ar ôl i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio. — Cysylltu â staff yn helaeth, gan fonitro lefelau ymgysylltu drwy grwpiau ffocws ac arolygon o'r staff. — Targedau amrywiaeth clir fel y'u nodir yng Nghynllun Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021-23. Bydd y cynllun newydd hwn, sy'n cefnogi ein hymrwymiad i greu BBC 50:20:12, yn sicrhau diwylliant cynhwysol. — Cynyddu'r hyfforddiant ar-lein sydd ar gael i'r holl staff drwy BBC Academy yn ystod cyfnod Covid-19 a thu hwnt. — Gweithio gyda'r staff a'r undebau er mwyn lleihau effaith y newid ar ein pobl. — Lansio myConversation; dull gweithredu newydd mewn perthynas â pherfformiad a datblygiad staff sy'n canolbwyntio ar nodau, gyrfa a datblygiad. — Lansio'r Rhaglen Mynegai i Uwch-arweinwyr; ffordd gyson o fesur, gwerthfawrogi a chefnogi ein harweinwyr a sicrhau eu bod yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad; — Cynllun uchelgeisiol i brentisiaid sy'n meithrin ac yn datblygu talent ar gamau cynnar yn eu gyrfa a thu hwnt. — Sicrhau bod sawl ffordd wahanol y gall y staff roi adborth, cael eu cynnwys a gofyn cwestiynau am newid sefydliadol yn y BBC. — Cyflawni'r lleihad a gynlluniwyd o ran nifer y staff dros gyfnod y gyllideb, sef tair blynedd. — Llinell gymorth chwythu'r chwiban ar waith ac ymchwiliadau yn cael eu cynnal lle y bo'n briodol. 	<p>Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2020/21?</p> <p>Mae'r risg i'n pobl wedi cynyddu oherwydd nifer o resymau a amlinellir isod.</p> <p>Mae'r pandemig yn cael effaith sylweddol ar y gweithlu oherwydd cyfnodau estynedig o weithio gartref, effaith ar lesiant.</p> <p>Mae'r lefel o newid diwylliannol wedi'i hategu gan broses drawsnewid radical ym mhob un o is-adrannau'r BBC, gan gyflwyno mentrau eofn a hirsefydledig ac arloesi strwythurol, er mwyn creu sefydliad symlach a mwy darbodus, a sicrhau bod pob maes yn cyrraedd targedau 50:20:12.</p> <p>Ym mis Mai 2020, gwnaethom lansio rhaglen diswyddiadau gwirfoddol, gyda'r nod o leihau'r pwysau ariannol ar y BBC yn sgil y pandemig a hefyd roi hwb i'r broses drawsnewid honno.</p> <p>Mae newidiadau i'n ffyrdd o weithio o ganlyniad i'r pandemig a'r cyfyngiadau symud wedi arwain at orbryder ac ansicrwydd i'r staff.</p>
<p>Risg weddilliol</p> <p>Mae'r risg weddilliol yn ymwneud ag effaith hirdymor bosibl ffyrdd cyfredol o weithio yn ogystal ag effaith newid sylweddol ar draws y sefydliad.</p> <p>Yn benodol, nodwyd y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> — Effeithiau hirdymor ar straen sefydliadol a ffyrdd newydd o weithio ar gyfer BBC symlach. — Lefel y newid a'r risg o weithredu diwydiannol wrth i fentrau newydd a chynlluniau arbedion ailddechrau. — Effaith Covid hir ar staff. 	<p>Sut y caiff y risg hon ei monitro?</p> <ul style="list-style-type: none"> — Canlyniadau arolygon o foddhad cyflogeion. — Cyfraddau cadw cyflogeion, trosiant a 'rheswm dros adael'. — Pobl dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, anabledd, rhywedd, LGBTQ+ yn cael eu cynrychioli mewn rolau arwain ac o ran y staff yn gyffredinol. — Targedau amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu monitro fel rhan o Fynegai'r Uwch-arweinwyr. — Monitro'r llinell gymorth chwythu'r chwiban. — Cyfraddau cwblhau cyrsiau hyfforddi. — Y defnydd o adnoddau llesiant. — Monitro datblygiadau ar effaith Covid hir fel cyflwr sy'n dod i'r amlwg gyda'r bwriad o gefnogi'r staff.

Risgiau a chyfleoedd gweithredol

1. Iechyd, diogelwch a diogeledd

Beth yw'r risg?

Y risg y byddwn yn methu â diogelu iechyd, diogelwch a llesiant ein cyflogeion ac aelodau'r cyhoedd rydym yn dod i gysylltiad â nhw. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw'r rhai y mae arnom ddyletswydd gofal iddynt yn cael eu peryglu o ganlyniad i un digwyddiad mawr neu dros gyfnod o amser.

Risg y byddwn yn methu â darparu amgylchedd sy'n ddiogel o ran Covid yn ein gweithle ac ar ein safleoedd

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

Iechyd a diogelwch:

- Rhoi mesurau sy'n ddiogel o ran Covid ar waith, a arweinir gan y Llywodraeth, i wneud adeiladau'r BBC yn ddiogel mewn ymateb i'r pandemig.
- Cymryd tymheredd pobl yn adeiladau'r BBC.
- Wedi annog staff i wisgo gorchuddion wyneb.
- Wedi rhoi dyfeisiau agosrwydd i staff swyddfa er mwyn iddynt allu cydymffurfio â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol.
- Wedi darparu pecynnau profi Covid priodol i staff ar y safle.
- Proses asesu risg Iechyd a Diogelwch ar waith, a gefnogir gan archwiliadau monitro diogelwch a hyfforddiant.
- Ymchwilio i bob digwyddiad a gofnodir er mwyn nodi unrhyw gamau unioni sydd eu hangen.

Diogelu:

- Mae polisiâu diogelu newydd wedi cael eu llunio i fynd i'r afael â risgiau ar draws yr is-adrannau h.y. Rhyngwladol, Oedolion sy'n Wynebu Risg, Hebryngwyr a Hunanasesu.
- O safbwynt talent, cyflwynwyd hyfforddiant talent newydd a mwy o wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Rydym wedi datblygu proses fetio newydd ar gyfer cwmnïau cynhyrchu annibynnol ac wedi dyblu nifer y cynghorwyr plant ledled y BBC.

Diogelwch/rolau risg uchel:

- Hyfforddiant arbenigol ar gael i staff mewn rolau risg uchel (a'u rheolwyr) a phob rôl yn destun asesiad risg trylwyr.
- Cynnal gwaith cynllunio senarios ac ymarferion efelychu gyda thimau rheoli allweddol.
- Adolygiadau parhaus o ddiogelwch ar safleoedd y BBC a lleoliadau darlledu allanol, a chysylltiadau agos ag awdurdodau diogelwch y DU a fforymau diogelwch traws-sector.
- Ymchwilio i bob digwyddiad a gofnodir er mwyn nodi unrhyw gamau unioni sydd eu hangen.

Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn adlewyrchu'r broses o ddod allan o'r cyfyngiadau symud, addasu i ffyrdd newydd o weithio a'r angen parhaus i ddiogelu ein pobl.

Yn benodol, nodwyd gennym y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:

- Addasu i ffyrdd newydd o weithio.
- Risgiau i'n newyddiadurwyr, yn ffisegol ac ar-lein, yn y DU a thramor.
- Effaith ar iechyd meddwl, materion llesiant a'r effaith tymor hwy ar iechyd galwedigaethol.
- Defnyddio hyfforddiant ffurfiol a gwiriadau cefndir ar dalent mewn ffordd gyson.

Beth yw'r effaith?

Anallu i ofalu am iechyd corfforol a/neu iechyd meddwl ein pobl, cyfranwyr ac ymwelwyr. Gall methiant yn hyn o beth hefyd achosi niwed i enw da'r BBC neu arwain at ganlyniadau cyfreithiol, rheoleiddiol neu ariannol.

Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2020/21?

Er bod cynnydd sylweddol wedi bod yn y risgiau iechyd a diogelwch sy'n wynebu staff, cyfranwyr ac ymwelwyr yn sgil y pandemig, mae camau lliniaru pwysig wedi cael eu rhoi ar waith ac mae cymorth helaeth wedi cael ei gynnis i'n gweithlu er mwyn rheoli'r risg hon yn ddigonol.

Mae nifer y digwyddiadau o dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) wedi parhau'n isel ac o fewn y lefelau disgwylidig o ystyried maint y sefydliad, faint o weithgareddau a gynhelir ac amrywiaeth y gweithgareddau hynny.

Mae mwy o waith craffu wedi mynd rhagddo wrth i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gynnal mwy o wiriadau ar gyfer talent a staff. Mae pecynnau newydd i hebryngwyr wedi helpu i godi ymwybyddiaeth staff, hebryngwyr a rhieni. Bydd y broses o fetio cwmnïau annibynnol yn sicrhau bod gan bob cwmni annibynnol bolisi diogelu cadarn. Mae'r Polisi Diogelu Rhyngwladol wedi sicrhau bod ein swyddfeydd rhyngwladol yn cydymffurfio ag egwyddorion a rheolaethau diogelu'r BBC.

Cyfyngwyd ar deithiau rhyngwladol i amgylcheddau gelyniaethus yn sgil y pandemig a, lle roedd angen, darparwyd hyfforddiant ar-lein. Dechreuwyd cynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb unwaith eto ym mis Rhagfyr 2020.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Adroddiadau RIDDOR.
- Perfformiad ar asesiadau risg iechyd a diogelwch.
- Cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol.
- Amseroldeb gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chyfraddau cwblhau.

2. Rheoli busnes a newid

**Beth yw'r risg?**

Y risg na fyddwn yn rheoli ein gweithrediadau busnes na'n rhaglenni newid sylweddol yn effeithiol, gan effeithio ar gyflawni nodau strategol neu weithredol. Mae hyn yn cynnwys y portffolio prosiectau allweddol, cynlluniau parhad busnes, cyflenwyr trydydd parti a phrosesau gwrth-dwyll.

Beth yw'r effaith?

Mae'r BBC yn wynebu cost ariannol annisgwyl, effaith niweidiol ar ein henw da a/neu ymyrraeth reoleiddiol. Mae'r oedi cyn cyflwyno mentrau newid allweddol yn effeithio ar allu'r BBC i gyflawni amcanion strategol a gweithredol allweddol a hefyd ar gynaliadwyedd ariannol a morâl y staff.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Mae'r broses o greu'r Pwyllgor Gweithrediadau yn atgyfnerthu atebolrwydd y rheolwyr a'r cyfrifoldeb sydd ganddynt dros brosiectau allweddol.
- Noddwyr lefel uwch a hyrwyddwyr gweithredol pob rhaglen allweddol.
- Timau prosiect medrus ac ymroddedig sy'n cymhwyso disgyblaethau rheoli prosiect (Ffordd y BBC).
- Wedi rhoi adolygiadau 'Set up for Success' ar waith gydag arbenigwyr pwnc trydydd parti.
- Mae'r Swyddfa Rheoli Prosiectau Corfforaethol yn rhoi sicrwydd ynglŷn â buddiannau busnes a chanlyniadau prosiectau allweddol drwy ei fframwaith sicrwydd a'i gwaith ymgysylltu parhaus.
- Gwario ar fonitro systemau caffael er mwyn sicrhau bod contractau ar waith gyda chyflenwyr, ac er mwyn asesu digonolrwydd y broses o reoli cyflenwyr er mwyn cyflawni gwerth am arian.
- Datblygu polisi a metrigau gwrth-dwyll gyda phrosesau ategol.

Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2020/21?

Mae'r pandemig presennol wedi effeithio ar gyflenwyr ac adnoddau prosiectau mewnol, yn enwedig prosiectau adeiladu a newidiadau i'n gweithrediad Newyddion. Cynhaliodd y Bwrdd adolygiad er mwyn ailddilysu ac ailgadarnhau cynlluniau a buddiannau prosiectau mawr. Ochr yn ochr â hynny, sicrhaodd camau gweithredu cadarnhaol gan reolwyr a dull gweithredu hyblyg fod modd i brosiectau gyflawni buddiannau ar raddfa fawr mewn amgylchedd newidiol.

Mae Covid-19 wedi cyflymu trawsnewidiadau ar raddfa fawr. Mae angen llunio uchelgais ar gyfer newid strategol a ffordd o ymateb i newidiadau yn y farchnad a'u rhoi ar waith.

Lefel barhaus o ansicrwydd o ran cyflenwyr/y farchnad yn dilyn Brexit a blwyddyn o fasnachu annodweddiadol o ganlyniad i'r pandemig.

Mae Archwilio Mewnol wedi parhau i gyflwyno rhaglen dreigl o weithgarwch sicrwydd gwrth-dwyll sy'n cwmpasu meysydd fel taliadau cyflenwyr, rheolaethau bancio a'r defnydd o asedau TG. Mae'r gwaith o ddatblygu Hunanasesiad Rheoli (CSA) ar gyfer swyddfeydd dramor wedi dechrau.

Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn ymwneud â'r heriau parhaus wrth gyflawni'r Portffolio Prosiectau Allweddol.

Yn benodol, nodwyd gennym y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:

- O ystyried graddfa a chyflymder y newidiadau ar draws y sefydliad, mae risg uchel y bydd y sefydliad yn wynebu straen a lludded yn sgil y newidiadau.
- Nifer mawr o brosiectau ag agweddau rhyngddibynnol.
- Heriau hanesyddol mewn perthynas â rheolwyr rhaglenni.
- Mae'r risg o dwyll yn debygol o fod yn uwch e.e. gyda ffyrdd dros dro o weithio, ffactorau economaidd ehangach.
- Fframwaith rheolaethau is-adrannol a rheolwyr yn ardstyio rheolaethau.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Cyflwyno adroddiadau statws misol ar brosiectau allweddol i'r Pwyllgor Gweithrediadau a Bwrdd y BBC.
- Y Pwyllgor Gweithrediadau yn goruchwylio newid strategol.
- Rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch y Portffolio Prosiectau Allweddol i'r Pwyllgor Gweithredol, y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.
- Cynllun treigl sicrwydd twyll Archwilio Mewnol.
- Y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnal adolygiadau manwl.

3. Cydymffurfiaeth



Beth yw'r risg?

Y risg y byddwn yn methu â chydymffurfio â safonau/ rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol a safonau/ rhwymedigaethau eraill (gan gynnwys gofynion mewnol e.e. cydymffurfiaeth olygyddol) sy'n berthnasol i'r BBC.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Polisiâu ar waith, sy'n bodloni gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol, a ategir gan gyngor gan arbenigwyr pwnc, a gwaith monitro ac adrodd manwl.
- Modiwlau hyfforddiant gorfodol sy'n cwmpasu gofynion cydymffurfiaeth allweddol (e.e. gwrth-lwgrwobrwyo, bwlio ac aflonyddu, hyderus o ran anabled, dethol yn deg, masnachu teg).
- Polisi golygyddol sefydledig ar waith, a gaiff ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben.
- Prosesau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol Ofcom, a ategir hefyd gan adroddiadau a gwaith monitro.
- Monitro cwynion i Ofcom a chyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Pwyllgor Gweithredol, a chyflwyno adroddiadau misol i'r Bwrdd.
- Timau arbenigol ar waith i gefnogi cydymffurfiaeth â gofynion o ran treth, gofynion cyfreithiol e.e. cyflogaeth, ymglyfreitha a gofynion cydymffurfiaeth reoleiddiol eraill.
- Sicrhau sêl bendith staff yn amserol ac adnewyddu gwiriadau perthnasol gan gynnwys cymhwysedd/hawl i weithio a datgelu a gwahardd.
- Gwiriadau diwydrwydd dyladwy a fetio ar gyfer cyflenwyr allweddol a thrydydd partion.
- Bydd y BBC yn cymryd rhan yn yr adolygiad ffurfiol nesaf o drefniadau llywodraethu'r BBC fel y'i nodir yn y Siarter Frenhinol.
- Mae Bwrdd y BBC wedi comisiynu adolygiad a arweinir gan y Bwrdd o arferion a gweithdrefnau golygyddol y BBC, gan gynnwys cadernid ac annibyniaeth prosesau chwythu'r chwiban mewn meysydd golygyddol. Bydd yr adolygiad yn ystyried arferion cyfredol ac yn nodi'r gwersi y gellir eu dysgu o adolygiad yr Arglwydd Dyson a all fod yn berthnasol heddiw.

Risg weddilliol

Mae risg o hyd y byddwn yn methu â bodloni gofynion cyfreithiol, gofynion rheoleiddiol a gofynion eraill, a gallai'r risg hon gynyddu wrth i gyrff rheoleiddio ganolbwyntio unwaith eto ar faterion busnes arferol.

Yn benodol, nodwyd gennym y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:

- Dull Ofcom o reoleiddio'r BBC.
- Rheoli'r duedd gyffredinol o gynydd mewn lefelau cwynion.
- Rhoi camau gweithredu sy'n deillio o adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) ar waith.
- Cwblhau ymholiadau CThEM (yn llwyddiannus o fewn terfynau amser a'r gyllideb).

Beth yw'r effaith?

Os caiff y risg ym maes cydymffurfiaeth ei rheoli'n annigonol, gall arwain at niweidio enw da, colli ymddiriedaeth, camau cyfreithiol, dirwyon neu gosbau eraill.

Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2020/21?

Mae lefel uchel o graffu o hyd yn yr amgylchedd rheoleiddiol a diddordeb allanol mewn dyfarniadau golygyddol.

Mae'r cynnydd yn nifer y cwynion wedi parhau oherwydd barn ddargyfeiriol y cyhoedd, y dirwedd wleidyddol a rôl y cyfryngau cymdeithasol.

Rydym wedi ceisio lleihau cymaint â phosibl effaith ein methiant i fodloni holl gwtâu Ofcom oherwydd y pandemig.

Mae adroddiad Dyson yn tynnu sylw at ein prosesau golygyddol, ein canllawiau a'n trefniadau llywodraethu.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Cydymffurfiaeth â gofynion Ofcom.
- Cwynion (nifer y cwynion a'r ffordd y cânt eu rheoli).
- Achosion cyfreithiol a chanlyniadau.
- Achosion sy'n ymwneud â threth ac achosion sy'n mynd rhagddynt.
- Nifer yr achosion o gwyno a disgyblu a'r tueddiadau.
- Proses chwythu'r chwiban.

4. Technoleg**Beth yw'r risg?**

Y risg y byddwn yn methu â darparu gwasanaeth darlledu cadarn ar draws pob sianel ddisbarthu a/neu ddiogelu cyfrinachedd, cywirdeb neu argaeledd data'r BBC drwy ymosodiad seiber.

Beth yw'r effaith?

Y potensial i beryglu argaeledd, cywirdeb a hygyrchedd gwybodaeth, a allai arwain at niwed i enw da, niwed ariannol a methiant i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

Y potensial na fydd ein technoleg a'n gwasanaethau yn ein galluogi i berfformio'n effeithiol fel sefydliad.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?**Technoleg darlledu:**

- Mae systemau a gwasanaethau'r BBC yn gadarn, er enghraifft nid oes unrhyw bwyntiau methu unigol mewn systemau allweddol. Mae'r dull aml-haenog hwn yn elfen graidd o allu'r BBC i barhau i weithredu.
- Caiff perfformiad gweithredol gwasanaethau darlledu a gwasanaethau ar-lein ei fonitro'n barhaus gan ddefnyddio amrywiaeth o fetrigau, gan gynnwys argaeledd gwasanaethau, toriadau a digwyddiadau. Mae targedau ar gyfer ein gwasanaethau allweddol yn rhan o'n cytundebau â'n partneriaid allweddol.
- Mae cynlluniau parhad busnes ac adfer yn dilyn trychinebau ar waith. Yn ystod y pandemig, achubwyd ar y cyfle i adolygu a gwella ein cynlluniau parhad busnes ac adfer yn dilyn trychinebau er mwyn cynnwys pwyntiau dysgu allweddol o'r pandemig, gan roi sicrwydd pellach ar gyfer y dyfodol.

Seiberddiogelwch:

- Nodir pwyntiau methu unigol a chymerir camau fel sy'n briodol.
- Mae cynlluniau adfer ar waith ac wedi'u profi.
- Monitro toriadau a glynu wrth amcanion amser adfer yn fanwl er mwyn sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl ar wasanaethau darlledu.
- Polisiâu a gweithdrefnau helaeth ar waith er mwyn canfod ac atal bygythiadau seiber a chydweithio â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol er mwyn darparu cuddwbybodaeth am seiber-risgiau.
- Y flwyddyn hon, mae'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol wedi rhoi sicrwydd i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Adran arweiniol y Llywodraeth, fod y cyswllt rhwng y BBC ac Arqiva yn ddigon cadarn i gynnal ein hallbwn.
- Rydym hefyd wedi ailystyried pob agwedd ar ein cynlluniau ar gyfer ymateb i feddalwedd wystlo, gan gynnwys modelu bygythiadau, camau lliniaru, prosesau wrth gefn a swyddogaethau adfer. Mae ein dull gweithredu wedi cael ei brofi ac rydym yn bwriadu cynnal ymarfer lefel 'Aur' dros y misoedd nesaf.
- Mae systemau monitro priodol ar waith i ddarparu gwasanaethau monitro bygythiadau ynghyd â'r gallu i reoli digwyddiadau.
- Mae hyfforddiant gorfodol ar ddiogelwch data a seiberddiogelwch wedi cael ei gyflwyno i'r sefydliad.
- Mae technolegau a phrosesau newydd wedi cael eu rhoi ar waith i hwyluso a gwella'r broses o weithio o bell, cymorth technol a sêl bendith cyflogion.

Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2020/21?**Cadernid gweithredol a pherfformiad:**

Mewn ymateb i'r pandemig, llwyddwyd i roi trefniadau gweithio o bell ar waith yn gyflym. Bu'r buddsoddiad a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol o ran gweithio'n ddiogel o bell o fudd wrth symud yn ddiraffferth i'r trefniadau newydd hyn, gan liniaru'r risg hefyd y byddai'r sefydliad yn fwy bregus o ganlyniad i ymosodiad seiber.

Cafodd y timau gweithredol ar ein safleoedd sy'n gyfrifol am allbwn allweddol a'n gallu i ddarlledu eu diogelu gan ddefnyddio amrywiaeth o reolaethau diogel o ran Covid, gan gynnwys gwahanu safleoedd, timau a phatrymau rota sifftiau nad oeddent yn gorgyffwrdd, a roddwyd ar waith yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.

Er bod timau'r Ystafell Reoli sy'n gyfrifol am ddarllediadau allweddol wedi bod yn gweithio sifftiau hwy o 12 awr nad ydynt yn gorgyffwrdd o ddechrau mis Mawrth 2020 tan nawr, nid oes unrhyw ddirywiad wedi bod yn y data ar berfformiad yn ein meysydd allbwn. Mae cynlluniau parhad darlledu wedi cael eu profi, eu diweddarau a'u cadarnhau.

Seiberddiogelwch:

Mae'r risg y bydd y BBC yn parhau i gael ei dargedu drwy ymosodiadau seiber maleisus a soffistigedig yn parhau'n uchel. Drwy gydol y pandemig, mae ein seilwaith a'n gwasanaethau TG wedi parhau i fod yn gadarn, gan helpu tua 18,500 o gyflogion i weithio gartref am y tro cyntaf. Nifer cymharol fach o ddigwyddiadau a welwyd yn ystod y cyfnod hwn.

4. Technoleg parhad



Risg weddilliol

Yn benodol, nodwyd gennym y risgiau gweddilliol allweddol canlynol y dylid eu hystyried a/neu fynd i'r afael â hwy:

- Y seilwaith darlledu a etifeddwyd. Mae gan y BBC seilwaith amrywiol sy'n cefnogi gwasanaethau corfforaethol, darlledu a digidol. Mae'r seilwaith corfforaethol a darlledu yn benodol yn heneiddio, gan arwain at rywfaint o fregusrwydd.
- Cyflenwyr trydydd parti: risgiau sy'n gysylltiedig â dulliau cyflenwi rhai o'n cyflenwyr trydydd parti a'u perfformiad.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Defnyddir y Dangosfwrdd Seiberddiogelwch i olrhain ein haeddfedrwydd seiberddiogelwch sefydliadol yn erbyn fframwaith y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Safonau a Thechnoleg, er mwyn darparu darlun strategol o risg weddilliol y BBC.
- Perchenogir risgiau penodol ar lefel briodol o fewn y sefydliad.
- Caiff risgiau a asesir fel rhai 'uchel' ac uwch eu cynnwys yn yr adroddiad seiberddiogelwch chwarterol a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Risg.
- Monitro amrywiaeth o ddangosyddion yn barhaus, gan gynnwys cwblhau hyfforddiant gorfodol; lefel a difrifoldeb ymosodiadau seiber; disbensasiynau polisi a phwyntiau derbyn risg; lefel y tarfu ar allbwn cynnwys.

5. Diogelu data



Beth yw'r risg?

Y risg y byddwn yn methu â chydymffurfio â deddfwriaeth GDPR a diogelu data y DU a'r UE ac yn methu â diogelu'n ddigonol y data personol rydym yn eu prosesu ac yn eu trin.

Beth yw'r effaith?

Os caiff y risg ynglŷn â diogelu data ei rheoli'n annigonol, gall arwain at niweidio enw da, colli ymddiriedaeth, camau cyfreithiol, dirwyon neu gosbau eraill gan y rheoleiddiwr (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth). Gall hefyd arwain at ddiffyg arloesi, ac anallu i gefnogi nodau hirdymor y BBC a'i strategaethau data sy'n cael eu datblygu.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Polisiâu a phrosesau sy'n cydymffurfio â gofynion GDPR y DU ym maes diogelu data a phreifatrwydd, gan gynnwys hawliau gwrthrych data a pholisiâu preifatrwydd sy'n ymwneud â'r cyhoedd.
- Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o ddiogelu data i'r staff, gan gynnwys cyflwyno modiwl uwch ac ailwampio'r modiwl hyfforddiant gorfodol.
- Cadernid systemau TG.
- Mynediad at gyngor cyfreithiol mewnol ac allanol ar ddiogelu data.
- Goruchwyliaeth y Swyddog Diogelu Data.

Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2020/21?

Mae'r proffil risg yn cynyddu yn sgil cynnydd yn nifer yr achosion o dorri data personol yn fwy eang, a chynnydd yn nifer yr achos y cafodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wybod amdanynt.

Rydym yn dal i weld mwy o ymwybyddiaeth o hawliau unigolion o dan GDPR, a thuedd tuag i fyny sy'n parhau yn nifer y ceisiadau gwrthrych am fynediad at ddata.

Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y cwynion i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Serch hynny, mae'r gyfradd llwyddiant yn dda iawn o hyd gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â rhyddid gwybodaeth.

Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn ymwneud â'r cynnydd mewn data personol categori arbennig a brosesir, y newid sylweddol tuag at fwy o weithio oddi ar y safle a rôl gynyddol data a'r defnydd a wneir o ddata ym maes datblygu a phersonoli cynnyrch y BBC. Ochr yn ochr â hyn, mae mwy o ymwybyddiaeth o hawliau unigolion o dan GDPR, a ddangoswyd drwy nifer y ceisiadau gwrthrych am fynediad at ddata.

Yn benodol, nodwyd gennym y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:

- Cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data yn gyson ar draws y BBC.
- Technolegau a chynhyrchion newydd sy'n cael effaith ar ddiogelu data.
- Mentrau sy'n gysylltiedig â Covid ar gyfer cynrychiadau a staff.
- Cynnydd yn nifer y ceisiadau gwrthrych am fynediad at ddata/ceisiadau rhyddid gwybodaeth.
- Amseroldeb parhaus y broses o ateb ceisiadau gwrthrych am fynediad at ddata.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Lefel yr adroddiadau a gyflwynir i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys amseroldeb a chanlyniadau.
- Metrigau dangosyddion perfformiad allweddol/dangosfyrddau ar gyfer sawl maes diogelu data, gan gynnwys nifer y digwyddiadau data a'r achosion o dorri deddfwriaeth diogelu data; nifer y ceisiadau gwrthrych am fynediad at ddata ac amseroldeb yr ymateb; nifer y ceisiadau gwrthrych eraill am fynediad at ddata a metrigau cwynion.
- Fforwm Diogelu Data (Swyddog Diogelu Data, Prif Swyddog Diogelu Gwybodaeth, Cyfarwyddwr Cyfreithiol – Hawliau Gwybodaeth, a Phrif Swyddog Preifatrwydd BBC Studios).

6. Cynaliadwyedd amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd



Beth yw'r risg?

Y risg na fyddwn yn rheoli'r effaith y mae ein cynyrchiadau a'n gweithrediadau yn ei chael ar yr amgylchedd yn unol â'n huchelgais Sero Net ar gyfer 2030. Hefyd, y risg na fyddwn yn ystyried y risgiau ffisegol a thrawsnewid a allai wynebu ein gweithrediadau busnes yn sgil newid yn yr hinsawdd.

Beth yw'r effaith?

Canfyddiad negyddol ymhlith y cyhoedd a'r gynulleidfa am beidio â chyflawni ymrwymadau Sero Net, sylw diduedd annigonol i faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn arwain at anfodlonrwydd ymhlith y gynulleidfa a cholli cynulleidfa.

Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Mabwysiadu'r fframwaith TCFD yn wirfoddol.
- Dechrau'r gwaith o bennu llinell sylfaen ar gyfer allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3 a phennu targedau seiliedig ar wyddoniaeth i lywio ein strategaeth Sero Net.
- Gwella'r trefniadau llywodraethu o ran cynaliadwyedd.
- Ardystiad Albert gorfodol ar gyfer cynyrchiadau mewol gyda'r potensial i'w ehangu i gwmnïau cynhyrchu annibynnol.
- Hyfforddiant cynhyrchu cynaliadwy ar waith ar gyfer staff cynhyrchu.
- Hyfforddiant golygyddol ar waith e.e. ar gyfer comisiynu golygyddion, cynhyrchwyr a gwneuthurwyr rhaglenni.
- Targedau ac ymrwymadau i reoli'r ynni a ddefnyddir gennym, ein hallyriadau carbon a'n gwastraff.
- Parhau i ddarparu cynnwys arbenigol ar gynaliadwyedd amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd ar gyfer teledu, radio a phodlediadau.
- Ymgyrchoedd cyfathrebu mewol a gweithgareddau rheolaidd sy'n ymwneud â materion amgylcheddol.

Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2020/21?

Mae'r proffil risg yn cynyddu oherwydd bod mwy o ddisgwyliadau a galwadau ar fusnesau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd.

Mae'r BBC wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i fod yn Sero Net erbyn 2030 ac mae wedi dechrau rhoi rhaglen o weithgareddau ar waith i gefnogi'r uchelgais hon, yn cynnwys pennu targedau seiliedig ar wyddoniaeth. Mae'r BBC hefyd wedi mabwysiadu'r fframwaith TCFD a datgeliadau risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn ymwneud â'r gwaith o gyflwyno, gweithredu a gweithredoli ein strategaeth Sero Net yn y tymor canolig a'r hirdymor.

Yn benodol, nodwyd gennym y dylid ystyried a/neu fynd i'r afael â'r canlynol:

- Lefel y buddsoddiad, yr arloesi a'r newid sydd ei hangen er mwyn cyflawni ein strategaeth Sero Net.
- Y gallu i ddylanwadu ar gyflenwyr a phartneriaid mewn perthynas â phenderfyniadau am gynaliadwyedd a'r hinsawdd.

Sut y caiff y risg hon ei monitro?

- Adroddiadau rheolaidd a metrigau sy'n gysylltiedig â'r defnydd o ynni, rheoli gwastraff ac allyriadau carbon.
- Goruchwyliaeth fisol gan y Grŵp Llywio Cynaliadwyedd.
- Rhoi map ffordd TCFD ar waith.

Noder Nid yw'r risgiau a restrir yn cwmpasu pob un sy'n gysylltiedig â'r BBC ac nid yw'r rhifau cyfeirnod yn dynodi trefn blaenoriaeth. Gall risgiau ac ansicrwydd ychwanegol nad ydynt yn hysbys i'r rheolwyr ar hyn o bryd, neu yr ystyrir eu bod yn llai perthnasol ar hyn o bryd, hefyd gael effaith andwyol ar y BBC. Cedwir golwg ar y risgiau llai perthnasol hyn rhag ofn iddynt ddod yn fwy tebygol neu gael mwy o effaith.

Fframwaith rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae proses y BBC o nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol yn parhau'n gyson â Chanllawiau'r Cyngor Adrodd Ariannol ar Reoli Risg, Rheolaeth Fewnol ac Adrodd Busnes ac Ariannol Cysylltiedig. Ymgorfforir systemau rheoli risg o fewn pob is-adran, gyda phroses gydgyssylltu ganolog er mwyn nodi, uwchgyfeirio a rheoli risgiau ar draws y BBC.

Asesu effeithiolrwydd rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae'r Bwrdd yn parhau i ddefnyddio sawl dull i'w helpu i asesu effeithiolrwydd y system rheoli risg a rheolaeth fewnol ym mhob rhan o'r BBC er mwyn cynnal ei asesiad bod y lefel gyffredinol yn ddigonol.

Goruchwylio risg: Dirprwyodd y Bwrdd y cyfrifoldeb am adolygu prosesau risg a rheolaeth yn fanwl i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod 2020/21 er mwyn craffu ar effeithiolrwydd rheolaethau a rheoli risg a'u goruchwylio (ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 95). Hefyd, cyflwynir adroddiad risg rheolaidd i Fwrdd y BBC.

Archwilwyr Mewnol: Parhaodd y swyddogaeth Archwilio Mewnol â'i llinell adrodd annibynnol i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a chynhaliodd raglen o archwiliadau yn unol â'r prif risgiau a wynebir gan y BBC. Cyflwynwyd adroddiadau ar ganfyddiadau'r

archwiliadau hyn i uwch-reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a chaiff camau adferol eu holrhain hyd nes eu cwblhau.

Archwilio a sicrwydd allanol: Mae canfyddiadau gwaith archwilio allanol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi'u hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, a chaiff unrhyw gamau gweithredu a argymhellir eu holrhain hyd nes eu cwblhau. Hefyd, parhaodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol â'i rhaglen o archwiliadau Gwerth am Arian. Rhoddir sicrwydd allanol hefyd ar ein trefniadau Masnachu Teg er mwyn sicrhau nad oes risg y bydd ein prosesau a'n harferion, pan fyddwn yn ymgymryd â gweithgareddau masnachol a masnachu, yn ystumio'r farchnad. Goruchwylir y trefniadau hyn gan Bwyllgor Masnachu Teg y BBC. Yn 2020/21, cwblhaodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adolygiad o systemau rheolaeth ariannol strategol y BBC. Cydnabu adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yr heriau ariannol ehangach sy'n wynebu'r BBC o safbwynt y cyfryngau a'r dirwedd rheoleiddiol ehangach y mae'n gweithredu oddi mewn iddi, a ddwysawyd ymhellach gan y pandemig. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi argymhelliad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i ddatblygu cynllun ariannol hirdymor ar waith.

Chwythu'r chwiban: Mae polisi datgelu gwarchoddedig ar waith, a ategir gan linell gymorth 'chwythu'r chwiban', a weinyddir gan gwmni allanol annibynnol er mwyn sicrhau y gellir codi mater yn ddiennw. Cafodd hwn ei estyn ac mae bellach ar gael mewn 43 o ieithoedd. Cafodd cyfarwyddwr anweithredol ei enwi yn y polisi fel yr enw cyswllt ar gyfer codi'r pryderon mwyaf difrifol.

Datganiad ynghylch hyfywedd

Yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, mae Bwrdd y BBC wedi asesu rhagolygon y Gorfforaeth dros gyfnod hwy na'r isafswm o 12 mis sy'n ofynnol o dan y ddarpariaeth busnes gweithredol. Mae Bwrdd y BBC wedi ystyried yr asesiad dros gyfnod o dair blynedd.

Ystyriodd Bwrdd y BBC y cynllun tair blynedd ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2024. Ystyrir bod gorwel tair blynedd yn briodol gan fod hyn yn unol â phroses gyllidebu a chynllunio'r BBC. Mae'r cynllun tair blynedd yn ystyried llifau arian parod yn ogystal â'r cyfamodau ariannol a chyfleusterau credyd.

Y tybiaethau allweddol sy'n sail i'r cynllun tair blynedd, a'r rhagolwg cysylltiedig o lifau arian parod, yw setliad ffi'r drwydded sy'n pennu'r paramedrau ariannol i'r BBC rhwng 2017/18 a 2021/22, y Siarter a'r Cytundeb sy'n diogelu ffi'r drwydded tan 2027 ac effaith pandemig Covid-19 ar incwm ffi'r drwydded, costau a rhaglenni arbedion. Mae'r BBC a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrthi'n trafod setliad ffi'r drwydded ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Tybiaeth allweddol arall yw y bydd y cytundeb presennol yn parhau; fel arall, rhoddir newidiadau ar waith er mwyn sicrhau y bydd y BBC yn parhau i weithredu o fewn ei gyfyngiadau ariannol.

Cynhaliwyd asesiad cadarn o'r prif risgiau sy'n wynebu'r Gorfforaeth, fel y'u disgrifir yn yr Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon o dudalen 100, gan gynnwys y rhai a fyddai'n peryglu ei model busnes, perfformiad yn y dyfodol, solfedd neu hylifedd. Ar gyfer 2021/22, mae Covid-19 yn parhau i ddarparu cefnlen o ansicrwydd economaidd, ariannol a gweithredol ac mae angen rheoli'r sefyllfa ariannol yn llym o hyd er mwyn cyflawni dibenion y BBC o fewn y cyllid sydd ar gael; o ganlyniad, gwnaethom gynnal profion straen ariannol ychwanegol a dadansoddiad o sensitifrwydd, gan ystyried incwm mewn perygl yn ogystal ag effaith ein cynllun ymateb i'r argyfwng.

Cymhwysir dadansoddiad sensitifrwydd at y llif arian parod er mwyn modelu'r effeithiau posibl pe bai prif risgiau'n codi mewn gwirionedd, yn unigol neu ar y cyd. Cyfrifwyd y gofyniad benthycu uchaf drwy foddelu cyfuniad o risgiau difrifol ond credadwy, ond, a chan gynnwys mesurau lliniaru, arhosodd y llifau arian parod o fewn y terfyn benthycu drwy gydol y cyfnod o dair blynedd.

Gan ystyried sefyllfa arian parod bresennol Grŵp y BBC, prif risgiau a'r dadansoddiad sensitifrwydd a nodir uchod, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol y bydd y Gorfforaeth yn gallu parhau i weithredu a bodloni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros gyfnod tair blynedd yr asesiad.

Adroddiad y Bwrdd Daliadau Masnachol

Bu'n bleser cadeirio'r Bwrdd Daliadau Masnachol y flwyddyn hon. Mae gennym rôl allweddol i'w chwarae wrth helpu Grŵp y BBC i roi'r strategaeth fasnachol y cytunir arni gan Fwrdd y BBC ar waith. Yn ei dro, mae'r incwm y mae'r BBC yn ei gael o weithgarwch masnachol yn hanfodol fel ychwanegiad i arian cyhoeddus ac yn helpu i ddarparu mwy o newyddion a rhaglennu o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd. Mae'r diben gwasanaeth cyhoeddus sy'n llywio gweithgareddau masnachol y BBC wedi bod yn fwy amlwg nag erioed y flwyddyn hon, gyda phob rhan o'r BBC yn cyd-dynnu er mwyn ymateb i Covid-19.

Gwnaed nifer o newidiadau i'n haelodaeth yn ystod y flwyddyn. Gadawodd Tony Hall a Bal Samra y Bwrdd. Ymunodd Mark Linsey fel aelod pan ymgymerodd Tom Fussell â rôl Prif Swyddog Gweithredol dros dro BBC Studios. Yn fwy diweddar, gadawodd Sarah Jones y Bwrdd ac ymunodd Peter Ranyard, Pennaeth Cyfreithiol Masnachol y BBC, yn ei lle. Mae'r aelodau anweithredol wedi parhau'n ddigyfnewid yn ystod y flwyddyn, sef Steve Morrison, Mai Fyfield a Dharmash Mistry, y mae pob un ohonynt yn dod â phrofiadau unigryw a gwerthfawr i'n gwaith. Gwnaethom gyfarfod saith gwaith yn ystod y flwyddyn a chynhaliwyd busnes all-lein hefyd.

Caiff ymateb y BBC i Covid-19 ei nodi drwy gydol yr adroddiad hwn, a chafodd y pandemig effaith fawr ar y maes cynhyrchu yn benodol a wynebodd nifer mawr o heriau. Gweithiodd timau ar draws is-gwmnïau'r BBC yn ddiflino i sicrhau bod busnesau, cynrychiadau a gwasanaethau yn gallu ailddechrau unwaith eto mewn ffyrdd diogel a oedd yn cydymffurfio â'r canllawiau. Hoffem ni, fel Bwrdd, dalu teyrnged i bawb sy'n gweithio i is-gwmnïau masnachol y BBC, am yr ymroddiad, y dewrder a'r penderfyniad a ddangoswyd ganddynt y flwyddyn hon.

Gellir gweld effaith Covid-19 yng nghanlyniadau'r is-gwmnïau y flwyddyn hon, mewn ffyrdd gwahanol. Roedd perfformiad BBC Studios wrth ailgydio yn y broses gynhyrchu a chynnal gwerthiannau cymaint â phosibl yn gyflawniad arbennig, ond cafwyd costau ychwanegol anochel hefyd a ysgogwyd gan y mesurau diogelwch ychwanegol yr oedd eu hangen i gadw cynrychiadau yn ddiogel. Wynebodd BBC Global News anawsterau yn y farchnad hysbysebu, ond trodd cynulleidfaoedd at y gwasanaeth yn eu niferoedd i gael newyddion a gwybodaeth y gellir ymddiried ynddynt, gan danlinellu pwysigrwydd allbwn newyddion byd-eang y BBC. Rhaid rhoi clod mawr i'r timau yn Studioworks am berfformiad heb ei ail wrth gefnogi cynrychiadau diogel ar draws y diwydiant.

Fel Pwyllgor, gwnaethom gymryd diddordeb agos yn ystod y flwyddyn yn y gwaith a oedd yn cael ei wneud yn BBC Studios i gefnogi ei staff a'r sector creadigol ehangach. Mae'r uwch-dîm wedi rhoi cynnig llesiant a chymorth cryf ar waith a gwnaethom hefyd gefnogi'r penderfyniad i ad-dalu taliadau ffyrlo a chynnig cymorth elusenol ychwanegol i'r sector cynhyrchu drwy roddion. Gwnaed hyn oll yng nghyd-destun blwyddyn fwy cadarnhaol nag a ragwelwyd yn wreiddiol ar ddechrau Covid-19. Mae EBITDA o £144 miliwn a difidend i'r BBC o £73 miliwn, er eu bod yn ostyngiad sylweddol o un flwyddyn i'r llall, yn cynrychioli blwyddyn o berfformiad cryf mewn amgylchedd heriol. Hoffai'r Bwrdd gydnabod y rôl bwysig a chwaraewyd gan Tom Fussell wrth gyflawni hyn yn BBC Studios. Mae Tom wedi camu i fyny fel Prif Swyddog Gweithredol dros dro ers mis Medi ac wedi arwain y sefydliad gydag eglurder a ffocws yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mewn manau eraill, rydym hefyd wedi adolygu perfformiad cryf UKTV, flwyddyn ar ôl iddo gael ei brynu gan y BBC. Mewn marchnad heriol, roedd hi'n bleser nodi ein bod wedi cyrraedd neu wedi rhagori ar bob un o'r targedau a bennwyd o dan y cytundeb gwreiddiol. Unwaith eto, mae hyn yn dyst i'r gwaith cadarn a phwrpasol a wnaed gan y tîm er mwyn sicrhau llwyddiant y broses uno. Rydym hefyd wedi edrych yn fanwl ar ddatblygu cynlluniau twf ar gyfer BBC Studios, gan gynnwys symud swyddogaethau gwasanaethau cyhoeddus eraill i ochr fasnachol y BBC. Byddwn yn parhau i fonitro'r broses o symud cynrychiadau plant i BBC Studios. Rydym hefyd yn talu sylw agos i'r cyfleoedd mae dosbarthu newyddion yn eu cynnig i'r BBC yn fyd-eang, a bydd cynlluniau i ddatblygu brandiau'r BBC a BritBox yng Ngogledd America ac yn fyd-eang yn destun sylw agos yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r uchod yn awgrymu y bydd hi'n flwyddyn ddiddorol a heriol arall i'r Bwrdd wrth i ni weithio tuag at sicrhau bod y BBC yn gallu cyflawni cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer twf masnachol, er mwyn atgyfnerthu cynaliadwyedd ariannol hirdymor y Grŵp a sicrhau ein bod yn parhau i roi'r cymorth mwyaf posibl i ddiwydiannau creadigol hanfodol y DU.

.....
Elan Closs Stephens

Cadeirydd y Bwrdd Daliadau Masnachol

18 Mehefin 2021

Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol

Mae sicrhau bod gan y BBC y safonau golygyddol uchaf yn hanfodol i'w enw da ac i ymddiriedaeth cynulleidfaoedd. Felly, rydym yn croesawu'r ymrwymiad newydd i ddiueddrwydd a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd yn ystod yr wythnosau cyntaf yn ei swydd.

Mae llawer o waith y Pwyllgor y flwyddyn hon wedi canolbwyntio ar ddiogelu'r didueddrwydd hwnnw. Fel Pwyllgor y Bwrdd sy'n gyfrifol am safonau golygyddol, rydym wedi cefnogi, ac wedi herio lle y bo angen, fentrau gweithredol yn y maes hwn, gan gynnwys canllawiau newydd ar y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol gan bersonél y BBC, yn broffesiynol ac yn bersonol; canllawiau newydd ar ddiueddrwydd; a rhaglen hyfforddiant uchelgeisiol ar ddiueddrwydd, wedi'i theilwra yn ôl genre a chyfrifoldeb golygyddol. Mae sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu allbwn diduedd o ansawdd uchel yn flaenoriaeth sylfaenol i'r Pwyllgor. Byddwn yn parhau i fonitro sgoriau didueddrwydd a gwaith ymchwil perthnasol arall er mwyn cefnogi gwaith y BBC yn y maes hwn.

Ym mis Mai 2021, cynhaliwyd cyfres gymhleth o etholiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Roedd diwrnod yr etholiad ei hun y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn, ond cafodd y canllawiau ar sut y byddai'r BBC yn mynd i'r afael â'r etholiadau hyn yn deg, a'r meini prawf ar gyfer dyrannu darllediadau etholiadol pleidleisio eu cymeradwyo o fewn y cyfnod adrodd hwn. Sicrhodd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol fod y canllawiau ar gyfer yr etholiadau yn adlewyrchu ymrwymiad y BBC i gywirdeb a didueddrwydd dyledus, bod yr holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol yn cael eu bodloni, a bod y canllawiau yn adlewyrchu'r amgylchiadau yn y gwledydd datganoledig. Gweithiodd y Pwyllgor hefyd i sicrhau bod y meini prawf ar gyfer dyrannu darllediadau etholiadol pleidiau yn deg ac yn cydymffurfio'n llawn â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

Un o swyddogaethau craidd y Pwyllgor yw goruchwyllo proses gwynion y BBC a sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau golygyddol y BBC a chod darlledu Ofcom. Yn dilyn adolygiad annibynnol o'r broses gwynion yn 2019, dirprwyodd Bwrdd y BBC yr awdurdod i roi argymhellion yr adolygiad hwn ar waith i'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol mewn perthynas â'r argymhellion hyn ac mae'n bleser nodi bod pob un o'r argymhellion wedi'u cwblhau, neu wrthi'n cael eu cwblhau. Cafodd fframwaith gwynion y BBC ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu canlyniad yr adolygiad hwn. Daeth y fframwaith newydd yn weithredol ym mis Mehefin 2020, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae nifer y cwynion a wneir i'r BBC yn achos pryder o hyd. Gwelwyd cynnydd mawr unwaith eto yn nifer y cwynion a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Ar gam 1 o'r broses gwyno, derbyniodd y BBC 462,255 o gwynion, cynnydd o 93,878 o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y rhesymau dros y cynnydd hwn o flwyddyn i flwyddyn ac wedi gofyn i'r Bwrdd Gweithredol edrych ar y ffordd yr ymdrinnir â chwynion yn weithredol.

Er gwaethaf y nifer mawr o gwynion, llwyddwyd i gyrraedd y targedau ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol a bennwyd gan Ofcom, sef 93% ac 80% ar gyfer ateb cwynion ar gamau 1 a 2 o'r broses gwyno yn y drefn honno. Ymdriniwyd â

93% o gwynion ar gam 1 ac 87% o gwynion ar gam 2 o fewn terfyn amser y targed, sef 10 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion cam 1; 20 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion cam 2 safonol a 35 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion cam 2 cymhleth.

Mae system 'BBC first' ar gyfer ymdrin â chwynion yn gweithio'n dda ac nid yw Ofcom wedi gwrthdroi unrhyw un o benderfyniadau'r BBC. Canfu Ofcom fod y BBC wedi torri adrannau 7 ac 8 o'r cod darlledu (tegwch a phreifatrwydd) ar ddaau achlysur yn ystod y cyfnod adrodd hwn – unwaith ar gyfer *Reporting Scotland* (a ddarlledwyd 6 Mai 2020) ac unwaith ar gyfer *Newsnight* (a ddarlledwyd 5 Tachwedd 2019). Gall cwynion sy'n ymwneud â thegwch a phreifatrwydd gael eu cyfeirio'n uniongyrchol i Ofcom, ac nid oes angen iddynt ddilyn system 'BBC first'. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi derbyn y canfyddiadau hyn ac mae gwersi wedi'u rhannu â thimau rhaglenni.

Yn unol â gofynion Ofcom, mae'r BBC yn parhau i gyhoeddi bob pythefnos fanylion cwynion ynglŷn â rhaglen lle y cyflwynwyd dros 100 o gwynion ac sy'n dod o fewn cylch gwaith cod darlledu Ofcom. Cyhoeddir y bwletin hyn yn: bbc.co.uk/contact/complaint-service-reports. Ers i'r fframwaith gwynion newydd gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2020, mae'r bwletin hyn nawr yn cynnwys fersiynau â rhesymau llawn o ganfyddiadau a gadarnhawyd a chanfyddiadau a ddatryswyd yn ogystal â rhai canfyddiadau na chawsant eu cadarnhau.

Cwynion golygyddol a gwersi a ddysgwyd

Roedd y mwyafrif o gynnwys y BBC yn cydymffurfio â'r safonau a bennwyd yng nghanllawiau golygyddol y BBC. Fodd bynnag, nododd y Bwrdd Gweithredol yr achosion difrifol canlynol o dorri'r canllawiau golygyddol a chyflwynwyd adroddiad ar bob achos i'r Pwyllgor, ynghyd â'r camau a gymerwyd.

No Country for Young Women, podlediad BBC Sounds – dau achos o dorri'r canllawiau.

Cafodd fideo byr o'r bennod ei gyhoeddi ar Twitter heb ddilyn y protocolau cywir ar gyfer defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Tynnwyd y fideo i lawr.

Roedd yr ail achos o dorri'r canllawiau yn ymwneud â phennod nad oedd yn cydymffurfio yn cael ei darlledu oherwydd problemau technegol.

Camau a gymerwyd: mae gweithdrefnau cydymffurfio wedi cael eu tynhau ar gyfer podlediadau a'u rhannu â thimau golygyddol.

Panorama – ffilmio mewn hosbis heb gydsyniad priodol. Camau a gymerwyd: mae'r asesiadau risg wedi cael eu tynhau ac mae hyfforddiant gloywi wedi'i roi ar gydsyniad. Ni chafodd y rhaglen ei darlledu.

Drivetime, BBC Radio Scotland – achos o dorri canllawiau cywirdeb yn ystod cyfweliad byw am ddigwyddiad mewn hostel i geiswyr lloches yn Glasgow. Camau a gymerwyd: rhoddwyd ymddiheuriad ar yr awyr.

BBC Africa – camymddygiad yn ystod ymchwiliad i garchardai yn ne Affrica. Camau a gymerwyd: cafodd yr ymchwiliad ei atal dros dro.

Life and Birth – achos o dorri preifatrwydd. Camau a gymerwyd: tynnwyd y rhaglen oddi ar iPlayer a'i golygu. Rhoddwyd hyfforddiant ar gydsyniad deallus wrth ffilmio mewn lleoliadau sensitif.

Llywodraethu

Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol parhad

Blue Peter – achos o dorri canllawiau ar wrthdaro buddiannau/ amlygrwydd amhriodol wrth gyhoeddi cyflwynydd newydd. Camau a gymerwyd: rhoddwyd esboniad o'r canllawiau i gyflwynwyr ac asiantau llai profiadol.

5 live Breakfast – amlygrwydd amhriodol yn ystod cyfweiliad â llysgennad brand. Camau a gymerwyd: mae staff cynhyrchu wedi cael eu hatgoffa am y canllawiau.

BritBox US – cyhoeddi cyfres nad oedd yn cydymffurfio. Camau a gymerwyd: mae'r strwythur llywodraethu wedi cael ei adolygu ac mae proses uwchgyfeirio golygyddol newydd bellach ar waith.

BBC Radio London/Radio Lleol y BBC – roedd galwr maleisus yn targedu gorsafoedd radio lleol a llwyddodd i fynd ar yr awyr ar *Sunny and Shay* – BBC Radio London. Defnyddiwyd iaith sarhaus a bu oedi cyn dod â'r alwad i ben oherwydd problemau staffio. Camau a gymerwyd: mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r polisi cydymffurfiaeth er mwyn sicrhau bod digon o gymorth ar gael ar gyfer darllediadau byw.

Dancing with the Stars, Nepal – dawns amhriodol a oedd yn torri trwydded y fformat. Camau a gymerwyd: ni chaiff y drwydded ei hadnewyddu gyda'r darlledwr hwn ac mae newidiadau wedi cael eu gwneud i drwyddedau ar gyfer y fformat hwn i gynnwys yr hawl i'w terfynu ar unwaith os nad oes siawns o'u hadfer.

Our School, CBBC – dangoswyd clip cyflym o blentyn ar y sgrin heb gydsyniad. Camau a gymerwyd: rhoddwyd y gorau i ddangos y rhaglen yn syth. Cytunwyd ar fesurau cydsyniad ychwanegol â'r cwmni cynhyrchu a'r ysgol.

BBC Arabic Trending – cyfweiliad â therfysgwr a euogfarnwyd a oedd yn torri'r canllawiau golygyddol. Camau a gymerwyd: mae'r clip wedi'i dynnu oddi ar lwyfannau digidol. Mae'r broses gymeradwyo wedi cael ei hatgyfnerthu.

Yn ogystal â'r achosion hyn o dorri'r canllawiau, canfu Uned Cwynion Bwrdd Gweithredol y BBC gyfanswm o 40 o achosion o dorri'r safonau golygyddol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Fel gyda'r achosion difrifol o dorri'r canllawiau golygyddol, rhoddir gwybod i'r Pwyllgor am yr achosion hyn, a'r camau a gymerwyd gan y Bwrdd Gweithredol.

Rwy'n ddiolchgar i'm cyd-gyfarwyddwyr anweithredol, Nicholas Serota a Tanni Grey-Thompson, am eu gwaith ar y Pwyllgor hwn wrth oruchwylio safonau golygyddol. Y flwyddyn hon, gadawodd Tony Hall y Pwyllgor a chroesawyd Tim Davie yn ei le. Mae Tim yn ymuno â Fran Unsworth fel cynrychiolwyr gweithredol ar y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol, a bydd David Jordan yn parhau yn ei rôl fel prif gynghorydd i'r Pwyllgor.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn chwarae rôl allweddol yn yr adolygiad o arferion golygyddol y BBC yn dilyn adroddiad yr Arglwydd Dyson ar gyfweiliad Panorama â Diana, Tywysoges Cymru yn 1995. Caiff yr adolygiad hwn ei arwain gan Nicholas Serota.

Ian Hargreaves**Cadeirydd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol**

18 Mehefin 2021

Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd

Mae'r pedwar Pwyllgor ar gyfer y Gwledydd yn cefnogi'r Bwrdd drwy adolygu a monitro allbwn a pherfformiad y BBC ar draws y DU. Yn yr adran hon ceir adroddiad gan y Cadeirydd ar waith pob Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Cymru

Dominyddwyd y flwyddyn ddiwethaf gan bandemig Covid-19. Cyfarfu'r Pwyllgor yn rhithwir drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cyfarfod anffurfiol ychwanegol yn gynnar yn ystod y pandemig, er mwyn clywed mwy am y ffordd yr addasodd BBC Cymru Wales i heriau gweithio o bell ac effeithiau'r cyfyngiadau symud ar gynrychiadau teledu yn benodol.

Er gwaethaf y ffaith na chynhaliwyd unrhyw ddiwyddiadau chwaraeon mawr a bod llai o gynrychiadau drama ac adloniant, llwyddodd y BBC i ddiwallu anghenion newidiol cynulleidfaoedd a'u galw am wybodaeth ddibynadwy, a gwelwyd *BBC Wales Today* yn taro deuddeg gyda chynulleidfaoedd. Comisiynwyd rhaglenni eraill i adlewyrchu'r cyfyngiadau symud a'u heffaith ym mhob cwr o'r wlad; er enghraifft, roedd *Wales in Lockdown* yn gyfres pum rhan ar gyfer BBC One Wales a wnaeth gyfleu'r ffordd y bu'n rhaid i unigolion addasu ac ymdopi â heriau newydd digynsail. Gwelwyd gorsafodd radio BBC Cymru yn addasu eu hamserlenni'n gyflym ac yn effeithiol er mwyn sicrhau bod gan wrandawyr ym mhob cwr o Gymru gyfaill ffyddlon drwy gydol y pandemig, gyda'u hoff gyflwynwyr yno i'w tywys. Digwyddodd hyn oll yn erbyn cefndir cyfarwydd a brofwyd gan gynifer ledled y byd; gweithiodd y timau'n gyflym i fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio – gan gynnwys gweithio o bell i raddau helaeth – o gychwyn cyntaf yr argyfwng.

Er i'r pandemig a'i heriau i gyflogeion a'r busnes yn gyffredinol gael cryn sylw ym mhob cyfarfod, gwnaethom barhau â'n sesiwn Ymgysylltu â Chynulleidfaoedd reolaidd yn yr hydref a chyfarfod ag aelodau cynulleidfaoedd o dde a gogledd-orllewin Cymru, er mwyn clywed am eu profiadau yn ystod y cyfyngiadau symud a'r gwasanaethau cyfryngau a ddefnyddiwyd ganddynt ac a fu'n fwyaf gwerthfawr iddynt yn ystod y cyfnod hwn.

Ymunodd Ian Hargreaves, Ken MacQuarrie, Rhodri Talfan Davies a Rhys Evans â mi ar y Pwyllgor. Ar ddiwedd 2020, ymddeolodd Ken MacQuarrie o'r Pwyllgor a chafodd Rhodri Talfan Davies gyfrifoldebau ychwanegol fel rhan o'i rôl newydd fel Cyfarwyddwr y Gwledydd. Diolch i Ken MacQuarrie am ei gyngor doeth dros y blynyddoedd. Bu'n aelod amhrisiadwy o'r Pwyllgor hwn.

Cwblhaodd BBC Cymru Wales y broses o symud i'w bencadlys newydd yn Sgwâr Canolog, Caerdydd yn ystod y flwyddyn, a hoffwn i a'm cyd-aelodau o'r Pwyllgor longyfarch Rhodri Talfan Davies a'i dîm gweithredol am wneud hyn mewn ffordd mor llwyddiannus. Er bod ein cyfarfodydd rhithwir dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn addysgiadol ac wedi ein galluogi i gael trafodaethau adeiladol, byddai cyfarfodydd wyneb yn wyneb fel arfer wedi galluogi cydweithwyr i gael trafodaethau mwy anffurfiol. Yn ein cyfarfodydd yn y dyfodol, rydym yn edrych ymlaen at roi cynlluniau Ar Draws y DU y BBC ar waith, a'r cyfleoedd y byddant yn eu cynnig i BBC Cymru.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yng Nghymru ar dudalennau 32, 162 a 170 o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Elan Closs Stephens DBE
Cadeirydd Pwyllgor Cymru
18 Mehefin 2021

Yr Alban

2020 oedd blwyddyn pandemig Covid, felly roedd yn her fawr i'n timau cynhyrchu. Bu'n rhaid gohirio neu newid llawer o raglenni. Ond fel Cadeirydd Pwyllgor yr Alban, mae'n bleser gennyf nodi bod BBC Scotland wedi goresgyn yr heriau hyn er mwyn sicrhau bod ein cynulleidfaoedd yn parhau i gael cynnwys gwych.

O fewn dyddiau i'r cyfyngiadau symud cyntaf, wrth i ysgolion gau eu drysau, daeth sianel BBC Scotland yn adnodd pwysig ar gyfer darllediadau o raglenni Bitesize ac Authors Live yn ystod yr wythnos, gan helpu dysgwyr, athrawon a rhieni. Ac ar ôl i wasanaethau crefyddol gael eu hatal dros dro ac wrth i adeiladau gau, bu cyflwyno *Reflections at the Quay* a *The Service* o fudd i wahanol gymunedau ffydd yn yr Alban, a chafodd y rhaglenni eu gwerthfawrogi'n fawr. Wrth i'r pandemig barhau i gymryd troeon trwstan, darparodd BBC Scotland y newyddion diweddaraf, gan ddarlledu Briffiadau Iechyd y Prif Weinidog, dadansoddiadau'r arbenigwyr meddygol a chyfweliadau â'r gwrth-bleidiau.

Mae menter Ar Draws y DU, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn newid mawr i'n polisi comisiynu rhaglenni. Am y tro cyntaf, caiff 60% o gynrychiadau teledu eu comisiynu o'r tu allan i Lundain a De-ddwyrain Lloegr, sef cynnydd o 10%, a 50% o gomisiynau Radio, sef cynnydd arall o 10%. Lleihaodd gwariant yn 2020/21 o ganlyniad i atal rhaglenni dros dro yn sgil Covid, ond mae arwyddion o adferiad i'w gweld ar gyfer 2021/22. Bydd cefnogwyr rygbi yn falch o weld bod y BBC wedi sicrhau hawliau i ddarlledu pob un o gemau cartref yr Alban ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad am bedair blynedd o 2022.

Roedd y Pwyllgor yn arbennig o falch bod Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC wedi nodi bod sianel BBC Scotland wedi perfformio'n gymharol dda yn ystod ei blwyddyn gyntaf, gan ddenu lleisiau a thalent newydd. Braff gweld hefyd fod y sianel yn cyrraedd cynulleidfaoedd ifanc, nas gwasanaethir yn ddigonol. Erbyn hyn, BBC Scotland yw'r sianel sydd â'r gynulleidfa fwyaf yn yr Alban ar wahân i'r pum prif sianel.

Tua diwedd y flwyddyn, cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth ar gynlluniau ar gyfer yr Etholiadau ym mis Mai. Cynhyrchwyd rhaglenni â thema arbenigol, gan gynnwys pynciau megis Iechyd, Addysg, Newid Hinsawdd, a Dyfodol yr Alban. Cynhaliwyd dwy Ddadl ar gyfer yr Arweinwyr hefyd. Cafodd y ddadl gyntaf, a gynhaliwyd ar 30 Mawrth, ei gwyllo gan 1.2 miliwn o bobl ar draws y DU. Gwylodd 1.9 miliwn o bobl raglenni canlyniadau etholiad BBC Scotland, sef 43% o holl oedolion yr Alban. Roedd hyn yn berfformiad neilltuol. Mae hefyd yn braff nodi menter SpeakGaelic sydd ar ddod ar BBC ALBA, gyda chynnwys ar y sianel deledu, y rhyngwrwyd a sianel YouTube ALBA.

Er gwaethaf Covid, parhaodd Pwyllgor yr Alban i gynnal ei gyfarfodydd yn rhithwir, gan gynnwys sesiynau ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chyfarfod arbennig â Chyngor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban. Gwnaethom rannu barn am natur a phwysigrwydd parhaus darlledu cyhoeddus.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd newidiadau yn aelodaeth y Pwyllgor. Daeth Steve Carson yn Gyfarwyddwr BBC Scotland yn dilyn ymddeoliad Donald MacKinnon, a daeth Rhodri Talfan Davies yn Gyfarwyddwr Gwledydd y BBC. Gan y bydd fy nghyfnod fel Aelod yr Alban yn dod i ben y flwyddyn nesaf, hwn fydd fy Adroddiad Blynyddol olaf. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Ken MacQuarrie, cyn-Gyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau, am ei wasanaeth hir i'r BBC a'i waith i sefydlu Pwyllgorau Gwledydd y Bwrdd newydd. Diolch hefyd i gyn-Gadeirydd y BBC, Syr David Clementi, a fu'n aelod, ac i Ian Small, Cyfarwyddwr Polisi BBC Scotland, am ei waith gwych ar ran y Pwyllgor.

Steve Morrison
Cadeirydd Pwyllgor yr Alban
18 Mehefin 2021

Gogledd Iwerddon

Cyfarfu Pwyllgor Gogledd Iwerddon ddwywaith yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn yn rhithwir, o ystyried cyfyngiadau Covid-19, a gwnaethant edrych yn fanwl ar y sylw a roddwyd gan y BBC i'r pandemig a'i effaith ar wasanaethau lleol a chynulleidfaoedd.

Rydym yn disgwyl i aelod anweithredol o Fwrdd y BBC dros Ogledd Iwerddon gael ei benodi. Bydd gan yr unigolyn hwn rôl bwysig i'w chwarae wrth arwain y broses o ddatblygu gwaith y Pwyllgor, gan gynnwys ei ymgysylltiad â thimau'r BBC a rhanddeiliaid lleol.

Yn ystod y flwyddyn, mae aelodau'r Pwyllgor wedi cynnwys Peter Johnston, Cyfarwyddwr BBC Northen Ireland, a Mark Adair, Pennaeth Materion Corfforaethol BBC NI. Mynychodd Elan Closs Stephens gyfarfodydd fel aelod anweithredol, a mynychodd y cyn-Gadeirydd, David Clementi, gyfarfodydd hefyd. Mae Ken MacQuarrie a David Clementi bellach wedi gadael y Pwyllgor ac mae Rhodri Talfan Davies wedi ymuno â'r Pwyllgor fel Cyfarwyddwr newydd y Gwledydd. Mae Fran Unsworth, Cyfarwyddwr Newyddion, hefyd yn aelod o'r Pwyllgor. Caiff aelodaeth, rôl a gweithgareddau'r Pwyllgor eu mireinio fel rhan o'r ymrwymadau a nodir yng Nghynllun Blynyddol y BBC ac ochr yn ochr â phenodi Aelod o Fwrdd y BBC dros Ogledd Iwerddon.

Y flwyddyn hon, wynebodd y BBC a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu yng Ngogledd Iwerddon heriau sylweddol. Trafododd y Pwyllgor ymateb y BBC i Covid-19 ar draws ei amrywiaeth o allbynnau lleol, gan gynnwys y rôl bwysig a chwaraewyd gan ein rhaglenni newyddion. Edrychodd hefyd ar y sylw a roddwyd i ddatblygiadau yn ymwneud â Brexit a chynlluniau i nodi canmlwyddiant y Rhaniad a sefydlu Gogledd Iwerddon.

Cafodd y Pwyllgor wybodaeth fanwl am ddata ar gynulleidfaoedd a pherfformiad ariannol y BBC yng Ngogledd Iwerddon. Clywodd am effaith cynrychiadau drama rhwydwaith a rôl y BBC yn eu heconomi greadigol ehangach, y mae llawer ohono wedi cael ei ategu gan ein partneriaeth â Northern Ireland Screen. Cafodd hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau buddsoddi'r BBC yn y rhanbarth a'r modd y gellir addasu'r cynlluniau hyn i ystyried anghenion ac amgylchiadau sy'n newid a sicrhau'r manteision mwyaf i gynulleidfaoedd.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd y Pwyllgor yn ystyried yr hyn y mae ymrwymadau Ar Draws y DU y BBC yn ei olygu i gynulleidfaoedd lleol, cynhyrchwyr rhaglenni a'r diwydiannau creadigol. Bydd am adeiladu ar y gwaith a wnaed gan Ken MacQuarrie fel Cadeirydd y Pwyllgor a deall y ffyrdd y gellir datblygu a gwella allbwn lleol a rhwydwaith BBC Northen Ireland ymhellach.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yng Ngogledd Iwerddon ar dudalennau 34, 163 a 179 o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Pwyllgor Gogledd Iwerddon

18 Mehefin 2021

Lloegr

Hoffai'r Pwyllgor ganmol gwaith tîm BBC England yn ystod yr hyn a fu'n flwyddyn eithriadol o anodd i bawb – staff a chynulleidfaoedd fel ei gilydd. Parhaodd y Pwyllgor i gyfarfod o bell yn ystod y flwyddyn, a'i ffocws yn ystod y cyfnod hwn fu cefnogi'r staff i weithio mewn amgylchiadau anodd, gwrando ar adborth ar fentrau cynulleidfaoedd, a rhoi trosolwg o'r broses o roi cynlluniau newydd ar gyfer Lloegr ar waith.

Drwy gydol y pandemig, rhoddodd BBC England wybodaeth a newyddion lleol dibynadwy i gynulleidfaoedd, a chysylltodd gymunedau yn fwy nag erioed. Hefyd, trawsnewidiodd y tîm y gwasanaeth yn llwyddiannus i ganolbwyntio'n fwy ar gynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol, cymhwyso'r hyn a ddysgwyl o'r pandemig er mwyn darparu gwasanaeth gwell a mwy effeithlon i gynulleidfaoedd, a sicrhau gwerth £25 miliwn o arbedion blynyddol.

Rhan fawr o waith y Pwyllgor bob amser fu cwrdd â chynulleidfaoedd gwahanol ym mhob cwr o'r wlad er mwyn clywed eu barn am ein gwasanaethau'n uniongyrchol. Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, dim ond un sesiwn ymgysylltu â chynulleidfaoedd y bu modd i ni ei chynnal y flwyddyn hon, a hynny drwy fideo gynhadledd.

Mae'r flwyddyn hon wedi dangos yn glir bwysigrwydd gwasanaethau lleol i gynulleidfaoedd, yn arbennig ar adegau heriol pan fo gwybodaeth y gellir ymddiried ynddi a chymorth cymunedol yn hanfodol. Cysylltodd bron 4.5 miliwn o bobl â gorsafodd radio lleol drwy ymgyrch Make a Difference, sy'n cysylltu grwpiau, sefydliadau a gwrandawyr sydd am gynnig help i'r rhai anghenus, a disgwylir i'r ymgyrch hon gael ei hymestyn i bob rhan o'r BBC bellach. Bwletin rhanbarthol 6.30pm oedd y rhaglen newyddion a wylwyd fwyaf yn Lloegr o hyd, gan ddenu'r gynulleidfa gyfartalog fwyaf yn y wlad o blith unrhyw un o'r rhaglenni teledu ar unrhyw sianel am 23 wythnos yn olynol ar ddechrau 2021.

Yn ystod y flwyddyn, cadeiriwyd y Pwyllgor gan Dr Ashley Steel, y daeth ei benodiad ar y Bwrdd i ben ym mis Rhagfyr. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn ddiolchgar tu hwnt am ei gwaith caled a'i hymrwymiad i'r rôl. Mae aelodau eraill o'r Pwyllgor y flwyddyn hon wedi cynnwys Tom Ilube, aelod anweithredol o'r Bwrdd, Helen Thomas, Cyfarwyddwr Lloegr, ac Adrian Mills, Cyfarwyddwr Busnes a Gweithrediadau Lloegr. Penodwyd Rhodri Talfan Davies yn Gyfarwyddwr y Gwledydd ar y Pwyllgor yn lle Ken MacQuarrie. Edrychwn ymlaen at goesawu aelod newydd y Bwrdd dros Loegr, Syr Robbie Gibb, a fydd yn cadeirio'r Pwyllgor y flwyddyn hon.

Pwyllgor Lloegr

18 Mehefin 2021

Adroddiad y Pwyllgor Masnachu Teg

Hon oedd fy mlwyddyn olaf fel Cadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg, gan fy mod wedi ymddeol o Fwrdd y BBC ym mis Mehefin 2021. Bu'n fraint cadeirio'r Pwyllgor yn ystod fy nghyfnod ar y Bwrdd a gweld prosesau a dulliau rheoli'r BBC mewn perthynas â masnachu a risg gwahanu yn cryfhau ac yn datblygu dros amser. Mae rôl y Pwyllgor yn gul, ond yn hanfodol, o ran monitro a sicrhau gwahanu priodol rhwng gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a masnachol y BBC, yn unol â'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau masnachol a bennwyd gan Ofcom.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn glir, sef cynorthwyo'r Bwrdd i fodloni gofynion rheoleiddio masnachu a gwahanu Ofcom, fel y'u nodir yn ei Fframwaith Gweithredu. Mae nifer o ddulliau a phrosesau ar waith i'n helpu i wneud hyn. Yn ystod y flwyddyn mae busnes y Pwyllgor wedi cynnwys:

- ystyried prosesau'r BBC ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Ofcom ac adolygu cydymffurfiaeth â'r rhain;
- derbyn adroddiad rheoli chwarterol gan y Pwyllgor Gweithredol, sy'n nodi gwaith ymgysylltu penodol â materion Masnachu Teg newydd a pharhaus ym mhob rhan o'r BBC; rhoi cyngor i'r Bwrdd ar faterion sy'n rhan o'n cylch gwaith;
- adolygu a monitro targedau ar gyfer hyfforddiant Masnachu Teg ar draws y BBC;
- cymeradwyo pob cyhoeddiad ac adroddiad perthnasol y mae'n rhaid i'r BBC ei ddarparu'n benodol er mwyn cydymffurfio â rheolau masnachu a gwahanu Ofcom.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi dechrau edrych yn fanylach ar y gwaith ar fasnachu a gwahanu mewn is-adrannau penodol. Gwnaethom ddechrau drwy gynnal archwiliad trylwyr o'r ffordd y mae BBC Studios yn rheoli'r materion ar yr ochr fasnachol. Rydym hefyd wedi edrych yn fanwl ar faterion ym maes Newyddion, gan gynnwys goruchwyllo'r newidiadau posibl i gytundebau lefel gwasanaeth o ganlyniad i symud BBC Global News i BBC Studios.

Ynghyd â hyn, rydym yn cyflwyno adroddiad risg a sicrwydd rheolaidd i'r Pwyllgor ac rydym wedi parhau i fonitro rheolaethau allweddol, megis darparu hyfforddiant ar Fasnachu Teg, yn ofalus. Erbyn hyn, mae cyfraddau cwblhau wedi cyrraedd y lefelau targed, ac mae nifer mwy nag erioed o gydweithwyr wedi cael hyfforddiant. Mae hyn er clod i'r timau ym mhob rhan o'r BBC sydd wedi ymwneud â modiwlau ar-lein newydd ac wedi helpu i'w cyflwyno.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y systemau a'r prosesau ar gyfer rheoli masnachu a gwahanu yn parhau i weithio'n dda. Mae'r farn honno wedi'i hategu gan waith sicrwydd Masnachu Teg blynyddol, annibynnol Deloitte. Y flwyddyn hon, roeddem yn falch o weld iddo nodi bod y BBC wedi sefydlu a chyflwyno system o reolaethau mewnol ynghylch cydymffurfio â'r gofynion Masnachu Teg. Cyflwynir ei adroddiad dros y dudalen. Gwnaethom hefyd nodi na chafwyd unrhyw gwynion ffurfiol ynghylch Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod 2020/21, cafodd y Pwyllgor ei gefnogi'n dda gan ei aelodau, sef Ian Hargreaves, Steve Morrison a Shirley Garrod. Mae Shirley a minnau bellach wedi ymddiswyddo o'r Pwyllgor ac mae trefniadau i fynd â'i waith rhagddo wrthi'n cael eu gwneud. Hefyd, cafodd y Pwyllgor ei gefnogi'n dda gan arbenigedd timau Polisi, Cyfreithiol, Ysgrifenyddiaeth a rhannau masnachol o'r BBC.

Wrth i mi adael fy rôl ar y Bwrdd ac ar y Pwyllgor, rwy'n falch o fod wedi goruchwyllo'r broses o drosglwyddo'r BBC i'w reoleiddiwr allanol cyntaf ac o fod wedi helpu i feithrin cyberthynas gadarnhaol rhwng y BBC ac Ofcom. Gwn y bydd y Pwyllgor yn parhau i chwarae rôl bwysig ar gyfer y BBC o ran sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl reolau perthnasol ac yn cynnal ymddiriedaeth a hyder sefydledig y diwydiant ehangach.

.....
Tom Ilube CBE

Cadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg yn ystod blwyddyn adrodd 2020/21

18 Mehefin 2021

Beth yw ystyr Masnachu Teg?

Masnachu Teg yw'r term rydym yn ei ddefnyddio i ddisgrifio ein prosesau a'n harferion, o fewn y BBC ac wrth ddelio â thrydydd partion, er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau masnachol a'n gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod yn briodol ar wahân ac yn masnachu â'i gilydd ar sail marchnad. Mae hyn yn golygu na all y rhannau o'r BBC a ariennir gan ffi'r drwydded roi mantais gystadleuol annheg i weithrediadau masnachol y BBC nac i unrhyw gwmni cynhyrchu annibynnol arall rydym yn ymwneud ag ef. Caiff y rheolau hyn eu goruchwyllo gan Ofcom, sy'n gosod y rheolau masnachu a gwahanu fel rhan o'i fframwaith cyffredinol ar gyfer y BBC, a gan bartion eraill fel y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sy'n ceisio sicrhau bod unrhyw ddefnydd o arian ffi'r drwydded yn briodol ac yn bodloni ein gofyniad.

Beth mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn ei wneud?

Sefydlwyd y Pwyllgor Masnachu Teg gan y Bwrdd er mwyn monitro a sicrhau gwahanu priodol rhwng gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a masnachol y BBC, yn unol â'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau masnachol a bennwyd gan Ofcom. Sefydlwyd y Pwyllgor gan y Bwrdd yn wirfoddol i gydnabod pwysigrwydd tryloywder ac effeithlonrwydd masnachol i'r BBC wrth weithredu ei is-gwmnïau masnachol.

Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw goruchwyllo cydymffurfiaeth y BBC â'n rhwymedigaethau rheoleiddiol ar gyfer masnachu a gwahanu rhwng yr is-gwmnïau gwasanaeth cyhoeddus a masnachol*. Ymhlith cyfrifoldebau craidd y Pwyllgor mae'r canlynol:

- ystyried adroddiadau ar y graddau y mae gweithgareddau'r BBC yn gyson â gofynion masnachu a gwahanu Ofcom;
- parhau i adolygu cydymffurfiaeth y BBC â gofynion rheoleiddio masnachu a gwahanu Ofcom;
- comisiynu a chael yr archwiliad annibynnol blynyddol o reolaethau cydymffurfio;
- ystyried datganiad o wahanu gweithredol, adroddiadau blynyddol a llawlyfr masnachu grŵp y BBC, a'u cymeradwyo i'w cyhoeddi;
- sicrhau bod methodolegau prisiau trosglwyddo'r BBC yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cafodd y rheolau masnachu a gwahanu eu diweddarau ddiwethaf gan Ofcom ym mis Ebrill 2021 ac maent yn rhan o fframwaith Ofcom ar gyfer gweithgareddau masnachol y BBC, sy'n rheoleiddio rhyngweithio'r BBC â'r farchnad drwy ei weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau ei is-gwmnïau masnachol.

Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau'r canlynol:

- bod yr holl weithgareddau masnachol yn cael eu cyflawni gan is-gwmnïau masnachol;
- bod unrhyw is-gwmnïau ar wahân i wasanaeth cyhoeddus y BBC yn weithredol;
- ei fod yn darparu nwyddau a gwasanaethau i is-gwmnïau masnachol ar sail telerau masnachol hyd braich;
- bod is-gwmnïau yn gwneud enillion masnachol;
- bod y BBC yn sicrhau bod prosesau priodol ar waith o ran tryloywder, monitro ac adrodd ar weithgareddau'r is-gwmnïau.

Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r rheolau hyn, mae'r Pwyllgor yn goruchwyllo ac yn sicrhau prosesau a gweithdrefnau'r BBC er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth uchel o'r fframwaith. I wneud hyn, mae tîm Rheoleiddio'r BBC yn rheoli rhaglen hyfforddi wedi'i thargedu ar gyfer staff sy'n debygol o ddod ar draws materion Masnachu Teg. Gwelwyd gwelliannau sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf mewn perthynas â chyfraddau cydymffurfio hyfforddiant ar Fasnachu Teg, yn sgil y broses o fapio gofynion hyfforddiant gorfodol i rolau yn Fframwaith Llwybrau Gyrfa y BBC. O ganlyniad, mae cyfraddau cydymffurfio wedi cynyddu'n gyson, hyd at 98.2% ar gyfer hyfforddiant lefel Uwch a 92.3% ar gyfer hyfforddiant lefel Ymwybyddiaeth yn C4 2020/21. Mae hyn diolch i ymateb da i waith monitro a chyfathrebu parhaus drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys ymgysylltu ar lefel uwch a negeseuon atgoffa, adroddiadau a gohebiaeth arall a anfonwyd at arweinwyr timau, prif swyddogion gweithredu a chyfarwyddwyr is-adrannol gan BBC Academy.

Rhan o rôl y Pwyllgor yw cael ei frifio ynghylch cwynion perthnasol ym maes rheoleiddio a Masnachu Teg y mae'r BBC yn eu cael ac yn ymdrin â nhw. Fodd bynnag, fel y nodir ar dudalen 117 o'r Adroddiad Blynyddol, ni chafwyd unrhyw gwynion ym maes rheoleiddio na Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn.

Sut mae'r Pwyllgor yn gweithio

Yn 2020/21, roedd y Pwyllgor Masnachu Teg yn cynnwys pedwar cyfarwyddwr anweithredol: Tom Ilube (Cadeirydd), Shirley Garrod, Ian Hargreaves a Steve Morrison. Ymddiswyddodd Tom Ilube o'r Bwrdd ar 30 Mehefin 2021, ac mae trefniadau ar gyfer y Pwyllgor yn y dyfodol wrthi'n cael eu hystyried gan y Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn, mynychwyd cyfarfodydd y Pwyllgor Masnachu Teg gan y Cyfarwyddwr Polisi a'r Rheolwr Rheoleiddio, yn ogystal â'r Prif Swyddog Ariannol, Pennaeth Cyfreithiol Masnachol a chynghorwyr eraill fel y bo angen. Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, gyda phapurau hefyd yn cael eu cymeradwyo all-lein fel y bo angen. Mae'r tabl mynychu cyfarfodydd i'w weld ar dudalen 94.

Er mwyn cefnogi'r fframwaith, a sicrhau'r ffordd y mae'r BBC yn ymdrin â rheoleidd-dra a'r defnydd o arian cyhoeddus, mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn parhau i gomisiynu sicrwydd blynyddol gan archwilwyr annibynnol o'i wirfodd. Nodir adroddiad yr Archwilydd ar y dudalen nesaf.

Ar ôl cael adroddiadau gan uwch-reolwyr perthnasol, ac ar ôl ystyried canfyddiadau'r Archwiliad Masnachu Teg, mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn fodlon bod pob gwasanaeth masnachol wedi bodloni'r meini prawf uchod yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021.

* Yn 2020/21 – BBC Studios, BBC Studioworks a Global News

Adroddiad Sicrwydd Annibynnol ar Fasnachu Teg i'r BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

Barn am drefniadau Masnachu Teg

Yn ein rôl fel darparwr sicrwydd rhesymol Masnachu Teg y BBC, rydym wedi asesu'r system o reolaethau mewnol a sefydlwyd yn y BBC i gydymffurfio ag agweddau ar Fasnachu Teg gofynion Masnachu a Gwahanu Ofcom ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 ('y Trefniadau Masnachu Teg').

Yn ein barn ni, mae'r BBC wedi sefydlu a chyflwyno system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol iddo gydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021.

Cyfrifoldebau Bwrdd y BBC

Mae Ofcom wedi rhoi dyletswydd ar y Bwrdd i sefydlu a gweithredu system o reolaethau mewnol sydd â'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth â Threfniadau Masnachu Teg y BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021, gan gynnwys nodi ac asesu'r risgiau a allai beryglu Masnachu Teg a llunio ymatebion i risgiau o'r fath a'u rhoi ar waith.

Ein hannibyniaeth a rheoli ansawdd

Rydym wedi cydymffurfio â gofynion Cod Moeseg ICAEW o ran annibyniaeth a materion moesegol eraill y cod sy'n seiliedig ar egwyddorion sylfaenol uniondeb, gwrthrychedd, cymhwysedd proffesiynol a sylw dyledus, cyfrinachedd ac ymddygiad proffesiynol.

Ein cyfrifoldebau

Rydym yn gyfrifol am fynegi barn am reolaethau mewnol y BBC i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Trefniadau Masnachu Teg, yn seiliedig ar ein gwaith sicrwydd. Gwnaethom gynnal proses sicrwydd rhesymol yn unol â Safon Ryngwladol ar Ymrwymadau Sicrwydd (ISAE) 3000 (Diwygiedig), Ymrwymadau Sicrwydd ac eithrio Archwiliadau neu Adolygiadau o Wybodaeth Ariannol Hanesyddol.

Mae'n ofynnol i ni gynllunio a chyflawni ein gweithdrefnau er mwyn cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r BBC wedi sefydlu a chymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021. Cynhaliwyd asesiad risg er mwyn nodi'r agweddau hynny ar gyfundrefn reoli Masnachu a Gwahanu'r BBC a oedd fwyaf tebygol o arwain at beidio â chydymffurfio â'r Trefniadau Masnachu Teg, gan ganolbwyntio ein profion manwl ar y meysydd hyn. Dewiswyd achosion unigol o gofnod masnachu teg y BBC i'w hadolygu, a gwnaethom archwilio cofnodion ysgrifenedig a chyfweld â phartion perthnasol ar gyfer pob un. Fel rhan o'n gwaith, archwiliwyd y trefniadau ar gyfer prisiau trosglwyddo a gwahanu, defnyddio brand y BBC a thalu amdano, a chymhwyso gofyniad y Siarter Frenhinol nad yw gweithgareddau masnachol y BBC, o ganlyniad i'w cydberthynas â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau nad ydynt yn rhai gwasanaeth neu weithgareddau masnachu, yn gwyrddroi'r farchnad nac yn rhoi mantais gystadleuol annheg. Drwy ein gwaith, gwelsom ddiwylliant o ymgynghori ac atgyfeirio o ran materion Masnachu Teg.

Cyfyngiadau annatod

Mae pob system rheolaeth fewnol yn destun cyfyngiadau, ac yn unol â hynny efallai na fydd y rheolaethau mewnol a sefydlwyd gan y BBC yn atal nac yn canfod pob achos o beidio â chydymffurfio â'r Trefniadau Masnachu Teg. At hynny, oherwydd bod materion masnachu teg yn gofyn am farn a allai yn y pen draw gael ei phrofi mewn llys barn, gan yr awdurdod cystadleuaeth neu yn rhywle arall, mae bob amser risg o her hyd yn oed lle y dilynwyd y system o reolaethau mewnol a lle y gwnaed penderfyniadau gyda'r gofal mwyaf.

Defnyddio ein hadroddiad

Gwnaed yr adroddiad hwn i'r BBC yn unig yn unol â'r cyfarwyddiadau y cytunwyd arnynt â'r Pwyllgor Masnachu Teg ar ran y BBC. Cynhaliwyd ein gwaith er mwyn i ni allu hysbysu'r Pwyllgor Masnachu Teg am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni ei hysbysu amdanynt mewn adroddiad sicrwydd annibynnol ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r BBC am ein gwaith, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Deloitte LLP

Llundain, y DU

18 Mehefin 2021

Llywodraethu

Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC baratoi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon archwiliedig.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn ei gyfrifoldeb am baratoi adroddiad strategol, datganiadau o gydymffurfiaeth â chodau a rheoliadau cymwys (gan gynnwys adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd) a'r datganiad o gyfrifon y bwriedir iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r BBC a'i is-gwmnïau (y 'Grŵp') a'r incwm a'r gwariant ar gyfer y cyfnod hwnnw. Mae'r Bwrdd wedi paratoi'r cyfrifon yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE. Ni chaiff y Bwrdd gymeradwyo'r datganiad o gyfrifon (neu'r 'datganiadau ariannol') oni fydd yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau a sefyllfa ariannol y Grŵp a'r gwarged neu'r diffyg yn y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd wedi gwneud y canlynol:

- dewis polisiâu cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarvoudus;
- nodi a gawsant eu paratoi yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, am ei fod o'r farn y bydd y BBC yn parhau i weithredu.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y BBC a datgelu sefyllfa ariannol y Grŵp yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'i alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol ac adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd yn cydymffurfio â'r Siarter. Hefyd, mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol i gymryd y cyfryw gamau sy'n rhesymol agored iddo i ddiogelu asedau'r BBC ac atal a chanfod achosion o dwyll ac anghysondebau eraill.

Caiff cyfrifoldebau'r Bwrdd am sicrhau bod y BBC yn gwarchod arian cyhoeddus yn drylwyr, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra rheoli adnoddau'r BBC, eu nodi yn erthygl 16 o'r Siarter.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gynnal gwefan y BBC a sicrhau ei bod yn gywir. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd mewn swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, y caiff eu henwau a'u swyddogaethau eu rhestru yn adran Llywodraethu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred:

- bod y datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE, yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol a diffyg y Grŵp;
- bod yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys adolygiad teg o ddatblygiad a pherfformiad y busnes a sefyllfa'r Grŵp, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebir ganddo;
- bod yr Adroddiad Blynyddol, yn ei gyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar dalwyr ffi'r drwydded i asesu perfformiad, model busnes a strategaeth y Grŵp.

Datganiad datgelu gwybodaeth i archwilywyr


Mae aelodau'r Bwrdd a oedd mewn swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilywyr y BBC yn ymwybodol ohoni; ac mae pob aelod o'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd fel aelod o'r Bwrdd er mwyn dod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a phennu bod archwilywyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Busnes gweithredol

Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi rhagamcanion llif arian parod am gyfnod y tu hwnt i flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, ac maent wedi adolygu'r rhagamcanion hyn, ynghyd â'r materion sensitif a'r ffactorau lliniarol yng nghyd-destun yr arian sydd ar gael.


Mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod y BBC mewn sefyllfa dda i reoli'r risgiau a bod ganddo ddigon o adnoddau i barhau i weithredu am y 12 mis nesaf o leiaf. O ganlyniad, mabwysiadwyd sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Cafodd y datganiad hwn ei gymeradwyo gan y Bwrdd.



Richard Sharp
Cadeirydd

18 Mehefin 2021

A photograph of Zoe Ball, a blonde woman with shoulder-length hair, wearing a black blazer and headphones. She is sitting in a radio studio, with a microphone in front of her and various pieces of audio equipment in the background. A clock on the wall shows 09:50:11.

*The Zoe Ball Breakfast Show
BBC Radio 2*

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus



Mae'r adran hon yn amlinellu ein cynnydd tuag at wahanol ymrwymïadau cyhoeddus. Daw'r ymrwymïadau hyn o'r Siarter, y Cytundeb, ein rhwymedigaethau o dan y Drwydded ac ymrwymïadau a wnaed gennym i gyflenwi gwasanaethau i'n cynulleidfaoedd.

Y ddrama Anthony, enillydd BAFTA, a ddarlledwyd ar BBC One

Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau cyhoeddus **Cydymffurfiaeth reoleiddiol**

Mae'r tabl isod yn nodi cydymffurfiaeth y BBC â'r amodau rheoleiddio yn Nhrwydded Weithredu Ofcom. Mesurir cydymffurfiaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 oni nodir yn wahanol. Trefnir y gofynion isod yn ôl diben cyhoeddus.

Llwyddodd y BBC i fodloni bron bob un o'i 148 o amodau o dan y Drwydded Weithredu, gyda 15 o eithriadau, a ddangosir isod.

Ym mhob achos, roedd y rhain o ganlyniad i effaith Covid-19. Mae'r pandemig wedi cael cryn effaith ar y gwaith o gynhyrchu rhaglenni newydd a'u hargaeledd, rhoi sylw i ddigwyddiadau ac, weithiau, ar argaeledd staff, sydd, yn anochel, wedi effeithio ar ein gallu i gyflawni yn erbyn rhai o'n cwtâu rheoleiddiol. Rydym wedi bod mewn cysylltiad ag Ofcom drwy gydol y pandemig er mwyn ei hysbysu am effaith Covid ar ein gweithrediadau a'n gallu i fodloni rhwymedigaethau ein Trwydded Weithredu. Rydym wedi cyflwyno tystiolaeth i Ofcom bod achosion o dorri amodau'r drwydded o ganlyniad i Covid-19 a'n bod wedi gwneud pob ymdrech resymol i barhau i gyflawni'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus. Ni ddisgwyliwn i Ofcom gymryd camau gorfodi.

Amod o'r Drwydded Weithredu		Cwota	Gwirioneddol	Gwahaniaeth
2.8.1	Newyddion yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos ar Radio 1	1 awr y dydd	Tair munud o dan yr amod am dri diwrnod rhwng 21 a 23 Rhagfyr 2020	
2.9.1	Newyddion yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos ar 1Xtra	1 awr y dydd	Dim ond 57 munud y dydd hyd at 10 Awst 2020	
2.15	Rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar BBC Asian Network	24 awr yr wythnos	O dan y cwota yn 2020/21 am 1 awr a 16 munud am 35 o wythnosau, o dan 59 munud am 12 wythnos arall. Adferwyd ym mis Mawrth.	
2.27.2	Rhaglenni dogfen (heb gynnwys ailddarlediadau) ar Radio 2	130 awr	71 awr	-59 awr
2.28.2	Perfformiadau byw neu berfformiadau a recordiwyd yn arbennig ar Radio 3	440 o berfformiadau	336 o berfformiadau	64 o berfformiadau
2.36	Rhaglenni gwreiddiol CBeebies a ddangosir am y tro cyntaf yn y DU ar y teledu ac iPlayer	100 awr	82 awr	-18 awr
2.39.4	Sesiynau cerddoriaeth fyw ar Radio 1	175 awr	73 awr	-102 awr
2.41	Sylwebaeth chwaraeon fyw ar Radio 5 live	20 o gampau	16 o gampau	-4 o gampau
2.53.2	Gwariant Rhwydwaith Teledu'r BBC ar raglenni a wnaed yn y DU y tu allan i'r M25	50%	47.9%	-2.1%
2.56.2	Gwariant Rhwydwaith Teledu'r BBC ar raglenni a wnaed yn yr Alban	8%	6.5%	-1.5%
2.60.3	Gwariant Rhwydwaith Teledu'r BBC yng Ngogledd Iwerddon	3%	1.7%	-1.3%
2.67.2	Oriau o raglenni o ddidordeb cenedlaethol neu ranbarthol ar BBC One a BBC Two	5,909 awr	5,793 awr	-116 awr
2.67.6	Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion o ddidordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn ystod oriau brig ar BBC One a BBC Two	557 awr	470 awr	-87 awr
2.81	Bwletinau newyddion byw BBC ALBA yn ystod yr wythnos a bwletinau estynedig ar y penwythnos	Dd/G	Dim bwletinau estynedig ar y penwythnos rhwng mis Ebrill a 30 Awst 2020	
2.87	Rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion ar BBC Two Wales	175 awr	145 awr	-30 awr

Diben Un: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

	Nodyn	Cwota	Cyflawnwyd
BBC One			
Newyddion drwy gydol y dydd		✓	✓
Oriau o newyddion	1	1,520 (280 yn ystod oriau brig)	2,043 (322 yn ystod oriau brig)
Oriau o faterion cyfoes yn ystod oriau brig	1	45	50
BBC One a BBC Two			
Oriau o faterion cyfoes	1,2	450 (106 yn ystod oriau brig)	503 (111 yn ystod oriau brig)
CBBC			
Newyddion drwy gydol y dydd		✓	✓
Oriau o newyddion		35	63
BBC News			
Mwy o newyddion rhyngwladol na phrif sianelau newyddion parhaus eraill yn y DU		✓	✓
Mwy o newyddion lleol/rhanbarthol na phrif sianelau newyddion parhaus eraill yn y DU		✓	✓
Radio 1			
Oriau o newyddion yn ystod y dydd bob diwrnod o'r wythnos	3	1	1
Dau fwletin newyddion estynedig (un yn ystod oriau brig) bob diwrnod o'r wythnos	3	✓	✓
Bwletin rheolaidd yn ystod y dydd ar benwythnosau		✓	✓
1Xtra			
Oriau o newyddion yn ystod y dydd bob diwrnod o'r wythnos	3	1	57 munud
Dau fwletin newyddion estynedig bob diwrnod o'r wythnos		✓	✓
Bwletin rheolaidd yn ystod y dydd ar benwythnosau		✓	✓
Radio 2			
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		17 (3 yn ystod oriau brig)	17 (3 yn ystod oriau brig)
Bwletin rheolaidd		✓	✓
Radio 3			
Newyddion drwy gydol y dydd		✓	✓
Radio 4			
Oriau o newyddion a materion cyfoes		2,750	2,983
Adroddiadau dyddiol o drafodion Senedd y DU pan fo Senedd y DU yn eistedd		✓	✓
BBC Radio 5 Live			
% yr allbwn sy'n newyddion a materion cyfoes		75	78
Sylw helaeth i etholiadau lleol a chyffredinol, etholiadau siambrau datganoledig y DU, a sylw rheolaidd i wleidyddiaeth Ewropeaidd a rhyngwladol		✓	✓
BBC 6 Music			
Oriau wythnosol o newyddion		6	6
BBC Asian Network			
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes	4	24	Gweler Nodyn 4
BBC Ar-lein			
Darparu dolenni digonol i ddeunydd trydydd partion		✓	✓
Newyddion dyddiol a gwybodaeth i blant. Fe'u darperir drwy gynnwys mewn amrywiaeth o fformatau gwahanol, gan gynnwys erthyglau ar ffurf testun, fideos a darnau rhyngweithredol, sy'n ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau a dylid cynnwys newyddion a dadansoddiadau manwl.		✓	✓

Nodiadau

1 Mesurwyd ar draws blwyddyn galendr 2020

2 Mesurwyd ar draws y ddau wasanaeth

3 Bodlonodd Radio 1 yr amod am bob diwrnod heblaw tri diwrnod yn ystod y flwyddyn, pan oedd dair munud o dan yr amod am awr o newyddion yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos o ganlyniad i gollu un bwletin Y diwrnodau hyn oedd 21 – 23 Rhagfyr 2020 Mae Radio 1Xtra wedi bod dair munud o dan yr amod am awr o newyddion o ganlyniad i gollu un bwletin

4 Darlledodd BBC Asian Network 22 awr 44 munud o gynnwys newyddion a materion cyfoes am 35 wythnos yn ystod 2020/21, 23 awr 1 munud am 12 wythnos arall yn ystod y cyfnod hwnnw Dechreuodd yr orsaf ddarlledu o leiaf 24 awr o gynnwys newyddion a materion cyfoes unwaith eto ar ddechrau mis Mawrth ar ôl newid i'r amserlen Mae hyn o ganlyniad i effaith Covid-19, a arweiniodd at gyfyngiadau ar nifer y staff yn adeiladau'r BBC a effeithiodd wedyn ar yr ymdrech gynhyrchu yr oedd ei hangen ar gyfer rhaglenni newyddion

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus **Cydymffurfiaeth reoleiddiol *parhad***

Diben Dau: Cynorthwyo pobl o bob oedran i ddysgu

	Nodyn	Cwota	Cyflawnwyd
BBC One Oriau o'r celfyddydau a cherddoriaeth, gyda rhywfaint yn ystod oriau brig		45	51
BBC One a BBC Two Oriau o raglenni crefyddol	1	115	136
BBC Two Oriau o'r celfyddydau a cherddoriaeth, gyda rhywfaint yn ystod oriau brig		175	290
BBC Four Oriau newydd o raglenni celfyddydol a cherddoriaeth		175	229
CBeebies Amrywiaeth o gynnwys sy'n helpu plant cyn oedran ysgol i ddysgu		✓	✓
CBBC Oriau o ddrama Oriau o raglenni ffeithiol		1,000 675	1,534 1,562
BBC ALBA Oriau wythnosol gwreiddiol ar gyfer dysgwyr Gaeleg		5	12
Radio 1 Nifer y rhaglenni dogfen newydd		40	41
1Xtra Nifer y rhaglenni dogfen		40	47
Radio 2 Oriau o raglennu celfyddydol Oriau o raglenni dogfen newydd Oriau o allbwn crefyddol gan gwmpasu sawl ffydd	2	100 130 170	129 71 190
Radio 3 % yr allbwn byw neu gerddoriaeth a recordiwyd yn arbennig Nifer y perfformïadau byw neu berfformïadau a recordiwyd yn arbennig Nifer y darnau o waith cerddorol newydd a gomisiynwyd Nifer y rhaglenni dogfen newydd ar y celfyddydau a phynciau diwylliannol	3	45 440 25 35	51 336 50 41
Radio 4 Oriau o raglenni dogfen gwreiddiol Oriau o raglennu crefyddol gwreiddiol gan gwmpasu sawl ffydd		375 200	428 201
BBC 6 Music Oriau o raglenni dogfen, traethodau a rhaglenni nodwedd llafar		520	570
BBC Ar-lein Cynnwys sy'n helpu plant a phobl ifanc gyda'u dysgu ffurfiol ar draws y DU		✓	✓

Nodiadau
 1 Mesurwyd ar draws y ddau wasanaeth
 2 Heb gynnwys ailddarllediadau Darlledodd Radio 2 71 awr o raglenni dogfen gwreiddiol yn y flwyddyn ariannol 2020/21, 59 awr o dan yr amod Roedd hyn o ganlyniad i effaith Covid-19 ar allu'r timau cynhyrchu a'r talent i gwblhau a chyflwyno prosiectau
 3 Darlledodd Radio 3 336 o berfformïadau byw neu berfformïadau a recordiwyd yn arbennig yn ystod 2020/21, sef 64 o berfformïadau o dan y cwota Cafodd pandemig Covid-19 effaith fawr iawn ar gerddoriaeth a pherfformïadau byw, gan gyfyngu ar allu'r BBC i wneud recordiadau

Diben Tri: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

	Nodyn	Cwota	Cyflawnwyd
Teledu			
% yr oriau a oedd yn rhaglenni gwreiddiol	1,2		
BBC One		75	84
BBC One yn ystod oriau brig		90	99
BBC Two		75	88
BBC Two yn ystod oriau brig		90	92
BBC Four		75	80
BBC Four yn ystod oriau brig		60	78
BBC News		90	98
BBC Parliament		90	97
CBBC		72	80
CBeebies		70	73
BBC ALBA		75	94
BBC Scotland		75	98
Oriau o raglenni gwreiddiol a ddangoswyd gyntaf yn ystod y dydd ac yn ystod oriau brig			
BBC One	2,3	4,000	4,186
BBC Two		2,200	2,251
CBBC a BBC iPlayer		350	369
CBBC		175	369
CBeebies a BBC iPlayer	4	100	82
CBeebies		50	82
BBC One a BBC Two			
Oriau o raglenni comedi, rhai yn ystod oriau brig	5	300	329
Radio			
Radio 1			
% y gerddoriaeth yn ystod y dydd gan artistiaid o'r DU		45	51
% y gerddoriaeth newydd yn ystod y dydd, gyda chyfran helaeth gan artistiaid newydd neu artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU	6	50	51
Oriau wythnosol o gerddoriaeth arbenigol		60	71
Nifer y sesiynau newydd byw neu a recordiwyd yn y tri mis blaenorol (heb gynnwys ailddarllediadau)	7	175	73
Amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na darparwyr cymaradwy	8	✓	✓
Nifer yr ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol mawr	2,9	2	2
Radio 2			
% y gerddoriaeth yn ystod y dydd gan artistiaid o'r DU		40	49
% y gerddoriaeth newydd yn ystod y dydd, gyda chyfran helaeth gan artistiaid newydd neu artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU	10	20	24
Oriau o gerddoriaeth fyw		260	261
Oriau o gerddoriaeth arbenigol		1,100	1,249
Amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na darparwyr cymaradwy	8	✓	✓
BBC Radio 5 Live			
Nifer y digwyddiadau chwaraeon â sylwebaeth fyw	11	20	16

Nodiadau

- 1 Cynrychiadau gwreiddiol yn cynnwys holl raglenni'r BBC a gomisiynwyd, gan gynnwys ailddarllediadau
- 2 Mesurwyd ar draws blwyddyn galendr 2020
- 3 Nid yw rhaglenni gwreiddiol a ddangoswyd am y tro cyntaf yn cynnwys ailddarllediadau
- 4 Darlledodd CBeebies 18 awr o dan yr amod o ganlyniad i ohirio bron bob cynhyrchiad teledu ar gyfer CBBC a CBeebies am gyfnod o sawl mis o leiaf ar ôl i'r cyfyngiadau symud gael eu cyflwyno yn y DU ym mis Mawrth 2020
- 5 Mesurwyd ar draws y ddau wasanaeth
- 6 Roedd 39% o'r ychwanegiadau at restr chwarae Radio 1 yn ystod 2020 gan 'artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU'
- 7 Darlledodd Radio 1 73 o sesiynau newydd yn ystod 2020/21, 102 o sesiynau o dan yr amod Y rheswm dros hyn oedd nad oedd modd recordio sesiynau byw newydd (ac felly eu darlledu) i raddau helaeth o stiwdio Maida Vale y BBC o ganlyniad i reolau cadw pellter cymdeithasol
- 8 Gan ystyried sawl gwaith y'i chwaraewyd a maint y rhestr chwarae, yn ystod y dydd ac yn ystod oriau brig
- 9 Yr ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol oedd Her Step To Everest Radio 1 a helpodd i godi ymwybyddiaeth ac arian i Sport Relief 2020 ym mis Mawrth 2020 Ym mis Tachwedd 2020, rhoddodd Minute Of Me 60 eiliad i wrandawyr annerch y DU Disgrifiodd rhai yr adfyd roeddent wedi'i wynebu, roedd rhai yn codi calonnau, roedd eraill am sôn am iechyd meddwl
- 10 Roedd 17% o'r ychwanegiadau at restr chwarae Radio 2 yn ystod 2020 gan 'artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU'
- 11 Amharodd pandemig Covid-19 yn fawr iawn ar y chwaraeon byw a oedd ar gael Fodd bynnag, ar ôl i bêl-droed a chwaraeon domestig eraill ddychwelyd yn ystod haf 2020, ychwanegodd 5 live yr US National Football League a chreffft ymladd drwy'r Ultimate Fighting League at ei rhaglenni sylwebaeth fyw Y rhestr gyflawn o chwaraeon yw Pêl-droed y Dynion, Pêl-droed y Menywod, Tennis, Golff y Dynion, Golff y Menywod, Bocsió'r Dynion, Bocsió'r Menywod, Rasio Ceffylau, Criced y Dynion, Rygbi'r Dynion, Rygbi'r Gynghrair, Snwcer, Athletau, Formula One, NFL ac UFL

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus
Cydymffurfiaeth reoleiddiol parhad

Diben Pedwar: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol

	Nodyn	Cwota	Cyflawnwyd
Teledu Rhwydwaith			
Ystod addas o raglenni a wneir y tu allan i ardal yr M25	1	✓	✓
% yr oriau a wnaed yn...mewn ystod addas o ganolfannau cynhyrchu			
Y DU (y tu allan i ardal yr M25)	1	50	60
Lloegr (y tu allan i ardal yr M25)		30	37
Yr Alban		8	15
Cymru		4	5
Gogledd Iwerddon		2	2
% y gwariant a wnaed yn...mewn ystod addas o ganolfannau cynhyrchu			
Y DU (y tu allan i ardal yr M25)	1	50	48
Lloegr (y tu allan i ardal yr M25)	2	28	31
Yr Alban	2	8	7
Cymru		5	8
Gogledd Iwerddon	2	3	2
BBC One			
Oriau o newyddion o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol drwy gydol y dydd	1	4,300 (2,100 yn ystod oriau brig)	4,446 (2,198 yn ystod oriau brig)
BBC One a BBC Two			
Oriau o raglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol	1,3,4	5,909	5,793
Ystod addas o raglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol	1,4	✓	✓
% y rhaglenni a wnaed yn y lleoliad perthnasol	1,4	95	99
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn ystod oriau brig	1,4,5	557	470
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn agos i oriau brig	1,4	179	284
BBC One Scotland			
Oriau o newyddion a materion cyfoes		290	408
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		155	207
Amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban		✓	✓
BBC One Wales			
Oriau o newyddion a materion cyfoes		275	395
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		65	229
BBC Two Wales			
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion	6	175	145
BBC One Wales a BBC Two Wales			
Amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru	4	✓	✓
BBC One Northern Ireland			
Oriau o newyddion a materion cyfoes		310	348
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		90	144
BBC Two Northern Ireland			
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		60	183
Rhaglenni Gwyddeleg a Sgoteg-Wlster.		✓	✓
BBC One Northern Ireland a BBC Two Northern Ireland			
Amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant Gogledd Iwerddon	4	✓	✓
BBC Parliament			
Oriau o drafodion o Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon		300	1,078
Radio Rhwydwaith			
% gwariant gorsafoedd radio rhwydwaith y tu allan i ardal yr M25	7, 8	30	35
% gwariant Radio 3 y tu allan i ardal yr M25	7	28	32

	Nodyn	Cwota	Cyflawnwyd
BBC Ar-lein			
Newyddion a gwybodaeth i ranbarthau Lloegr		✓	✓
Sylw i chwaraeon yn rhanbarthau Lloegr		✓	✓
Newyddion a gwybodaeth i'r Alban		✓	✓
Cynnwys Gaeleg		✓	✓
Sylw i chwaraeon yn yr Alban		✓	✓
Newyddion a gwybodaeth i Gymru		✓	✓
Cynnwys Cymraeg		✓	✓
Sylw i chwaraeon yng Nghymru		✓	✓
Newyddion a gwybodaeth i Ogledd Iwerddon		✓	✓
Cynnwys Gwyddeleg a Sgoteg-Wlster		✓	✓
Sylw i chwaraeon yng Ngogledd Iwerddon		✓	✓
Gwasanaethau'r Gwledydd a'r Rhanbarthau			
BBC Scotland			
Amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban		✓	✓
Amrywiaeth addas o raglenni, gan gynnwys newyddion yr Alban	1	✓	✓
% y rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a wnaed yn yr Alban	1	90	98
Oriau o newyddion yn ystod oriau brig	1, 9	250	283
BBC ALBA			
Newyddion byw bob noson o'r wythnos, gan gynnwys oriau brig, ac adolygiad hirach o'r newyddion ar benwythnosau	10	✓	✓
Radio Lleol y BBC			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar	11, 12	60	64
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar	11	100	100
Newyddion a gwybodaeth sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal a'r cymunedau a wasanaethir drwy gydol y dydd	11	✓	✓
Cynnwys nad yw'n newyddion sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal a'r cymunedau a wasanaethir	11	✓	✓
Oriau wythnosol o raglenni gwreiddiol, a wnaed yn lleol	12, 13	95	119
BBC Radio Guernsey – Oriau wythnosol o raglenni gwreiddiol, a wnaed yn lleol		80	114
BBC Radio Jersey – Oriau wythnosol o raglenni gwreiddiol, a wnaed yn lleol		80	89
BBC Radio Somerset – Oriau wythnosol o raglenni gwreiddiol, a wnaed yn lleol		70	107
BBC Radio Scotland			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar		60	89
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar		100	100
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		50	61
Sawl rhaglen eithrio ranbarthol bob diwrnod o'r wythnos, sy'n cynnig newyddion, chwaraeon a gwybodaeth, gan gynnwys rhaglennu cymunedol gyda'r nos		✓	✓
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i'r Alban		✓	✓
BBC Radio nan Gàidheal			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar		40	49
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar		100	100
Newyddion mynych yn ystod y dydd, yn enwedig yn ystod oriau brecwast brig ac oriau brig yn ystod y prynhawn yn ystod yr wythnos ac oriau brig ar benwythnosau		✓	✓
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i'r Alban		✓	✓
BBC Radio Wales			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar		60	71
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar		100	100
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		32	42
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i Gymru		✓	✓
BBC Radio Cymru			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar		60	65
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar		100	100
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		23	27
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i Gymru		✓	✓
BBC Radio Ulster			
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		35	39
BBC Radio Foyle			
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		20	23
BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar	4	60	69
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar	4	100	100
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i Ogledd Iwerddon	4	✓	✓
Oriau o raglennu mewn iaith leiafrifol frodorol, gan gynnwys Gwyddeleg a Sgoteg-Wlster	4	240	254

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus

Cydymffurfiaeth reoleiddiol *parhad*

Nodiadau

- 1 Mesurwyd ar draws blwyddyn galendr 2020
- 2 Effeithiwyd ar wariant Rhwydwaith Teledu'r BBC ar raglenni a wnaed yn y DU y tu allan i'r M25, yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon o ganlyniad i bandemig Covid-19 Arweiniodd hyn at wariant is ar raglennu yn 2020 ar gyfer pob genre ac ym mhob un o bedair gwlad y DU
- 3 Darparodd y BBC 116 o oriau yn llai na'r hyn sy'n ofynnol o dan yr amod Y prif reswm dros hyn oedd methiant y BBC i fodloni'r amod ar gyfer oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion, o ganlyniad i newidiadau staffio gofynnol er mwyn rhoi mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith
- 4 Mesurwyd ar draws y ddau wasanaeth
- 5 Darparodd y BBC 87 o oriau yn llai na'r amod Mae hyn o ganlyniad i effaith Covid-19 ar wahanol elfennau, megis y broses o gynhyrchu rhaglenni penodol, canslo digwyddiadau byw (ac felly'r darllediadau) a chyfyngiadau yn ystod oriau brig ar gyfer rhaglenni eithrio ar BBC One
- 6 Roedd BBC Two Wales 30 o oriau yn llai na'r amod Mae hyn o ganlyniad i nifer o ffactorau, pob un yn ymwneud ag effaith Covid ar ddsbarthu a chynhyrchu Y ffactor mwyaf a oedd yn cyfrannu at hyn yw bod llai o raglenni chwaraeon ar BBC Two Wales
- 7 Ar 25 Mawrth 2021, newidiwyd y cwota ar gyfer 2020/21 o 33.3% i 30% ar gyfer % gwariant gorsafoedd radio rhwydwaith y tu allan i ardal yr M25, ac o 40% i 25% ar gyfer % gwariant Radio 3 y tu allan i ardal yr M25
- 8 Mae hyn yn cynnwys cyfraniadau gan Radio 1, Radio 2, Radio 3, Radio 4 a BBC Radio 5 live
- 9 Mesurwyd rhwng 7 00pm-10 30pm o ystyried mai o 7 00pm y mae'r sianel yn gweithredu yn bennaf
- 10 Ni allodd BBC ALBA barhau i ddarlledu ei adolygiad o'r newyddion ar y penwythnos (Dydd Sul 6 30pm – 7 30pm) (Seachd Là) o ganlyniad i Covid-19 Rhoddwyd y gorau i ddarlledu'r rhaglen rhwng 29 Mawrth a 23 Awst yn gynwysedig (cyfanswm o 22 o wythnosau, neu 22 o oriau o gynnwys) er mwyn rhyddhau'r pwysau ar y tîm newyddion Gaeleg a diogelu'r allbwn newyddion craidd
- 11 Yn gymwys i holl orsafoedd Radio Lleol y BBC Roedd pob gorsaf yn cydymffurfio ag amod y drwydded
- 12 Y ffigur a roddir yw'r ffigur cyfartalog ar gyfer y gorsafoedd perthnasol
- 13 Yn gymwys i holl orsafoedd Radio Lleol y, heblaw am BBC Radio Guernsey, BBC Radio Jersey a BBC Radio Somerset

	Nodyn	Cyflawnwyd	Adroddwyd
Amrywiaeth			
<i>Mae'n rhaid i'r BBC adrodd ar y ffordd y mae wedi:</i>			
Rhoi sylw i'r amrywiaeth o gymunedau amrywiol yn y DU.	1	✓	Gweler tudalennau 36-37 ac adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Gwasanaethu'r amrywiaeth o gymunedau amrywiol yn y DU ac wedi darparu cynnwys ar eu cyfer.		✓	Gweler tudalennau 36-37/adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Cynrychioli cymunedau amrywiol y DU yn gywir.		✓	Gweler tudalennau 36-37/adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Portreadu cymunedau amrywiol y DU yn ddilys.		✓	Gweler tudalennau 36-37/adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Codi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau amgen cymunedau amrywiol y DU.		✓	Gweler tudalennau 36-37/adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
<i>Mae'n rhaid i'r BBC adrodd ar foddhad cynulleidfaoedd:</i>			
Sut mae'r BBC yn cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol	2	✓	Gweler tudalennau 36-37/adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Sut mae'r BBC yn adlewyrchu poblogaeth gyfan y DU ar y sgrîn ac ar yr awyr.	2	✓	Gweler tudalennau 36-37/adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Sut mae'r BBC yn codi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau.	2	✓	Gweler tudalennau 36-37/adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Y camau y bydd yn eu cymryd i wella boddhad cynulleidfaoedd lle mae grwpiau cynulleidfa penodol yn anafodlon ar berfformiad y BBC yn y meysydd hyn.		✓	Gweler tudalennau 36-37/adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Y camau y mae wedi'u cymryd, ac effaith y camau hyn, i wella boddhad cynulleidfaoedd lle roedd grwpiau cynulleidfa penodol yn anafodlon ar berfformiad y BBC yn y meysydd hyn yn ystod y flwyddyn flaenorol.		✓	Gweler tudalennau 36-37/adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
<i>Mae'n rhaid i'r BBC adrodd ar amrywiaeth ei weithlu:</i>			
Amrywiaeth yr holl staff a gyflogir mewn cysylltiad â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gan gynnwys nifer y staff yn ôl nodweddion amrywiaeth gwahanol.	1	✓	Gweler yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
Lefel swydd staff o'r fath.	3, 4	✓	Gweler yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
Y math o swydd sydd gan staff o'r fath	3, 5	✓	Gweler yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
Y graddau y mae'r BBC wedi gwneud cynnydd tuag at gyflawni ei dargedau o ran amrywiaeth y gweithlu.		✓	Gweler tudalennau 52-53/yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
<i>Mae'n rhaid i'r BBC adrodd ar y canlynol:</i>			
Ei gynnydd tuag at ei dargedau o ran cynrychioli a phortreadu ar y sgrîn ac ar yr awyr.		✓	Gweler tudalen 37 ac adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth
Ei gydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth.		✓	Gweler adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth

Nodiadau

1 Gan gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a chefnidir economaidd-gymdeithasol

2 Gyda sylw penodol ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer pob genre

3 Rydym wedi cyflwyno adroddiad pellach i Ofcom yn benodol ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU er mwyn bodloni'r amodau hyn

4 Mae'n ofynnol i'r BBC adrodd ar staff o'r fath yn ôl y categorïau canlynol Aelodau a chyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd, uwch-reolwyr, rheolwyr canol/iau a staff nad ydynt yn rheolwyr Nid oes digon o aelodau na chyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd i ni adrodd ar eu hamrywiaeth yn unol â pharagraff 2 51 o'r Drwydded Weithredu Rydym yn nodi lefel swydd ein staff yn yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb a thrwy wybodaeth arall a gyflwynir i Ofcom yn ôl band cyflog a mapio hynny yn unol â chategorïau Ofcom fel a ganlyn A-C – ddim yn rheolwyr; D-E – rheolwyr canol/iau; F-SL – uwch-reolwyr

5 Mae'n ofynnol i'r BBC adrodd ar staff o'r fath yn ôl y categorïau canlynol rhaglennu, comisiynu, technegol/peirianeg, gwerthiannau/marchnata a swyddogaethau cymorth/gweinyddol

Boddhad cynulleidfaoedd gyda'r ffordd y caiff y cymunedau amrywiol yn y DU eu portreadu, eu cynrychioli a'u gwasanaethu

Mae angen i'r BBC fesur boddhad cynulleidfaoedd yn ystod y flwyddyn ariannol gyda'r ffordd y caiff y cymunedau amrywiol yn y Deyrnas Unedig gyfan eu portreadu, eu cynrychioli a'u gwasanaethu. Mae canfyddiadau arolwg 2020/21 yn dangos, yn ôl oedran, rhyw, gradd gymdeithasol, ardal o'r DU ac ymhlith cynulleidfaoedd gwyn a chynulleidfaoedd pobl dduon, Asiaidd ac ethnig Ieiafrifol, mae'r gyfran sy'n nodi bod y BBC yn effeithiol o ran y mesurau hyn yn uwch na'r rhai sy'n dweud ei fod yn aneffeithiol. Mewn rhai grwpiau cynulleidfa, er bod y mwyafrif neu fwyafrif cymharol o'r bobl a arolygwyd yn nodi bod y BBC yn effeithiol, gall y gyfran hon o bobl sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol fod yn is nag yn eu grŵp cymharu neu gall y gyfran sy'n dweud bod y BBC yn aneffeithiol fod yn uwch. Mae hyn yn dangos bod rhai grwpiau cynulleidfa yn llai bodlon ar y BBC yn hyn o beth nag eraill. Y flwyddyn hon, roedd hyn yn wir am rai mesurau ar gyfer cynulleidfaoedd C2DE o'u cymharu â chynulleidfaoedd ABC1; cynulleidfaoedd pobl duon, Asiaidd ac ethnig Ieiafrifol o'u cymharu â chynulleidfaoedd gwyn; pobl 16-34 oed o'u cymharu â chynulleidfaoedd hŷn; dynion o'u cymharu â menywod; yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Cymru a Gogledd Lloegr o'u cymharu â chyfartaledd Lloegr; a phobl sy'n anabl o'u cymharu â phobl nad ydynt yn anabl.

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus

Materion rheoleiddiol eraill

Newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU a gweithgareddau nad ydynt yn rhai gwasanaeth

O dan y Siarter a'r Cytundeb, rhaid i'r BBC asesu a yw newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn sylweddol ai peidio. Os ydynt, mae'n ofynnol i ni gyflawni Prawf Budd y Cyhoedd, sydd wedyn yn gorfod cael ei gymeradwyo gan Ofcom cyn y gall y newid gael ei wneud.

Ym mis Chwefror 2021, cymeradwyodd Bwrdd y BBC y cynnig i lansio BBC Three fel sianel ddarlledu. Gan y bydd yn Wasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU, mae'n ofynnol i'r BBC gyflawni Prawf Budd y Cyhoedd. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd y BBC ymgynghoriad ar y cynnig hwn. Ym mis Mehefin 2021, cymeradwyodd Bwrdd y BBC Brawf Budd y Cyhoedd BBC Three. Mae'r cynnig wedi cael ei gyflwyno i Ofcom er mwyn iddo gynnal ei Asesiad o Gystadleurwydd a dod i benderfyniad terfynol.

Yn ystod 2020/21, rydym wedi cynnal pum asesiad perthnasedd manwl o newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y DU neu weithgareddau nad ydynt yn rhai gwasanaeth. O'r rhain, penderfynodd y BBC nad oedd yr un yn sylweddol:

- lansio archif cerddoriaeth glasuro y BBC;
- lansio ffrwd Radio 1 Dance ar BBC Sounds;
- cyfranogiad y BBC yn YouView o dan gytundeb newydd â chyfranddalwyr;
- cyfranogiad y BBC yn y broses o integreiddio Digital UK a Freesat;
- lansio ffrwd Radio 1 Relax ar BBC Sounds.

Newidiadau i weithgareddau masnachol y BBC

O dan y Siarter a'r Cytundeb, rhaid i'r BBC asesu a yw newidiadau i'w weithgareddau masnachol yn sylweddol ai peidio. Yn ystod 2020/21, aseswyd a oedd y broses o drosglwyddo staff cynhyrchu mewnol BBC Three i BBC Studios yn newid sylweddol i weithgareddau masnachol y BBC. Penderfynodd y BBC ym mis Ionawr 2021 nad oedd hyn yn newid sylweddol.

Cwynion rheoleiddiol

O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'r BBC yn gyfrifol am ymdrin â chwynion, drwy 'BBC first'. Y flwyddyn hon, ni chawsom unrhyw gwynion ynghylch materion cystadleuaeth. Ni chawsom unrhyw gwynion ychwaith ynghylch gofynion perthnasol eraill nad oeddent yn olygyddol.

Ymrwymadau'r Cynllun Blynyddol

O dan y Siarter, mae'n ofynnol i'r BBC gyhoeddi Cynllun Blynyddol. Fel rhan o'r Cynllun Blynyddol, gwnaethom 106 o ymrwymadau cyhoeddus i wneud y BBC yn nodedig. Mae'r ymrwymadau hyn yn ymwneud yn bennaf â digwyddiadau neu ganlyniadau penodol o ran ein gwasanaethau a ddigwyddodd yn ystod 2020/21.

Diben	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	BBC One Bydd BBC One yn parhau i ddarparu llawer ehangach o genres yn ystod oriau brig o gymharu ag unrhyw sianel gymaradwy.	CYFLAWNWYD
Allbwn gwreiddiol y DU	Bydd ein dramâu yn dathlu awduron o Brydain a hunaniaeth a bywyd ym Mhrydain ar ei holl ffurfiau amrywiol, gan gynnwys <i>Small Axe</i> gan <i>Steve McQueen</i> , <i>I May Destroy You</i> Michaela Coel, a drama ffeithiol drawiadol fel <i>The Salisbury Poisonings</i> .	CYFLAWNWYD
Uchelgais creadigol	Mae BBC One yn bwriadu darlledu o leiaf ddwy gyfres ffeithiol nodedig newydd (yn amodol ar effaith Covid-19 ar brosesau cynhyrchu).	CYFLAWNWYD – 6
Uchelgais creadigol	Ni fydd yr unig ddarlledwr i gynnig comedi i'r teulu cyn y trothwy gwyllo megis <i>The Goes Wrong Show</i> a <i>Worzel Gummidge</i> os bydd modd ffilmio y flwyddyn hon.	CYFLAWNWYD
Uchelgais creadigol	BBC Two Ymrwymiad mawr i roi hwb i'r ffordd y portreadir anabledd ar y sgrin ac oddi arni.	CYFLAWNWYD
Allbwn gwreiddiol y DU	Rhaglenni ffeithiol newydd ar gyfer y DU, gan gynnwys David Olusoga ar yr Ymerodraeth Brydeinig, James Bluemel ar y rhyfel yn Irac ac <i>Universe</i> Brian Cox.	CYFLAWNWYD – Fodd bynnag, gohiriwyd David Olusoga ar yr Ymerodraeth Brydeinig ac <i>Universe</i> tan 2022
Uchelgais creadigol	BBC One a BBC Two Mae BBC One, ynghyd â BBC Two yn bwriadu (yn amodol ar effaith Covid-19 ar brosesau cynhyrchu) darlledu o leiaf: 15 o gyfresi drama newydd.	CYFLAWNWYD – 18
	Mae BBC One, ynghyd â BBC Two yn bwriadu (yn amodol ar effaith Covid-19 ar brosesau cynhyrchu) darlledu o leiaf: 10 o gyfresi comedi newydd.	CYFLAWNWYD – 12
	Mae BBC One, ynghyd â BBC Two yn bwriadu (yn amodol ar effaith Covid-19 ar brosesau cynhyrchu) darlledu o leiaf: 220 o oriau o raglenni celfyddydol a cherddoriaeth (gan gynnwys ailddarllediadau a rhaglenni a gaffaelwyd), rhai yn ystod oriau brig.	CYFLAWNWYD – 310
	Bydd BBC One, ynghyd â BBC Two yn darlledu o leiaf: 90 o oriau o raglenni dogfen newydd.	CYFLAWNWYD – 129
	Byddwn yn rhoi ein sylw mwyaf helaeth i newid yn yr hinsawdd o dan faner <i>Our Planet Matters</i> , gyda rhaglenni gan Syr David Attenborough, Hugh Fearnley-Whittingstall a Anita Rani – Mae cyfraniadau <i>Our Planet Matters</i> ar BBC Two yn cynnwys <i>Ade Adepitan yn Ade on the Frontline of Climate Change</i> a chyfres newydd ar <i>The Age of Oil</i> .	CYFLAWNWYD – Fodd bynnag, gohiriwyd Ade Adepitan yn <i>Ade on the Frontline of Climate Change</i> ac fe'i darlledwyd ym mis Ebrill 2021. Gohiriwyd <i>The Age of Oil</i> hefyd tan 2022
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Byddwn yn buddsoddi mewn mwy o raglenni o Brydain sydd wedi'u targedu at gynulleidfaoedd iau, yn apelio mwy at gynulleidfaoedd yn y grŵp C2DE economaidd-gymdeithasol, ac yn parhau i sicrhau arlwy o safon uchel i bobl dros 55 oed.	CYFLAWNWYD
Allbwn gwreiddiol y DU	BBC Three Bydd mwy na 90% o gomisiynau ffurf hir yn rhaglenni gwreiddiol o'r DU.	CYFLAWNWYD – 91%
Uchelgais creadigol	Bydd BBC Three yn darlledu o leiaf dair cyfres newydd heb eu sgriptio (yn amodol ar effaith Covid-19 ar brosesau cynhyrchu).	CYFLAWNWYD – 4
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Byddwn yn ehangu'r amrywiaeth o gynnwys a gomisiynir gan BBC Three, ond yn cadw ei ffocws ar dalent newydd, rhaglenni drama gaffaelgar, rhaglenni materion cyfoes sy'n newid bywydau a rhaglenni ffeithiol, adloniant a chomedi.	CYFLAWNWYD

Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau cyhoeddus **Ymrwymiadau'r Cynllun Blynyddol parhad**

Diben	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
Allbwn gwreiddiol y DU	BBC Four Mae BBC Four yn bwriadu darlledu o leiaf 60 awr o raglenni ffeithiol gwreiddiol (yn amodol ar effaith Covid-19 ar brosesau cynhyrchu).	CYFLAWNWYD – 63
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	CBBC Darlledu ystod ehangach o genres na sianelau teledu plant eraill.	CYFLAWNWYD
Uchelgais creadigol	Bydd CBBC yn rhoi ffocws ar ffyrdd y gall y gynulleidfa gymryd rhan, wedi'i arwain gan Blue Peter ac mewn cynnwys arall – yn enwedig yn ystod y cyfnod o gadw pellter cymdeithasol.	CYFLAWNWYD
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Adlewyrchu'r amrywiaeth o blant yn y DU er mwyn sicrhau bod pawb yn gweld eu hunain a'u bywydau'n cael eu cynrychioli ar y sgrin.	CYFLAWNWYD
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	CBeebies Darlledu ystod ehangach o genres na sianelau teledu plant eraill.	CYFLAWNWYD
Uchelgais creadigol	Bydd CBeebies yn cyflwyno ystod o brofiadau gwahanol sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth gyda chynnwys newydd megis <i>Nick Cope's Popcast</i> a <i>Hushabye Lullaby</i> , a chyfres newydd o <i>YolanDa's Band Jam</i> a <i>Boogie Beebies</i> .	CYFLAWNWYD
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Adlewyrchu'r amrywiaeth o blant yn y DU er mwyn sicrhau bod pawb yn gweld eu hunain a'u bywydau'n cael eu cynrychioli ar y sgrin.	CYFLAWNWYD
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	BBC News Ffocws ar newyddiaduraeth esboniadol a thechnegau delweddu data i helpu cynulleidfaoedd i wneud synnwyr o straeon newyddion cymhleth.	CYFLAWNWYD
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Cyrraedd cynulleidfaoedd newydd drwy fwy o bresenoldeb ar gyfer newyddion byw a newyddion sy'n digwydd ar y pryd BBC News Channel drwy BBC iPlayer a BBC News Online.	CYFLAWNWYD
	Mwy o adroddiadau rheolaidd a chynrychiolaeth gan wledydd a rhanbarthau'r DU.	CYFLAWNWYD
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	BBC Scotland Byddwn yn parhau i gyflwyno teitlau mewn ystod o genres yn cynnwys comedi, rhaglenni ffeithiol arbenigol, rhaglenni adloniant ffeithiol, cerddoriaeth a'r celfyddydau, gan adlewyrchu'r Alban fodern drwy raglenni nodedig ac arloesol o safon uchel.	CYFLAWNWYD
Allbwn gwreiddiol y DU	Mae rhaglenni dogfen ar gyfer 2020/21 yn cynnwys y cyfresi llwyddiannus <i>Murder Case</i> ac <i>Inside Central Station</i> ac mae teitlau newydd sy'n cael eu comisiynu yn cynnwys cyfres newydd unigryw gyda Billy Connolly – <i>Billy and Us</i> – a rhaglen nodedig ar hanes modern yr Alban, rhwng 1970 a 2020, i'w chyflwyno gan Kirsty Wark.	CYFLAWNWYD
	Bydd comedi yn cynnwys y gyfres ddogfen sylwadol parodi poblogaidd Scot Squad, cyfres gomedi sefyllfa newydd ei chomisiynu <i>The Scotts</i> , a bydd digrifwr anghonfensiynol Limmy yn dychwelyd gyda'i <i>Homemade Show</i> .	CYFLAWNWYD – Fodd bynnag, am fod pandemig Covid-19 wedi effeithio ar brosesau cynhyrchu, mae <i>The Scotts</i> wedi'i symud i 2021/22.
	Bydd cynnwys diwylliannol yn cynnwys ail gyfres o <i>The Big Scottish Book Club</i> , a gyflwynir gan Damian Barr, yr awdur llwyddiannus o'r Alban.	CYFLAWNWYD
Uchelgais creadigol	Byddwn yn cefnogi sector creadigol yr Alban, gan roi cyfleoedd ar gyfer talent newydd a llwyfan i ddatblygu syniadau newydd ar draws genres.	CYFLAWNWYD
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Byddwn yn parhau i ddatblygu cynigion ar gyfer talent newydd a fformatau ar gyfer cynulleidfaoedd iau, ac yn adeiladu ar y cynnwys a gynigir ar BBC iPlayer drwy ddenu amrywiaeth o gynulleidfaoedd at ein hallbwn ar wahanol lwyfannau.	CYFLAWNWYD
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Bydd newyddion a materion cyfoes yn parhau drwy <i>Debate Night</i> a <i>The Nine</i> .	CYFLAWNWYD

Diben	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	BBC ALBA Byddwn yn cynnig cynnwys Gaeleg mewn amrywiaeth o genres, gan gynnwys newyddion a materion cyfoes, rhaglenni i blant, rhaglenni ffeithiol, chwaraeon, cerddoriaeth draddodiadol a chyfoes, drama a chomedi.	CYFLAWNWYD
Allbwn gwreiddiol y DU	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn y celfyddydau i gyflwyno mwy o ddigwyddiadau cerddoriaeth a chelfyddydol byw a chwaraeon menywod yn y DU ac yn rhyngwladol.	CYFLAWNWYD
Uchelgeisiau creadigol	Bydd cydgyhyrchu rhyngwladol yn ffocws i'r sianel a'n cyflenwyr gyda rhaglenni ffeithiol nodedig megis <i>Beethoven's Gaelic Songs</i> a <i>The Far Traveller</i> a gydgyhyrchir â chwmmiau yn Awstria a Gwlad yr Iâ yn y drefn honno, ochr yn ochr â chymryd rhan weithredol yng nghynlluniau'r EBU ar gyfer rhaglenni dogfen a drama i blant.	CYFLAWNWYD
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Byddwn yn parhau i gynnig cyfleoedd datblygu i dalent newydd ym mhob disgyblaeth wrth i ni ddatblygu ein strategaeth drawslyfyan â BBC Radio nan Gàidheal. Byddwn yn datblygu amrywiaeth o adnoddau dysgu newydd i gynulleidfaoedd sydd â diddordeb mewn gwella eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth o'r iaith Aeleg a'i defnydd ohoni.	CYFLAWNWYD
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Radio 1 Byddwn yn mesur y gorgyffwrdd o ran y 100 o ganeuon a chwaraeir fwyaf ar Radio 1 a gorsafoedd masnachol allweddol bob mis er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig cymysgedd nodedig o gerddoriaeth.	CYFLAWNWYD – gweler Nodyn 1
Allbwn gwreiddiol y DU	Byddwn yn adrodd ar yr amrywiaeth o gerddoriaeth newydd ar Radio 1 a pham mor gryf yw'r gefnogaeth iddi drwy ddadansoddi ei rhestrau chwarae cyhoeddus, a chymharu perfformiad â rhestrau chwarae gorsafoedd masnachol allweddol.	CYFLAWNWYD – gweler Nodyn 2
Uchelgais creadigol	Byddwn yn anelu at ennyn diddordeb gwrandawyr â chyfres o brosiectau creadigol sy'n debyg o ran arddull i <i>Escape Room</i> a <i>Who's Got Greg?</i> Radio 1.	CYFLAWNWYD
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Bydd cefnogwyr cerddoriaeth ddawns yn gallu mwynhau cyfres o ddarllediadau o brif wyliau'r haf, byddwn yn llunio partneriaeth â nifer o fandiau ddawns allweddol er mwyn cynnig cymysgeddau newydd unigryw, ac rydym yn gobeithio cyflwyno'r 'World's Biggest Dance Show' i wrandawyr yn yr hydref.	CYFLAWNWYD – gweler Nodyn 3
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	1Xtra Bydd 1Xtra yn lansio ymgyrch fawr yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gan gomisiynu amrywiaeth o raglenni a gweithgareddau arbennig mewn dinasoedd ar draws y DU, ac arddangos artistiaid a meysydd newydd a rhoi cyfleoedd i droellwyr a dylanwadwyr.	CYFLAWNWYD
Allbwn gwreiddiol y DU	Bydd 1Xtra yn hyrwyddo artistiaid newydd o'r DU nad ydynt yn cael fawr ddim cefnogaeth gan y cyfryngau prif ffrwd. Yn ystod y dydd, daw o leiaf 35% o'r gerddoriaeth o artistiaid o'r DU, gyda'r bwriad o sicrhau bod o leiaf 50% o'r gerddoriaeth hon yn newydd. Ym mis Rhagfyr, bydd 1Xtra yn hyrwyddo uchelgais drwy'r rhestr flynyddol 'Hot For' sy'n tynnu sylw at artistiaid newydd i'w gwyllo yn 2021.	CYFLAWNWYD – 43% gan artistiaid o'r DU, yr oedd 50% ohonynt yn artistiaid newydd
Uchelgais creadigol	Bydd 1Xtra yn anelu at roi mwy o sylw i wyliau allweddol fel Carnifal Notting Hill a bydd yn cydweithio â BBC Three ar ail gyfres o <i>The Rap Game UK</i> er mwyn helpu i ddarganfod seren Rap nesaf y DU.	CYFLAWNWYD
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Mae rhaglenni 1Xtra yn targedu oedolion ifanc, gan anelu'n arbennig at apelio at gynulleidfaoedd pobl dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol nas gwasanaethir yn ddigonol.	CYFLAWNWYD

Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau cyhoeddus **Ymrwymiadau'r Cynllun Blynyddol parhad**

Diben	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Radio 2 Byddwn yn parhau i fesur y gorgyffwrdd o ran y 100 o ganeuon a chwaraeir fwyaf ar Radio 2 a gorsafoedd masnachol allweddol bob mis er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig cymysgedd nodedig o gerddoriaeth.	CYFLAWNWYD – gweler Nodyn 4
	Yn 2020/21, bydd Radio 2 yn bodloni ac yn rhagori ar y gofyniad y mae Ofcom yn ei osod arnom i sicrhau bod cyfran sylweddol o'r gerddoriaeth newydd a chwaraeir yn gerddoriaeth gan artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg yn y DU gyda'n hymrwymiad 'New To 2' i chwarae cerddoriaeth ar yr awyr nad yw ar y rhestr chwarae o gerddoriaeth newydd.	CYFLAWNWYD – 24%
Allbwn gwreiddiol y DU	Bydd Radio 2 yn chwarae amrywiaeth ehangach a mwy o ganeuon o bob genre cerddoriaeth bob yn ystod y dydd nag unrhyw orsaf radio gymaradwy yn y DU.	CYFLAWNWYD
	Drwy gefnogi eu cerddoriaeth newydd, bydd Radio 2 yn arddangos enwau newydd ond, a hynny fel rhywbeth unigryw yn y farchnad, byddwn yn ennyn diddordeb mewn artistiaid treftadaeth yn y DU ac artistiaid rhyngwladol.	CYFLAWNWYD
Uchelgais creadigol	Bydd Radio 2 yn parhau i hyrwyddo artistiaid newydd ac artistiaid treftadaeth.	CYFLAWNWYD
	Byddwn hefyd yn llunio partneriaeth unwaith eto â Gwobrau WhatsOnStage er mwyn ein helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ar draws y DU.	CYFLAWNWYD – Gweler Nodyn 5
	Bydd Radio 2 yn darlledu amrywiaeth o raglenni dogfen a sioeau cerddoriaeth arbenigol newydd, gan gynnwys dathliad o Britpop y 90au, a ffocws manwl ar gerddoriaeth Ewropeidd gyda'r canwr a chyfansoddwr caneuon Jack Savoretti, sef artist y mae'r rhwydwaith wedi'i hyrwyddo dros y pum mlynedd diwethaf.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 2 hefyd yn darlledu tymor o Weithredu Cymdeithasol ynglŷn â Galar, a bydd yn lansio trosfeddiant gwyrdd o'r rhwydwaith fel rhan o dymor ar yr amgylchedd.	CYFLAWNWYD
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Bydd Radio 2 yn parhau â'i ffocws golygyddol ar wrandawyr dros 35 oed.	CYFLAWNWYD
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Radio 3 Byddwn yn cynnig ystyriaeth tra awdurdodol ond dealladwy i lawer o gerddoriaeth o bob cyfnod ac yn ei pherfformio, gan gynnwys y traddodiad clasurol yn ei gyfanrwydd, ynghyd â jazz, cerddoriaeth y byd a genres electronig cyfoes.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn parhau i arloesi gyda rhaglenni newydd ar yr amserlen sy'n cynnwys fersiwn estynedig dwy awr newydd o <i>Record Review</i> ar nos Sul.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn cynnal dathliad drwy gydol y flwyddyn i nodi geni Beethoven 250 mlynedd yn ôl, gan gynnwys nifer o gyngherddau byw a chyfres 25 wythnos o <i>Composer of the Week</i> .	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn nodi tymhorau'r flwyddyn â chlystyrau arbennig o raglenni cerddoriaeth a llafar.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn cynnig rhaglenni llafar a phodlediadau bywiog a threiddgar a fydd yn rhoi cipolwg ar fydd cerddoriaeth a cherddorion, y celfyddydau ac artistiaid, gan ddenu cynulleidfaoedd newydd i gael profiad dyfnach o ddiwylliant Prydain, Ewrop a'r byd.	CYFLAWNWYD
Allbwn gwreiddiol y DU	Byddwn yn parhau â'n rôl ym maes dramâu sain ffurf hir unigryw a heriol.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 3 yn comisiynu 30 o weithiau newydd.	CYFLAWNWYD – 50
	Byddwn yn parhau i hyrwyddo talent newydd, boed hynny drwy New Generation Artists, New Generation Thinkers, neu BBC Introducing.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn lansio cynllun blynyddol newydd i ddarganfod Ensemble Baróc Cenhedlaeth Newydd.	CYFLAWNWYD
	Bydd BBC Introducing yn cynnig cyfleoedd i artistiaid clasurol a jazz dorri drwodd a bydd yn clyweld talent cerddoriaeth amgylchynol newydd ar gyfer y llinyn Diddosbarth.	CYFLAWNWYD
Uchelgais creadigol	Byddwn yn parhau i ddarlledu perfformiadau a recordiadau penodol o wyliau a neuaddau cyngerdd ar draws y DU, gan gynnwys Gŵyl Jazz Llundain EFG, Gŵyl Cerddoriaeth Gyfoes Huddersfield a Celtic Connections.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn parhau i ddarganfod a dathlu gwaith cyfansoddwyr sydd wedi cael eu diystyru, rhai byw a marw, a byddwn yn lansio menter newydd ar gyfer cyfansoddwyr o gefndiroedd du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, sy'n gysylltiedig â cherddorfeidd y BBC.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn parhau i ddatblygu arbrofion creadigol mewn radio araf cyfareddol.	CYFLAWNWYD

Diben	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Radio 4 a Radio 4 Extra Bydd Radio 4 yn adrodd ar fyd sy'n newid yn gyflym ac yn holi drwy raglenni newyddion a materion cyfoes trylwyr ac eang eu cwmpas. Yn benodol, bydd yn cynnig gwybodaeth a dealltwriaeth o bolisi cyhoeddus, dadl wleidyddol a materion cymdeithasol yn y DU, gan gynnwys effaith Brexit, yr etholiad yn yr UD ac effaith fyd-eang newid yn yr hinsawdd.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 4 yn darparu sgwâr gyhoeddus ym myd darlledu drwy raglenni ffeithiol, ffuglen a chomedi, er mwyn i amrywiaeth eang o leisiau a safbwyntiau gael eu clywed, fel y gall agweddau amrywiol ar y wlad ddod ar draws ei gilydd a dod o hyd i dir cyffredin.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn archwilio ac yn trafod pynciau traddodiadol mewn ffyrdd newydd er mwyn denu cynulleidfa newydd, gan alluogi Radio 4 i fynd y tu hwnt i'r amserlen a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd drwy bodlediadau a fideos ffurf gryno, gwyliau, digwyddiadau, partneriaethau ac arddangosfeydd.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 4 Extra yn parhau i guradu cynnwys llafar o bob genre a chyfnod, gyda hyd yn oed mwy o ffocws ar gomedi a chynnwys podlediadau sy'n apelio at gynulleidfaoedd iau.	CYFLAWNWYD
Uchelgais creadigol	Bydd Radio 4 yn darlledu amrywiaeth o raglenni, gyda fformatau arloesol, sy'n symud y tu hwnt i ddadansoddi problemau i ystyried atebion i rai o faterion a chwestiynau pwysicaf ein hoes.	CYFLAWNWYD
	Drwy newyddiaduraeth, rhaglenni nodwedd a drama, bydd Radio 4 yn ystyried llawer o agweddau ar ddiwyliant ym Mhrydain, gan gynnwys cyfres gyda'r Bardd Llawryfog, Simon Armitage, ac ystyriaeth o brofiad pobl dduon Brydeinig ers Windrush	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 4 yn parhau i arloesi yn y gofod digidol, gyda chyfres o bodlediadau ar fywydau go iawn athrawon a theitlau eraill sy'n cyflwyno pynciau megis daeryddiaeth a theithio i gynulleidfaoedd newydd, yn yr un ffordd ag y mae <i>You're Dead To Me</i> wedi'i wneud o ran hanes. Bydd hefyd yn parhau i ailddyfeisio drama sain i gynulleidfaoedd iau gydag ystod o deitlau newydd a fydd wedi'u hanelu at genhadaeth y podlediad.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 4 yn comisiynu dramâu clasurol a chyfoes uchelgeisiol gan awduron newydd a sefydledig ar yr awyr a thrwy bodlediadau i gynulleidfaoedd gwahanol, gan gynnwys ymgais feiddgar newydd i ddramateiddio nofelau Thomas Hardy, cyfres newydd o <i>Tracks</i> , y ddrama gynllwyn ar ffurf podlediad sydd wedi ennill gwobrau, a thymor o ffuglen o Nigeria.	CYFLAWNWYD
	Bydd comedi ar Radio 4 yn treialu fformatau newydd gan ddigrifwyr sefydledig ac yn rhoi cyfleoedd i dalent gomig newydd gyrraedd cynulleidfa genedlaethol.	CYFLAWNWYD
	Bydd Radio 4 Extra yn archwilio podlediadau newydd ac amrywiol drwy ei rhaglen unigryw <i>Podcast Radio Hour</i> .	CYFLAWNWYD
Allbwn gwreiddiol y DU	Bydd Radio 4 yn comisiynu mwy o gynnwys dogfen, drama a chomedi gwreiddiol nag unrhyw ddarlledwr arall yn y DU. Yn sgil llwyddiant rhyngwladol <i>Tunnel 29</i> y flwyddyn ddiwethaf, bydd Radio 4 yn darlledu'r rhaglen a'r podlediad nesaf yn y gyfres <i>Intrigue</i> .	CYFLAWNWYD
	Bydd <i>Newsjack</i> ar Radio 4 Extra yn parhau i fod yn gyfle unigryw i wrandawyr gyfrannu eu sgetsys a'u jôcs i'w perfformio gan ensemble <i>Newsjack</i> .	CYFLAWNWYD

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus
Ymrwymïadau'r Cynllun Blynyddol parhad

Diben	Ymrwymïad y BBC	Canlyniad
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	BBC Radio 5 live a 5 live sports extra Pan fydd chwaraeon byw yn aildechrau, bydd amrywiaeth ehangach o chwaraeon ar 5 Live a 5 live sports extra nag ar unrhyw wasanaeth cymaradwy yn 2020/21.	16 o gampau â sylwebaeth fyw gweler Nodyn 6
Allbwn gwreiddiol y DU	5 live fydd y llwyfan ar gyfer sgwrs genedlaethol ar Covid-19, a bydd hefyd yn rhoi sylw i'r holl straeon newyddion mawr eraill yn y DU ac yn rhyngwladol, gan gynnig llwyfan i wrandawyr ymuno yn y ddatl a'i llywio.	CYFLAWNWYD
	Bydd 5 live yn rhoi sylw i ddigwyddiadau gwleidyddol, meigs etholiadau lleol a maerol a Brexit, ac yn eu dadansoddi.	CYFLAWNWYD
	Mae 5 live yn ymrwymedig i ddarllodiadau allanol rheolaidd o bob cwr o'r DU, gan adlewyrchu amrywiaeth barn a rhoi llais i gwestiynau ein gwrandawyr.	CYFLAWNWYD
	Bydd 5 live yn arddangos lleisiau o bob cwr o'r DU ar ein rhaglenni ffôn dyddiol, gan gynnwys <i>Your Call</i> gyda Nicky Campbell.	CYFLAWNWYD
Uchelgais creadigol	Yn 2020/21, bydd 5 live yn parhau i gyflwyno'r digwyddiadau newyddion a chwaraeon mwyaf gydag angerdd ac arbenigedd, gan uno cynulleidfaoedd wrth i stori Covid-19 ddatbygu ac ar adegau cenedlaethol o bwys.	CYFLAWNWYD
	Bydd 5 live yn parhau i ddatblygu'r sector podlediadau gyda'i hallbwn arloesol a chreadigol.	CYFLAWNWYD
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Bydd 5 live yn apelio at gynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol gydag ystod o bodlediadau. Bydd cyfres podlediad newydd gan enillydd Gwobr Podlediad Newydd Rachel Bland, a fydd wedi'i hanelu at greu cymunedau newydd. Bydd <i>That Peter Crouch Podcast</i> yn lansio cyfres newydd a byddwn yn comisynu podlediadau newyddion adweithiol megis <i>The Coronavirus Newscast</i> .	CYFLAWNWYD
	Bydd 5 live yn parhau i adolygu ei hamserlenni, ei thalent a'i chyfranwyr ar yr awyr er mwyn adlewyrchu amrywiaeth y DU.	CYFLAWNWYD
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	BBC 6 Music Yn 2020/21, mae 6 Music yn ymrwymo i chwarae o leiaf 30% o gerddoriaeth newydd yn ystod y dydd a bydd yn parhau i chwarae mwy o ganeuon unigryw yn ystod y dydd a thros 24 awr nag unrhyw orsaf radio gymaradwy yn y DU.	CYFLAWNWYD – 35%
	Bydd 6 Music yn hyrwyddo cerddoriaeth newydd ac amgen o'r DU a ledled y byd. Yn 2020/21, ac o fewn yr allbwn yn ystod y dydd – bydd 6 Music yn parhau i ehangu'r amrywiaeth o gerddoriaeth y mae'n ei churadu, gan ddathlu byd jazz Prydain sy'n ymddangos o'r newydd, wyneb newydd a newidiol byd pync-roc a mynd ati'n ddyfal i ddod o hyd i genres ac artistiaid newydd cyffrous i'w harddangos i'n gwrandawyr cerddorol chwilfrydig o bob oedran, boed hynny drwy berfformiad byw neu berfformiadau a recordiwyd.	CYFLAWNWYD
	Bydd cyflwynwyr yr orsaf yn parhau i gynnig enghreifftiau o guradu cerddorol treiddgar heb ei ail mewn cerddoriaeth newydd gan artistiaid newydd a byddant hefyd yn ailennyn diddordeb mewn gwaith newydd grymus gan eiconau amgen o bob cyfnod a phob genre.	CYFLAWNWYD
Allbwn gwreiddiol y DU	Bydd 6 Music yn hyrwyddo lleoliadau ar lawr gwlad a lleoliadau annibynnol yn y DU ac yn parhau â'i phartneriaethau â gwyliau yn y DU.	CYFLAWNWYD
	Bydd yr orsaf yn ymrwymo i gynhyrchu 200+ o sesiynau byw, gan artistiaid sy'n dod i'r amlwg a cherddorion nodedig nad ydynt yn cael fawr ddim sylw ar radio prif ffrwd.	O ganlyniad i bandemig Covid-19, mae sesiynau byw wedi cael eu cyfyngu'n fawr – gweler Nodyn 7.
Uchelgais creadigol	Bydd 6 Music yn archwilio ystod o ddigwyddiadau cerddorol pwysig, gan gynnwys dathlu Gŵyl Glastonbury, Diwrnod y Siopau Recordiau a Diwrnod Cenedlaethol yr Albwm. Bydd <i>6 Music Recommends</i> yn tynnu sylw at enghreifftiau o guradu cerddoriaeth newydd, a chaiff genres o gerddoriaeth eu cyflwyno i gynulleidfaoedd newydd drwy dymhorau a diwrnodau arbennig megis <i>All Day Rave</i> a <i>Slow Sunday</i> .	CYFLAWNWYD – gweler Nodyn 8
	Bydd 6 Music yn cynnig dewis amrywiol ac unigryw o gerddoriaeth i bobl chwilfrydig o ystod oedran eang sy'n hoffi cerddoriaeth.	CYFLAWNWYD

Diben	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	BBC Asian Network Bydd Asian Network yn cynnig cymysgedd eang ac ymatebol o gynnwys llafar, cerddoriaeth ac adloniant aml-lwyfan o'r DU a ledled y byd.	CYFLAWNWYD
Allbwn gwreiddiol y DU	Bydd yr orsaf yn parhau i hyrwyddo artistiaid Asiaidd Prydeinig, gyda 30% o leiaf o'r gerddoriaeth a chwaraeir yn ystod y dydd wedi'i neilltuo ar gyfer artistiaid a chynhyrchwyr o'r DU. Bydd menter talent newydd Asian Network 'Future Sounds' ym mis Ionawr.	CYFLAWNWYD – 33%
Uchelgais creadigol	Bydd Asian Network yn parhau i gomisiynu teitlau ar alw newydd sy'n herio canfyddiadau ynglŷn â hunaniaeth a gwerthoedd, a bydd yn ailgomisiynu'r podlediad <i>'But...Where Are You Really From'</i> .	CYFLAWNWYD
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Bydd Asian Network yn parhau i greu llinyn Beyond Bollywood i adlewyrchu dylanwad cynyddol adloniant Desi ar gynulleidfaoedd yn y DU a'i apêl iddynt.	CYFLAWNWYD
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Mae'r orsaf yn anelu at ddenu cynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig ifanc o dan 35 oed sydd wedi'u hysbrydoli gan eu treftadaethau a'u hunaniaethau sy'n newid o hyd.	CYFLAWNWYD
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	BBC Radio Scotland Bydd Radio Scotland yn cynnig cymysgedd o raglenni newyddion a chynnwys llafar cyfoes ar eu newydd wedd yn ystod y dydd a cherddoriaeth sy'n taro'r nod gyda chynulleidfaoedd yn yr Alban gyda'r nos. Bydd yn rhoi sylw manwl ac estynedig i bêl-droed yr Alban ym mhob rhan o'r amserlen, ynghyd ag allbwn ar ddiwyddiadau pwysig yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Noson Burns a Hogmanay.	CYFLAWNWYD
Uchelgais creadigol	Bydd yn parhau i ddatblygu ac adnewyddu'r orsaf gyda phwyslais penodol ar benwythnosau ac allbwn nad yw'n ymwneud â newyddion.	CYFLAWNWYD
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Bydd yn datblygu arlwy digidol ymhellach ac yn creu amrywiaeth o bodlediadau sy'n cyd-fynd â safbwynt golygyddol Radio Scotland ond sy'n targedu cynulleidfa iau, yn ogystal â datblygu arlwy ychwanegol ar BBC Sounds. Byddwn yn gweithio gyda BBC Introducing a mentrau tebyg er mwyn sicrhau mynediad at y dalent lafar a cherddoriaeth ifanc, newydd orau.	CYFLAWNWYD
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	BBC Radio nan Gàidheal Mae BBC Radio nan Gàidheal yn adnewyddu ei hamserlen a'i dilyniannau yn ystod y dydd gyda'r nod o ddatblygu talent yn ogystal â chael mwy o effaith ac ennyn diddordeb y gynulleidfa yn well drwy lunio partneriaethau â chymunedau ac asiantaethau, yn enwedig mewn perthynas â mentrau ym maes cerddoriaeth, y celfyddydau ac ieuencid.	CYFLAWNWYD
Uchelgais creadigol	Bydd BBC Radio nan Gàidheal yn ymestyn ei hystod o adnoddau i ddsygwyr Gaeleg, gan weithio gyda'r partneriaid LearnGaelic i gynnig cynhyrchion digidol newydd, gan gynnwys cyfres ddysgu.	O ganlyniad i effaith Covid-19 ar brosesau cynhyrchu, bu'n rhaid estyn yr amser datblygu a oedd ei angen ar gyfer y fenter dysgu Gaeleg, a gaiff ei chyflwyno yn 2021/22 bellach.
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Bydd Radio nan Gàidheal yn ceisio sicrhau synergeddau rhwng llwyfannau a fformatau darlledu sy'n bodoli eisoes a rhai newydd er mwyn cynnig y gwerth gorau a hyblygrwydd i gynulleidfaoedd. Bydd hyn yn cynnwys ehangu'r teitlau podlediad ar BBC Sounds.	CYFLAWNWYD

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus
Ymrwymïadau'r Cynllun Blynyddol parhad

Diben	Ymrwymïad y BBC	Canlyniad
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	BBC Radio Wales Bydd rhaglenni fel <i>Breakfast</i> , <i>Drive</i> a <i>Sunday Supplement</i> yn cynnig dadansoddiad a chraffu ar faterion cyfoes, gan gynnwys effaith Covid-19 ar Gymru yn ogystal â ffocws ar ddigwyddiadau gwledidyddol a gan edrych ymlaen at Etholiadau Senedd Cymru yn 2021.	CYFLAWNWYD
Uchelgais creadigol	Byddwn yn parhau i gefnogi diwylliant Cymru, gan gynnwys partneriaeth unigryw â Gŵyl Gomedî Machynlleth, sy'n golygu y caiff yr ŵyl ei chynnal ar y radio y flwyddyn hon.	CYFLAWNWYD
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Byddwn yn parhau i adeiladu ar lwyddiant podlediadau a chynnwys pwrpasol ar gyfer BBC Sounds i gynulleidfaoedd iau.	CYFLAWNWYD
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	BBC Radio Cymru Bydd Radio Cymru a Radio Cymru 2 yn parhau i gynnig dewis i wrandawyr radio yn Gymraeg, gan gynnig amrywiaeth o raglenni llafar a cherddoriaeth i'r gynulleidfa.	CYFLAWNWYD
Allbwn gwreiddiol y DU	Bydd rhaglenni fel <i>Dros Ginio</i> , <i>Post Cyntaf</i> a <i>Post Prynghawn</i> yn rhoi sylw estynedig i'r dirwedd wledidyddol yng Nghymru, gyda ffocws ar rai o brif ddigwyddiadau'r dydd, yn ogystal ag edrych ymlaen at y garreg filltir wledidyddol nesaf, sef Etholiadau Senedd Cymru 2021.	CYFLAWNWYD
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Byddwn yn adeiladu ar yr ystod o gynnwys Cymraeg gwreiddiol, pwrpasol sydd wed'i anelu at gynulleidfaoedd iau ar BBC Sounds.	CYFLAWNWYD
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Bydd Radio Cymru yn parhau i arddangos cerddoriaeth Gymraeg ac er bod llawer o ddigwyddiadau wedi cael eu gohirio o ganlyniad i argyfwng Covid-19, mae'r orsaf yn gweithio gyda'i phartneriaid i gyflwyno elfennau ar y radio.	CYFLAWNWYD
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle Byddwn yn gweithio i sicrhau'r manteision mwyaf posibl o ran polisi golygyddol a'r gynulleidfa sy'n deillio o bartneriaethau allweddol y BBC.	CYFLAWNWYD
Allbwn gwreiddiol y DU	Byddwn yn canolbwyntio ar roi sylw i chwaraeon byw – lle y bo modd – a rhaglennu cysylltiedig.	CYFLAWNWYD
Allbwn gwreiddiol y DU	Byddwn yn datblygu cynnwys sy'n helpu'r gynulleidfa i ddeall a thrafod materion sy'n gysylltiedig â chanmlwyddiant y rhaniad a sefydlu Gogledd Iwerddon.	CYFLAWNWYD
Allbwn gwreiddiol y DU	Byddwn yn sicrhau bod cymorth y BBC i gerddora, gan gynnwys Cerddorfa Ulster, sy'n cyd-daro â'i phen-blwydd yn 40 yn 2021 fel un o gerddorfeydd y BBC, yn fwy effeithiol a gweladwy.	CYFLAWNWYD
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Byddwn yn sicrhau ystod fwy amrywiol eto o gyfranwyr i raglenni a thalent ar yr awyr, ac yn parhau ag ymgysylltiad y BBC â chymunedau ledled y rhanbarth ac yn ei ddatblygu.	CYFLAWNWYD
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Radio Lleol y BBC Byddwn ein parhau â'n hymgyrch Make a Difference sydd wedi cysylltu cannoedd ar filoedd o wrandawyr.	CYFLAWNWYD
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Byddwn yn canolbwyntio ar gynulleidfaoedd C2DE, a chynulleidfaoedd yng Nghanolbarth a Gogledd Lloegr, gan sicrhau bod portffolio Radio'r BBC yn denu cynulleidfa eang ei hystod.	CYFLAWNWYD

Diben	Ymrwymiad y BBC	Canlyniad
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	BBC Ar-lein Rydym yn ehangu ar frand ar-lein <i>Newsround</i> er mwyn gwella a chynyddu ei arlwy o newyddion i blant.	CYFLAWNWYD
Allbwn gwreiddiol y DU	Bydd y BBC yn gwella ansawdd y dolenni o fewn erthyglau newyddion er mwyn rhoi gwybodaeth, ffynonellau neu adnoddau pellach perthnasol i'n cynulleidfaoedd.	CYFLAWNWYD
	Rydym yn ymrwymedig i gefnogi'r diwydiant newyddion ehangach, felly byddwn yn parhau i briodoli deunydd yn gadarn a chysylltu â darparwyr newyddion eraill lle y bo'n berthnasol.	CYFLAWNWYD
Uchelgais creadigol	Caiff ap BBC News ei ailwampio'n llwyr, er mwyn ei wneud yn fwy pwysig, defnyddiol a phoblogaidd.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn parhau i ddatblygu dulliau personoli a churadu er mwyn llywio profiadau perthnasol ar gyfer pob cynulleidfa ar iPlayer, a byddwn yn datblygu ac yn gwella profiad y defnyddiwr o hyd. Byddwn yn cynnig profiad hynod berthnasol ond diogel a phriodol i blant ac oedolion ifanc.	CYFLAWNWYD
	Bydd argymhellion gwell yn seiliedig nid yn unig ar weithgarwch ar un ap, ond ar sawl ap.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn gwneud mwy o gomisiynu ar draws y BBC cyfan ac ar draws pob llwyfan, gan adeiladu ar yr enghreifftiau gwych fel <i>Brexitcast</i> , <i>Match of the Day</i> a <i>Strictly Come Dancing</i> sydd eisoes yn gweithio ar y teledu, drwy bodlediadau ac ar y we.	CYFLAWNWYD
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Byddwn yn anelu at gyrraedd cynulleidfaoedd newydd drwy fwy o bresenoldeb ar gyfer newyddion byw a newyddion sy'n digwydd ar y pryd BBC News Channel ar iPlayer a BBC News Online.	CYFLAWNWYD
	Byddwn yn datblygu profiliau iPlayer sy'n addas i'r oedran/plentyn i blant ac oedolion ifanc a fydd yn berthnasol ac yn hawdd i'w defnyddio, ond sy'n cynnig profiad diogel o hyd.	CYFLAWNWYD

Nodiadau

- 1 Yn ystod 2020/21, y gorgyffwrdd misol rhwng y 100 o ganeuon a chwaraewyd fwyaf ar Radio 1 a'r 100 o ganeuon a chwaraewyd fwyaf ar Capital London, Kiss a Radio X oedd 27 o ganeuon
- 2 Ychwanegwyd 364 o ganeuon at restr chwarae Radio 1 yn ystod 2020, yr oedd 143 ohonynt yn ganeuon gan artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg Ychwanegwyd 137 o ganeuon at restrau chwarae Capital Network, yr oedd 27 ohonynt yn ganeuon gan artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg yn y DU
- 3 Canslwyd gwyliau a digwyddiadau yn 2020 o ganlyniad i bandemig Covid-19 Yn lle hynny, canolbwyntiodd tîm dawns Radio 1 ar gyngnig dihangfa rithwir i wrandadwyr bob nos Wener Cafodd Radio 1 Dance Presents ei lansio ym mis Ebrill 2020 hefyd, a oedd yn llunio partneriaethau â brandiau a oedd yn cynnwys Defected, Resident Advisor, Café Mambo a Mixmag yn ystod y flwyddyn, gyda phob un yn cyflwyno'r rhaglen am fis Hefyd, daeth Radio 1 ynghyd â phartneriaid o'r cyfandir ar gyfer Sioe Ddawns Fwyaf Ewrop, sy'n digwydd ddwywaith y flwyddyn, gyda gorsafodd yn Oslo a Helsinki yn ymuno â'r criw am y tro cyntaf ym mis Hydref
- 4 Yn ystod 2020/21, y gorgyffwrdd cyfartalog rhwng y 100 o ganeuon a chwaraewyd fwyaf ar Radio 2 a'r 100 o ganeuon a chwaraewyd fwyaf ar Heart London a Magic oedd wyth cân, a thair cân gyda Smooth
- 5 O ganlyniad i bandemig Covid-19, nid oedd modd cynnal Gwobrau WhatsOnStage yn 2020/21 Fodd bynnag, er mwyn cefnogi'r celfyddydau a theatr gerdd yn benodol, a chan anelu at gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, symudodd y rhwydwaith y genre i gael lle blaenllaw yn ystod tridiau o raglenni arbennig ym mis Ionawr 2021 Dathlwyd pob agwedd ar gerddoriaeth, gan orffen gyda rhaglen newydd sbon a recordiwyd (o dan gyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol caeth) ym Mhaladiwm Llundain, a oedd yn cynnwys caneuon a sêr o sioeau cerdd y West End a Broadway Cafodd hon ei chyd-gomisiynu a'i chynhyrchu ar y cyd â BBC One hefyd, gan ei gwneud yn bosibl i gynulleidfaoedd o bob rhan o'r DU, ar draws sawl llwyfan darlledu, ddod ynghyd i ddatllu sioeau cerdd
- 6 Canslwyd llawer o ddigwyddiadau chwaraeon mawr o ganlyniad i bandemig Covid-19 Er gwaethaf hyn, parhaodd Radio 5 live a 5 live sports extra i roi sylw i ddigwyddiadau ar ôl iddynt aildechrau, gan gynnwys 18 o gampau gwahanol dros y ddau rwydwaith Darlledwyd sylwebaeth fyw ar amrywiaeth eang o ddigwyddiadau criced, gan gynnwys gemau rhyngwladol Lloegr yma a thramor, Big Bash, IPL a digwyddiadau T20 Parhodd ein sylw helaeth i chwaraeon menywod gyda sylwebaeth ar bêl-droed Uwch Gynghrair y Merched, rygbi'r undeb pan oedd ar gael, a chriced y merched Rhoddwyd sylw hefyd i'r NFL a Super Bowl, a phan ddychwelodd bocsiu byw, rhoddwyd sylw helaeth i'r gamp honno a pharhawyd i roi sylw i MFC MMA hefyd
- 7 O ganlyniad i bandemig Covid-19, nid oedd modd i ni gyrraedd ein targed o 200+ o sesiynau byw Lle y bu modd i ni recordio artistiaid yn ddiogel o fewn cyfyngiadau pellter cymdeithasol, rydym wedi cyflwyno sesiynau byw Er mwyn sicrhau bod y gynulleidfa yn cael mwynhau deunydd sesiynau, parhawyd i chwarae setiau o'r archif yn ystod rhannau o'r amserlen Ym mis Mawrth 2021, cyflwynodd y rhwydwaith ei 'Gŵyl 6 Music' ar ffurf rithwir ar yr awyr, BBC Sounds ac iPlayer, gan roi cyfle i'r gynulleidfa wyllo a gwrando ar naw perfformiad byw newydd arbennig iawn, a recordiwyd o dan amodau dim cynulleidfa, diogel rhag Covid, llym Ategwyd y rhain gan gynnwys amrywiol o Wyliau 6 Music blaenorol o'r archif
- 8 Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd 6 Music sawl digwyddiad cerddorol pwysig, er nad oedd yn gallu rhoi sylw i ddigwyddiadau a ganslwyd o ganlyniad i bandemig Covid-19 Darlledodd 6 Music sawl rhaglen 'Rave' arbennig, gan gynnwys diwrnod o raglenni gan y rhwydwaith wedi'i neilltuo i 'Stay Home, Rave Save' a "bringing the dancefloor to you and soundtrack your house party" Ym mis Ebrill 2020, cefnogodd y rhwydwaith Ddiwrnod y Siopau Recordiau yn ystod y cyfyngiadau symud, gan ddatllu pob agwedd ar recordiau ar ddiwrnod arfaethedig Diwrnod y Siopau Recordiau 2020 Anelodd 'Record Store Day Mail Order' at godi ymwybyddiaeth o'r heriau yr oedd y sector manwerthu yn eu hwynebu ar y pryd, gan atgoffa gwrandawyr am sut y gallant barhau i gefnogi artistiaid a siopau recordiau Bu hefyd yn dathlu'r llu o weithwyr dosbarthu hanfodol a manwerthwyr a barhaodd i gyflenwi'r gerddoriaeth sy'n agos at galonau pobl sy'n mwynhau cerddoriaeth yn ystod y cyfnod heriol hwn Ym mis Hydref 2020, dathlodd y rhwydwaith Ddiwrnod Cenedlaethol yr Albwm a Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd, a ddigwyddodd ar yr un diwrnod, gyda chyflwynwyr yn chwarae cerddoriaeth o rai o'u hoff albymau ac yn ystyried pŵer cerddoriaeth i roi cysur

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus

Dyletswyddau Cyffredinol

Mae'r Siarter yn nodi nifer o Ddyletswyddau Cyffredinol sy'n gymwys i'r BBC. Mae'r adran hon yn nodi perfformiad y BBC yn erbyn y Dyletswyddau hyn – nodwyd y mesurau adrodd yng Nghynllun Blynyddol y BBC ar gyfer 2021/22.

1. Gweithredu er budd y cyhoedd

Rhaid i'r BBC weithredu er budd y cyhoedd, gyda'r nod o wasanaethu ei gynulleidfaeodid nid dim ond fel defnyddwyr, ond hefyd fel aelodau o gymdeithas ehangach, gyda rhaglenni a gwasanaethau sy'n ceisio hysbysu, addysgu a diddanu cynulleidfaeodid a hefyd gyflawni dibenion cyhoeddus ehangach. O ganlyniad, rhaid i'r BBC sicrhau bod buddiannau (boed yn rhai uniongyrchol neu anuniongyrchol) penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r genhadaeth neu'r dibenion yn gorbwyso'r costau (boed yn rhai uniongyrchol neu anuniongyrchol); ac yn ystyried buddiannau a chostau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol.	CYFLAWNWYD
Byddwn yn cyhoeddi nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau lle rydym wedi methu â chydymffurfio â rhwymedigaethau'r BBC o dan y Siarter a'r Cytundeb neu gyda Fframwaith Gweithredu Ofcom neu Drwydded World Service.	CYFLAWNWYD – gweler Materion Rheoleiddiol Eraill
Byddwn yn cyhoeddi nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau ar faterion golygyddol y BBC a'r niferoedd cyffredinol o gwynion a wnaed.	CYFLAWNWYD – gweler yr Adroddiad ar Ganllawiau a Safonau Golygyddol
Byddwn yn cyhoeddi data mesur perfformiad, yn cynnwys data ar gyflawni'r dibenion cyhoeddus.	CYFLAWNWYD

2. Ymgysylltu â'r cyhoedd

Rhaid i'r BBC asesu safbwyntiau a buddiannau'r cyhoedd a chynulleidfaeodid, yn cynnwys talwyr ffi'r drwydded, ledled y Deyrnas Unedig. Rhaid i'r BBC wneud trefniadau er mwyn sicrhau bod safbwyntiau a buddiannau amrywiol y cyhoedd a chynulleidfaeodid, yn cynnwys talwyr ffi'r drwydded, ledled y Deyrnas Unedig, yn cael eu hystyried wrth iddo wneud ei benderfyniadau.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi data ar safbwyntiau cynulleidfaeodid ynghylch y BBC bob blwyddyn fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol.	CYFLAWNWYD
Byddwn yn cynnal tua chwe digwyddiad wyneb yn wyneb gyda chynulleidfaeodid ac yn adrodd ar y canfyddiadau yn Adroddiad Blynyddol y BBC, a chaiff pedwar ohonynt eu cynnal gan Bwyllgorau Gwledydd y Bwrdd.	CYFLAWNWYD – gweler yr Adroddiad Ymgysylltu â Chynulleidfaeodid ac addasu i'r cyfyngiadau symud cenedlaethol

3. Effaith ar y farchnad

Mae gan y BBC ran hanfodol i'w chwarae ym marchnad cyfryngau a darlledu'r DU. Yn ogystal â gwasanaethu cynulleidfaeodid yn uniongyrchol drwy ddarparu cynnwys a gwasanaethau, gall gyfrannu at y farchnad yn fwy eang, er enghraifft drwy hyrwyddo cystadleuaeth, cefnogi cadwyni cyflenwi ac annog arloesedd ym mhob rhan o'r sector. Rhaid i'r BBC ystyried yn benodol effeithiau ei weithgareddau ar gystadleuaeth yn y DU. Drwy gydymffurfio â'r ddyletswydd hon rhaid i'r BBC (a) ceisio osgoi effeithiau andwyol diangen ar gystadleuaeth a (b) hyrwyddo effaith gadarnhaol ar y farchnad.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi ac yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau sylweddol arfaethedig.	CYFLAWNWYD – gweler Materion Rheoleiddiol Eraill
Byddwn yn cyhoeddi'n flynyddol nifer y cwynion rheoleiddiol a gafodd eu cadarnhau a'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb iddynt.	CYFLAWNWYD – gweler Materion Rheoleiddiol Eraill
Byddwn yn cyhoeddi nifer y camau gorfodi gan Ofcom mewn perthynas â chydymffurfio â Fframwaith Gweithredu Ofcom yn y maes hwn.	CYFLAWNWYD – dim
Byddwn yn cyhoeddi canlyniadau unrhyw Brofion Budd y Cyhoedd.	CYFLAWNWYD – gweler: bbc.com/aboutthebbc/reports/consultation

4. Bod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol

Rhaid i'r BBC gynnal safonau uchel o fod yn agored a cheisio sicrhau'r tryloywder a'r atebolrwydd gorau posibl. Rhaid iddo gyhoeddi cofnodion y Bwrdd, penderfyniadau pwysig yn ymwneud â newidiadau i gylch gwaith/gwasanaethau, a chofnodion cyfarfodydd Pwyllgorau. Mae hefyd angen i'r Bwrdd ystyried manteision ymgynghori â phobl sydd â diddordeb.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol sy'n nodi blaenoriaethau strategol, cynlluniau creadigol a chyllideb y BBC ac unrhyw newidiadau sylweddol arfaethedig i wasanaethau.	CYFLAWNWYD – gweler: bbc.com/aboutthebbc
Byddwn yn cyhoeddi'r canlynol ar ôl y digwyddiad perthnasol: — Cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd. — Penderfyniadau pwysig yn ymwneud â newidiadau i'r cylch gwaith creadigol, cynllun gwaith a newidiadau sylweddol i weithgareddau Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â gwasanaethau, a gweithgareddau masnachol. — Cofnodion cryno cyfarfodydd pwyllgorau'r Bwrdd.	CYFLAWNWYD – gweler: bbc.com/aboutthebbc
Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, sy'n cynnwys crynodeb manwl o berfformiad yn erbyn ein cwtâu rheoleiddiol; manylion ariannol llawn a chyfrifon; a gwybodaeth sydd ei hangen fel rhan o'n Hadroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb.	CYFLAWNWYD
Byddwn yn parhau i gyhoeddi'r datgeliadau cyflog sy'n ofynnol o dan y Siarter mewn perthynas â chyflogau dros £150k, ynghyd â'n cyfundrefn wirfoddol o ddatgelu cyflogau chwarterol a threuliau ar gyfer uwch-reolwyr.	CYFLAWNWYD – gweler yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth

5. Partneriaeth

Bydd y BBC yn cydweithio ac yn gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig yn yr economi greadigol, er budd y cyhoedd. Dylai greu partneriaeth ag amrywiaeth eang o sefydliadau o bob maint, yn cynnwys rhai masnachol ac anfasnachol, o bob cwr o'r DU. Dylai partneriaethau fod yn deg ac yn fuddiol i bawb gan briodoli a chydabod partneriaid yn briodol.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn casglu ac yn cyhoeddi data perfformiad ar allbwn a gweithgareddau partneriaethau allweddol, yn cynnwys ar yr amrywiaeth o bartneriaethau sydd gan y BBC, yr amrywiaeth o bartneriaid, ehangder daearyddol, ac effaith.	CYFLAWNWYD – gweler Partneriaethau

6. Amrywiaeth

Rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn adlewyrchu cymunedau amrywiol y Deyrnas Unedig gyfan drwy ei allbwn, y ffordd y caiff ei allbwn a'i wasanaethau eu darparu, ac yn nhrefniadaeth a rheolaeth y BBC. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol y DU.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi data manwl ar amrywiaeth ein holl staff, gan gynnwys cefndir economaidd-gymdeithasol, fel rhan o'n hadroddiad blynyddol Gwybodaeth am Gydraddoldeb.	CYFLAWNWYD – gweler yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
Byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, a dadansoddiad o'n bylchau cyflog ar gyfer grwpiau eraill.	CYFLAWNWYD – gweler yr adroddiad ar y Bwlch rhwng y Rhywiau
Byddwn hefyd yn cyhoeddi data mesur perfformiad, a gasglwyd wrth gyflawni ein pedwerydd diben cyhoeddus.	CYFLAWNWYD

7. Technoleg

Rhaid i'r BBC hyrwyddo arloesedd technolegol, a chynnal rôl arweiniol mewn gwaith ymchwil a datblygu. Er mwyn gwneud hyn, mae angen iddo geisio gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a rhannu, cyn belled ag y bo'n rhesymol, ei wybodaeth a'i dechnolegau ymchwil a datblygu.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn adran Ymchwil a Datblygu'r BBC yn unol ag amcanion hirdymor y BBC.	CYFLAWNWYD
Byddwn yn parhau i rannu ein dealltwriaeth o waith Ymchwil a Datblygu, er enghraifft defnyddio papurau gwyn y diwydiant a chyfarfodydd proffesiynol perthnasol, yn cynnwys cyrff safonol. Byddwn yn defnyddio ein presenoldeb ar y we ac yn gymdeithasol i danlinellu negeseuon allweddol i gynulleidfau ehangach.	CYFLAWNWYD

8. Stiwardio arian cyhoeddus

Mae'r BBC yn stiwardio arian cyhoeddus yn drylwyr yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- Rheoleidd-dra – Rhaid i'r broses o reoli holl adnoddau'r BBC fod yn unol â darpariaethau'r Siarter, y Cytundeb Fframwaith a chytundebau eraill y mae'r BBC yn eu llunio â Gweinidogion y Llywodraeth.
- Priodoldeb – Dylai'r broses o reoli holl adnoddau'r BBC gyrraedd safonau uchel o ran ymddygiad cyhoeddus, llywodraethu cadarn a rhoi ystyriaeth briodol i ddisgwyliadau Senedd y DU (gan gynnwys disgwyliadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus), a rannwyd â'r BBC yn ffurfiol.
- Gwerth am arian – Rhaid i drefniadau caffael, prosiectau a phrosesau gael eu gwerthuso a'u hasesu'n systemataidd er mwyn rhoi hyder ynghylch darbodusrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y prosiect, gan ystyried y budd ehangach i'r cyhoedd, ac nid i'r BBC yn unig

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus **Dyletswyddau cyffredinol *parhad***

Mesur	Cyflawnwyd
Barn archwilio wir a theg gan archwilwyr allanol y BBC.	CYFLAWNWYD
Byddwn yn adrodd ar ein dulliau o ddarparu gwybodaeth i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar gydymffurfio â'r Siarter, er mwyn sicrhau bod y trafodion a geir yn natganiadau ariannol y BBC wedi'u cymhwyso at y dibenion fel y'i bwriadwyd a'u bod yn cydymffurfio â'r fframweithiau perthnasol sy'n eu llywodraethu.	CYFLAWNWYD
Byddwn yn cydymffurfio ag amodau cyllido fel rhan o gytundeb cyllido ar wahân, e.e. arian grant i'r BBC World Service.	CYFLAWNWYD
Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i'r adolygiadau Gwerth am Arian a gynhaliwyd gan y SAG neu bartïon eraill a gomisiynwyd.	CYFLAWNWYD

9. Arweiniad ac arferion gorau

Mae'n rhaid i'r BBC ystyried canllawiau cyffredinol sy'n ymwneud â rheoli materion cyrff cyhoeddus ac egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn archwilio ein cydymffurfiaeth wirfoddol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac egwyddorion llywodraethu corfforaethol da yn seiliedig ar nod cyffredinol cydymffurfio â'r Cod lle y bo'n bosibl.	CYFLAWNWYD – gweler Llywodraethu
Bydd ein Hadroddiad Blynyddol yn nodi perfformiad y BBC yn erbyn y Cod; meysydd lle nad yw'r Cod yn berthnasol i'r BBC; meysydd lle mae'r Siarter yn drech na'r Cod; a meysydd lle nad yw'r BBC yn cydymffurfio.	CYFLAWNWYD – gweler Llywodraethu
Byddwn hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb, yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.	CYFLAWNWYD – gweler yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
Caiff datganiad blynyddol am gasglu ffi'r drwydded ei archwilio gan y SAG a'i osod gerbron Senedd y DU.	CYFLAWNWYD
Byddwn yn parhau i gydymffurfio ag arferion gorau wrth gynnig hyfforddiant ar amrywiaeth o faterion fel gwrth-lwgrwobrwy, diogelu data ac amddiffyn plant.	CYFLAWNWYD

10. Dyletswyddau cyffredinol mewn perthynas â gweithgareddau masnachol

Mae angen i weithgareddau masnachol y BBC weithredu er budd y cyhoedd, ymgysylltu â'r cyhoedd, a sicrhau eu bod yn agored ac yn dryloyw. Ni ddylent wyrdroi'r farchnad nac ennill mantais gystadleuol annheg.

Mesur	Cyflawnwyd
Bydd y Pwyllgor Masnachu Teg yn parhau i: adolygu cydymffurfiaeth y BBC â gofynion masnachu a gwahanu Ofcom; comisiynu archwiliad annibynnol blynyddol; adolygu, ystyried a chymeradwyo methodolegau prisiau trosglwyddo'r BBC; adrodd ar hynt yn Adroddiad Blynyddol y BBC; ac adolygu cydymffurfiaeth barhaus gweithgareddau masnachol â'r Pedwar Maen Prawf Masnachol.	CYFLAWNWYD – gweler yr Adroddiad Masnachu Teg
Byddwn yn dilyn ein polisi cyhoeddedig ar newidiadau sylweddol i weithgareddau masnachol.	CYFLAWNWYD – gweler Materion Rheoleiddiol Eraill
Mae ein fframwaith cwynion yn cynnwys gweithdrefn ar gyfer cwynion ynghylch methiant i fodloni unrhyw ofynion o ran gweithgareddau masnachol.	CYFLAWNWYD
Byddwn yn cyhoeddi newidiadau sylweddol posibl sydd ar droed i wasanaethau masnachol yng Nghynllun Blynyddol y BBC, yn dibynnu ar faterion cyfrinachedd masnachol.	CYFLAWNWYD
Byddwn yn cynnal y prawf masnachol ar gyfer unrhyw newid sylweddol arfaethedig i'n gweithgareddau masnachol, ac yn cyhoeddi'r newid arfaethedig unwaith y byddwn wedi gwneud hynny.	CYFLAWNWYD – dim
Byddwn yn parhau i hyfforddi staff allweddol ar gydymffurfiaeth â'r rheolau Masnachu Teg.	CYFLAWNWYD – gweler yr Adroddiad Masnachu Teg
Byddwn yn parhau i gyflawni ein rhwymedigaethau cyhoeddi a darparu gwybodaeth i Ofcom, gan nodi perfformiad ariannol ein his-gwmniau masnachol a nodi methodolegau manwl ar gyfer prisiau trosglwyddo o fewn ein grŵp.	CYFLAWNWYD – gweler yr Adroddiad Blynyddol ar Ddaliadau Masnachol a Llawlyfr Masnachu'r Grŵp
Byddwn yn cyhoeddi nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau ynghylch cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran gweithgareddau masnachol o dan y Siarter a'r Cytundeb neu yn Fframwaith Gweithredu Ofcom, a'n hymateb i gwynion o'r fath.	CYFLAWNWYD – dim
Byddwn yn cyhoeddi nifer y camau gorfodi gan Ofcom mewn perthynas â chydymffurfio â Fframwaith Gweithredu Ofcom yn y maes hwn.	CYFLAWNWYD – dim
Bydd y Pwyllgor Masnachu Teg yn adrodd ar ei waith yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon bob blwyddyn.	CYFLAWNWYD – gweler yr Adroddiad Masnachu Teg

Gwasanaethau mynediad

Disgrifiadau sain

	Oriau disgrifiadau sain		Cyfanswm oriau	Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2020/21	2019/20		2020/21	2019/20	2020/21	2019/20
BBC One	1,921	1,985	8,736	22.0%	22.3%	20.0	20.0
BBC Two	2,480	2,433	8,736	28.4%	27.3%	20.0	20.0
BBC Four	1,135	1,467	3,124	36.3%	45.1%	20.0	20.0
CBBC	1,638	1,926	5,084	32.2%	37.2%	20.0	20.0
CBeebies	1,277	1,484	4,771	26.8%	31.0%	20.0	20.0
BBC Scotland	501	501	1,820	27.5%	24.8%	20.0	20.0
Cyfanswm llinellol	8,952	9,797	32,271				

	Rhaglenni disgrifiadau sain		Cyfanswm y rhaglenni	Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2020/21	2019/20		2020/21	2019/20	2020/21	2019/20
BBC iPlayer ¹	9,772	9,108	62,481 ²	17.1	15.3	Dd/G	Dd/G

Dehongli drwy iaith arwyddion

	Oriau dehongli drwy iaith arwyddion		Cyfanswm oriau	Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2020/21	2019/20		2020/21	2019/20	2020/21	2019/20
BBC One	492	493	8,736	5.6%	5.5%	5.0	5.0
BBC Two	455	458	8,736	5.2%	5.1%	5.0	5.0
BBC Four	204	210	3,124	6.5%	6.4%	5.0	5.0
CBBC	261	266	5,084	5.1%	5.1%	5.0	5.0
CBeebies	271	270	4,771	5.7%	5.6%	5.0	5.0
BBC Scotland	101	102	1,820	5.5%	5.0%	5.0	5.0
BBC News	556	520	8,736	6.4%	5.8%	5.0	5.0
Cyfanswm llinellol	2,340	2,318	41,007				

	Rhaglenni dehongli drwy iaith arwyddion		Cyfanswm y rhaglenni	Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2020/21	2019/20		2020/21	2019/20	2020/21	2019/20
BBC iPlayer ¹	3,376	2,940	62,481 ²	5.9	4.9	Dd/G	Dd/G

Isdeitlau

	Oriau isdeitlo		Cyfanswm oriau	Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2020/21	2019/20		2020/21	2019/20	2020/21	2019/20
BBC One	13,863	14,577	13,872	99.9	99.9	100	100
BBC Two	9,103	9,335	9,109	99.9	99.9	100	100
BBC Four	3,124	3,255	3,124	100	100	100	100
CBBC	5,083	5,175	5,084	100	100	100	100
CBeebies	4,771	4,785	4,771	100	100	100	100
BBC Scotland	2,457	2,024	2,458	100	100	100	100
BBC News	8,732	8,902	8,736	100	100	100	100
BBC Parliament	1,780	1,504	8,736	20.4	16.9	Dd/G	Dd/G
Cyfanswm llinellol	48,913	49,557	55,891				

	Rhaglenni wedi'u hisdeitlo		Cyfanswm y rhaglenni	Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2020/21	2019/20		2020/21	2019/20	2020/21	2019/20
BBC iPlayer ¹	57,069	54,915	75,629	75.5	76.7	Dd/G	Dd/G

Nodiadau

1 Ffigurau ar gyfer cyfanswm nifer y rhaglenni sydd ar gael ar BBC iPlayer heb gynnwys cynnwys S4C a'r World Service. Ar gyfer y pum prif sianel ddarlledu, gan gynnwys y gwledydd ac amrywiadau rhanbarthol, caiff yr holl gynnwys ei isdeitlo, caiff disgrifiadau sain eu darparu ar gyfer 20% ac mae iaith arwyddion ar gael ar gyfer 5%. Mae'r cynnwys hwn, yn cynnwys fersiynau isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion i gyd ar gael ar BBC iPlayer, ac rydym yn cyflawni'r un lefelau ar gyfer rhaglennu BBC Three. Mae BBC iPlayer yn cyfuno'r prif sianelau darlledu hynny a sianelau eraill lle darperir llai o wasanaethau mynediad, felly mae'r ffigurau cyffredinol ar gyfer iPlayer yn is na'r prif sianelau darlledu.

2 Nid yw cyfanswm nifer y rhaglenni yma yn cynnwys fersiynau disgrifiadau sain ac iaith arwyddion o raglenni. Mae'r fersiynau hyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau isdeitlo.

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus

Elfen o gystadleuaeth

O dan y Siarter a'r Cytundeb, rhaid i'r BBC sicrhau cystadleuaeth rhwng cynhyrchwyr y BBC a chynhyrchwyr allanol, boed hwy'n gynhyrchwyr annibynnol ai peidio, ar gyfer cynhyrchu cynnwys teledu, radio ac ar-lein. Rhoddir rhagor o wybodaeth am elfen gystadleuol mewn teledu yn yr Adroddiad Cyflenwi Teledu, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r adroddiad hwn: downloads.bbc.co.uk/commissioning/site/bbc-commissioning-supply-report-2020.pdf.

Fel sy'n ofynnol o dan y Siarter a'r Cytundeb erbyn 31 Rhagfyr 2019, rydym wedi dileu'r warant fewnol ar gyfer rhaglenni teledu plant, chwaraeon a rhaglenni materion cyfoes nad ydynt yn rhai newyddion.

Llwyfan	Targed i gystadlu ar ei gyfer	Oriau ag elfen o gystadleuaeth hyd yma	Dyddiad cwblhau	Cyflawnwyd
Teledu ¹	100% o'r oriau perthnasol	64%	31 Rhagfyr 2027	Ar waith
Radio ²	60% o'r oriau perthnasol	53%	31 Rhagfyr 2022	Ar waith
Ar-lein ³	100% o'r gwariant perthnasol	59%	31 Rhagfyr 2027	Ar waith

Nodiadau

- 1 Mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau cystadleuaeth ar gyfer 100% o'r rhaglenni teledu perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2027. Mae ein halldro yn seiliedig ar nifer yr oriau a ddarlledwyd neu a ddarparwyd ar BBC iPlayer yn 2020, gan ystyried penderfyniadau comisiynu a wnaed hyd at 31 Rhagfyr 2020.
- 2 Mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau, ar gyfer rhaglenni radio perthnasol, ei fod yn sicrhau cystadleuaeth ar gyfer o leiaf 60% o amser darlledu perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2022. Mae ein halldro yn seiliedig ar nifer yr oriau a ddarlledwyd yn 2020/21, gan ystyried penderfyniadau comisiynu a wnaed hyd at 31 Mawrth 2021.
- 3 Mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau cystadleuaeth ar gyfer 100% o'r deunydd ar-lein perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2027. Mae'r BBC wedi diffinio deunydd ar-lein perthnasol mewn modd sy'n cadw at ddarpariaethau'r Cytundeb ac mae wedi trafod y diffiniad hwn ag Ofcom. Rydym yn mesur yr elfen o gystadleuaeth ar-lein drwy wariant ar gynhyrchu cynnwys deunydd ar-lein perthnasol. Mae ein halldro yn seiliedig ar wariant yn 2020/21.

Cyflenwad radio rhwydwaith

Mae'r tabl canlynol yn dangos lefelau oriau radio rhwydwaith y BBC gan wahanol gyflenwyr.

	Cyfran o'r holl oriau cymwys a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr annibynnol ar gyfer Radio Rhwydwaith y BBC (%)		Cyfran o'r holl oriau cymwys a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr y BBC ar gyfer Radio Rhwydwaith y BBC (%)	
	2020/21	2019/20	2020/21	2019/20
Radio 1	28.6	26.8	71.4	73.2
1Xtra	18.9	16.0	81.1	84.0
Radio 2	48.2	47.5	51.8	52.5
Radio 3	12.8	12.9	87.2	87.1
Radio 4	15.0	15.2	85.0	84.8
BBC 4 Extra	8.6	16.4	91.4	83.6
BBC Radio 5 live a 5 live sports extra	21.3	21.6	78.7	78.4
BBC 6 Music	30.4	18.7	69.6	81.3
BBC Asian Network	14.0	12.9	86.0	87.1
Cyfanswm	25.9	22.9	74.1	77.1

Nodiadau

Nid yw oriau cymwys yn cynnwys ailddarllediadau, cyd-ddarllediadau, newyddion craidd, addysg/gweithredu cymdeithasol, cyflwyno, allbwn EBU na World Service O 2020/21, ni fyddwn yn cynnwys BBC Studios yn yr oriau Annibynnol mwyach Mae cynhyrchwyr y BBC yn cynnwys cynhyrchwyr mewnol y BBC a BBC Studios – dim ond 97 awr o gyflenwad i gyd oedd ar gyfer BBC Studios felly nid yw wedi cael ei rannu ymhellach Mae ffigurau 2019/20 wedi'u haddasu i adlewyrchu'r newid mewn methodoleg fel y'i disgrifiwyd uchod Mae gwybodaeth am ein cyflenwad teledu rhwydwaith yn 2020/21 ar gael yn yr Adroddiad Cyflenwi Teledu, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn downloads.bbc.co.uk/commissioning/site/bbc-commissioning-supply-report-2020.pdf

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus

Dosbarthu

Mae dosbarthu cynnwys y BBC yn allweddol i gyflawni ein cenhadaeth a'r dibenion cyhoeddus. Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC adrodd ar y ffordd y mae wedi sicrhau bod ei allbwn a'i wasanaethau ar gael i'r cyhoedd. Mae'r adran hon yn amlinellu ein cynnydd y flwyddyn hon.

98.5%

Cwmpas Teledu Daearol Digidol o ran aelwydydd yn y DU

99%

Signal AM/FM o ran aelwydydd yn y DU

97.5%

Signal DAB o ran aelwydydd yn y DU

98%

Argaeledd gwasanaethau lloeren mewn aelwydydd yn y DU

Mae BBC iPlayer ar gael ar

>17,000

o fathau o ddyfeisiau teledu i gyd

Mae BBC Sounds ar gael ar

>16,000

o fathau o ddyfeisiau i gyd

Nodiadau

Mae'r ffigurau ar gyfer Teledu Daearol Digidol a DAB yn ymwneud â signal ar gyfer gwasanaethau a ddarperir ar amblecs y BBC. Yn ogystal, caiff gorsafoddedd radio'r gwledydd a'r rhanbarthau a nifer bach o sianelau HD eu darparu drwy amblecs masnachol. Mae BBC iPlayer ar gael ar fwy na 350 o lwyfannau (grwpiau o ddyfeisiau) ac mae BBC Sounds ar gael ar fwy na 180 o lwyfannau (grwpiau o ddyfeisiau).

Mae'r BBC yn dosbarthu ei gynnwys gyda'r nod o roi mynediad llawn a chyfleus i'w holl wasanaethau i'w gynulleidfaedd, sy'n berthnasol iddynt. Yn 2020/21 rydym wedi parhau i sicrhau:

- ein bod yn darlledu ein gwasanaethau teledu a radio yn effeithiol yn gyffredinol, gan gynnal argaeledd ar lefelau normal drwy gydol pandemig Covid-19;
- bod gwasanaeth fideo ar alw'r BBC, iPlayer, ar gael ar fwy o ddyfeisiau defnyddwyr (o setiau teledu deallus, i gonsolau gemau a llechi) nag unrhyw wasanaeth arall o'r fath yn y DU;
- bod deunydd sain byw ac ar alw ar gael yn eang i gynulleidfaedd ar nifer cynyddol o ddyfeisiau;
- ein bod yn creu cynnwys arloesol sy'n hyrwyddo ein gwasanaethau, brandiau a thalent â chynulleidfaedd ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol poblogaidd, fel Facebook, TikTok, Instagram a YouTube.

Yn ystod y flwyddyn, chwaraeodd y BBC rôl arweiniol yn lleihau effeithiau'r pandemig ar y rhaglen i glirio darllediadau teledu o'r band sbectrwm 700MHz. Cliriwyd y band ym mis Awst 2020 a chafodd ei arwerthu ym mis Mawrth 2021 i'w ddefnyddio gan wasanaethau rhyngwryd symudol 5G yn y dyfodol. Llwyddodd y BBC hefyd i wneud trefniadau ar gyfer dosbarthu gorsafoddedd radio lleol dros dro ar gyfer Sunderland, Bradford a Wolverhampton ar ddiwedd 2020 ac ar ddechrau 2021 er mwyn diwallu anghenion penodol am newyddion a gwybodaeth leol yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol.

Yn ogystal ag argaeledd eang a sicrhau'r gwerth gorau i dalwyr ffi'r drwydded, mae'n hanfodol bod y modd y caiff gwasanaethau a chynnwys y BBC eu dosbarthu yn cefnogi ac yn diogelu ein cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus. Mae Polisi Dosbarthu'r BBC, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, yn nodi saith amod sy'n sail i'r modd y bydd y BBC yn dosbarthu gwasanaethau cyhoeddus y DU, ac mae'n parhau i lywio ein cytundebau dosbarthu â thrydydd partion yn effeithiol.

Yn 2020, mae'r BBC wedi sicrhau ei bod yn haws canfod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus drwy waith integreiddio dyfnach â nodweddion chwilio ac argymell ar setiau teledu clyfar a'r we fyd-eang, er enghraifft drwy alluogi'r gynulleidfa i lywio i gynnwys gan ddefnyddio rhyngwynebau llais, a thrwy hyrwyddo amrywiaeth eang o gynnwys yn cynnwys cymorth y BBC ar gyfer ysgol gartref yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae'r broses o gyflwyno BBC Sounds ar setiau teledu bron wedi'i chwblhau ac mae bellach ar gael ar fwy na 2,000 o ddyfeisiau teledu, ar draws 23 o frandiau.

Hyrwyddo Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC

O dan y Siarter a'r Cytundeb, rhaid i'r BBC sicrhau bod hyrwyddo unrhyw allbwn Gwasanaeth Cyhoeddus y DU neu unrhyw wasanaeth o'r fath o fewn Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn canolbwyntio ar allbwn sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at gyflawni cenhadaeth y dibenion cyhoeddus a'u hyrwyddo. Rhaid i'r BBC gyhoeddi gwybodaeth am y fath hyrwyddo, gan gynnwys:

- nifer y munudau o hyrwyddo ym mhob Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU;
- amser o'r dydd y fath hyrwyddo;
- unrhyw wybodaeth arall a fyddai, yn ei farn ef, o fudd i'r cyhoedd i'w chyhoeddi.

Credwn fod hyrwyddo Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a'u hallbwn yn bwysig fel bod ein cynulleidfaoedd yn ymwybodol o'r ystod eang o gynnwys y mae'r BBC yn ei gynnig sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Caiff deunydd hyrwyddo ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU eu cynhyrchu a'u hamserlennu yn unol â'n Canllawiau Golygyddol.

Mae'r tabl hwn yn nodi cyfanswm munudau deunydd hyrwyddo a ddarledwyd ar holl Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn ôl cyfnod o amser yn 2020/21:

	Bore	Yn ystod y dydd	Gyda'r nos	Dros nos	Cyfanswm
BBC One	489	3,990	3,261	1,545	9,285
BBC Two	2,003	2,468	3,078	1,600	9,148
BBC Four	Dd/G	Dd/G	2,432	1,314	3,746
CBBC	1,316	3,459	1,259	Dd/G	6,033
CBeebies	1,480	2,899	6	Dd/G	4,385
BBC News	546	2,441	1,831	1,024	5,841
BBC Scotland	40	777	2,696	10	3,523
Radio 1	1,699	3,343	1,462	535	7,039
1Xtra	1,128	2,491	953	198	4,769
Radio 2	1,260	2,347	1,186	1,029	5,821
Radio 3	684	1,814	1,108	0	3,605
Radio 4	1,453	2,494	2,090	302	6,339
BBC 4 Extra	2,114	2,612	2,011	2,202	8,939
BBC Radio 5 live	1,383	2,650	2,015	1,028	7,076
BBC 6 Music	1,284	2,618	642	247	4,792
BBC Asian Network	1,037	2,190	1,124	0	4,351
BBC Radio Scotland	1,525	2,600	797	Dd/G	4,922
BBC Radio Wales	1,628	3,219	2,381	498	7,726
BBC Radio Cymru	2,407	4,858	3,645	237	11,147
BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle	546	1,248	1,092	1,028	3,914
BBC Local Radio	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	6,542

Nodiadau

Diffinnir cyfnodau o amser fel bore, 6am – 11 59am; yn ystod y dydd, 12pm – 5 59pm; gyda'r nos, 6pm – 10 59pm; dros nos, 11pm – 5 59am. Nid yw munudau hyrwyddo ar y radio yma yn cynnwys pytiâu rhagflas gwasanaeth y rhaglenni eu hunain; caiff y ffigurau hyn eu cynnwys yn y tabl canlynol. Mae'r ffigur ar gyfer Radio Lleol y BBC yn un cyfartalog ar draws holl wasanaethau radio lleol Lloegr.

Ni chaiff unrhyw hyrwyddo ar BBC Parliament, BBC ALBA, BBC Radio 5 live sports extra na BBC Radio nan Gàidheal ei fesur oherwydd nifer ac amllder isel iawn. Nid oes data ar gael ar gyfer hyrwyddo ar BBC Red Button na BBC Ar-lein.

Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau cyhoeddus **Hyrwyddo Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC *parhad***

Mae'r tabl hwn yn nodi cyfanswm munudau deunydd hyrwyddo ar gyfer pob llwyfan (h.y. teledu, radio neu ar-lein) a gaiff ei hyrwyddo ar holl Wasanaethau Cyhoeddus y DU. Mae 'Ar Wasanaeth' yn cyfeirio at funudau o ddeunydd hunanhyrwyddo, e.e. BBC One yn hyrwyddo BBC One, mae 'Teledu a BBC iPlayer' yn cyfeirio at funudau o ddeunydd hyrwyddo cynnwys teledu a BBC iPlayer ar bob gwasanaeth, ac mae 'Radio a BBC Sounds' yn cyfeirio at funudau o ddeunydd hyrwyddo ar gyfer unrhyw gynnwys radio a BBC Sounds ar bob gwasanaeth.


	Ar Wasanaeth	Teledu a BBC iPlayer	Radio a BBC Sounds
BBC One	4,704	3,960	621
BBC Two	3,723	4,856	569
BBC Four	2,317	1,345	84
CBBC	5,777	256	0
CBeebies	4,311	75	0
BBC News	1,381	3,361	1,100
BBC Scotland	1,758	1,566	199
Radio 1	6,107	508	424
1Xtra	3,827	356	586
Radio 2	4,624	588	609
Radio 3	3,087	104	414
Radio 4	5,554	288	497
BBC 4 Extra	7,993	257	689
BBC Radio 5 live	5,905	447	724
BBC 6 Music	4,227	202	363
BBC Asian Network	3,497	288	566
BBC Radio Scotland	3,636	533	753
BBC Radio Wales	5,949	850	927
BBC Radio Cymru	8,137	892	2,118
BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle	1,443	1,154	289

Nodiadau
Ni chaiff unrhyw hyrwyddo ar BBC Parliament, BBC ALBA, BBC Radio 5 live sports extra na BBC Radio nan Gàidheal ei fesur oherwydd nifer ac amllder isel iawn. Nid oes data meintiol ar gael ar gyfer deunydd hyrwyddo ar Radio Lleol y BBC na BBC Red Button

Mae BBC iPlayer hefyd yn cynnwys deunydd hyrwyddo. Cafodd pytiaau cyn rhaglen, sef hysbysebion fideo byr sy'n chwarae'n awtomatig yn uniongyrchol cyn rhaglen benodol, eu lansio ar BBC iPlayer ar y we ym mis Rhagfyr 2015, ac ar BBC iPlayer ar setiau teledu cysylltiedig ym mis Ionawr 2019. Mae'r deunydd hyrwyddo yn cynnwys un pwt rhagflas cyn rhaglen benodol, sy'n chwarae wrth chwarae am y tro cyntaf mewn sesiwn yn unig. Bydd pob pwt cyn rhaglen yn para uchafswm o 30 eiliad, ond bydd pob pwt rhagflas yn amrywio rhwng 10 a 30 eiliad. Ni fydd defnyddiwr yn gweld yr un pwt cyn rhaglen fwy na phedair gwaith.


Caiff pytiaau cyn rhaglen eu gosod o flaen yr holl deitlau â blaenoriaeth ar BBC iPlayer. Mae'r rhan fwyaf o bytiaau cyn rhaglen ar BBC iPlayer yn hyrwyddo cynnwys BBC iPlayer, naill ai ar alw neu'n fyw. Caiff pytiaau cyn rhaglen CBBC eu gosod o flaen rhaglenni CBBC yn unig, a chaiff pytiaau cyn rhaglen CBeebies eu gosod o flaen rhaglenni CBeebies yn unig. Ni fydd pwt cyn rhaglen nad yw ar gyfer plant byth yn cael ei osod o flaen teitl plant, na'r gwrthwyneb. Caiff teitlau â blaenoriaeth y BBC eu hyrwyddo gyda'r rhestr o bytiaau cyn rhaglen a chânt eu gosod ar sail amserlen a drefnir â llaw yn seiliedig ar genre, nawws a chynulleidfa. Bydd pob defnyddiwr yn cael yr un pwt cyn rhaglen ar yr un bennod.

Mae rhai o bodlediadau'r BBC sydd ar gael drwy BBC Sounds a llwyfannau trydydd parti yn cynnwys deunydd hyrwyddo ar gyfer cynnwys podlediadau eraill y BBC. Cytunir ar tua wyth podlediad y mis i'w blaenoriaethu ar gyfer eu hyrwyddo ar bodlediadau eraill. Byddwn yn dewis cynnwys sy'n cynrychioli amrywiaeth o arddulliau er mwyn hyrwyddo ehangder allbwn sain y BBC. Caiff pytiaau rhagflas hyrwyddo, bob un yn para 15-45 eiliad, ar gyfer y podlediadau hyn eu cynhyrchu a'u gosod i mewn i bodlediadau eraill, ar ddechrau, yng nghanol a/neu ar ddiwedd y ffeil sain. Cynhyrchwyr y podlediad sy'n dewis ac yn gosod y pytiaau rhagflas hyn, er bod hynny yn bennaf cyn neu ar ôl y rhaglen. Mae rhai gorsafodd hefyd yn defnyddio pytiaau rhagflas ar gyfer eu cynnwys eu hunain (e.e. mae Radio 4 yn hyrwyddo ei chynnwys ar bodlediadau Radio 4).



*Casualty, enillydd BAFTA,
a ddarllwyd ar BBC One*

Pecynnau data perfformiad



Mae'r adran hon yn cyflwyno perfformiad cynulleidfaoedd y flwyddyn hon, gan gynnwys gwybodaeth ystadegol lawn ar gyfer y Dibenion Cyhoeddus, a data manwl ar berfformiad fesul gwasanaeth yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

*Storyville, Locked In: Breaking
the Silence, enillydd BAFTA,
a ddarllwyd ar BBC Four*

Pecynnau data perfformiad

Perfformiad cynulleidfaoedd

1. Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

Profiad

	2020/21	2019/20	Ffynhonnell
Cyrhaeddiad cyffredinol BBC News Nifer yr oedolion yn y DU (16+) sy'n defnyddio gwasanaethau BBC News bob wythnos	8 allan o 10	8 allan o 10	Kantar Media 16+
Cyrhaeddiad BBC News fesul llwyfan <i>Rhaglenni Newyddion a Materion Cyfoes Rhwydwaith Teledu'r BBC</i> % yr oedolion yn y DU sy'n gwyllo rhaglenni Newyddion a Materion Cyfoes Rhwydwaith Teledu'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd	63%	59%	BARB 16+ Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 3+ mun
<i>Rhaglenni Newyddion a Materion Cyfoes Rhwydwaith Radio'r BBC</i> % yr oedolion yn y DU sy'n gwrandao ar raglenni newyddion a materion cyfoes ar Radio Rhwydwaith y BBC bob wythnos ar gyfartaledd	Nid oes data ar gynulleidfaoedd radio'r diwydiant ar gael ar gyfer 2020/21 oherwydd y ffaith y rhoddwyd y gorau i waith maes wyneb yn wyneb RAJAR yn ystod 2020/21 yn sgil cyfyngiadau Covid-19.		
<i>BBC News Online</i> % yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio BBC News Online bob wythnos ar gyfartaledd	36%	29%	Compass gan Ipsos MORI 16+
Y nifer o borwyr unigryw yn y DU sy'n defnyddio BBC News Online bob wythnos ar gyfartaledd	50 miliwn	42 miliwn	AT Internet

Canfyddiad

	2020/21	% Effeithiol	% Aneffeithiol	Ffynhonnell
Cyflawni'r diben % yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod Newyddion a Materion Cyfoes y BBC yn effeithiol o ran eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y DU/y byd heddiw	75%	75%	14%	Ipsos MORI 18+*
% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod Newyddion a Materion Cyfoes y BBC yn effeithiol o ran eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn eu rhan nhw o'r DU	68%	68%	18%	
% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod Newyddion a Materion Cyfoes y BBC yn effeithiol o ran eu hysbysu am faterion y dydd fel y gallant wneud eu penderfyniadau eu hunain	69%	69%	17%	
% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu newyddion a materion cyfoes sy'n ddiuedd	56%	56%	29%	
% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu newyddion a materion cyfoes sy'n gywir	69%	69%	18%	
% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu newyddion a materion cyfoes sy'n ddibynadwy	68%	68%	21%	
Ansawdd BBC News fesul llwyfan % y defnyddwyr wythnosol sy'n dweud bod BBC News ar y teledu yn gosod safon uchel ar gyfer ansawdd	84%	84%	8%	
% y defnyddwyr wythnosol sy'n dweud bod BBC News ar y radio yn gosod safon uchel ar gyfer ansawdd	85%	85%	5%	
% y defnyddwyr wythnosol sy'n dweud bod BBC News Online yn gosod safon uchel ar gyfer ansawdd	81%	81%	7%	
Sgôr defnyddwyr wythnosol ar gyfer BBC News Online (sgôr gymedrig/10) Defnyddwyr wythnosol 16+ yn y DU	8 allan o 10	8 allan o 10		YouGov 16+

* Yn sgil y ffaith y rhoddwyd y gorau i waith maes wyneb yn wyneb yn ystod 2020/21 oherwydd cyfyngiadau Covid-19, cafodd yr arolwg hwn ei gynnal dros y ffôn yn 2020/21. O ganlyniad, nid yw canlyniadau 2019/20 - a gynhaliwyd wyneb yn wyneb - yn gwbl gymaradwy felly nid ydynt wedi'u hailadrodd yma.

	% BBC	% Nesaf a Enwyd	Ffynhonnell
BBC News yng nghyd-destun y farchnad O blith yr holl ffynonellau newyddion (teledu, radio, papurau newydd, cylchgronau, gwefannau, apiau neu'r cyfryngau cymdeithasol) pa ffynhonnell rydych fwyaf tebygol o'i defnyddio i gael darllediadau newyddion diduedd	2020/21 2019/20 2018/19	40% 51% 44%	(ITV/Sky News = 7% yr un) 7% (Sky News) 10% (ITV)
ar gyfer y newyddion rydych yn ymddiried ynddo fwyaf	2020/21 2019/20 2018/19	49% 62% 51%	(ITV/Sky News = 7% yr un) 8% (Sky News) 9% (ITV)
i gael darllediadau newyddion cywir	2020/21 2019/20 2018/19	52% 62% 53%	(ITV/Sky News = 7% yr un) 9% (Sky News) 9% (ITV)

Ipsos MORI 997 o oedolion 18+ sy'n dilyn y newyddion, Mawrth 2021

2. Cynorthwyo pobl o bob oedran i ddysgu

Profiad

			Ffynhonnell
Defnydd o'r BBC yn gyffredinol ymhlith y rhai dan 16 oed <i>Y cyrhaeddiad ar draws y BBC ar gyfer y rhai dan 16 oed</i> % y rhai dan 16 oed sy'n defnyddio teledu/iPlayer, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21 2019/20	77% 81%	Kids Cross-Media Insight gan Ipsos MORI
Amser a gaiff ei dreulio gyda'r BBC cyfan gan y rhai dan 16 oed Faint o amser y mae'r rhai dan 16 oed yn ei dreulio gyda'r BBC y pen bob wythnos ar gyfartaledd (oriau:munudau)	2020/21 2019/20	05:00 04:55	
Y cyrhaeddiad ar draws y BBC 0-6 oed % y rhai 0-6 oed sy'n defnyddio teledu/iPlayer, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21 2019/20	79% 84%	
Y cyrhaeddiad ar draws y BBC 7-12 oed % y rhai 7-12 oed sy'n defnyddio teledu/iPlayer, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21 2019/20	77% 79%	
Y defnydd o wasanaethau Plant/Addysg y BBC ymhlith y rhai dan 16 oed <i>Dan 16 oed</i> % y rhai dan 16 oed sy'n defnyddio cynnwys Plant ac Addysg y BBC ar deledu/iPlayer a/neu ar-lein bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21 2019/20	59% 62%	Kids Cross-Media Insight gan Ipsos MORI Mae ffigurau 2019/20 wedi'u hailddatgan i gynnwys gwasanaethau Addysg
0-6 oed % y rhai 0-6 oed sy'n defnyddio cynnwys Plant ac Addysg y BBC ar deledu/iPlayer a/neu ar-lein bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21 2019/20	73% 79%	
7-12 oed % y rhai 7-12 oed sy'n defnyddio cynnwys Plant ac Addysg y BBC ar deledu/iPlayer a/neu ar-lein bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21 2019/20	56% 57%	

Canfyddiad

		Sgôr gymedrig/10	Ffynhonnell
Barn am y BBC ymhlith y rhai dan 16 oed Canfyddiad y rhai dan 16 oed o'r BBC	2020/21 2019/20	7 allan o 10 7 allan o 10	Ipsos MORI
	% Effeithiol	% Aneffeithiol	Ffynhonnell
Cyflawni'r diben % y rhieni sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran helpu plant a phobl ifanc yn eu harddegau gyda'u dysgu	2020/21	79%	7% Ipsos MORI 18+*
% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran eu helpu i ddysgu pethau newydd	2020/21	68%	17%

* Yn sgil y ffaith y rhoddwyd y gorau i waith maes wyneb yn wyneb yn ystod 2020/21 oherwydd cyfyngiadau Covid-19, cafodd yr arolwg hwn ei gynnal dros y ffôn yn 2020/21 O ganlyniad, nid yw canlyniadau 2019/20 – a gynhaliwyd wyneb yn wyneb – yn gwbl gymaradwy felly nid ydynt wedi'u hailadrodd yma

Pecynnau data perfformiad

Perfformiad cynulleidfaoedd *parhad*

BBC Bitesize

			Ffynhonnell
Profiad			
<i>Disgyblion cynradd</i>			
% y disgyblion ysgol gynradd sy'n defnyddio Bitesize	2020/21	67%	DJS
	2019/20	38%	
<i>Disgyblion uwchradd</i>			
% y disgyblion ysgol uwchradd sy'n defnyddio Bitesize	2020/21	77%	
	2019/20	73%	
Nifer y porwyr unigryw yn y DU sy'n defnyddio Bitesize bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21	2.7 miliwn	AT Internet
	2019/20	1.7 miliwn	
Canfyddiad			
% y defnyddwyr dan 16 oed sy'n dweud bod Bitesize yn eu helpu i ddeall eu hastudiaethau/dysgu yn well	2020/21	80%	DJS
	2019/20	83%	
% y defnyddwyr ysgol uwchradd sy'n dweud bod Bitesize yn eu helpu i ennill graddau gwell	2020/21	57%	
		62%	

3. Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

			Ffynhonnell
Profiad			
<i>Defnydd o'r BBC yn gyffredinol ymhlith oedolion</i>			
<i>Cyrhaeddiad ar draws y BBC</i>			
% yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio teledu/iPlayer, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21	90%	Compass gan Ipsos MORI 16+
	2019/20	91%	
<i>Amser a gaiff ei dreulio gyda'r BBC cyfan</i>			
Faint o amser y mae oedolion y DU yn ei dreulio gyda'r BBC y pen bob wythnos ar gyfartaledd (oriau:munudau)	2020/21	18:02	Amcangyfrifwyd gan Ipsos MORI, BARB, BARB Establishment Survey, AT Internet, RAJAR, SYG 16+
	2019/20	17:45	
<i>Defnydd o'r BBC fesul llwyfan ymhlith oedolion</i>			
<i>Teledu'r BBC</i>			
% yr oedolion yn y DU mewn aelwydydd â theledu sy'n gwyllo Teledu'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21	76%	28 diwrnod BARB fel y'i gwyllywyd 16+ Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 15+ mun
	2019/20	77%	
Faint o amser y mae oedolion yn y DU mewn aelwydydd â theledu yn ei dreulio gyda Theledu'r BBC y pen bob wythnos ar gyfartaledd (oriau munudau)	2020/21	08:11	Ailddatganwyd 2019/20 yn seiliedig ar 28 diwrnod fel y'i gwyllywyd
	2019/20	07:40	
<i>Radio'r BBC</i>			
% yr oedolion yn y DU sy'n gwrando ar Radio'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21	57%	Compass gan Ipsos MORI 16+ *
Faint o amser y mae oedolion yn y DU yn ei dreulio gyda Radio'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd (oriau:munudau)	Nid oes data ar gynulleidfaoedd radio'r diwydiant ar gael ar gyfer 2020/21 oherwydd y ffaith y rhoddwyd y gorau i waith maes wyneb yn wyneb RAJAR yn ystod 2020/21 yn sgil cyfyngiadau Covid-19.		
<i>BBC Ar-lein</i>			
% yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio BBC Ar-lein bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21	63%	Compass gan Ipsos MORI 16+
	2019/20	54%	

* Nid oes data ar gynulleidfaoedd radio'r diwydiant ar gael ar gyfer 2020/21 oherwydd y ffaith y rhoddwyd y gorau i waith maes wyneb yn wyneb RAJAR yn ystod 2020/21 yn sgil cyfyngiadau Covid-19. Daw'r amcangyfrifon hyn ar gyfer 2020/21 o ffynhonnell wahanol (Compass gan Ipsos MORI) ac fe'u lluniwyd mewn ffordd wahanol (proses fesur oddefol yn hytrach na dyddiadur RAJAR). O ganlyniad, nid yw data 2019/20 RAJAR yn gwbl gymaradwy felly nid ydynt wedi'u hailadrodd yma.

Canfyddiad

		% Effeithiol	% Aneffeithiol	Ffynhonnell
Cyflawni'r diben				
% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran ansawdd	2020/21	77%	11%	Ipsos MORI 18+*
% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran creadigrwydd	2020/21	71%	14%	
% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n nodedig	2020/21	70%	13%	
% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran gwreiddioldeb	2020/21	69%	15%	
% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sydd at ddant pawb	2020/21	71%	15%	
Ansawdd a natur nodedig y BBC fesul llwyfan				
Rhaglenni teledu'r BBC				
% y defnyddwyr sy'n dweud bod Teledu'r BBC yn gosod safon uchel o ran ansawdd	2020/21	82%	9%	
% y defnyddwyr sy'n dweud bod Teledu'r BBC yn nodedig	2020/21	76%	10%	
Radio'r BBC				
% y defnyddwyr sy'n dweud bod Radio'r BBC yn gosod safon uchel o ran ansawdd	2020/21	80%	6%	
% y defnyddwyr sy'n dweud bod Radio'r BBC yn nodedig	2020/21	75%	7%	
BBC Ar-lein				
% y defnyddwyr sy'n dweud bod BBC Ar-lein yn gosod safon uchel o ran ansawdd	2020/21	76%	8%	
% y defnyddwyr sy'n dweud bod BBC Ar-lein yn nodedig	2020/21	73%	7%	

* Yn sgil y ffaith y rhoddwyd y gorau i waith maes wyneb yn wyneb yn ystod 2020/21 oherwydd cyfyngiadau Covid-19, cafodd yr arolwg hwn ei gynnal dros y ffôn yn 2020/21. O ganlyniad, nid yw canlyniadau 2019/20 – a gynhaliwyd wyneb yn wyneb – yn gwbl gyfaradwy felly nid ydynt wedi'u hailadrodd yma

BBC iPlayer

				Ffynhonnell
Profiad				
Cyfrifon wythnosol cyfartalog sy'n mewngofnodi i BBC iPlayer				
Cyfrifon yn gyffredinol	2020/21	10.7 miliwn		Data Cyfrif AT Internet/y BBC
	2019/20	9.1 miliwn		
Cyfrifon y rhai dan 35 oed	2020/21	3.2 miliwn		
		2.9 miliwn		
Amser yn ffrydio BBC iPlayer				
Oriau wythnosol cyfartalog a chwaraewyd drwy iPlayer	2020/21	39.7 miliwn		Data dal i fyny AT Internet/Sky Ailddatganwyd data 2019/20 yn sgil diwygio data
	2019/20	32.2 miliwn		
Amser BBC iPlayer y pen o'r boblogaeth				
Faint o amser y mae poblogaeth y DU yn ei dreulio gydag iPlayer bob wythnos ar gyfartaledd y pen o'r boblogaeth (oriau:munudau)	2020/21	00:53		Munudau gwylwyr wedi'u dad-ddyblygu wedi'u modelu o BARB/AT Internet
	2019/20	00:44		
Faint o amser y mae pobl 16-34 oed yn y DU yn ei dreulio gydag iPlayer bob wythnos ar gyfartaledd y pen o'r boblogaeth 16-34 oed (oriau:munudau)	2020/21	00:59		Munudau gwylwyr wedi'u dad-ddyblygu wedi'u modelu o BARB/AT Internet
	2019/20	00:55		

Pecynnau data perfformiad

Perfformiad cynulleidfaeodd *parhad*

			Ffynhonnell
<i>% holl wyllo teledu'r BBC drwy BBC iPlayer</i>			
Yr holl wyllo	2020/21	12%	Data dal i fyny BARB/AT Internet/Sky Ailddatganwyd 2019/20 yn seiliedig ar newidiadau i'r dull cyfrifo
	2019/20	11%	
16-34 oed	2020/21	37%	
	2019/20	35%	

			Ffynhonnell
Canfyddiad			
<i>Sgôr defnyddwyr wythnosol ar gyfer BBC iPlayer (sgôr gymedrig/10)</i>			
Defnyddwyr wythnosol 16+ yn y DU	2020/21	8 allan o 10	YouGov 16+
	2019/20	8 allan o 10	
Defnyddwyr wythnosol 16-34 oed yn y DU	2020/21	8 allan o 10	
	2019/20	8 allan o 10	

		% Effeithiol	% Aneffeithiol	Ffynhonnell
<i>% y defnyddwyr wythnosol sydd o'r farn bod iPlayer yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r genhadaeth</i>				
Cenhadaeth gyffredinol: Defnyddwyr wythnosol 16+ yn y DU	2020/21	81%	10%	Ipsos MORI 16+
	2019/20	83%	9%	
Cenhadaeth gyffredinol: Defnyddwyr wythnosol 16-34 oed yn y DU	2020/21	78%	14%	
	2019/20	84%	9%	

		% Effeithiol	% Aneffeithiol	Ffynhonnell
<i>% y defnyddwyr wythnosol sydd o'r farn bod iPlayer yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r dibenion cyhoeddus</i>				
Dibenion cyffredinol: Defnyddwyr wythnosol 16+ yn y DU	2020/21	81%	9%	Ipsos MORI 16+
	2019/20	83%	8%	
Dibenion cyffredinol: Defnyddwyr wythnosol 16-34 oed yn y DU	2020/21	79%	12%	
	2019/20	84%	8%	
Diben o ran newyddion: Defnyddwyr wythnosol 16+ yn y DU	2020/21	80%	9%	
	2019/20	82%	9%	
Diben o ran newyddion: Defnyddwyr wythnosol 16-34 oed yn y DU	2020/21	78%	11%	
	2019/20	84%	8%	
Diben o ran dysgu: Defnyddwyr wythnosol 16+ yn y DU	2020/21	80%	7%	
	2019/20	82%	7%	
Diben o ran dysgu: Defnyddwyr wythnosol 16-34 oed yn y DU	2020/21	79%	11%	
	2019/20	82%	6%	
Diben o ran creadigrwydd: Defnyddwyr wythnosol 16+ yn y DU	2020/21	82%	7%	
	2019/20	84%	6%	
Diben o ran creadigrwydd: Defnyddwyr wythnosol 16-34 oed yn y DU	2020/21	80%	10%	
	2019/20	82%	7%	
Diben o ran adlewyrchu/cynrychioli/gwasanaethu: Defnyddwyr wythnosol 16+ yn y DU	2020/21	75%	8%	
	2019/20	76%	9%	
Diben o ran adlewyrchu/cynrychioli/gwasanaethu: Defnyddwyr wythnosol 16-34 oed yn y DU	2020/21	75%	10%	
	2019/20	78%	9%	

BBC Sounds Profiad

			Ffynhonnell
Cyfrifon wythnosol cyfartalog sy'n defnyddio BBC Sounds			
Yr holl ddefnydd	2020/21	3.5m	Data Cyfrif AT Internet/y BBC Daw data 2019/20 o 30 Medi 2019 – 29 Mawrth 2020 yn sgil cau BBC iPlayer Radio
	2019/20	2.9m	
16-34	2020/21	572k	Data Cyfrif AT Internet/y BBC Daw data 2019/20 o 30 Medi 2019 – 29 Mawrth 2020 yn sgil cau BBC iPlayer Radio
	2019/20	500k	
Amser yn ffrydio BBC Sounds			
Oriau wythnosol cyfartalog a chwaraewyd drwy Sounds	2020/21	10.9m	Data Cyfrif AT Internet/y BBC Daw data 2019/20 o 30 Medi 2019 – 29 Mawrth 2020 yn sgil cau BBC iPlayer Radio
	2019/20	8.9m	

Canfyddiad

			Ffynhonnell
Sgôr defnyddwyr wythnosol ar gyfer BBC Sounds (sgôr gymedrig/10)			
Defnyddwyr wythnosol 16+ yn y DU	2020/21	8 allan o 10	YouGov 16+
	2019/20	8 allan o 10	

4. Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol

Canfyddiad: Oedolion yn y DU

	2020/21	% Effeithiol	% Aneffeithiol	Ffynhonnell
Cyflawni'r diben				
% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw	2020/21	57%	24%	Ipsos MORI 18+*
% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n berthnasol iddynt	2020/21	63%	21%	
% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu'r rhan o'r DU lle maent yn byw	2020/21	60%	22%	
% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran gwasanaethu'r rhan o'r DU lle maent yn byw	2020/21	62%	20%	
% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod gan y BBC raglenni, cynnwys a gwasanaethau sy'n codi ymwybyddiaeth o'r ffyrdd o fyw a'r safbwyntiau gwahanol mewn cymdeithas yn y DU	2020/21	68%	18%	

* Yn sgil y ffaith y rhoddwyd y gorau i waith maes wyneb yn wyneb yn ystod 2020/21 oherwydd cyfyngiadau Covid-19, cafodd yr arolwg hwn ei gynnal dros y ffôn yn 2020/21. O ganlyniad, nid yw canlyniadau 2019/20 – a gynhaliwyd wyneb yn wyneb – yn gwbl gyfaradwy felly nid ydynt wedi'u hailadrodd yma.

Pecynnau data perfformiad

Perfformiad cynulleidfaoedd *parhad*

Yn ôl grŵp cynulleidfa

Profiad

	Dynion 16+	Menywod 16+	16-34	35-54	55+	ABC1 16+	C2DE 16+	Gwyn 16+	Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol 16+	Pobl Anabl 16+	Pobl Nad ydynt yn Anabl 16+	Ffynhonnell
<i>Cyrhaeddiad ar draws y BBC</i>												
% pob grŵp cynulleidfa sy'n defnyddio teledu/iPlayer, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21 91%	89%	80%	90%	98%	92%	87%	92%	77%	91%	90%	Compass gan Ipsos MORI 16+
	2019/20 91%	91%	80%	93%	99%	93%	89%	93%	77%	92%	91%	
<i>Teledu'r BBC</i>												
% pob grŵp cynulleidfa mewn aelwydydd â theledu sy'n gwyllo Teledu'r BBC y pen bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21 74%	78%	51%	77%	92%	76%	75%	78%	61%	85%	74%	28 diwrnod BARB fel y'i gwylwyd 16+ Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 15+ mun Ailddatganwyd 2019/20 yn seiliedig ar 28 diwrnod fel y'i gwylwyd
	2019/20 76%	78%	55%	79%	92%	77%	77%	79%	63%	86%	76%	
Faint o amser y mae pob grŵp cynulleidfa mewn aelwydydd â theledu yn ei dreulio gyda Theledu'r BBC y pen bob wythnos ar gyfartaledd (oriau munudau)	2020/21 07:41	08:39	02:27	06:01	13:57	08:02	08:22	08:46	03:57	12:34	07:35	
	2019/20 07:20	07:59	02:29	05:48	12:55	07:33	07:49	08:10	04:00	11:51	07:04	
<i>Radio'r BBC</i>												
% pob grŵp cynulleidfa sy'n gwrandao ar Radio'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21 60%	53%	47%	52%	68%	60%	52%	Ddim ar gael	Ddim ar gael	52%	58%	Compass gan Ipsos MORI 16+*
Faint o amser y mae pob grŵp cynulleidfa yn ei dreulio gyda Radio'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd (oriau munudau)	Nid oes data ar gynulleidfaoedd radio'r diwydiant ar gael ar gyfer 2020/21 oherwydd y ffaith y rhoddwyd y gorau i waith maes wyneb yn wyneb RAJAR yn ystod 2020/21 yn sgil cyfyngiadau Covid-19.											
<i>BBC Ar-lein</i>												
% pob grŵp cynulleidfa sy'n defnyddio BBC Ar-lein bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21 69%	56%	64%	70%	56%	72%	52%	63%	62%	57%	64%	Compass gan Ipsos MORI 16+
	2019/20 60%	47%	55%	62%	45%	63%	42%	54%	53%	50%	55%	

* Nid oes data ar gynulleidfaoedd radio'r diwydiant ar gael ar gyfer 2020/21 oherwydd y ffaith y rhoddwyd y gorau i waith maes wyneb yn wyneb RAJAR yn ystod 2020/21 yn sgil cyfyngiadau Covid-19. Daw'r amcangyfrifon hyn ar gyfer 2020/21 o ffynhonnell wahanol (Compass gan Ipsos MORI) ac fe'u lluniwyd mewn ffordd wahanol (proses fesur oddefol yn hytrach na dyddiadur RAJAR). O ganlyniad, nid yw data 2019/20 RAJAR yn gwbl gymaradwy felly nid ydynt wedi'u hailadrodd yma

Canfyddiad

		Dynion 16+	Menywod 16+	16-34	35-54	55+	ABC1 16+	C2DE 16+	Gwyn 16+	Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol 16+	Pobl Anabl 16+	Pobl Nad ydynt yn Anabl 16+	Ffynhonnell
% pob grŵp cynulleidfa sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw	2020/21 Effeithiol	75%	82%	78%	79%	78%	83%	73%	79%	76%	72%	80%	Ipsos MORI 18+*
	2020/21 Aneffeithiol	14%	9%	13%	10%	12%	10%	14%	12%	11%	16%	11%	
% pob grŵp cynulleidfa sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw	2020/21 Effeithiol	53%	62%	52%	60%	59%	63%	52%	59%	51%	50%	60%	
	2020/21 Aneffeithiol	28%	20%	29%	20%	24%	23%	25%	23%	26%	29%	23%	
% pob grŵp cynulleidfa sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran ansawdd	2020/21 Effeithiol	75%	80%	77%	77%	77%	83%	72%	78%	74%	70%	80%	
	2020/21 Aneffeithiol	14%	8%	11%	10%	13%	10%	13%	11%	10%	15%	10%	

* Yn sgil y ffaith y rhoddwyd y gorau i waith maes wyneb yn wyneb yn ystod 2020/21 oherwydd cyfyngiadau Covid-19, cafodd yr arolwg hwn ei gynnal dros y ffôn yn 2020/21 O ganlyniad, nid yw canlyniadau 2019/20 – a gynhaliwyd wyneb yn wyneb – yn gwbl gymaradwy felly nid ydynt wedi'u hailadrodd yma

Yn ôl gwlad a rhanbarth

Oedolion 16+ yn yr Alban

Profiad

			Ffynhonnell
Cyrhaeddiad ar draws y BBC % yr oedolion yn yr Alban sy'n defnyddio teledu/iPlayer, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21	88%	Compass gan Ipsos MORI 16+
	2019/20	90%	
Teledu'r BBC % yr oedolion yn yr Alban mewn aelwydydd â theledu sy'n gwylio Teledu'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21	77%	28 diwrnod BARB fel y'i gwyliwyd 16+ Yn seiliedig ar 15+ mun
	2019/20	78%	
Faint o amser y mae oedolion yn yr Alban mewn aelwydydd â theledu yn ei dreulio gyda Theledu'r BBC y pen bob wythnos ar gyfartaledd (oriau:munudau)	2020/21	08:44	Ailddatganwyd 2019/20 yn seiliedig ar 28 diwrnod fel y'i gwyliwyd
	2019/20	08:16	
Radio'r BBC % yr oedolion yn yr Alban sy'n gwrando ar Radio'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd Faint o amser y bu oedolion yn yr Alban yn gwrando ar Radio'r BBC y pen bob wythnos ar gyfartaledd (oriau:munudau)	Nid oes data ar gynulleidfa oedd radio'r diwydiant ar gael ar gyfer 2020/21 oherwydd y ffaith y rhoddwyd y gorau i waith maes wyneb yn wyneb RAJAR yn ystod 2020/21 yn sgil cyfyngiadau Covid-19.		
BBC Ar-lein % yr oedolion yn yr Alban sy'n defnyddio BBC Ar-lein bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21	66%	Compass gan Ipsos MORI 16+
	2019/20	58%	
Newyddion Teledu'r BBC ar gyfer yr Alban % yr oedolion yn yr Alban mewn aelwydydd â theledu sy'n gwylio gwasanaethau newyddion penodedig ar Deledu'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21	48%	28 diwrnod BARB fel y'i darlledwyd 16+ Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 3+ mun
	2019/20	44%	

Pecynnau data perfformiad

Perfformiad cynulleidfaoedd *parhad*

Canfyddiad

	2020/21	% Effeithiol	% Aneffeithiol	Ffynhonnell
% yr holl oedolion yn yr Alban sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw	2020/21	76%	12%	Ipsos MORI 18+*
% yr oedolion yn yr Alban sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw	2020/21	55%	25%	
% yr oedolion yn yr Alban sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran ansawdd	2020/21	73%	13%	

* Yn sgil y ffaith y rhoddwyd y gorau i waith maes wyneb yn wyneb yn ystod 2020/21 oherwydd cyfyngiadau Covid-19, cafodd yr arolwg hwn ei gynnal dros y ffôn yn 2020/21. O ganlyniad, nid yw canlyniadau 2019/20 - a gynhaliwyd wyneb yn wyneb - yn gwbl gymaradwy felly nid ydynt wedi'u hailadrodd yma

Sianel BBC Scotland

	2020/21	% Effeithiol	% Aneffeithiol	Ffynhonnell
% y defnyddwyr wythnosol 16+ sydd o'r farn bod sianel BBC Scotland yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r genhadaeth gyffredinol yn yr Alban	2020/21	73%	14%	Ipsos MORI
	2019/20	73%	12%	Defnyddwyr wythnosol 16+ yn yr Alban
% y defnyddwyr wythnosol 16+ sydd o'r farn bod sianel BBC Scotland yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r dibenion cyhoeddus yn gyffredinol yn yr Alban	2020/21	74%	14%	
	2019/20	75%	16%	

Oedolion 16+ yng Nghymru

Profiad

	2020/21	% Effeithiol	% Aneffeithiol	Ffynhonnell
Cyrhaeddiad ar draws y BBC				Compass gan Ipsos MORI 16+
% yr oedolion yng Nghymru sy'n defnyddio teledu/iPlayer, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21	92%		
	2019/20	95%		
Teledu'r BBC				
% yr oedolion yng Nghymru mewn aelwydydd â theledu sy'n gwyllo Teledu'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21	76%		28 diwrnod BARB fel y'i gwylwyd 16+ Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 15+ mun
	2019/20	78%		Ailddatganwyd 2019/20 yn seiliedig ar 28 diwrnod fel y'i gwylwyd
Faint o amser y mae oedolion yng Nghymru mewn aelwydydd â theledu yn ei dreulio gyda Theledu'r BBC y pen bob wythnos ar gyfartaledd (oriau:munudau)	2020/21	09:15		
	2019/20	08:29		

Radio'r BBC

% yr oedolion yng Nghymru sy'n gwrando ar Radio'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd	Nid oes data ar gynulleidfaoedd radio'r diwydiant ar gael ar gyfer 2020/21 oherwydd y ffaith y rhoddwyd y gorau i waith maes wyneb yn wyneb RAJAR yn ystod 2020/21 yn sgil cyfyngiadau Covid-19.			
Faint o amser y mae oedolion yng Nghymru yn ei dreulio yn gwrando ar Radio'r BBC y pen bob wythnos ar gyfartaledd (oriau:munudau)				

BBC Ar-lein

% yr oedolion yng Nghymru sy'n defnyddio BBC Ar-lein bob wythnos ar gyfartaledd	2020/21	68%		Compass gan Ipsos MORI 16+
	2019/20	60%		

Newyddion Teledu'r BBC ar gyfer Cymru

